

# Cofnod y Trafodion

## The Record of Proceedings

### 18/11/2015

Cynnwys Contents

[1. Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth](#)  
[1. Questions to the Minister for Finance and Government Business](#)

[2. Cwestiynau i'r Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus](#)  
[2. Questions to the Minister for Public Services](#)

[Cwestiwn Brys: Celsa Steel](#)  
[Urgent Question: Celsa Steel](#)

[3. Cynigion i Ethol Aelodau i Bwyllgorau](#)  
[3. Motions to Elect Members to Committees](#)

[4. Dadl Plaid Cymru: Adnewyddu Trident](#)  
[4. Plaid Cymru Debate: Trident Renewal](#)

[5. Dadl Ceidwadwyr Cymru: Oedi wrth Drosglwyddo Gofal](#)  
[5. Welsh Conservatives Debate: Delayed Transfers of Care](#)

[6. Dadl Democratiaid Rhyddfrydol Cymru: Y Sector Twristiaeth](#)  
[6. Welsh Liberal Democrats Debate: The Tourism Sector](#)

[7. Cyfnod Pleidleisio](#)  
[7. Voting Time](#)

[8. Dadl Fer: Y Frwydr yn Erbyn Gwastraff Bwyd: Rhoi'r Gorau i Wastraffu Bwyd Da yng Nghymru](#)  
[8. Short Debate: War on Food Waste: End the Waste of Good Food in Wales](#)

*Cyfarfu'r Cynulliad am 13:30 gyda'r Dirprwy Lywydd (David Melding) yn y Gadair.*

*The Assembly met at 13:30 with the Deputy Presiding Officer (David Melding) in the Chair.*

13:30 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Order, order. The National Assembly is in session.

Trefn, trefn. Dyma ddechrau trafodion Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

## 1. Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth

*Mae [R] yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant. Mae [W] yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*

## 1. Questions to the Minister for Finance and Government Business

*[R] signifies the Member has declared an interest. [W] signifies that the question was tabled in Welsh.*

13:30 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Item 1 is questions to the Minister for Finance and Government Business. Question 1, Gwyn Price.

Eitem 1 yw cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth. Cwestiwn 1, Gwyn Price.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

## Cyllid Ewropeaidd

## European Funding

13:30 **Gwyn R. Price** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*1. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am rôl cyllid Ewropeaidd yn y broses o gyfrannu at dwf a swyddi yn Islwyn? OAQ(4)0627(FIN)*

*1. Will the Minister make a statement on how the Welsh Government views the role of European funding in contributing to growth and jobs in Islwyn? OAQ(4)0627(FIN)*

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

13:30	<p><b>Jane Hutt</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p><i>Y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Finance and Government Business</i></p> <p>Economic growth and jobs in Islwyn are being supported through multimillion pound EU funding schemes including Working Skills for Adults, Bridges into Work, apprenticeships, and the SMART business and innovation schemes.</p>	<p>Mae twf economaidd a swyddi yn Islwyn yn cael cymorth drwy gynlluniau ariannu'r UE sy'n werth miliynau o bunnoedd gan gynnwys Sgiliau Gwaith i Oedolion, Pontydd i Waith, prentisiaethau, a chynlluniau busnes ac arloesi SMART.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
13:30	<p><b>Gwyn R. Price</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Thank you for that answer. Minister, I'm sure you will agree that the contribution of European funding to deliver jobs and growth is one of the reasons why we need a 'yes' vote in the forthcoming referendum, which I hope will allow 16 and 17-year-olds to vote for the first time. In terms of issues facing other groups, the Welsh Government recently announced a plan to help 6,400 economically inactive parents, aged over 25, into work and training over the next three years. What contribution does the European fund make to initiatives that will fund the transformation of lives and opportunities in my constituency?</p>	<p>Diolch i chi am eich ateb. Weinidog, rwy'n siŵr y cytunwch fod cyfraniad cyllid Ewropeaidd i ddarparu swyddi a thwf yn un o'r rhesymau pam y mae angen pleidlais 'ie' yn y refferendwm sydd i ddod, a gobeithiaf y bydd yn caniatáu i bobl ifanc 16 a 17 oed bleidleisio am y tro cyntaf. O ran y materion sy'n wynebu grwpiau eraill, yn ddiweddar cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gynllun i helpu 6,400 o rieni dros 25 oed sy'n economaidd anweithgar i gael gwaith a hyfforddiant dros y tair blynedd nesaf. Pa gyfraniad y mae'r gronfa Ewropeaidd yn ei wneud i fentrau a fydd yn ariannu'r gwaith o drawsnewid bywydau a chyfleoedd yn fy etholaeth?</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
13:31	<p><b>Jane Hutt</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>I do agree with you, Gwyn Price. Of course, UK membership of the EU is crucial to the prosperity of Wales, through access to the single market—billions of pounds of EU funds benefiting our people and businesses, including agricultural businesses and our communities. The referendum should be as inclusive as possible, and all EU nationals resident in the UK, and 16 to 17-year-olds, should have the right to vote.</p>	<p>Rwy'n cytuno â chi, Gwyn Price. Wrth gwrs, mae aelodaeth y DU o'r UE yn hanfodol i ffyniant Cymru, drwy fynediad at y farchnad sengl—biliynau o bunnoedd o arian yr UE sy'n sicrhau budd i'n pobl a'n busnesau, gan gynnwys busnesau amaethyddol a'n cymunedau. Dylai'r refferendwm fod mor gynhwysol â phosibl, a dylai holl wladolion yr UE sy'n byw yn y DU, a phobl ifanc 16 ac 17 oed gael yr hawl i bleidleisio.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
13:31	<p><b>William Graham</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Certainly, Minister, I would agree that European funding has made a huge contribution towards growth and jobs in Wales. But I quote from Caerphilly Council's corporate plan for 2015-16:</p> <p>'We want to Improve job opportunities so people can live better lives by implementing the council's passport scheme'</p> <p>Agreed.</p> <p>'We are unable to carry this objective into 2015/16 as the money that funded this project...has finished.'</p> <p>Would the Minister care to comment?</p>	<p>Yn sicr, Weinidog, byddwn yn cytuno bod cyllid Ewropeaidd wedi gwneud cyfraniad enfawr tuag at dwf a swyddi yng Nghymru. Ond rwy'n dyfynnu o gynllun corfforaethol Cyngor Caerffili ar gyfer 2015-16:</p> <p>'We want to Improve job opportunities so people can live better lives by implementing the council's passport scheme'</p> <p>Cytunwyd.</p> <p>'We are unable to carry this objective into 2015/16 as the money that funded this project...has finished.'</p> <p>A fyddai'r Gweinidog yn hoffi gwneud sylw?</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
13:32	<p><b>Jane Hutt</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>It's clearly an opportunity, with the new phase of European funding, to learn lessons from the previous phase, in terms of schemes that have been implemented, but also to move on to develop new schemes. And I think it's very important, in terms of the opportunities that have been provided, that, for example, the EU funds of £6.8 million invested in the parent childcare and employment scheme will, as Gwyn Price has said, help 6,400 economically inactive parents, where childcare is the main barrier, to progress. The constituents in your region, and in Caerphilly in particular, will benefit from not just that scheme, but also schemes like Bridges into Work.</p>	<p>Mae'n amlwg yn gyfle, gyda'r cyfnod newydd o gyllid Ewropeaidd, i ddysgu gwersi o'r cam blaenorol, o ran y cynlluniau a roddwyd ar waith, ond hefyd i symud ymlaen i ddatblygu cynlluniau newydd. Ac rwy'n credu ei bod yn bwysig iawn, o ran y cyfleoedd a ddarparwyd, y bydd cronfeydd yr UE o £6.8 miliwn a fuddsoddiwyd yn y cynllun rhieni, gofal plant a chyflogaeth, er enghraifft, fel y mae Gwyn Price wedi dweud, yn helpu 6,400 o rieni sy'n economaidd anweithgar, lle y mae gofal plant yn brif rwystr i gamu ymlaen. Mae'r etholwyr yn eich rhanbarth, ac yng Nghaerffili yn arbennig, yn cael budd nid yn unig o'r cynllun hwnnw, ond o gynlluniau fel Pontydd i Waith hefyd.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>

13:32	<p><b>Alun Davies</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Minister, I'm sure that, like me, you do hear every so often these siren voices telling us how good life could be outside the European Union, and I'm sure, like me, you are desperately concerned about the impact that some of those voices will have. Do you not agree with me that it's important that the people of Wales are well informed about these decisions, and could the Welsh Government help ensure that people are informed by publishing the expenditure by local authorities in Wales of European funds in Wales, and all European funding in Wales, to ensure that people do understand the impact that the European Union has on our lives and what we potentially have to lose?</p>	<p>Weinidog, rwy'n siŵr eich bod chi, fel minnau, yn clywed y lleisiau croch bob hyn a hyn yn dweud wrthym pa mor dda y gallai bywyd fod y tu allan i'r Undeb Ewropeaidd, ac rwy'n siŵr, fel minnau, eich bod yn pryderu'n daer am effaith rhai o'r lleisiau hynny. Onid ydych yn cytuno â mi ei bod yn bwysig i bobl Cymru fod yn wybodus ynghylch y penderfyniadau hyn, ac a allai Llywodraeth Cymru helpu i sicrhau bod pobl yn cael gwybodaeth drwy gyhoeddi gwariant cronfeydd Ewropeaidd gan awdurdodau lleol yng Nghymru, a phob cyllid Ewropeaidd yng Nghymru, er mwyn sicrhau bod pobl yn deall yr effaith y mae'r Undeb Ewropeaidd yn ei chael ar ein bywydau a'r hyn sydd gennym i'w gollu, o bosibl?</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
13:33	<p><b>Jane Hutt</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Clearly, that information is vitally important as we go out and spread the message about the importance of the European Union investments into Wales. We've already announced EU investments worth some £415 million, driving a total investment of £930 million. That, of course, is supporting economic growth and high-quality sustainable employment across Wales. And, indeed, another example is Working Skills for Adults—two projects helping 1,700 individuals across Torfaen, Blaenau Gwent, Caerphilly and Merthyr Tydfil to gain new skills leading to improved job security and career prospects.</p>	<p>Yn amlwg, mae'r wybodaeth yn allweddol bwysig wrth i ni fynd allan a lledaenu'r neges am bwysigrwydd buddsoddiadau Undeb Ewropeaidd i Gymru. Rydym eisoes wedi cyhoeddi buddsoddiadau UE sy'n werth oddeutu £415 miliwn, ac sy'n ysgogi cyfanswm buddsoddiad o £930 miliwn. Mae hynny, wrth gwrs, yn cefnogi twf economaidd a chyflogaeth gynaliadwy o ansawdd uchel ledled Cymru. Ac yn wir, enghraifft arall yw Sgiliau Gwaith i Oedolion—dau brosiect sy'n helpu 1,700 o unigolion ar draws Torfaen, Blaenau Gwent, Caerffili a Merthyr Tudful i feithrin sgiliau newydd gan arwain at swyddi sy'n fwy diogel a rhagolygon gyrfa gwell.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
	<b>Pwerau Trethu Newydd</b>	<b>New Taxation Powers</b>	
13:34	<p><b>Gwenda Thomas</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p><i>2. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cynnydd sydd wedi'i wneud o ran pwerau trethu newydd Llywodraeth Cymru? OAQ(4)0636(FIN)</i></p>	<p><i>2. Will the Minister make a statement on progress in relation to the Welsh Government's new taxation powers? OAQ(4)0636(FIN)</i></p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
13:34	<p><b>Jane Hutt</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>In July, I introduced the Tax Collection and Management (Wales) Bill that establishes the Welsh revenue authority and the powers of tax collection and management in Wales. The next government will take forward legislation on the land transaction tax and landfill disposals tax.</p>	<p>Ym mis Gorffennaf, cyflwynais y Bil Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) sy'n sefydlu awdurdod cyllid Cymru a phwerau casglu a rheoli treth yng Nghymru. Bydd y llywodraeth nesaf yn bwrw ymlaen â'r ddeddfwriaeth ar y dreth trafodiadau tir a threth gwarediadau tirlenwi.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
13:34	<p><b>Gwenda Thomas</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Thank you, Minister. I understand that the level of consultation you have undertaken on these important new powers for Wales has been very extensive and warmly welcomed across Wales. Could you provide some details please on the organisations and bodies who have been involved?</p>	<p>Diolch yn fawr, Weinidog. Deallaf fod lefel yr ymgynghori a gynhaliwyd gennych ar y pwerau newydd pwysig hyn i Gymru wedi bod yn eang iawn ac wedi cael croeso cynnes ar draws Cymru. A allech chi roi rhywfaint o fanylion ynghlŷn â'r sefydliadau a'r cyrff sydd wedi cymryd rhan?</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
13:35	<p><b>Jane Hutt</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>I want to thank Gwenda Thomas for that key question, because we couldn't progress without that advice from key professionals, including tax and legal experts, organisations that represent business and the third sector, contributing through the tax advisory group, which I chair, the tax forum and the tax experts group.</p>	<p>Hoffwn ddiolch i Gwenda Thomas am y cwestiwn allweddol hwnnw, oherwydd ni allem symud ymlaen heb gyngor o'r fath gan weithwyr proffesiynol allweddol, yn cynnwys arbenigwyr ar dreth a'r gyfraith, sefydliadau sy'n cynrychioli busnesau a'r trydydd sector, gan gyfrannu drwy'r grŵp cynghori ar dreth o dan fy nghadeiryddiaeth i, y fforwm treth a'r grŵp arbenigwyr treth.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>

- 13:35 **Paul Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, of course, the tax collection management Bill is currently making its way through the Assembly's legislative process, and it's absolutely essential that it establishes a strong legal framework for the future collection and management of devolved taxes. There is a valid argument that perhaps local authorities could collect taxes for landfill. In light of this view, could you tell us what consideration the Welsh Government has given to passing on the collection of this tax to local authorities?
- Weinidog, wrth gwrs, mae'r Bil casglu a rheoli treth ar ei daith drwy broses ddeddfwriaethol y Cynulliad ar hyn o bryd, ac mae'n gwbl hanfodol ei fod yn sefydlu fframwaith cyfreithiol cadarn ar gyfer casglu a rheoli trethi datganoledig yn y dyfodol. Mae yna ddadl ddiyls y gallai awdurdodau lleol gasglu trethi tirlenwi. Yng ngoleuni'r farn hon, a allech ddweud wrthym pa ystyriaeth y mae Llywodraeth Cymru wedi'i rhoi i drosglwyddo'r broses o gasglu'r dreth hon i awdurdodau lleol?
- 13:35 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- I very much welcome the scrutiny of the tax collection and management Bill by the Finance Committee, which began on 17 September, and I am looking forward to recommendations later this month and debating the Bill on 8 December. I have announced that my preferred approach is for the Welsh revenue authority to work with HMRC to collect and manage land transaction tax. In terms of landfill disposals, that will be the Welsh revenue authority undertaking most of the collection and management of that tax, but delegating compliance and enforcement for tax to Natural Resources Wales. Clearly, we have engaged and taken evidence, as the committee has, from local government in terms of their willingness to—indeed, they sit on my tax advisory group—consider this in the future in terms of their role.
- Rwy'n croesawu'n fawr y gwaith craffu y mae'r Pwyllgor Cyllid yn ei wneud ar y Bil casglu a rheoli trethi, gwaith a ddechreuodd ar 17 Medi, ac rwy'n edrych ymlaen at argymhellion yn ddiweddarach y mis hwn ac at drafod y Bil ar 8 Rhagfyr. Rwyf wedi cyhoeddi mai'r dull rwy'n ei ffafrio yw bod awdurdod cyllid Cymru yn gweithio gyda Chyllid a Thollau EM i gasglu a rheoli'r dreth trafodiadau tir. O ran gwarediadau tirlenwi, byddai'n golygu mai awdurdod cyllid Cymru a fyddai'n cyflawni'r rhan fwyaf o'r gwaith o gasglu a rheoli'r dreth honno, ond gan ddirprwyo'r gwaith o sicrhau cydymffurfiaeth a gorfodi'r dreth i Cyfoeth Naturiol Cymru. Yn amlwg, rydym wedi ymgysylltu â llywodraeth leol, ac wedi cymryd tystiolaeth ganddynt, fel y mae'r pwyllgor wedi'i wneud, o ran eu parodrwydd i ystyried hyn yn y dyfodol o ran eu rôl—yn wir, maent yn aelodau o fy ngrŵp cynghori ar dreth.
- 13:36 **Rhodri Glyn Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Weinidog, fe glywsom ni'r wythnos diwethaf am y newyddion fod canolfannau casglu a rhoi cyngor ar dreth incwm ledled Cymru yn cau. Mae'r ganolfan a oedd yn bodoli yng Nghaerfyrddin wedi cau ers rhai blyneddodded ac mae pobl leol yn gweld ei cholli hi'n fawr iawn. Gyda'r cynnydd yng ngallu Llywodraeth y Cynulliad i reoli trethiant yng Nghymru, a fydd symudiadau i weithredu polisi'r Llywodraeth o sicrhau bod swyddi yn cael eu symud i bob rhan o Gymru?
- Minister, we heard last week that HMRC centres across Wales are to close. The centre in Carmarthen closed some years ago, and local people do miss that service a great deal. Now, with the increase in the Welsh Government's power to manage taxation in Wales, will there be a move to implement the Government's policy of ensuring that jobs are devolved to all parts of Wales?
- 13:37 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- That is a very clear priority in terms of Welsh Government and the setting up of the Welsh revenue authority. Of course, these are issues that we will move into as soon as we progress and receive Royal Assent for the tax collection and management Bill.
- Mae honno'n flaenoriaeth glir iawn o ran Llywodraeth Cymru a'r broses o sefydlu awdurdod cyllid Cymru. Wrth gwrs, mae'r rhain yn faterion y byddwn yn troi atynt cyn gynted ag y byddwn yn symud ymlaen ac yn cael Cydsyniad Brenhinol i'r Bil casglu a rheoli trethi.
- 13:37 **Alun Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- I think it's fair to say, Minister, that the Government has made great progress on these matters in establishing a framework for the use of these new powers. But, can I express to you a significant concern that I have, and that is, in the Treasury papers you've published, you have not used sustainability as one of the guiding principles that the Government are using in terms of developing and using these new powers? Would you be prepared, Minister, to look again at that and ensure that sustainability is running through all of the ways in which you work and the way in which you develop and use these additional powers?
- Rwy'n credu ei bod yn deg dweud, Weinidog, fod y Llywodraeth wedi gwneud cynnydd mawr ar y materion hyn o ran sefydlu fframwaith ar gyfer defnyddio'r pwerau newydd hyn. Ond a gaf fi fynegi pryder mawr sydd gennyf, sef nad ydych, yn y papurau Trysorlys a gyhoeddoch, wedi defnyddio cynaliadwyedd fel un o'r egwyddorion arweiniol y mae'r Llywodraeth yn eu defnyddio ar gyfer datblygu a defnyddio'r pwerau newydd hyn? A fydddech yn barod, Weinidog, i edrych eto ar hynny a sicrhau bod cynaliadwyedd yn rhan o'r holl ddulliau o weithio sydd gennych a'r ffordd rydych yn datblygu ac yn defnyddio'r pwerau ychwanegol hyn?

13:38	<p><b>Jane Hutt</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Of course, it is implicit that sustainability will underpin our new tax legislation.</p>	<p>Wrth gwrs, mae'n ddealedig y bydd cynaliadwyedd yn sail i'n deddfwriaeth dreth newydd.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
	<p><b>Cwestiynau Heb Rybudd gan Lefarwyr y Pleidiau</b></p>	<p><b>Questions Without Notice from Party Spokespeople</b></p>	
13:38	<p><b>Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>I now call the party spokespeople to question the Minister, starting this week with Welsh Liberal Democrat spokesperson, Peter Black.</p>	<p>Galwaf yn awr ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Gweinidog, gan ddechrau yr wythnos hon gyda llefarydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Peter Black.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
13:38	<p><b>Peter Black</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Thank you, Deputy Presiding Officer. Minister, Rhodri Glyn Thomas has just raised the issue of the HMRC closures around Wales, with the threat to 300 jobs in Swansea and threats in other centres around Wales, including up in north Wales where, of course, Welsh-speaking staff are placed. You've already said that you'll be giving the contract for the collection of Welsh taxes to HMRC. Have you started to think again in the light of HMRC's actions over the last week?</p>	<p>Diolch, Ddirprwy Lywydd. Weinidog, mae Rhodri Glyn Thomas newydd dynnu sylw at fater cau canolfannau Cyllid a Thollau EM o amgylch Cymru, gyda'r bygythiad i 300 o swyddi yn Abertawe a bygythiadau mewn canolfannau eraill ledled Cymru, gan gynnwys yng ngogledd Cymru lle y mae staff sy'n siarad Cymraeg yn gweithio wrth gwrs. Rydych eisoes wedi dweud y byddwch yn rhoi'r contract ar gyfer casglu trethi Cymru i Gyllid a Thollau EM. A ydych chi wedi dechrau ailystyried yng ngoleuni gweithredoedd Cyllid a Thollau EM dros yr wythnos ddiwethaf?</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
13:38	<p><b>Jane Hutt</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Well, as you know, and from our discussions in the Finance Committee on scrutiny of me in terms of the tax collection and management Bill, I've announced my intention to explore working with HMRC to collect and manage land transaction tax when it's devolved from April 2018. But it will be for the next Welsh government and for the Welsh revenue authority, once it's established, to specify the customer services requirements of both devolved taxes. Clearly, we're in discussions with HMRC about this. But it will be for the next government to decide whether the WRA should work with HMRC. Of course, the concerns that we now all share about this decision by HMRC to close offices will have to be factored into our discussions.</p>	<p>Wel, fel y gwyddoch, ac o'n trafodaethau yn y Pwyllgor Cyllid ar graffu arnaf mewn perthynas â'r Bil casglu a rheoli trethi, cyhoeddais fy mwriad i archwilio'r posibilrwydd o weithio gyda Chyllid a Thollau EM i gasglu a rheoli'r dreth trafodiadau tir pan gaiff ei datganoli ym mis Ebrill 2018. Ond mater i lywodraeth nesaf Cymru ac i awdurdod cyllid Cymru, pan gaiff ei sefydlu, fydd nodi beth fydd gofynion y ddwy dreth ddatganoledig o ran gwasanaeth i gwsmeriaid. Yn amlwg, rydym yn trafod hyn gyda Chyllid a Thollau EM. Ond mater i'r llywodraeth nesaf fydd penderfynu a ddylai Awdurdod Cyllid Cymru weithio gyda Chyllid a Thollau EM. Wrth gwrs, bydd yn rhaid cynnwys y pryderon a rannwn yn awr ynghylch y penderfyniad hwn gan Gyllid a Thollau EM i gau swyddfeydd yn ein trafodaethau.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
13:39	<p><b>Peter Black</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Thank you for that, Minister. Certainly, the committee has also explored what would be required in terms of the collection of those taxes. We have concerns, and the Finance Committee has concerns, in terms of customer service, about availability through the language of Welsh and also the fact that HMRC, by and large, manage the two taxes that are being devolved to us from Birmingham. HMRC are moving down the road of over-centralising their service, whereas I would hope that we would expect those people who we are serving as tax collectors, if you like, to be able to have face-to-face contact, to be able to work through the language of their choice and to be able to get a good service when they ring up HMRC or write to them. Again, that is not evident in terms of HMRC's current service provision. Do you not think that those particular factors have to be foremost in your consideration in exploring with HMRC whether they are fit and proper to collect these taxes?</p>	<p>Diolch i chi, Weinidog. Yn sicr, mae'r pwyllgor hefyd wedi archwilio'r hyn y byddai ei angen o ran casglu'r trethi hynny. Mae gennym bryderon, ac mae gan y Pwyllgor Cyllid bryderon, o ran gwasanaeth i gwsmeriaid, ynghylch argaeledd gwasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg a hefyd y ffaith fod Cyllid a Thollau EM, at ei gilydd, yn rheoli'r ddwy dreth a ddatganolir i ni o Birmingham. Mae Cyllid a Thollau EM yn symud tuag at or-ganoli eu gwasanaeth, ond rwy'n gobeithio y byddem yn disgwyl i'r bobl rydym yn eu gwasanaethu drwy weithio fel casglwyr trethi, os mynnwch, allu cael cyswllt wyneb yn wyneb, gallu gweithio drwy eu dewis iaith a gallu cael gwasanaeth da pan fyddant yn ffonio Cyllid a Thollau EM neu'n ysgrifennu atynt. Unwaith eto, nid yw hynny'n amlwg o ran darpariaeth bresennol Cyllid a Thollau EM. Onid ydych yn meddwl bod yn rhaid i'r ffactorau penodol hynny fod yn flaenaf yn eich meddwl wrth archwilio gyda CThEM a yw'n addas ac yn briodol iddynt gasglu'r trethi hyn?</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>

- 13:40 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- I would again acknowledge to Peter Black that your scrutiny and the scrutiny of the Finance Committee has been vital in this respect in establishing what those standards should be. I would expect the WRA to establish robust performance management reporting arrangements with the bodies to which it delegates functions, and I think the importance, particularly in terms of new arrangements for Welsh-language users, the WRA and those organisations to whom it will or could delegate functions have to abide by the standards required by the Welsh Language Commissioner. So, of course, these are issues that now come even more to the fore in our consideration of options for the next Government.
- Unwaith eto, byddwn yn cydnabod wrth Peter Black fod eich gwaith craffu a'r modd y buoch yn craffu ar y Pwyllgor Cyllid wedi bod yn hanfodol yn hyn o beth wrth sefydlu'r safonau hynny. Byddwn yn disgwyl i Awdurdod Cyllid Cymru sefydlu trefniadau adrodd cadarn ar reoli perfformiad gyda'r cyrff y mae'n dirprwyo swyddogaethau iddynt, ac mae'n bwysig sicrhau, yng ngoleuni trefniadau newydd ar gyfer siaradwyr Cymraeg, fod yn rhaid i Awdurdod Cyllid Cymru a'r sefydliadau y bydd, neu y gallai ddirprwyo swyddogaethau iddynt gadw at y safonau sy'n ofynnol gan Gomisiynydd y Gymraeg. Felly, wrth gwrs, mae'r rhain yn faterion sydd bellach yn dod hyd yn oed yn fwy amlwg wrth i ni ystyried yr opsiynau ar gyfer y Llywodraeth nesaf.
- 13:41 **Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Again, thank you, Minister, and of course the Bill makes provision for a charter to aspire to reach the right sort of standards, and that is very important, of course. When you or a future government work with WRA to actually allocate the contract for the collection of those taxes, how important is that charter going to be in terms of determining who is fit and proper to do it? And to what extent will you expect the agents who collect those taxes to adhere to those standards, even if it means going against their current set-up in Wales?
- Unwaith eto, diolch i chi, Weinidog, ac wrth gwrs mae'r Bil yn darparu ar gyfer siarter i geisio cyrraedd y math iawn o safonau, ac mae hynny'n bwysig iawn, wrth gwrs. Pan fyddwch chi neu lywodraeth yn y dyfodol yn gweithio gydag Awdurdod Cyllid Cymru ar ddyrannu'r contract ar gyfer casglu'r trethi hynny, pa mor bwysig fydd y siarter o ran penderfynu pwy sy'n addas ac yn briodol i wneud y gwaith? Ac i ba raddau y byddwch yn disgwyl i'r asiantau sy'n casglu'r trethi hyn i gadw at y safonau hynny, hyd yn oed os yw'n golygu mynd yn groes i'w trefniadau presennol yng Nghymru?
- 13:42 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Of course, the consultations and considerations of what constitutes a taxpayers charter will commence in the new year. It is something that the WRA will then have to formally consult on and implement in terms of that charter. I think it's very important that I have said that there should be a review of arrangements for the collection and management of Welsh taxes after three to five years of operation, to ensure that WRA and its delegated partners are meeting the needs of Welsh taxpayers. Of course, this is crucial in terms of getting it right as we take on those powers in 2018.
- Wrth gwrs, bydd yr ymgynghoriadau ac ystyriaethau o'r hyn yw siarter trethdalwyr yn dechrau yn y flwyddyn newydd. Mae'n rhywbeth y bydd yn rhaid i Awdurdod Cyllid Cymru ymgynghori yn ei gylch yn ffurfiol a'i weithredu mewn perthynas â'r siarter. Credaf ei bod yn bwysig iawn fy mod wedi dweud y dylid cynnal adolygiad o'r trefniadau ar gyfer casglu a rheoli trethi Cymru ar ôl tair i bum mlynedd o'u gweithredu, er mwyn sicrhau bod Awdurdod Cyllid Cymru a'i bartneriaid dirprwyedig yn bodloni anghenion trethdalwyr Cymru. Wrth gwrs, mae hyn yn hanfodol o ran cael pethau'n iawn wrth i ni fabwysiadu'r pwerau hynny yn 2018.
- 13:42 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- And the Welsh Conservatives' spokesperson, Nick Ramsay.
- A llefarydd y Ceidwadwyr Cymreig, Nick Ramsay.
- 13:42 **Nick Ramsay** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Thank you, Deputy Presiding Officer. Minister, do you agree with outgoing Cardiff Airport chair, Lord Rowe-Beddoe, that the airport should be privatised within the next five years?
- Diolch, Ddirprwy Lywydd. Weinidog, a ydych yn cytuno â chadeirydd ymadawol Maes Awyr Caerdydd, yr Arglwydd Rowe-Beddoe, y dylid preifateiddio'r maes awyr o fewn y pum mlynedd nesaf?
- 13:43 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- I think it's very useful to hear the views of the outgoing chair of Cardiff Airport. I think, of course, we now have a new chair of Cardiff Airport, Roger Lewis, who is now taking responsibility. I'm sure you would agree with me that the pleasing figures in terms of increased customer numbers and announcements almost weekly of new scheduled flights is what the people of Wales—in fact, the businesses of Wales—want to see in terms of progress with Cardiff Airport.
- Rwy'n credu ei bod yn ddefnyddiol iawn clywed barn cadeirydd ymadawol Maes Awyr Caerdydd. Wrth gwrs, mae gennym gadeirydd newydd ar Faes Awyr Caerdydd yn awr, sef Roger Lewis, sydd bellach yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb. Rwy'n siŵr y byddech yn cytuno mai'r ffigurau da o ran y cynnydd yn nifer y cwsmeriaid a chyhoeddi teithiau rheolaidd newydd yw'r hyn y mae pobl Cymru—busnesau Cymru, mewn gwirionedd—eisiau ei weld o ran cynnydd Maes Awyr Caerdydd.

- 13:43 **Nick Ramsay** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Thank you, Minister. I agree with you—it is very useful to hear from the outgoing chair of Cardiff Airport, Lord Rowe-Beedoe, on what he thinks about that. And it will be interesting to hear what the new chairman says as well. But it's quite simple, isn't it, Minister? You either agree with the outgoing chair of Cardiff Airport or you don't. He was the Welsh Government's choice to run the airport. One would therefore assume that he had the confidence of the Welsh Government in that position, and he has said it should be returned to the private sector within five years. Do you agree with that timescale?
- Diolch yn fawr, Weinidog. Rwy'n cytuno â chi—mae'n ddefnyddiol iawn clywed beth y mae cadeirydd ymadawol Maes Awyr Caerdydd, yr Arglwydd Rowe-Beedoe, yn ei gredu ynghylch hynny. A bydd yn ddiddorol clywed beth fydd y cadeirydd newydd yn ei ddweud hefyd. Ond mae'n eithaf syml, onid yw, Weinidog? Rydych naill ai'n cytuno gyda chadeirydd ymadawol Maes Awyr Caerdydd neu'n anghytuno ag ef. Ef oedd dewis Llywodraeth Cymru i arwain y maes awyr. Byddech yn tybio felly fod gan Lywodraeth Cymru hyder ynddo yn y swydd honno, ac mae wedi dweud y dylid dychwelyd y maes awyr i'r sector preifat o fewn pum mlynedd. A ydych chi'n cytuno â'r amserlen honno?
- 13:44 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- It is for Cardiff Airport and those who are managing it to ensure that we deliver the best possible service in terms of the investment we have made in order to not only rescue that airport, which, of course, Lord Rowe-Beedoe has also made very clear, but also to make sure that our public investment is delivering the outcomes that we wish to achieve.
- Mater i Faes Awyr Caerdydd a'r rhai sy'n ei reoli yw sicrhau ein bod yn darparu'r gwasanaeth gorau posibl o ran y buddsoddiad a wnaethom er mwyn achub y maes awyr, pwynt a wnaeth yr Arglwydd Rowe-Beedoe yn glir iawn, a gwneud yn siŵr hefyd fod ein buddsoddiad cyhoeddus yn sicrhau'r canlyniadau rydym am eu cyflawni.
- 13:44 **Nick Ramsay** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Well, Minister, no-one is having a go at you today for the airport purchase. You took the decision to invest £52 million of taxpayers' money in an airport rather than in the national health service and rather than in the education system. That was your priority; that was your Welsh Government's priority. All I'm asking you is do you now agree that it is time to look at a timescale for that airport to be returned to the private sector, where Lord Rowe-Beedoe believes it belongs, and we believe it belongs and the Welsh public believes it belongs? Isn't it time that the Welsh public were allowed to reap some of the financial rewards of the money that you wasted in the first place?
- Wel, Weinidog, nid oes unrhyw un yn lladd arnoch heddiw am brynu'r maes awyr. Fe benderfynoch fuddsoddi £52 miliwn o arian trethdalwyr mewn maes awyr yn hytrach nag yn y gwasanaeth iechyd gwladol a'r system addysg. Dyna oedd eich blaenoriaeth; dyna oedd blaenoriaeth eich Llywodraeth. Y cyfan rwy'n ei ofyn i chi yw a ydych yn cytuno ei bod bellach yn bryd edrych ar amserlen ar gyfer dychwelyd y maes awyr i'r sector preifat, lle y mae'n perthyn yn ôl yr Arglwydd Rowe-Beedoe, ac fel y credwn ninnau, a'r cyhoedd yng Nghymru? Onid yw'n bryd i'r cyhoedd yng Nghymru gael eu caniatáu i fedi ychydig o fudd ariannol o'r arian a wastraffwyd gennych yn y lle cyntaf?
- 13:45 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- That's a very long speech, getting louder and louder, about Cardiff Airport, which, I hope you will agree with me, now, as a result of the investment, the public investment that was made, is actually delivering what the people of Wales and businesses of Wales want—for it to succeed.
- Dyna araith hir iawn am Faes Awyr Caerdydd, araith a âi'n uwch ac yn uwch, ac rwy'n gobeithio eich bod yn cytuno y bydd yn awr, o ganlyniad i'r buddsoddiad cyhoeddus a wnaed, yn cyflawni'r hyn y mae pobl Cymru a busnesau Cymru ei eisiau mewn gwirionedd—iddo lwyddo.
- 13:45 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- The Plaid Cymru spokesperson, Alun Ffred Jones.
- Llefarydd Plaid Cymru, Alun Ffred Jones.
- 13:45 **Alun Ffred Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Diolch yn fawr. Weinidog, rwy'n nodi eich sylwadau wrth ymateb i Peter Black. Y cwestiwn rwy'n ei ofyn i chi yn wyneb y ffaith eich bod mewn trafodaethau, neu y byddwch chi mewn trafodaethau, gyda HMRC ynglŷn â chasglu trethi sydd wedi, neu'n bwriadu cael eu datganoli yw: a ydych yn mynd i gael trafodaethau gyda HMRC yn benodol ynglŷn â chanoli swyddi yng Nghaerdydd a'r colledion yng ngweddill Cymru?
- Thank you very much. Minister, I note your comments in response to Peter Black. The question I ask of you in light of the fact that you are in discussions, or are to have discussions, with HMRC on the collection of devolved taxes, or taxes that are to be devolved, is: are you going to have any negotiations with HMRC specifically on the centralisation of jobs in Cardiff and the losses in the rest of Wales?

- 13:46 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- The concerns that we now all share as a result of these latest announcements of HMRC, clearly, will inform our discussions. The decision to close offices in Wales, creating uncertainty for staff, and particularly the loss of services throughout Wales, is crucial for us to address. Of course, we discussed this yesterday in terms of questions. It is absolutely critical that we do maintain, as you say, an appropriate level of service for Welsh taxpayers in terms of devolved Welsh taxes. So, this is something that we have to keep a very close eye on.
- Yn amlwg, bydd y pryderon rydym i gyd yn eu rhannu yn awr o ganlyniad i gyhoeddiadau diweddaraf Cyllid a Thollau EM yn llywio ein trafodaethau. Mae'n hollbwysig ein bod yn mynd i'r afael â'r penderfyniad i gau swyddfeydd yng Nghymru, gan greu ansicrwydd i staff, a cholli gwasanaethau ledled Cymru yn arbennig. Wrth gwrs, buom yn trafod hyn ddoe mewn ymateb i gwestiynau. Fel y dywedwch, mae'n gwbl hanfodol ein bod yn cynnal lefel briodol o wasanaeth i drethdalwyr Cymru o ran trethi datganoledig Cymru. Felly, mae hyn yn rhywbeth y mae'n rhaid i ni gadw llygad gofalus arno.
- 13:46 **Alun Ffred Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Wel, byddwn i'n licio pe byddech yn ateb y cwestiwn yn benodol. Nid yw dweud 'informed discussions' a'n bod ni wedi cael trafodaethau yma yr un fath â dweud eich bod chi, fel Llywodraeth, yn mynd i godi'r mater yma yn benodol gyda HMRC yn ystod eich trafodaethau ynglŷn â datganoli trethi. Felly, rwy'n gofyn ichi eto: a ydych yn mynd i godi'r cwestiwn a dweud wrthyn nhw eich bod chi'n anfonol gyda'r trefniadau sy'n cael eu bwriadu ar gyfer Cymru?
- Well, I'd appreciate it if you'd answer the question specifically. To say that it's informed discussions and that we've had discussions here is not the same as saying that you, as a Government, are going to raise this specific issue with HMRC during your negotiations on the devolution of taxation. So, I ask you again: are you going to raise this question and tell them that you are not satisfied with the arrangements put in place for Wales?
- 13:47 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- I can assure you we are raising that specific question.
- Gallaf eich sicrhau ein bod yn rhoi sylw i'r mater penodol hwnnw.
- 13:47 **Alun Ffred Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Diolch yn fawr iawn am yr ateb hwnnw. Mae'r ail fater yn ymwneud â'r arbenigedd yn y swyddfa ym Mhorthmadog ynglŷn â thrin materion trwy gyfrwng y Gymraeg. Fel un sydd wedi defnyddio'r gwasanaeth hwnnw, gallaf dystio i broffesiynoldeb y gwaith hwnnw. Unwaith eto, mi fyddwn i'n tybio ei bod hi'n ddyletswydd ar Lywodraeth Cymru i warchod buddiannau defnyddwyr y gwasanaeth trwy gyfrwng y Gymraeg. Tra nad oes neb yn amau na ellid gwneud hynny mewn rhannau eraill o Gymru, mae'r arbenigedd ar hyn o bryd ym Mhorthmadog, ac mae cymryd y swyddi hynny o ardal lle mae yna bŵl o weithwyr dwyieithog yn ymddangos yn ddim ymhell o fod yn wallgofrwydd. Felly, ym mha ffordd y gallwch chi warchod defnyddwyr y gwasanaeth Cymraeg mewn perthynas â'r trethi newydd hynny yn eich dadleuon gyda HMRC?
- Thank you very much for that response. The second issue relates to the expertise in the Porthmadog office in terms of dealing with issues through the medium of Welsh. As one who has used that service, I can attest to the professionalism of that service. Once again, I would assume that it would be a duty on Welsh Government to protect the interests of users of that Welsh-language service. Whilst one doesn't doubt that that couldn't be done in other parts of Wales, the expertise at present is in Porthmadog, and taking those jobs from an area where there is a pool of bilingual workers available appears to be nothing short of madness. So, in what way can you actually safeguard the users of that Welsh-language service in relation to those new taxes in your discussions with HMRC?
- 13:48 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- I'm very grateful for these questions, Alun Ffred Jones. Indeed, when this was discussed in the Finance Committee in scrutiny, you raised again the importance of the contribution that the office at Porthmadog provides in terms of Welsh language expertise. That's very helpful as we now address these issues with HMRC in terms of our new Welsh taxes and the devolution of them.
- Rwy'n ddiolchgar iawn am y cwestiynau hyn, Alun Ffred Jones. Yn wir, pan drafodwyd hyn yn y Pwyllgor Cyllid yn ystod y broses graffu, fe sonioch eto am bwysigrwydd cyfraniad y swyddfa ym Mhorthmadog o ran arbenigedd iaith Gymraeg. Mae hynny'n ddefnyddiol iawn wrth i ni fynd i'r afael â'r materion hyn yn awr gyda Chyllid a Thollau EM mewn perthynas â datganoli ein trethi Cymreig newydd.
- Buddsoddi i Arbed** **Invest-to-save**
- 13:48 **Mike Hedges** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- 3. A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am fuddsoddi i arbed? OAQ(4)0621(FIN)*
- 3. Will the Minister provide an update on invest-to-save? OAQ(4)0621(FIN)*



- 13:48 **Jane Hutt** [Bywgraffiad Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo Video](#)  
 The invest-to-save fund continues to be an integral part of the Welsh Government's strategy to ensure continuous improvement in public services in Wales.  
 Mae'r gronfa buddsoddi i arbed yn parhau i fod yn rhan annatod o strategaeth Llywodraeth Cymru i sicrhau gwelliant parhaus yn y gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.
- 13:48 **Mike Hedges** [Bywgraffiad Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo Video](#)  
 Can I thank you for that answer, Minister? As the Minister is aware, I am very supportive of the invest-to-save concept, but can I ask: has any study been done to see if the saving from invest-to-save has continued after the payback period has completed?  
 A gaf fi ddiolch i chi am yr ateb hwnnw, Weinidog? Fel y bydd y Gweinidog yn gwybod, rwy'n gefnogol iawn i'r cysyniad o fuddsoddi i arbed, ond a gaf fi ofyn: a wnaed unrhyw astudiaeth i weld a yw'r arbediad o'r cynllun buddsoddi i arbed wedi parhau ar ôl i'r cyfnod ad-dalu ddod i ben?
- 13:49 **Jane Hutt** [Bywgraffiad Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo Video](#)  
 Thank you, Mike Hedges. In fact, we did have an independent evaluation of invest-to-save in 2014, and it looked at a number of projects to examine whether savings had been generated after implementation. The study found that, for every £1 invested by the invest-to-save fund, a gross return of £3 was generated. Indeed, it confirmed that savings were implemented past the payback period.  
 Diolch i chi, Mike Hedges. Yn wir, cawsom werthusiad annibynnol o fuddsoddi i arbed yn 2014, ac edrychodd ar nifer o brosiectau i weld a gynhyrchwyd arbedion ar ôl eu gweithredu. Am bob £1 a fuddsoddiwyd gan y gronfa buddsoddi i arbed, canfu'r astudiaeth adenillion gros o £3. Yn wir, cadarnhaodd fod arbedion wedi'u sicrhau ar ôl y cyfnod ad-dalu.
- 13:49 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad Biography](#) *Arweinydd yr Wrthblaid / The Leader of the Opposition* Senedd.tv  
[Fideo Video](#)  
 Minister, there are many models of invest-to-save, but most of it emanates from Welsh Government making money available to invest in a particular project that, over time, shows that a dividend will come back either through regeneration or money saved by the central Government. What lessons has the Welsh Government learned from the exercise in the Regeneration Investment Fund for Wales in making capital assets available to release money that was to be invested in communities to create regeneration and thus create an invest-to-save model that would stimulate economic growth across the whole of Wales?  
 Weinidog, ceir llawer o fodolau buddsoddi i arbed, ond mae'r rhan fwyaf ohono'n deillio o'r ffaith fod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod arian ar gael i'w fuddsoddi mewn prosiect penodol, sydd dros amser yn dangos y ceir difidend naill ai drwy adfywio neu arian a arbedwyd gan y Llywodraeth ganolog. Pa wersi y mae Llywodraeth Cymru wedi'u dysgu o'r arfer yng Nghronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio o sicrhau bod asedau cyfalaf ar gael i ryddhau arian a oedd i'w fuddsoddi mewn cymunedau ar gyfer adfywio a thrwy hynny greu model buddsoddi i arbed a fyddai'n ysgogi twf economaidd ar draws Cymru gyfan?
- 13:50 **Jane Hutt** [Bywgraffiad Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo Video](#)  
 Well, of course, RIFW wasn't funded by our invest-to-save fund, as you will clearly recognise. There are lessons to be learnt and, of course, those are being taken on board.  
 Wel, wrth gwrs, ni chafodd Cronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio ei hariannu o'n cronfa buddsoddi i arbed, fel y byddwch yn sylweddoli'n iawn. Mae gwersi i'w dysgu ac wrth gwrs, mae'r rhain yn cael eu hystyried.
- 13:50 **Bethan Jenkins** [Bywgraffiad Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo Video](#)  
 Weinidog, tybed a fedrwrch chi roi syniad i ni, efallai, yn sgil yr adolygiad annibynnol hynny, o ba a sut mae awdurdodau lleol yn fy rhanbarth i wedi 'util-eiddio' y broses yma. Beth rwyf fi wedi'i ffeindio gan nifer o gynghorau yw eu bod yn tynnu gwasanaethau i ffwrdd, yn hytrach nag edrych i 'invest-to-save' er mwyn gallu rhoi mwy o adnoddau i mewn i ganolfan leol. A ydy hynny'n rhywbeth rydych chi wedi'i ystyried yn hynny o beth?

13:50	<b>Jane Hutt</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> Clearly, we are taking those issues into account. Local government, in fact, is accessing invest-to-save and is also accessing it in a collaborative way. For example, a project between the Mid and West Wales Fire and Rescue Service, local government and the health board is one clear example—the Safe as Houses initiative. That’s preventative; it’s addressing causes of poor health in the housing stock and, indeed, ensuring that we are looking at new ways of working across the sectors in Wales.	Yn amlwg, rydym yn ystyried y materion hyn. Mewn gwirionedd, mae llywodraeth leol yn defnyddio buddsoddi i arbed a hefyd yn cael defnydd ohono mewn ffordd gydweithredol. Er enghraifft, mae prosiect rhwng Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, llywodraeth leol a’r bwrdd iechyd yn un enghraifft glir—menter diogelwch tai. Mae honno’n fenter ataliol; mae’n mynd i’r afael ag achosion afiechyd yn y stoc dai ac yn wir, yn sicrhau ein bod yn edrych ar ffyrdd newydd o weithio ar draws y sectorau yng Nghymru.	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
13:51	<b>William Powell</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> Minister, as the Environment and Sustainability Committee continues its inquiry into a smarter energy future for Wales, we’ve heard several calls from different organisations for the next Welsh Government to create an infrastructure budget specifically for wholesale refits of up to a third of the Welsh housing stock by 2020. This would encompass energy efficiency and micro-generation, where possible, potentially reducing emissions by up to 60 per cent per property. Minister, in the context of the benefits that could accrue, will you commit to looking, alongside relevant Cabinet colleagues, at the possibility that this could be an appropriate use of the invest-to-save scheme?	Weinidog, wrth i Bwyllgor yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd barhau ei ymchwiliad i ddyfodol ynni callach ar gyfer Cymru, clywsom sawl galwad gan wahanol sefydliadau ar Lywodraeth nesaf Cymru i greu cyllideb seilwaith benodol ar gyfer gwaith ailosod ar raddfa eang ar hyd at draean o stoc dai Cymru erbyn 2020. Byddai hyn yn cynnwys effeithlonrwydd ynni a microgynhyrchu, lle y bo’n bosibl, a allai ostwng lefel allyriadau pob eiddo hyd at 60 y cant. Weinidog, yng nghyd-destun y manteision a allai ddeillio o hyn, a wnewch chi ymrwymo i edrych, gyda’ch cyd-Weinidogion perthnasol yn y Cabinet, ar y posibilrwydd y gallai hyn fod yn ddefnydd priodol o’r cynllun buddsoddi i arbed?	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
13:52	<b>Jane Hutt</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> I certainly will do.	Yn sicr, fe wnaif.	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	<b>Treth Dir y Dreth Stamp</b>	<b>Stamp Duty Land Tax</b>	
13:52	<b>Llyr Gruffydd</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> <i>4. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddatganoli treth dir y dreth stamp i Lywodraeth Cymru? OAQ(4)0633(FIN) [W]</i>	<i>4. Will the Minister make a statement on the devolution of Stamp Duty Land Tax? OAQ(4)0633(FIN)[W]</i>	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
13:52	<b>Jane Hutt</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> Mater i’r Llywodraeth nesaf fydd bwrw ymlaen â’r ddeddfwriaeth ar gyfer y dreth trafodiadau tir, a’r penderfyniadau am gyfraddau’r dreth.	The legislation, and decisions on tax rates for the land transaction tax will be for the next Government to progress.	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
13:52	<b>Llyr Gruffydd</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> Diolch ichi am eich ateb, oherwydd mae yna gyfle, wrth gwrs, i ni ddefnyddio’r dreth trafodion tir mewn ffordd llawer mwy creadigol, efallai, na sydd wedi digwydd yn y gorffennol, er mwyn cyflawni rhai o nodau ehangach Llywodraeth Cymru a’r Cynulliad yma, wrth gwrs, ac un o’r rheini yn ymwneud â newid hinsawdd. Mae yna awgrym wedi cael ei wneud y gellir amrywio lefel y dreth yn ôl lefel effeithlonrwydd ynni’r tŷ, ac rwy’n meddwl bod hynny yn fodel sy’n haeddu cael ei edrych arno gan Lywodraeth Cymru. Felly, a gaf i ofyn ichi ba fwriad sydd gennych chi, yn y lle cyntaf, i wneud defnydd creadigol o’r dreth yna? Yn ail, a wnewch chi ystyried y model rwyf i wedi’i amlinellu?	Thank you for that response, because there is an opportunity, of course, to use the land tax in a far more creative way than has happened in the past, in order to achieve some of the broader objectives of the Welsh Government and this Assembly, and one of those relates to climate change. A suggestion has been made that we could vary the level of stamp duty land tax according to the energy efficiency level of the home, and I do think that that is a model that deserves consideration from the Welsh Government. So, can I ask you what intention you have, initially, to actually make creative use of that tax? Secondly will you consider the model that I’ve just outlined?	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>

13:53 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, we had a very large range of responses to our consultation, as you know, on the land transaction tax. I did publish a summary of that consultation in September, and I provided a further statement in October. Clearly, some of those issues and opportunities that can arise from a change in the way that we introduce a new land transaction tax did embrace those opportunities and I think that we will certainly be looking at that in terms of when the next Government actually introduces the new Bill on this transaction tax.

Wel, fel y gwyddoch, cawsom nifer fawr iawn o ymatebion i'n hymgynghoriad ar y dreth trafodiadau tir. Cyhoeddais grynodedb o'r ymgynghoriad hwnnw ym mis Medi, a darparais ddatganiad arall ym mis Hydref. Yn amlwg, roedd rhai o'r materion a'r cyfleoedd a all godi o newid yn y ffordd y cyflwynwn y dreth trafodiadau tir newydd yn cynnwys y cyfleoedd hynny a chredaf y byddwn yn sicr o edrych ar hynny pan fydd y Llywodraeth nesaf yn cyflwyno'r Bil newydd ar y dreth trafodiadau tir.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

13:53 **Nick Ramsay** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Your Welsh is better than mine, Minister. The UK Government has recently, and at long last, reformed stamp duty to make it more progressive and to get rid of the notorious slab. You've said that your guiding principle is to try to mirror the English tax system, where possible, unless there's a good reason to deviate from it. Can you assure us that the Welsh land transaction tax will not reinstate any sort of slab and will interact well with the English system, particularly in areas along the border?

Mae eich Cymraeg yn well na fy un i, Weinidog. Yn ddiweddar, mae Llywodraeth y DU o'r diwedd wedi diwygio treth stamp i'w gwneud yn fwy blaengar ac i gael gwared ar y slab bondigrybwyll. Rydych wedi dweud mai eich egwyddor arweiniol yw ceisio adlewyrchu'r system dreth yn Lloegr, lle y bo'n bosibl, oni bai bod rheswm da dros wroddi wrthi. A allwch ein sicrhau na fydd y dreth trafodiadau tir yng Nghymru yn adfer unrhyw fath o slab ac y bydd yn rhyngweithio'n dda gyda'r system yn Lloegr, yn enwedig mewn ardaloedd ar hyd y ffin?

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

As you know and as I said in response to questions and my statement recently, the consultation responses were very clear in their desire for consistency with stamp duty land tax to ensure that smooth transition. I think, on land transaction tax, it's very clear we don't want to go back to the slab system. We're looking very carefully not only at the new system that's now being introduced, which we are part of in terms of England and Wales, but also at the Scottish arrangements. Of course, we have been consulting with the anticipation of removing the slab, so we now have to look at the new opportunities in terms of our powers.

Fel y gwyddoch, ac fel y dywedais mewn ymateb i gwestiynau ac yn fy natganiad yn ddiweddar, roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn glir iawn yn eu hawydd i sicrhau cysondeb â threth dir y dreth stamp i sicrhau bod pontio llyfn yn digwydd. O ran y dreth trafodiadau tir, rwy'n meddwl ei bod hi'n glir iawn nad ydym eisiau mynd yn ôl at y system slab. Rydym yn edrych yn ofalus iawn, nid yn unig ar y system newydd sy'n cael ei chyflwyno yn awr, system rydym yn rhan ohoni yng Nghymru a Lloegr, ond hefyd ar y trefniadau yn yr Alban. Wrth gwrs, rydym wedi bod yn ymgynghori gan ddisgwyl y diddymir y slab, felly rhaid i ni edrych yn awr ar y cyfleoedd newydd o ran ein pŵerau.

## Contractau Caffael Llywodraeth Cymru

## Welsh Government Procurement Contracts

13:55 **Elin Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*5. Sut y mae'r Gweinidog yn annog cwmnïau o Gymru i dendro am gontractau caffael Llywodraeth Cymru?*  
OAQ(4)0630(FIN)[W]

*5. How does the Minister encourage Welsh companies to tender for Welsh Government procurement contracts?*  
OAQ(4)0630(FIN)[W]

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

13:55 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Mae gweithgareddau caffael Llywodraeth Cymru ei hun wedi eu seilio ar egwyddorion datganiad polisi caffael Cymru. Mae hynny'n sicrhau eu bod yn agored a hygyrch i fusnesau Cymru.

The principles of the Wales procurement policy statement are embedded in Welsh Government's own procurement activity, ensuring they are open and accessible for Welsh businesses.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

13:55	<b>Elin Jones</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	<p>Weinidog, mae busnesau ifanc, newydd yn aml yn ei ffeindio hi'n anodd cael mynediad i gontractau caffael cyhoeddus oherwydd eu maint llai nhw a hefyd yr angen sydd yna i brofi 'track record', a 'track record' o reolaeth ariannol hefyd. Felly, mae'r disgwyliadau arnyn nhw yn anodd eu cwrdd. Pa gymorth ychwanegol y gall Llywodraeth Cymru ei rhoi i'r sector pwysig yma, sydd yn bwysig o ran dyfodol yr economi, fel nad yw'n cael ei anfanteisio yn ormodol o ran medru llwyddo i gael contractau cyhoeddus?</p>	<p>Minister, new businesses often find difficulty in accessing public procurement contracts because of their smaller size and the need to prove a track record, and a track record of financial management too. So, the expectations on them are difficult for them to meet. What additional support can the Welsh Government provide to this important sector, which is important in terms of the future of the economy, so that they are not overly disadvantaged in terms of applying for public contracts?</p>
13:56	<b>Jane Hutt</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	<p>Well, engagement with businesses is critical for successful public procurement in Wales, and we're engaging very closely with key groups that represent business, but, of course, you need to reach down to the businesses themselves. So, I think it's important, in terms of the National Procurement Service, that category teams are holding supplier events locally, informing, for example, the development of new contract and framework strategies, and raising awareness of the role of the service and the benefits it will have to Wales.</p>	<p>Wel, mae ymgysylltu â busnesau yn hanfodol i gaffael cyhoeddus llwyddiannus yng Nghymru, ac rydym yn ymgysylltu'n agos iawn gyda grwpiau allweddol sy'n cynrychioli busnes, ond wrth gwrs, mae angen i chi gyrraedd y busnesau eu hunain. Felly, credaf ei bod yn bwysig, o ran y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol, bod timau categorïau yn cynnal digwyddiadau i gyflenwyr yn lleol, er mwyn llywio, er enghraifft, y broses o ddatblygu strategaethau contract a fframwaith newydd, a chodi ymwybyddiaeth o rôl y gwasanaeth a'r manteision y bydd yn eu creu i Gymru.</p>
13:56	<b>Mark Isherwood</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	<p>Further to concerns raised with me in north Wales, how will you support local voluntary councils to encourage third sector bodies, and possibly consortia, to bid for public sector contracts in Wales?</p>	<p>Yn ogystal â'r pryderon a fynegwyd wrthyf yng ngogledd Cymru, sut y byddwch yn cynorthwyo cyngorau gwirfoddol lleol i annog cyrff y trydydd sector, a chonsortia o bosibl, i ymgeisio am gontractau sector cyhoeddus yng Nghymru?</p>
13:56	<b>Jane Hutt</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	<p>Mark Isherwood, the application of joint bidding guidance does help Welsh Government contracts to be accessible to consortia, which, of course, include third sector organisations and smaller businesses.</p>	<p>Mark Isherwood, mae defnyddio canllawiau ymgeisio ar y cyd yn helpu i wneud contractau Llywodraeth Cymru yn hygyrch i gonsortia, sydd, wrth gwrs, yn cynnwys sefydliadau trydydd sector a busnesau llai o faint.</p>
13:57	<b>Eluned Parrott</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	<p>Minister, last week, in her statement on the steel industry, the Minister for Economy, Science and Transport identified procurement as a key area to provide a market for the industry in Wales. One thing that I asked her to do is to look at ways of identifying points of differentiation for Welsh steel above imports, so that those could be distributed to Welsh purchasers. I wondered if that work was being taken forward.</p>	<p>Weinidog, yr wythnos diwethaf, yn ei datganiad ar y diwydiant dur, nododd Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth fod caffael yn faes allweddol ar gyfer darparu marchnad ar gyfer y diwydiant yng Nghymru. Un peth y gofynnais iddi ei wneud yw edrych ar ffyrdd o nodi pwyntiau sy'n wahanol am ddur Cymru o gymharu â mewnfurion, er mwyn eu dosbarthu i brynwyr yng Nghymru. Tybed a yw'r gwaith hwnnw'n cael ei ddatblygu.</p>
13:57	<b>Jane Hutt</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	<p>I think the role of procurement is crucial. Of course, my officials have also taken part in discussions in terms of support for the steel industry. If you look at the procurement policy note on procuring steel in major projects, we have to then consider how that is consistent with not only the Wales procurement policy statement, but new opportunities—as you say, Eluned Parrott—to make sure that we can address those specific needs.</p>	<p>Rwy'n meddwl bod rôl caffael yn allweddol. Wrth gwrs, mae fy swyddogion hefyd wedi bod yn rhan o drafodaethau ar gefnogi'r diwydiant dur. Os edrychwch ar y nodyn polisi caffael ar gaffael dur mewn prosiectau mawr, rhaid i ni ystyried wedyn sut y mae hynny'n gyson nid yn unig â datganiad polisi caffael Cymru, ond â chyfleoedd newydd—fel y dywedwch, Eluned Parrott—i wneud yn siŵr ein bod yn gallu mynd i'r afael â'r anghenion penodol hynny.</p>

## Toriadau i Adrannau Llywodraeth y DU

## Cuts to UK Government Departments

- 13:58 **Julie Morgan** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)  
*6. Pa asesiad a wnaeth y Gweinidog o'r goblygiadau i Gymru o'r toriadau o 30 y cant i adrannau trafndiaeth, llywodraeth leol ac amgylchedd Llywodraeth y DU? OAQ(4)0624(FIN)*  
*6. What assessment has the Minister made of the implications for Wales of the 30 per cent cuts agreed by the UK Government's transport, local government and environment departments? OAQ(4)0624(FIN)*
- 13:58 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)  
 Reductions to comparable spending departments in England will result in negative consequential for Wales through the Barnett formula.  
 Bydd gostyngiadau i adrannau gwariant cymharol yn Lloegr yn arwain at symiau canlyniadol negyddol i Gymru drwy fformiwla Barnett.
- 13:58 **Julie Morgan** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)  
 I thank the Minister for that response. I am particularly concerned about how the cuts will affect the local government budget. Does the Minister agree that any money that is taken from the local government budget affects the health budget, because the social services, social care and housing services that have to be funded by local government help keep people out of hospitals and directly affect people's health and wellbeing?  
 Diolch i'r Gweinidog am yr ymateb hwnnw. Rwy'n arbennig o bryderus ynglŷn â sut y bydd y toriadau'n effeithio ar gyllideb llywodraeth leol. A yw'r Gweinidog yn cytuno bod unrhyw arian sy'n cael ei gymryd o'r gyllideb llywodraeth leol yn effeithio ar y gyllideb iechyd, oherwydd bod y gwasanaethau cymdeithasol, gofal cymdeithasol a gwasanaethau tai sy'n rhaid i lywodraeth leol eu hariannu yn helpu i gadw pobl allan o ysbytai ac yn effeithio'n uniongyrchol ar iechyd a lles pobl?
- 13:58 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)  
 This is where it is so important that we see the impact of the spending review as, of course, it will be announced this time next week. We're going to have some tough decisions, I'm sure, in terms of how we best support our priorities with a difficult settlement. But, I do agree that health, social services and local government can't be seen in isolation from each other. I think the importance of the ways in which we've driven forward the intermediate care fund and the increase of £10 million this year on social services, supporting integration with the health service, have been key factors and ways in which we can address this.  
 Dyma lle y mae hi mor bwysig ein bod yn gweld effaith yr adolygiad o wariant gan y bydd, wrth gwrs, yn cael ei gyhoeddi ar yr adeg hon yr wythnos nesaf. Rydym yn mynd i gael rhai penderfyniadau anodd, rwy'n siŵr, o ran sut yr awn ati i gefnogi ein blaenoriaethau yn y ffordd orau gyda setliad anodd. Ond rwy'n cytuno na ellir ystyried iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a llywodraeth leol ar wahân i'w gilydd. Rwy'n meddwl bod y ffyrdd pwysig rydym wedi datblygu'r gronfa gofal canolraddol a'r cynnydd o £10 miliwn eleni ar wasanaethau cymdeithasol, i gefnogi integreiddio gyda'r gwasanaeth iechyd, wedi bod yn ffactorau allweddol ac yn ffyrdd o fynd i'r afael â hyn.
- 13:59 **Rhun ap Iorwerth** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)  
 I ba raddau mae'r Gweinidog yn pryderu am effaith toriadau yng nghyllideb yr Adran Drafndiaeth ar lefel Prydain ar brosiectau cyfalaf yng Nghymru mewn meysydd sydd ddim wedi eu datganoli, er enghraifft y prosiect i drydaneiddio rheilffordd y gogledd?  
 To what extent is the Minister concerned about the impact of the cuts in the Department for Transport at the UK level on capital projects in Wales in non-devolved areas, for example the project to electrify the north Wales main line?
- 13:59 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)  
 Clearly, we have to be concerned about that and maximise our pressure to ensure that this is seen as a priority in terms of the north Wales electrification.  
 Yn amlwg, mae'n rhaid i ni fod yn bryderus am hynny a phwyso cymaint ag y gallwn i sicrhau bod hyn yn cael ei ystyried yn flaenoriaeth o ran y gwaith trydaneiddio yng nogledd Cymru.

14:00 **Aled Roberts** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

A gaf i gadarnhau bod cynhadledd yn y gogledd yr wythnos diwethaf, lle'r oedd Gweinidogion o San Steffan yn rhoi'r argraff eu bod nhw o blaid trydaneiddio rheilffordd y gogledd? Wrth gwrs, nid oedd unrhyw fanylion ynglŷn â pha effaith y byddai'r cwtogi hwn, o ran yr adran drafnidiaeth, yn mynd i'w gael. Felly, a gaf i ofyn, wrth gofio bod y Prif Weinidog yma wedi dweud ei fod yn gobeithio y bydd y prosiect hwnnw yn cael ei gwblhau o fewn pum mlynedd, ichi roi pwysau, fel Llywodraeth, ar ba mor bwysig yw trydaneiddio ar gyfer economi'r gogledd?

May I confirm that a conference was held in north Wales last week, where Ministers from Westminster gave the impression that they were in favour of the electrification of the north Wales main line? Of course, there wasn't any detail on what impact the cutbacks would have on the transport department. Therefore, may I ask that, while the First Minister has said that he hopes that the project will be completed within five years, you could emphasise, as a Government, how important electrification is for the economy of north Wales?

14:00 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Well, I certainly will. In response to that question, I understand that the conference was very useful and constructive. I've heard that from the UK Government as well as from Welsh Government sources. But I do think, again, that it is about ensuring that Wales speaks up on a cross-party basis, which I know this is, for that important project.

Wel, rwy'n sicr yn gwneud hynny. Mewn ymateb i'r cwestiwn, deallaf fod y gynhadledd wedi bod yn ddefnyddiol ac yn adeiladol iawn. Rwyf wedi clywed hynny gan Lywodraeth y DU yn ogystal ag o ffynonellau Llywodraeth Cymru. Ond rwy'n meddwl, unwaith eto, ei fod yn ymwneud â sicrhau bod Cymru yn codi llais ar sail drawsbleidiol, a gwn fod y gefnogaeth yn drawsbleidiol i'r prosiect pwysig hwn.

## Portffolio Cymunedau a Threchu Tlodi

## The Communities and Tackling Poverty Portfolio

14:00 **John Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

*7. Pa gyllid ychwanegol y mae'r Gweinidog yn ei ddyrannu i'r portffolio cymunedau a threchu tlodi i ariannu'r trydydd sector? OAQ(4)0631(FIN)*

*7. What additional funding is the Minister allocating to the Communities and Tackling Poverty portfolio to fund the third sector? OAQ(4)0631(FIN)*

14:01 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Despite the difficult financial context £6.7 million is being made available from within the community and tackling poverty main expenditure group in 2015-16 to support third sector infrastructure.

Er gwaethaf y cyd-destun ariannol anodd darperir £6.7 miliwn o'r prif grŵp gwariant cymunedau a threchu tlodi yn 2015-16 i gefnogi seilwaith y trydydd sector.

14:01 **John Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Minister, short-term funding has long been a concern of the third sector because of the problems it gives rise to with regard to lack of adequate stability and certainty and staff retention problems. I know we've made progress towards longer term funding in recent times, Minister, but there's a great deal of concern because of the current difficulties for the public finances that there may be some slippage away from that progress. Indeed, we may not see further progress towards that very necessary longer term funding. I wonder if there's anything you can say as Minister to give comfort to the third sector at the current time?

Weinidog, mae cyllid byrdymor wedi bod yn bryder i'r trydydd sector ers amser oherwydd y problemau y mae'n eu hachosi mewn perthynas â diffyg sefydlogrwydd a sicrwydd digonol, a phroblemau gyda chadw staff. Rwy'n gwybod ein bod wedi gwneud cynnydd tuag at sicrhau cyllid tymor hwy yn ddiweddar, Weinidog, ond mae llawer iawn o bryder oherwydd yr anawsterau presennol o ran cyllid cyhoeddus y gallai'r cynnydd hwnnw fod wedi arafu ychydig. Yn wir, efallai na welwn ragor o gynnydd tuag at y cyllid tymor hwy angenrheidiol hwn. Tybed a oes unrhyw beth y gallwch ei ddweud fel Gweinidog i roi cysur i'r trydydd sector ar hyn o bryd?

14:01 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Well, I am meeting with the third sector shortly, as I always do prior to budget setting. The Welsh Government's committed to work towards longer term funding for the third sector and to very clearly set out our 2014 third sector scheme. But I would say, John Griffiths, that the lateness of the spending review this year, the need to provide our partners with clarity for 2016-17, and the fact that this is the last year, of course, of the current Assembly in terms of the budget I'm announcing on 8 December, will be challenging.

Wel, rwy'n cyfarfod â'r trydydd sector cyn bo hir, fel y gwnaf bob amser cyn gosod y gyllideb. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwmo i weithio tuag at gyllid tymor hwy ar gyfer y trydydd sector ac i nodi ein cynllun 2014 ar gyfer y trydydd sector yn glir iawn. Ond fe ddywedwn i, John Griffiths, o ran y gyllideb rwy'n ei chyhoeddi ar 8 Rhagfyr, y bydd y ffaith fod yr adolygiad o wariant mor hwyr eleni, a'r angen i ddarparu eglurder i'n partneriaid ar gyfer 2016-17, yn ogystal â'r ffaith mai dyma flwyddyn olaf y Cynulliad presennol, yn heriol wrth gwrs.

14:02 **Mohammad Asghar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Minister, the National Citizen Service in England aims to prepare teenagers for work through teambuilding activities and community projects run by the third sector. A pilot scheme on introducing such a scheme in Wales began in 2014. What discussions has the Minister had with the Minister for Communities and Tackling Poverty on funding a national citizen service in Wales, please?

Weinidog, nod y Gwasanaeth Dinasyddion Cenedlaethol yn Lloegr yw paratoi'r glasoed ar gyfer gwaith drwy weithgareddau adeiladu tîm a phrosiectau cymunedol dan arweiniad y trydydd sector. Dechreuodd cynllun peilot ar gyflwyno cynllun o'r fath yng Nghymru yn 2014. Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi ar ariannu gwasanaeth dinasyddion cenedlaethol yng Nghymru?

14:03 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

This is something that you will have to follow up, I'm sure, with the Minister for Communities and Tackling Poverty. It is an important pilot, but I would also say that we have got a number of schemes in Wales, particularly, I would say, Jobs Growth Wales, which, of course, is preparing and enabling young people to work and have those opportunities.

Dyma rywbeth y bydd yn rhaid i chi fynd ar ei drywydd gyda'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi, rwy'n siŵr. Mae'n gynllun peilot pwysig, ond rydym wedi cael nifer o gynlluniau yng Nghymru, yn enwedig Twf Swyddi Cymru, ddywedwn i, sydd wrth gwrs yn paratoi ac yn galluogi pobl ifanc i weithio a chael y cyfleoedd hynny.

## Cynlluniau a Ariennir gan yr UE

## EU-funded Programmes

14:03 **Sandy Mewies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

*8. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gynlluniau a ariennir gan yr UE yng ngogledd-ddwyrain Cymru? OAQ(4)0629(FIN)*

*8. Will the Minister make a statement on EU funded programmes in north-east Wales? OAQ(4)0629(FIN)*

14:03 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

The £325 million east Wales structural funds support growth and jobs in north-east Wales, such as the recently announced active inclusion fund for unemployed people aged over 25.

Mae cronfeydd strwythurol dwyrain Cymru gwerth £325 miliwn yn cefnogi twf a swyddi yng ngogledd-ddwyrain Cymru, megis y gronfa cynhwysiant gweithredol a gyhoeddwyd yn ddiweddar ar gyfer pobl ddi-waith dros 25 oed.

14:03 **Sandy Mewies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Thank you for that. As you said, the active inclusion fund has really been welcomed in my part of the world. Thanks to the scheme, long-term unemployed people aged over 25 will have the opportunity to learn new skills and, through work placements, will hopefully find a way back into full employment. That's something that they all look forward to. Minister, this is being done thanks to the support and funding from the EU. So, would you agree with me that this is yet another example of how Wales is benefiting from the EU, and a vote for a UK exit would damage the Welsh economy and the futures of many of our young people?

Diolch i chi am hynny. Fel y dywedoch, mae'r gronfa cynhwysiant gweithredol wedi cael ei groesawu'n gynnes yn fy rhan i o'r byd. Diolch i'r cynllun, bydd pobl dros 25 oed sy'n ddi-waith yn hirdymor yn cael cyfle i ddysgu sgiliau newydd a thrwy leoliadau gwaith, yn dod o hyd i waith amser llawn, gobeithio. Dyna rywbeth y maent i gyd yn edrych ymlaen ato. Weinidog, mae hyn yn cael ei wneud, diolch i gymorth a chyllid gan yr UE. Felly, a fydech yn cytuno bod hon yn enghraifft arall o'r ffordd y mae Cymru yn elwa o'r UE, a byddai pleidlais dros i'r DU adael yr UE yn niweidio economi Cymru a dyfodol llawer o'n pobl ifanc?

- 14:04 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Yes, I completely concur with that. I'm glad that the importance of our European funding, and the impact of that European funding, is being highlighted in my questions today. The recent announcement, of course, of the active inclusion fund, which, of course, supports young people, particularly across the whole of Wales, as well as the over-25s in terms of their opportunities, is crucial. It's a package of support worth £14.5 million of EU funds across the whole of Wales.
- Ydw, rwy'n cytuno'n llwyr â hynny. Rwy'n falch fod pwysigrwydd ein cyllid Ewropeaidd, ac effaith y cyllid Ewropeaidd hwnnw, yn cael sylw yn y cwestiynau heddiw. Mae'r cyhoeddiad am y gronfa cynhwysiant gweithredol yn ddiweddar, wrth gwrs, sy'n cefnogi pobl ifanc yn enwedig, ar draws Cymru gyfan, yn ogystal â rhai dros 25 oed o ran eu cyfleoedd, yn hanfodol. Mae'n becyn cymorth gwerth £14.5 miliwn o arian yr UE ar draws Cymru gyfan.
- 14:04 **Mark Isherwood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- As the European Commission has said, the third round of structural funding must be used exclusively by the Welsh Government for long-term, sustainable economic growth and jobs. Given that the active inclusion fund, funded with EU funds, which you referred to, does operate in Flintshire and Wrexham to improve the employability of disadvantaged people furthest from the labour market, how are you working with the Work Programme, which also works with the same cohort, to ensure that the schemes work together to complement, rather than replicate, the investment?
- Fel y mae'r Comisiwn Ewropeaidd wedi dweud, ni chaiff Llywodraeth Cymru ddefnyddio'r trydydd cylch o arian strwythurol at unrhyw ddiben heblaw twf economaidd hirdymor a chynaliadwy a swyddi. O ystyried bod y gronfa cynhwysiant gweithredol, a gyllidir ag arian yr UE, y cyfeiriwch ato, yn gweithredu yn Sir y Fflint a Wrecsam er mwyn gwella cyflogadwyedd y bobl ddifreintiedig sydd bellaf o'r farchnad lafur, sut rydych chi'n gweithio gyda'r Rhaglen Waith, sydd hefyd yn gweithio gyda'r un garfan o bobl, er mwyn sicrhau bod y cynlluniau'n gweithio gyda'i gilydd i ategu, yn hytrach nag ailadrodd, y buddsoddiad?
- 14:05 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- The importance of our active inclusion fund is that it does directly support those people who have become perhaps long-term unemployment due to factors, as you say, that can make them harder to reach, in terms of the job market: work-limiting health conditions, a lack of basic skills, work experience and welfare dependency. The Deputy Minister for Skills and Technology is liaising closely with the UK Government in terms of ways in which the Work Programme, of course, can dovetail into what we believe is the right way forward in terms of our active inclusion programmes.
- Mae ein cronfa cynhwysiant gweithredol yn bwysig am ei bod yn gymorth uniongyrchol i bobl sy'n ddi-waith yn hirdymor oherwydd ffactorau a allai eu gwneud yn anos eu cyrraedd, fel y dywedwch, o ran y farchnad swyddi: cyflyrau iechyd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio, diffyg sgiliau sylfaenol, profiad gwaith a dibyniaeth ar les. Mae'r Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg yn cydweithio'n agos â Llywodraeth y DU, wrth gwrs, ar ffyrdd y gall y Rhaglen Waith gydweddu â'r hyn y credwn yw'r ffordd iawn ymlaen o ran ein rhaglenni cynhwysiant gweithredol.
- 14:06 **Llyr Gruffydd** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Mae diwedd un cyfnod cynllun datblygu gwledig a dechrau cynllun datblygu newydd, wrth gwrs, wedi creu tipyn o ansicrwydd ac ansefydlogrwydd, er enghraifft i'r grŵp LEADER yng ngogledd-ddwyrain Cymru, sydd wedi ffeindio bod y cyfnod pontio hwnnw yn un anodd o safbwynt cynnal ei waith a'i staff ac yn y blaen. Mae rhywun yn cael yr argraff ein bod yn ffeindio ein hunain yn y twll yna bob tro yr ydym yn symud o un rhaglen i raglen arall. A gaf i ofyn felly: pa wersi mae'r Llywodraeth wedi'u dysgu o'r cyfnod pontio yna y tro yma, a hefyd beth y byddwch yn ei wneud yn y dyfodol i'n gwarchod rhag ffeindio ein hunain yn yr un sefyllfa eto?
- The end of one rural development plan and the start of a new rural development plan has caused some uncertainty, for example for the LEADER group in north-east Wales, which has found that that transition period is difficult in terms of maintaining their work and their staff and so on. One gets the impression that we find ourselves facing that problem each time we move from one programme to another. May I ask, therefore: what lessons has the Government learnt from that transition period this time, and also what will you do in future to save us from finding ourselves in the same position again?



14:06 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Of course, you draw particular attention to the rural development programme, but in terms of our structural funds, we were the first region, as part of a member state, to actually secure the approval for the new phase of funding. We have already spent a great deal of the funding to great benefit, in terms of the structural funds. In terms of transition from one to another, in terms of the rural development plan, I think the transition has been handled carefully, but of course we have been awaiting approval. But extensive consultation will get those programmes—indeed, all the local authorities were engaged in it—prepared for the next phase of RDP.

Wrth gwrs, rydych yn tynnu sylw yn arbennig at y rhaglen datblygu gwledig, ond o ran ein cronfeydd strwythurol, ni oedd y rhanbarth cyntaf mewn gwirionedd, fel rhan o aelod-wladwriaeth, i sicrhau cymeradwyaeth ar gyfer y cyfnod ariannu newydd. Rydym eisoes wedi gwario llawer iawn o'r arian er budd mawr, o ran y cronfeydd strwythurol. O ran trosglwyddo o un i'r llall, yn y cynllun datblygu gwledig, rwy'n meddwl bod y cyfnod pontio wedi'i ei drin yn ofalus, ond wrth gwrs rydym wedi bod yn aros am gymeradwyaeth. Ond bydd ymgynghori helaeth yn sicrhau bod y rhaglenni—yn wir, roedd yr holl awdurdodau lleol yn rhan o'r broses—wedi'u paratoi ar gyfer cam nesaf y Cynllun Datblygu Gwledig.

## Cynlluniau'r Gronfa Strwythurol Ewropeaidd

## European Structural Fund Schemes

14:07 **Keith Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

*9. A wnaiffy Gweinidog ddatganiad am gynlluniau Cronfa Strwythurol Ewropeaidd a gymeradwywyd yn ddiweddar yng ngorllewin Cymru? OAQ(4)0625(FIN)[W]*

*9. Will the Minister make a statement on the European Structural Funds' recently approved schemes in west Wales? OAQ(4)0625(FIN)[W]*

14:07 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Last month I visited Marine Power Systems Ltd, based in Swansea, to announce EU funds of £2 million for its WaveSub project, which will fund the testing of pioneering technology to harness energy from ocean waves.

Fis diwethaf fe wnes i ymweld â Marine Power Systems Ltd yn Abertawe i gyhoeddi cyllid o £2 filiwn gan yr Undeb Ewropeaidd i'r prosiect WaveSub. Bydd hwn yn ariannu'r gwaith o brofi technoleg arloesol i fanteisio ar egni tonnau'r môr.

14:08 **Keith Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Diolch. Llynedd, fe wnaeth Llywodraeth Cymru gyfrannu bron i £2 filiwn i gwmni Gestamp yn Llanelli, ac wedyn dyma'r cwmni—sydd a'i bencadlys yn Sbaen—yn cyfrannu bron i £9 miliwn i gael roler gwasgu newydd. Mae'r cwmni yn awr yn cynhyrchu rhannau ceir i Land Rover, Jaguar a Daimler, ac yn cynnal 500 o swyddi yn Llanelli. A ydych chi'n cytuno â mi, Weinidog, ei bod hi'n bwysig ein bod yn aros yn Ewrop er mwyn elwa ar fuddsoddiadau tebyg yn y dyfodol?

Thank you. Last year, the Welsh Government contributed almost £2 million to the Gestamp company in Llanelli and then the company, which has its headquarters in Spain, contributed around £9 million to put a new press in place. The company now produces components for Land Rover, Jaguar and Daimler, and supports 500 jobs in Llanelli. Do you agree with me, Minister, that it's important that we remain in Europe to benefit from similar investments in future?

14:08 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Yes, absolutely. That's a tremendous example of how businesses are benefiting from access to the single market—again, Wales's largest market in gross domestic product terms. Over 150,000 jobs in Wales depend on trade with the EU, and around 490 firms from other EU member states based in Wales employ over 54,000 people.

Ydw, yn llwyr. Dyna enghraifft wych o sut y mae busnesau yn elwa ar fynediad at y farchnad sengl—marchnad fwyaf Cymru, unwaith eto, o ran cynnyrch domestig gros. Mae dros 150,000 o swyddi yng Nghymru yn dibynnu ar fasnach â'r UE, ac mae tua 490 o gwmnïau o aelod-wladwriaethau eraill yr UE a leolwyd yng Nghymru yn cyflogi dros 54,000 o bobl.

## Trethi Newydd i Gymru

## New Welsh Taxes

14:08 **Nick Ramsay** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

*10. A wnaiffy Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygu trethi newydd i Gymru? OAQ(4)0628(FIN)*

*10. Will the Minister provide an update on the development of new Welsh taxes? OAQ(4)0628(FIN)*

14:09 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

My priority is to design the new land transaction tax and landfill disposals tax ensuring that we have robust arrangements for collecting and managing those taxes. Any new Welsh taxes will be a matter for the next Welsh Government.

Fy mlaenoriaeth yw cynllunio'r dreth trafodiadau tir a'r dreth gwarediadau tirlenwi newydd sy'n sicrhau bod gennym drefniadau cadarn ar gyfer casglu a rheoli'r trethi hynny. Bydd unrhyw drethi newydd yng Nghymru yn fater i Lywodraeth nesaf Cymru.

14:09 **Nick Ramsay** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Thank you, Minister, for that answer. It has become apparent, I'm sure you'll agree, in committee sessions that we have had in the Finance Committee that the successful operation of the new Welsh tax regime is closely linked to data—will be closely linked to data, or, in too many cases, the lack of it, not just in terms of the amount raised, but the economic impact of even subtle tax changes. Have you had any discussions with HMRC and, indeed, the Office for Budget Responsibility about the Wales-specific data that organisations like them hold, and how do you plan to bolster what data are available?

Diolch am eich ateb, Weinidog. Rwy'n siwr y byddwch yn cytuno ei bod wedi dod yn amlwg mewn sesiynau pwyllgor a gawsom yn y Pwyllgor Cyllid bod gweithrediad llwyddiannus y gyfundrefn dreth Gymreig newydd yn gysylltiedig iawn â data—y bydd yn gysylltiedig iawn â data, neu mewn gormod o achosion, y diffyg data, nid yn unig o ran y swm a godir, ond ar effaith economaidd newidiadau i drethi, hyd yn oed newidiadau cynnil. A ydych wedi cael unrhyw drafodaethau gyda CThEM ac yn wir, y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol am y data penodol am Gymru sydd gan sefydliadau fel y rhain, a sut rydych yn bwriadu cryfhau'r data sydd ar gael?

14:09 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Well, Nick Ramsay is absolutely right in terms of the importance of data as we move into taking responsibility for Welsh taxes. Of course, the Office for Budget Responsibility is the key source of intelligence on this, and I know that not only I and my officials, but also, of course, the Finance Committee have had the opportunity to meet OBR. And of course, this is about us gaining those new skills and capabilities in terms of forecasting and modelling, as well as tax administration.

Wel, mae Nick Ramsay yn llygad ei lle ynghylch pwysigrwydd data wrth i ni gamu ymlaen i ysgwyddo cyfrifoldeb dros drethi yng Nghymru. Wrth gwrs, y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yw'r ffynhonnell gwybodaeth allweddol yn hyn o beth, a gwn fod fy swyddogion, a'r Pwyllgor Cyllid hefyd wrth gwrs, wedi cael cyfle i gyfarfod â'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol. Ac wrth gwrs, mae hyn yn ymwneud â ni'n meithrin sgiliau a galluoedd newydd o ran rhagfynegi a modelu, yn ogystal â gweinyddu treth.

## Fformiwla Barnett

## The Barnett Formula

14:10 **Janet Finch-Saunders** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

*11. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ddiwygio fformiwla Barnett? OAQ(4)0635(FIN)*

*11. Will the Minister make a statement on reform of the Barnett formula? OAQ(4)0635(FIN)*

14:10 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

In line with the Welsh Government's expectations to secure fair funding for Wales, the UK Government has committed to establishing a Barnett floor alongside the spending review.

Yn unol â disgwyliadau Llywodraeth Cymru i sicrhau ariannu teg i Gymru, mae Llywodraeth y DU wedi ymrwymo i sefydlu cyllid gwaelodol Barnett ochr yn ochr â'r adolygiad o wariant.

14:10 **Janet Finch-Saunders** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Thank you. Indeed, yes, on 10 November, the Parliamentary Under-Secretary of State for Wales said:

'this Government are absolutely committed to introducing the funding floor as stated in the...agreement',

and that they had said that before the election:

'We will introduce it as part of and alongside the comprehensive spending review.'

Will you join me in welcoming the introduction of this funding floor?

Diolch. Yn wir, do, ar 10 Tachwedd, dywedodd Is-Ysgrifennydd Gwladol Cymru:

'this Government are absolutely committed to introducing the funding floor as stated in the...agreement',

a'u bod wedi dweud y byddent, cyn yr etholiad:

'will introduce it as part of and alongside the comprehensive spending review.'

A wnewch chi ategu fy nghroeso i'r cyllid gwaelodol hwn?

14:11 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

We have yet to actually hear the outcome of those discussions. I'm very encouraged by what the Member says. I remain in close contact with the Chief Secretary to the Treasury and the Secretary of State for Wales, pressing our position, and I'm very hopeful that the two Governments can reach agreement on this important issue in the remaining time available.

Rydym eto i glywed canlyniad y trafodaethau hynny mewn gwirionedd. Cefais fy nghalonogi'n fawr gan yr hyn y mae'r Aelod yn ei ddweud. Rwy'n dal mewn cysylltiad agos â Phrif Ysgrifennydd y Trysorlys ac Ysgrifennydd Gwladol Cymru, yn pwysleisio ein safbwynt, ac rwy'n obeithiol iawn y gall y ddwy Lywodraeth ddod i gytundeb ar y mater pwysig hwn yn yr amser sydd ar ôl.

## Y Portffolio Gwasanaethau Cyhoeddus

## The Public Services Portfolio

14:11 **Lynne Neagle** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

*12. A wnaiff y Gweinidog amlinellu pa drafodaethau y mae hi wedi'u cael yn ddiweddar ynghylch y dyraniad cyllidebol i'r portffolio gwasanaethau cyhoeddus? OAQ(4)0634(FIN)*

*12. Will the Minister outline what discussions she has had recently regarding the budget allocation to the Public Services portfolio? OAQ(4)0634(FIN)*

14:11 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

I have regular discussions at Cabinet and with individual Ministers about our portfolio budgets.

Byddaf yn cael trafodaethau rheolaidd yn y Cabinet a chyda Gweinidogion unigol am gyllidebau ein portffolios.

14:11 **Lynne Neagle** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

Thank you, Minister. I share the views expressed earlier by Julie Morgan about the impact of the forthcoming comprehensive spending review on local government funding in Wales. I very much welcome your recognition this afternoon that the budgets for health and social care are intrinsically linked, but I know from my own experience, locally, that social care budgets are coming under increasing pressure. What further assurances can you give this afternoon, Minister, that you will do your utmost to protect local government and, in particular, social care funding in the forthcoming Welsh budget?

Diolch yn fawr, Weinidog. Rwy'n rhannu'r farn a fynegydd yn gynharach gan Julie Morgan am effaith yr adolygiad cynhwysfawr o wariant sydd ar y ffordd ar gyllid llywodraeth leol yng Nghymru. Rwy'n croesawu'n fawr iawn eich cydnabyddiaeth y prynhawn yma fod y cyllidebau ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol yn gynhenid gysylltiedig, ond rwy'n gwybod o fy mhrofiad fy hun, yn lleol, fod cyllidebau gofal cymdeithasol yn dod o dan bwysau cynyddol. Pa sicrwydd pellach y gallwch ei roi y prynhawn yma, Weinidog, y byddwch yn gwneud eich gorau glas i amddiffyn llywodraeth leol a chyllid gofal cymdeithasol yn benodol, yn y gyllideb sydd i ddod ar gyfer Cymru?

14:12 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

My commitment to that is very clear. I've already made it this afternoon, but I also think that the analysis in the public expenditure statistical analyses last week, which showed that we are now spending 7 per cent more on health and combined health and social care than in England, is indicative and a testament to my commitment to that objective.

Mae fy ymrwymiad i hynny yn glir iawn. Rwyf eisoes wedi'i ddatgan y prynhawn yma, ond rwyf hefyd yn meddwl bod y dadansoddiadau ystadegol o wariant cyhoeddus yr wythnos diwethaf, a ddangosai ein bod bellach yn gwario 7 y cant yn fwy na Lloegr ar iechyd, ac iechyd a gofal cymdeithasol wedi'u cyfuno, yn arwydd ac yn dystiolaeth o fy ymrwymiad i'r amcan hwnnw.

## Y Portffolio Cyfoeth Naturiol

## Natural Resources Portfolio

14:12 **Janet Haworth** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

*13. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddyraniadau i'r portffolio cyfoeth naturiol yn y dyfodol? OAQ(4)0626(FIN)*

*13. Will the Minister make a statement on the future allocations to the Natural Resources portfolio? OAQ(4)0626(FIN)*

14:12 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

I will set out future spending plans for the natural resources portfolio when I publish the draft budget for 2016-17 on 8 December.

Byddaf yn nodi cynlluniau gwariant ar gyfer y dyfodol y portffolio cyfoeth naturiol pan fyddaf yn cyhoeddi'r gyllideb ddrafft ar gyfer 2016-17 ar 8 Rhagfyr.

14:13	<p><b>Janet Haworth</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Thank you, Minister, but it is becoming clear to the environment committee that this new Bill will impose significant duties on, for instance, Natural Resources Wales. Are you content that NRW will be adequately resourced to discharge its duties in relation to, for example, the preparation of area statements and the timely progress of licence applications for commercial marine activities and water extraction, for instance for small-scale hydropower generation? We hear complaints about the timeliness of the progress of these things all the time in our committee.</p>	<p>Diolch i chi, Weinidog, ond mae'n dod yn amlwg i'r pwyllgor amgylchedd y bydd y Bil newydd yn gosod dyletswyddau sylweddol ar Cyfoeth Naturiol Cymru, er enghraifft. A ydych yn fodlon y bydd CNC yn cael digon o adnoddau i gyflawni ei ddyletswyddau sy'n ymwneud, er enghraifft, â pharatoi datganiadau ardal a chynnydd amserol ceisiadau am drwyddedau ar gyfer gweithgareddau morol masnachol a thynnu dŵr, megis ar gyfer cynhyrchu ynni dŵr ar raddfa fach? Clywn gwynion am yr amser y mae'n cymryd i gyflawni'r pethau hyn drwy'r amser yn ein pwyllgor.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
14:13	<p><b>Jane Hutt</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Well, I'm very clear: we don't know our settlement until next week, until 25 November. But, of course, we know that, in terms of our overall settlement, we'll allocate our budget according to our priorities, and that includes the Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015.</p>	<p>Wel, rwy'n dweud yn glir iawn: ni fyddwn yn gwybod beth fydd ein setliad tan yr wythnos nesaf, tan 25 o Dachwedd. Ond wrth gwrs, o ran ein setliad cyffredinol, gwyddom y byddwn yn dyrannu ein cyllideb yn ôl ein blaenoriaethau, ac mae hynny'n cynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
<b>Cyfleoedd Cyflogaeth yng Nghwm Cynon</b>		<b>Employment Opportunities in the Cynon Valley</b>	
14:14	<p><b>Christine Chapman</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p><i>14. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am sut y defnyddir cronfeydd strwythurol Ewropeaidd i wella cyfleoedd cyflogaeth yng Nghwm Cynon? OAQ(4)0622(FIN)</i></p>	<p><i>14. Will the Minister make a statement on how European Structural Funds are being used to improve employment opportunities in the Cynon Valley? OAQ(4)0622(FIN)</i></p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
14:14	<p><b>Jane Hutt</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Employment and training opportunities for people living in the Cynon Valley are being supported through multimillion pound EU funding schemes, including communities for work, apprenticeships, traineeships and active inclusion.</p>	<p>Cefnogir cyflogaeth a chyfleoedd hyfforddi i bobl sy'n byw yng Nghwm Cynon drwy gynlluniau ariannu o'r UE sy'n werth miliynau o bunnoedd, gan gynnwys cymunedau am waith, prentisiaethau, hyfforddeiaethau a chynhwysiant gweithredol.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
14:14	<p><b>Christine Chapman</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Thank you, Minister. Well, the spending rounds for the ESF-funded active inclusion fund relating to Cynon Valley are due to take place next year, and these should help improve employment opportunities for over-25s in my constituency. The cross-party group on women in the economy has taken evidence on the underutilisation of women's skills, pay differentials, and the impact of caring responsibilities. How does the Minister think European-funded project such as these can contribute to enable us to overcome the barrier preventing the full contribution of women to the economy of Cynon Valley and Wales in general?</p>	<p>Diolch yn fawr, Weinidog. Wel, mae'r cylchoedd gwariant ar gyfer y gronfa cynhwysiant gweithredol sy'n ymwneud â Chwm Cynon a ariennir gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop i fod i ddigwydd y flwyddyn nesaf, a dylai'r rhain helpu i wella cyfleoedd cyflogaeth i bobl dros 25 oed yn fy etholaeth. Mae'r grŵp trawsbleidiol ar fenywod yn yr economi wedi clywed tystiolaeth ar y tanddefnydd o sgiliau menywod, gwahaniaethau cyflog, ac effaith cyfrifoldebau gofal. Sut y mae'r Gweinidog yn meddwl y gall prosiectau a ariennir gan Ewrop fel y rhain gyfrannu i'n galluogi i oresgyn y rhwystr sy'n atal cyfraniad llawn menywod i economi Cwm Cynon a Chymru yn gyffredinol?</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
14:15	<p><b>Jane Hutt</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Well, not only will the active inclusion fund make that contribution, but I will also say that the EU-funded Chwarae Teg Agile Nation 2 project will address gender imbalance in the workplace.</p>	<p>Wel, bydd y gronfa cynhwysiant gweithredol nid yn unig yn gwneud y cyfraniad hwnnw, ond fe ddywedaf hefyd y bydd prosiect Cenedl Hyblyg 2 Chwarae Teg a ariennir gan yr UE yn mynd i'r afael â'r anghydbwysedd rhwng y rhywiâu yn y gweithle.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
14:15	<p><b>Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Thank you, Minister.</p>	<p>Diolch yn fawr, Weinidog.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>

## 2. Cwestiynau i'r Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus

Mae [R] yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant. Mae [W] yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## 2. Questions to the Minister for Public Services

[R] signifies the Member has declared an interest. [W] signifies that the question was tabled in Welsh.

14:15	<b>Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> Item 2, questions to the Minister for Public Services.  Cwestiwn 1, Aled Roberts.	Eitem 2, cwestiynau i'r Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus.  Question 1, Aled Roberts.	<a href="#">Senedd.tv</a> <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
-------	---	--	--

### Cyllidebau Heddlu

### Police Funding

14:15	<b>Aled Roberts</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> <i>1. Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o doriadau i gyllidebau heddlu? OAQ(4)647(PS)[W]</i>	<i>1. What assessment has the Minister made of the effect of cuts to police funding on public safety in Wales? OAQ(4)647(PS)[W]</i>	<a href="#">Senedd.tv</a> <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
-------	---	---	--

14:15	<b>Leighton Andrews</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> <i>Y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus / The Minister for Public Services</i> Nid yw plismona yn fater sydd wedi'i ddatganoli. Mae'n glir, fel y mae prif gwnstabl gogledd Cymru wedi dweud, fod toriadau pellach i gyllid yr heddlu yn mynd i gael effaith ar blismona gwethredol.	Policing is a non-devolved matter. It is clear, as the chief constable of north Wales has said, that further cuts to police funding will have an impact on operational policing.	<a href="#">Senedd.tv</a> <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
-------	--	--	--

14:15	<b>Aled Roberts</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> Rwy'n siŵr ein bod i gyd yn derbyn hynny. Wrth gwrs, mi roedd yna raglen gan Lywodraeth Cymru ynglŷn â chael heddlu ategol i lenwi bylchau o fewn y rheng flaen. A ydych yn addo i ni heddiw fod yr arian yna yn ddiogel, wrth ystyried wrth gwrs fod yna ganlyniadau a goblygiadau o ran penderfyniadau sy'n cael eu gwneud yn Llundain ar gyfer yr arian yr ydych yn ei dderbyn fel Llywodraeth?	I'm sure we'd all accept that. Of course, there was a Welsh Government programme on having support officers to fill gaps in the front line. Can you give us a pledge today that that funding has been safeguarded, given of course that there will be implications in terms of decisions taken in London for the funding that you as a Government receive?	<a href="#">Senedd.tv</a> <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
-------	---	--	--

14:16	<b>Leighton Andrews</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> Well, let's be clear. Our pledge in our 2011 manifesto, which we carried forward, was to deliver 500 more police community support officers than would otherwise have been available in Wales. We met that pledge in October 2013. The funding has been safeguarded and has been committed going forward.	Wel, gadewch i ni fod yn glir. Ein haddewid yn ein manifesto yn 2011, a fwrwyd ymlaen gennym, oedd cyflwyno 500 yn rhagor o swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu nag a fyddai wedi bod ar gael fel arall yng Nghymru. Cyflawnwyd yr addewid hwnnw gennym ym mis Hydref 2013. Mae'r arian wedi cael ei ddiogelu ac wedi'i ymrwymo ar gyfer y dyfodol.	<a href="#">Senedd.tv</a> <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
-------	--	--	--

14:16 **Mark Isherwood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

The First Minister has previously referred to the proposed devolution of policing to Manchester, for example, to the proposed mayor, but of course those are only the powers of police and crime commissioners, and we already have devolution to them in Wales. What advice have you sought from the Police and Crime Commissioner for Dyfed-Powys, who says that, thanks to UK Government reforms and the hard work of officers, Dyfed-Powys has 30 more officers, 100,000 hours of extra front-line time, and is on course to save £8.8 million by 2016, with more support for victims of domestic abuse, a crackdown on small crimes and a fall in anti-social behaviour?

Cyfeiriodd y Prif Weinidog o'r blaen at ddatganoli arfaethedig plismona ym Manceinion, er enghraifft, i'r maer arfaethedig, ond wrth gwrs pwerau'r comisiynwyr heddlu a throseddu yn unig yw'r rheini, ac maent eisoes wedi'u datganoli iddynt yng Nghymru. Pa gyngor rydych chi wedi gofyn amdano gan Gomisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys, sy'n dweud bod Dyfed-Powys wedi cael 30 yn rhagor o swyddogion a 100,000 awr o amser rheng flaen ychwanegol, ac ar y trywydd i arbed £8.8 miliwn erbyn 2016, gyda mwy o gefnogaeth i ddioddefwyr cam-drin yn y cartref, ymgyrch i gyfyngu ar droseddau bach a gostyngiad yn yr achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol, diolch i ddiwygiadau Llywodraeth y DU a gwaith caled y swyddogion?

14:17 **Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

I met all the police and crime commissioners in Wales in the last couple of weeks, along with the chief constables, where I discussed a number of issues and received views from them. It was interesting that the police and crime commissioner of the region the Member refers to had one particular view, and other police and crime commissioners had differing views on a number of subjects. Let me make it clear: if policing had been devolved to Wales, there would be no police and crime commissioners in Wales, and there would be no elections for police and crime commissioners next May.

Cyfarfûm â phob un o gomisiynwyr heddlu a throseddu Cymru yn ystod yr ychydig wythnosau diwethaf, ynghyd â'r prif gwnstablaid, i drafod nifer o faterion a chael sylwadau ganddynt. Roedd yn ddi-ddorol fod gan gomisiynydd heddlu a throseddu'r rhanbarth y cyfeiriodd yr Aelod ato farn benodol, a bod comisiynwyr heddlu a throseddu eraill â barn wahanol ar nifer o bynciau. Gadewch i mi ddweud yn glir: pe bai plismona wedi'i ddatganoli i Gymru, ni fyddai unrhyw gomisiynwyr heddlu a throseddu yng Nghymru, ac ni fyddai unrhyw etholiadau ar gyfer ethol comisiynwyr heddlu a throseddu fis Mai nesaf.

14:18 **Elin Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Weinidog, mae swyddogion cymorth yr heddlu yn chwarae rôl ganolog yn cefnogi'r heddlu. Fel rŷch chi wedi sôn eisoes, mae'ch Llywodraeth chi yn ariannu cost nifer o'r rhain. Mae tâl ac amodau gwaith y swyddogion yma yn cael eu hailstrwythuro ar hyn o bryd gan Lywodraeth San Steffan, a gall hynny leihau incwm y swyddogion cymorth yma a newid eu hamodau gwaith yn sylweddol. Pa drafodaethau a ydych yn eu cael gyda Llywodraeth San Steffan i ddiogelu amodau ac incwm y PCSOs yma yng Nghymru?

Minister, PCSOs do play a central role in supporting policing. As you've already mentioned, your Government funds many of these. The pay and working conditions of these officers are being restructured at present by the Westminster Government, and that could reduce the pay to these support officers and change their working conditions substantially. What discussions are you having with the Westminster Government to safeguard the pay and conditions of these PCSOs in Wales?

14:18 **Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Obviously, the pay and conditions for PCSOs are determined by the UK Government, and that includes the pay and terms and conditions for those that have been funded by the Welsh Government. But, there has been a consultation on the future of police support, which has been carried out by the UK Government, and we have made representations in that context.

Yn amlwg, caiff cyflogau ac amodau swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu eu pennu gan Lywodraeth y DU, ac mae hynny'n cynnwys cyflogau a thelerau ac amodau ar gyfer y rhai a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru. Ond cafwyd ymgyngoriad ar ddyfodol swyddogion cymorth yr heddlu, a gyflawnwyd gan Lywodraeth y DU, ac rydym wedi cyflwyno sylwadau yn y cyd-destun hwnnw.

## Ymgynghoriadau gan Gyrrff Cyhoeddus

## Consultations by Public Bodies

14:18 **Llyr Gruffydd** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

2. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ymgynghoriadau a gynhaliwyd gan gyrrff cyhoeddus? OAQ(4)0645(P5)[W]

2. Will the Minister make a statement on consultations undertaken by public bodies? OAQ(4)0645(P5)[W]

14:19 **Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Mae ymgysylltu effeithiol â'r cyhoedd yn allweddol i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus yn llwyddiannus. Yn 2011, rhoddodd Llywodraeth Cymru ei chymeradwyaeth lawn i'r egwyddorion cenedlaethol ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd. Mae'r egwyddorion hyn yn berthnasol i bob math o ymgysylltu, gan gynnwys ymgynghoriadau cyhoeddus ffurfiol. Rydym yn gobeithio y bydd cyrff cyhoeddus yng Nghymru yn glynu at yr egwyddorion hyn ac yn bodloni'r gofynion statudol.

Effective public engagement is key in successfully delivering public services. In 2011, Welsh Government formally endorsed the national principles for public engagement that apply to all forms of engagement, including formal public consultations. We hope all public bodies in Wales adhere to these principles and meet relevant statutory requirements.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

14:19 **Llyr Gruffydd** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch i chi am eich ateb, oherwydd mae'r toriadau, wrth gwrs, yn golygu bod yna lawer iawn o ymgynghori yn digwydd ar hyn o bryd ar ganoli gwasanaethau, lleihau gwasanaethau a chau gwasanaethau yn llwyr mewn rhai achosion. Ond, wrth gwrs, mae llawer o'r ymgynghori yna yn digwydd ar-lein gyda'r dogfennau ymgynghorol a ffurflenni ymateb, ac yn y blaen, ar gael ar-lein yn unig. Yr eironi yn y sefyllfa yma yw, wrth gwrs, mai'r bobl, yn aml iawn, sy'n cael eu heffeithio fwyaf gan rai o'r toriadau yw'r bobl sydd yn lleiaf abl i gael mynediad at y gwasanaethau ar-lein hynny. Er enghraifft, mae gwaith gan ONS yn dangos bod rhyw dri chwarter o bobl dros 75 oed ddim erioed wedi bod ar-lein a bod dros chwarter o bobl anabl ddim wedi bod ar-lein. A gaf i ofyn, felly, sut ydych chi yn sicrhau bod y bobl hynny'n chwarae rôl lawn, a pha neges y byddech chi'n rhoi i'r sector gyhoeddus wrth ymwneud ag ymgynghoriadau fel hyn i sicrhau bod pob grŵp yn cael cyfrannu?

Thank you for that response, because the cuts do mean, of course, that there's a great deal of consultation ongoing at present on centralising services, reducing services and closing some services altogether. But, of course, much of that consultation happens online, with consultation documents and response forms and so on available online only. The irony of the situation is, of course, that the people most affected by some of these cuts are the people who are least able to access those online services. For example, there's work by ONS that demonstrates that some three quarters of people over 75 have never been online, and over a quarter of disabled people have never been online. Can I ask you, therefore, how you ensure that those people do play a full part, and what message would you give to the public sector as they deal with consultations such as this to ensure that all groups can contribute?

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

14:20 **Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, I think it is incumbent on local authorities to find ways of ensuring that any public consultations are adequately publicised, certainly online, and there will be an increasing movement to online consultation, I'm sure. We know that many people these days access online materials not only, obviously, through desktop or laptop computers, but on tablets and on smartphones, and so on. But, there are going to be groups—and the elderly population may be a particular group, as the Member has said—who need to be reached through other means. It's obviously important that local authorities use all means at their disposal, as are set out in the national principles for public engagement.

Wel, rwy'n credu ei bod yn ddyletswydd ar awdurdodau lleol i ddod o hyd i ffyrdd o sicrhau bod unrhyw ymgynghoriadau cyhoeddus yn cael digon o hysbysrwydd, ar-lein yn sicr, a bydd mwyfwy o symud at ymgynghori ar-lein, rwy'n siŵr. Gwyddom fod llawer o bobl y dyddiau hyn yn dod o hyd i ddeunyddiau ar-lein nid yn unig drwy gyfrifiaduron desg neu liniaduron, ond ar dabledi ac ar ffonau clyfar, ac yn y blaen. Ond bydd yna grwpiau—ac efallai bod y boblogaeth hŷn yn grŵp penodol, fel y soniodd yr Aelod—sydd angen eu cyrraedd drwy ddulliau eraill. Mae'n amlwg yn bwysig i awdurdodau lleol ddefnyddio pob dull sydd ar gael iddynt, fel y nodwyd yn yr egwyddorion cenedlaethol ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

14:21 **David Rees** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, your previous answer has indicated clearly that you agree with me that consultation is important. It's a two-way process, a dialogue, where views are sought and, more importantly, responded to, and it's not simply a tick-box exercise, which unfortunately some people deem it to be. I recently attended a consultation in my own ward on the closure of a community centre, where that dialogue did take place, but unfortunately the officer seemed to indicate that he wasn't going to respond to the actual discussions and come back to the community for further consultation. What guidance is given by the Welsh Government to ensure that consultation is not simply perceived as a tick-box exercise, but is actually meaningful and that, when there's a response that can take the discussion further, that response is actually met?

Weinidog, mae eich ateb blaenorol wedi dangos yn glir eich bod yn cytuno â mi bod ymgynghori'n bwysig. Mae'n broses ddwy ffordd, deialog, lle gofynnir am farn, ac yn bwysicach, ymatebir i'r farn honno, ac nid ymarferiad ticio blychau syml ydyw, fel y mae rhai pobl yn ei gredu, yn anffodus. Yn ddiweddar bŵm mewn ymgynghoriad yn fy ward hun ar gau'r ganolfan gymunedol lle roedd y drafodaeth honno'n digwydd, ond yn anffodus roedd hi'n ymddangos fel pe bai'r swyddog yn dynodi nad oedd yn mynd i ymateb i'r trafodaethau a oedd yn mynd rhagddynt a dychwelyd at y gymuned i ymgynghori ymhellach. Pa ganllawiau a roddir gan Lywodraeth Cymru i sicrhau nad yw ymgynghoriad yn cael ei ystyried yn syml fel ymarfer ticio blychau, ond ei fod yn ystyrlon mewn gwirionedd, a phan geir ymateb a all symud y drafodaeth yn ei blaen, fod yr ymateb yn cael sylw go iawn?

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

14:22

**Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, my colleague the Member for Aberavon is right to raise this. Obviously, I can't comment on a specific individual case, but I do want to change the opportunities that members of the public have to engage with their local authorities when consultations arise. We outlined in the 'Reforming Local Government: Power to Local People' White Paper earlier this year that we wanted to give the public a right to be involved in the decision-making process, to have their views taken into account and to receive a response, and, indeed, a right to input to reviews by scrutiny committees. We want local authorities to co-operate with their local people, not simply to make decisions on their behalf.

Wel, mae fy nghyd-Aelod, yr Aelod dros Aberafan, yn iawn i grybwyll hyn. Yn amlwg, ni allaf roi sylwadau ar achos unigol penodol, ond rwyf eisiau newid y cyfleoedd i aelodau'r cyhoedd allu ymgysylltu â'u hawdurdodau lleol pan fydd ymgynghoriadau'n digwydd. Yn y Papur Gwyn, 'Diwygio Llywodraeth Leol: Grym i Bobl Leol' yn gynharach eleni, dywedasom ein bod am roi hawl i'r cyhoedd gymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau, i gael eu barn wedi'i hystyried ac i gael ymateb y cyhoedd, ac yn wir, hawl i gyfrannu at adolygiadau gan bwyllgorau craffu. Rydym am i awdurdodau lleol gydweithredu â'u pobl leol, nid gwneud penderfyniadau ar eu rhan yn unig.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

14:22

**Russell George** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, I appreciate your answer to Llyr, but of course, public bodies, Welsh Government and, indeed, local authorities—. You are encouraging local authorities to take a digital first approach. There are areas, of course, such as mid Wales, where rural broadband is very poor, mobile coverage is poor, so people can't access it on their smartphones, as you suggested. So, can I ask you what you can do to ensure that residents in those areas can have the same opportunity to respond to consultations in this regard as in other parts of Wales?

Weinidog, rwy'n gwerthfawrogi eich ateb i Llyr, ond wrth gwrs, mae cyrff cyhoeddus, Llywodraeth Cymru ac yn wir, awdurdodau addysg lleol—. Rydych yn annog awdurdodau lleol i gymryd dull digidol yn gyntaf. Ceir ardaloedd, wrth gwrs, megis canolbarth Cymru, lle y mae band eang gwledig yn wael iawn, ac mae'r ddarpariaeth symudol yn wael, felly ni all pobl ei weld ar eu ffonau clyfar, fel yr awgrymoch chi. Felly, a gaf fi ofyn i chi beth y gallwch ei wneud i sicrhau y gall trigolion yn yr ardaloedd hynny gael yr un cyfle â rhannau eraill o Gymru i ymateb i ymgynghoriadau o'r fath?

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

14:23

**Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Let's be clear: the Superfast Cymru broadband roll-out is one of the most successful broadband roll-outs in the UK, and it's delivering across the whole of Wales. I accept what the Member says in respect of mobile services in mid and west Wales, but I think it is important that local authorities, when planning consultations—as I said in answer to Llyr Gruffydd—look at all the routes that are available to them. But, increasingly, I think it is important that local authorities do adopt a digital first approach.

Gadewch i ni fod yn glir: mae cyflwyno band eang cyflym iawn Cymru yn un o'r rhaglenni cyflwyno band eang mwyaf llwyddiannus yn y DU, ac mae'n cyflawni ar draws Cymru gyfan. Rwy'n derbyn yr hyn y mae'r Aelod yn ei ddweud mewn perthynas â gwasanaethau symudol yng nghanolbarth a gorllewin Cymru, ond fel y dywedais wrth ateb Llyr Gruffydd, credaf ei bod yn bwysig i awdurdodau lleol edrych ar yr holl ddulliau sydd ar gael iddynt wrth gynllunio ymgynghoriadau. Ond yn gynyddol, rwy'n meddwl ei bod yn bwysig i awdurdodau lleol fabwysiadu dull digidol yn gyntaf.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

**Cwestiynau Heb Rybudd gan Lefarwyr y Pleidiau**

**Questions Without Notice from Party Spokespeople**

14:23

**Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I now call the party spokespeople to question the Minister, starting this week with the Welsh Conservatives' spokesperson, Janet Finch-Saunders.

Galwaf yn awr ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Gweinidog, gan ddechrau yr wythnos hon gyda llefarydd y Ceidwadwyr Cymreig, Janet Finch-Saunders.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)



14:24	<b>Janet Finch-Saunders</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> Diolch. In response to the Welsh Government consultation on the reform of local government, the 'Power to Local People' White Paper, many respondents called for more transparency and openness in local government. It is this need for transparency and openness I would like to ask you about today, Minister. Only three local authorities in Wales actually publish their responses to freedom of information requests online, despite such publication requiring minimal time and utilising existing resources. Could you comment, Minister, on why local authorities are failing in this role, and what you intend to do about it in any forthcoming legislation that you bring?	Diolch. Mewn ymateb i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar ddiwygio llywodraeth leol, y Papur Gwyn 'Grym i Bobl Leol', galwodd llawer o'r ymatebwyr am fwy o dryloywder ac agwedd agored ar ran llywodraeth leol. Rwyf am eich holi ynglŷn â'r angen hwn am dryloywder ac agwedd agored heddiw, Weinidog. Tri awdurdod lleol yng Nghymru yn unig mewn gwirionedd sy'n cyhoeddi eu hymatebion i geisiadau rhyddid gwybodaeth ar-lein, er gwaethaf y ffaith nad yw cyhoeddiad o'r fath yn galw am fawr iawn o amser a defnydd o adnoddau sydd eisoes ar gael. A allech chi roi sylwadau, Weinidog, ynglŷn â pham y mae awdurdodau lleol yn methu yn y rôl hon, a'r hyn rydych yn bwriadu ei wneud yn ei glych mewn unrhyw ddeddfwriaeth arfaethedig a gyflwynwch?	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
14:24	<b>Leighton Andrews</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> Well, it's interesting to have this question from the Conservatives, when the Conservative UK Government is actually considering how to clamp down on freedom of information access for members of the public.	Wel, mae'n ddiddorol cael y cwestiwn hwn gan y Ceidwadwyr, pan fo Llywodraeth Geidwadol y DU yn ystyried mewn gwirionedd sut i gyfyngu ar fynediad at rhyddid gwybodaeth i aelodau o'r cyhoedd.	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
14:24	<b>Janet Finch-Saunders</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> We're in Wales.	Yng Nghymru rydym ni.	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
14:24	<b>Leighton Andrews</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> I find that a very interesting proposition. Clearly, we want to see transparency in local government. We want to see freedom of information. Certainly, I would encourage all local authorities to make freedom of information requests available, as the Welsh Government does.	Rwy'n gweld hwnnw'n osodiad diddorol iawn. Yn amlwg, rydym am weld tryloywder mewn llywodraeth leol. Rydym am weld rhyddid gwybodaeth. Yn sicr, byddwn yn annog pob awdurdod lleol i sicrhau bod modd cyflwyno ceisiadau rhyddid gwybodaeth, fel y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud.	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
14:25	<b>Janet Finch-Saunders</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> I don't need to remind the Minister, surely, that we're here to scrutinise the actions of the Welsh Government. Despite technology being available and your Government's funding of a pilot scheme in Ynys Môn, at least five local authorities in Wales still do not stream full council meetings online—despite having had £40,000 per authority to do this. We welcome the progress that's been made in the area, but I would like to ask what your considerations of the outcome of this pilot scheme are and how you are working to ensure parity of transparency for all across Wales.	Nid oes angen i mi atgoffa'r Gweinidog ein bod yma i graffu ar weithredoedd Llywodraeth Cymru. Er bod y dechnoleg ar gael ac er bod eich Llywodraeth yn ariannu cynllun peilot yn Ynys Môn, mae yna o leiaf bum awdurdod lleol yng Nghymru o hyd nad ydynt yn ffrydio cyfarfodydd cyngor llawn ar-lein—er bod pob awdurdod wedi cael £40,000 i wneud hyn. Rydym yn croesawu'r cynnydd a wnaed yn y maes, ond hoffwn ofyn beth yw eich ystyriaethau o ganlyniad i'r cynllun peilot hwn a sut rydych yn gweithio i sicrhau yr un tryloywder ar gyfer pawb ledled Cymru.	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
14:25	<b>Leighton Andrews</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> Well, we made money available, obviously, to assist local authorities in making their council proceedings more transparent and enabling them to broadcast. We've made recommendations in respect of council websites. We've encouraged councils to ensure that social media can be used from council meetings. All of these steps are steps that the Welsh Government has taken to improve transparency and accountability.	Wel, rydym yn rhyddhau arian, yn amlwg, i gynorthwyo awdurdodau lleol i wneud trafodion eu cynghorau'n fwy tryloyw ac yn eu galluogi i'w darlledu. Rydym wedi gwneud argymhellion mewn perthynas â gwefannau cynghorau. Rydym wedi annog cynghorau i sicrhau y gellir defnyddio cyfryngau cymdeithasol o gyfarfodydd y cyngor. Mae pob un o'r camau hyn yn gamau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cymryd i wella tryloywder ac atebolrwydd.	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>

- 14:25 **Janet Finch-Saunders** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Finally, Minister, section 5 of the Local Government (Wales) Measure 2011—brought in by your Government—requires local authorities to make provision for councillors to publish annual reports. Yet, this year and last, an average of only 35 per cent of councillors are doing this, with no councillors whatsoever in Cardiff council producing a report for 2014-15. Now, too often, we all hear how you abrogate your responsibility and say, 'It's a matter for local authorities themselves'. This was a Measure that you brought in. So, Minister, what are you doing about local authorities? Do you not believe that we, as Assembly Members—? We actually respond to our electorate, we have surgeries and we have newsletters. This is a Measure you brought in. It is not being carried out. What are you going to do about it?
- Yn olaf, Weinidog, mae adran 5 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011—a gyflwynwyd gan eich Llywodraeth chi—yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ddarparu ar gyfer sicrhau bod cynghorwyr yn cyhoeddi adroddiadau blynyddol. Eto i gyd, eleni a'r llynedd, 35 y cant yn unig o gynghorwyr ar gyfartaledd oedd yn gwneud hyn, ac ni chynhyrnod yr un o gynghorwyr cyngor Caerdydd adroddiad ar gyfer 2014-15. Nawr, yn rhy aml, rydym i gyd yn clywed sut rydych yn esgeuluso eich cyfrifoldeb ac yn dweud, 'Mater i awdurdodau lleol eu hunain yw hyn'. Mesur a gyflwynwyd gennych chi yw hwn. Felly, Weinidog, beth rydych yn ei wneud ynglŷn â'r awdurdodau lleol? Onid ydych yn credu ein bod ni, fel Aelodau Cynulliad—? Rydym yn ymateb i'n hetholwyr, mae gennym gymhorthfeydd ac mae gennym gylchlythyrau. Dyma Fesur a gyflwynwyd gennych chi. Nid yw'n cael ei gyflawni. Beth rydych chi'n mynd i'w wneud am y peth?
- 14:27 **Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Well, I'm very glad that the Conservatives support the Measure that was brought in by the Welsh Labour Government to ensure greater transparency of the annual activities of local councillors. We have taken action to ensure that this does take place: I write to leaders to remind them of their obligations in respect of ensuring that local councillors do publish their annual reports, and of course there were further recommendations on this in the White Paper we published in February.
- Wel, rwy'n falch iawn fod y Ceidwadwyr yn cefnogi Mesur a gyflwynwyd gan Lywodraeth Lafur Cymru i sicrhau mwy o dryloywder yng ngweithgareddau blynyddol cynghorwyr lleol. Rydym wedi rhoi camau ar waith i sicrhau bod hyn yn digwydd: rwy'n ysgrifennu at arweinwyr i'w hatgoffa o'u rhwymedigaethau o ran sicrhau bod cynghorwyr lleol yn cyhoeddi eu hadroddiadau blynyddol, ac wrth gwrs, roedd argymhellion pellach ar hyn yn y Papur Gwyn a gyhoeddwyd gennym ym mis Chwefror.
- 14:27 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Now the Plaid Cymru spokesperson, Simon Thomas. Yn awr, llefarydd Plaid Cymru, Simon Thomas.
- 14:27 **Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Diolch, Ddirprwy Lywydd. Weinidog, mae'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid ar gyfer Cymru a Lloegr wedi cyhoeddi toriadau yn ystod y flwyddyn o £9 miliwn. Mae llawer o waith y bwrdd yn cael ei ddarparu yng Nghymru ar y cyd â Llywodraeth Cymru, a chi fel y Gweinidog sy'n gyfrifol. A fedrdech chi ddweud erbyn hyn faint fydd y toriad i'r timoedd cyfiawnder ieuencid yng Nghymru, a beth fydd effaith y toriad yng nghyllideb y bwrdd cyfiawnder ar waith y Llywodraeth eleni a hefyd yn y flwyddyn i ddod?
- Thank you, Deputy Presiding Officer. Minister, the Youth Justice Board for England and Wales has announced in-year cuts of £9 million. Much of the work of the board is provided in Wales jointly with the Welsh Government, and you are the Minister responsible. Can you now tell us what the cut will be for the youth justice teams in Wales, and what will the impact be of that cut in the budget of the justice board on the work of Government this year and next year?
- 14:28 **Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Let me start by saying that we made it very clear to the UK Government that we were opposed to the cuts that were being made in the budget for the youth justice board and I wrote to the Secretary of State for Justice outlining our concerns about that prior to his meeting with the chair of the youth justice board. The youth justice board has signalled to us that those cuts will have to take place. We are still working through the detail to see what that will mean in respect of specific youth offending teams. But, clearly, these are not decisions for us, as I know the Plaid Cymru spokesperson will understand. They are decisions for the youth justice board.
- Gadewch i mi ddechrau drwy ddweud ein bod yn datgan yn glir iawn wrth Lywodraeth y DU ein bod yn gwrthwynebu'r toriadau yn y gyllideb i'r bwrdd cyfiawnder ieuencid ac ysgrifennais at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder yn amlinellu ein pryderon ynghylch hynny cyn ei gyfarfod â chadeirydd y bwrdd cyfiawnder ieuencid. Mae'r bwrdd cyfiawnder ieuencid wedi awgrymu wrthym y bydd yn rhaid i'r toriadau hynny ddigwydd. Rydym yn dal i weithio drwy'r manylion i weld beth y bydd yn ei olygu mewn perthynas â thimau troseddwr ifanc penodol. Ond yn amlwg, nid penderfyniadau i ni yw'r rhain, fel y gwn y bydd llefarydd Plaid Cymru yn deall. Penderfyniadau ar gyfer y bwrdd cyfiawnder ieuencid ydynt.

14:28

**Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch, Weinidog, ond rwy'n gobeithio y byddwn yn deall cyn bo hir beth fydd effaith a swmp a sylwedd y toriad yng Nghymru, ac y byddwch efallai'n gallu gwneud datganiad ysgrifenedig i esbonio wrth y Cynulliad effaith hynny. Achos, os rhywbeth, mae'r bwrdd cyfiawnder ieuencid yng Nghymru wedi bod yn llwyddiant, heb unrhyw amheuaeth. Rydym wedi gweld, dros y ddegawd ddiwethaf, gostyngiad o 84 y cant o droseddwr tro cyntaf yng Nghymru, ac rydym wedi gweld gostyngiad yn y nifer o droseddwr sy'n mynd o dan glo, o dros 150 o bobl ifanc i 39 eleni. Mae gwaith y bwrdd cyfiawnder ieuencid yn gweithio, ac mae'n gweithio oherwydd ei fod yn gwneud gwaith ar y cyd â nifer o adrannau'r Llywodraeth ac awdurdodau lleol. Felly, yn y tymor hir, mae arbediad eleni neu'r flwyddyn nesaf yn mynd i gostio'n fwy i ni. Beth, felly, a ydych chi'n gallu'i wneud, y tu fewn i'r gwasanaethau rydych chi'n gyfrifol amdanynt, i drïo arbed y gwaith ac arfer da gan y bwrdd ieuencid?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Thank you, Minister, but I do hope that we will soon know what the impact of the cuts will be in Wales, and perhaps you could issue a written statement to explain to the Assembly the impact of that. Because, if anything, the youth justice board in Wales has been a success, without any doubt. We have seen over the past decade a reduction of 84 per cent in first-time offenders in Wales, and we have seen a reduction in the number of those who are in prison, and that's gone down from 150 young people to 39 this year. The work of the youth justice board is working and it works because it is working jointly with a number of Government departments as well as with local government. So, in the long term, savings this year or next year will cost us more. So, what therefore can you do within the services that you're responsible for to try and safeguard the good practice and work of the board?

14:29

**Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The Plaid Cymru spokesperson does my job for me, in a sense, by setting out the success of the work on youth justice that has taken place between the youth justice board and the Welsh Government over the last decade. I think, at the end of the day, it is for the UK Government to justify the cuts that it is making in the budget for the youth justice board. It is not for the Welsh Government to replace the funding of the youth justice board; that is a matter for the UK Government to justify. I think, obviously, we will look to see what we can do to ensure that Welsh Government services continue to work—and local government services, of course, continue to work—in co-operation with the youth justice board, even after the reductions in budget, but I don't think we are in a position to mitigate those cuts.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Mae llefarydd Plaid Cymru yn gwneud fy swydd ar fy rhan, ar ryw ystyr, drwy nodi llwyddiant y gwaith ar gyfiawnder ieuencid a wnaed rhwng y bwrdd cyfiawnder ieuencid a Llywodraeth Cymru dros y degawd diwethaf. Yn y pen draw, rwy'n credu mai mater i Lywodraeth y DU yw cyfiawnhau'r toriadau y mae'n eu gwneud yng nghyllideb y bwrdd cyfiawnder ieuencid. Nid mater i Lywodraeth Cymru yw adnewyddu cyllid y bwrdd cyfiawnder ieuencid; mater i Lywodraeth y DU yw cyfiawnhau hynny. Yn amlwg, rwy'n meddwl y byddwn yn edrych i weld beth y gallwn ei wneud i sicrhau bod gwasanaethau Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio—a bod gwasanaethau llywodraeth leol, wrth gwrs, yn parhau i weithio—mewn cydweithrediad â'r bwrdd cyfiawnder ieuencid, hyd yn oed ar ôl i'r gyllideb gael ei thorri, ond nid wyf yn credu ein bod mewn sefyllfa i liniaru'r toriadau hynny.

14:30

**Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I accept what the Minister says, that it's not the Welsh Government's job to pay for UK Government's responsibilities, but would he not accept that, if we do see these cuts go through, and a lack of provision and support, it could impact on Welsh services. A number of young people going into the youth justice system rising will, in turn, have an impact on our education provision, on our social services provision, and on the general wellbeing of our communities. That's not something, I'm sure, he wants to see, and I don't want to see it. There are features of the system in Wales that are unique to Wales and do well in Wales—support after justice is a new innovation in Wales. I was very concerned, reading the quality impact assessment produced by the UK Government, to see no reference at all to the Welsh language, and Welsh language education is something that's delivered and is supported through the youth justice system here in Wales. Isn't this a very clear indication that we'd be better off having youth justice devolved to the Welsh Government?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Rwy'n derbyn yr hyn y mae'r Gweinidog yn ei ddweud, nad gwaith Llywodraeth Cymru yw talu am gyfrifoldebau Llywodraeth y DU, ond oni fyddai'n derbyn y gallai effeithio ar wasanaethau Cymru os gwelwn y toriadau hyn yn cael eu cyflwyno, a diffyg darpariaeth a chefnogaeth. Bydd cynnydd yn nifer y bobl ifanc sy'n mynd i mewn i'r system cyfiawnder ieuencid yn ei dro yn effeithio ar ein darpariaeth addysg, ar ein darpariaeth gwasanaethau cymdeithasol, ac ar les cyffredinol ein cymunedau. Nid yw hynny'n rhywbeth y mae'n dymuno ei weld, rwy'n siŵr, ac nid oes arnaf fi eisiau ei weld. Ceir nodweddion o'r system yng Nghymru sy'n unigryw i Gymru ac sy'n gwneud yn dda yng Nghymru—mae cymorth ar ôl cyfiawnder yn beth newydd yng Nghymru. Roeddwn yn bryderus iawn, wrth ddarllen yr asesiad effaith o safon a gynhyrchwyd gan Lywodraeth y DU, i weld nad oes cyfeiriad o gwbl at y Gymraeg, ac mae addysg Gymraeg yn rhywbeth sy'n cael ei ddarparu a'i gefnogi drwy'r system cyfiawnder ieuencid yma yng Nghymru. Onid yw hyn yn arwydd clir iawn y byddem yn well ein byd o weld cyfiawnder ieuencid wedi'i ddatganoli i Lywodraeth Cymru?

14:31	<b>Leighton Andrews</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	<p>The Plaid Cymru spokesperson will be aware of the evidence that we've given in the past to the Silk commission, expressing our views as a Government on the devolution of justice in the long term, and in respect of the devolution of youth justice specifically. Clearly, I think he makes a case with which I have great sympathy.</p>	<p>Bydd llefarydd Plaid Cymru yn ymwybodol o'r dystiolaeth a roesom yn y gorffennol i gomisiwn Silk, yn mynegi ein barn fel Llywodraeth ar ddatganoli cyfiawnder yn y tymor hir, ac mewn perthynas â datganoli cyfiawnder ieuencid yn benodol. Yn amlwg, rwy'n meddwl ei fod yn cyflwyno achos y mae gennyf gydymdeimlad mawr ag ef.</p>	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
14:31	<b>Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	<p>And now the Welsh Liberal Democrat spokesperson, Peter Black.</p>	<p>Ac yn awr, llefarydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Peter Black.</p>	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
14:32	<b>Peter Black</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	<p>Thank you, Deputy Presiding Officer. Minister, according to reports on 5 November, you addressed the Academi Wales conference, consisting of public service leaders, and you posed the question to them, 'What is it like to be led by you?' Would you like to give us an assessment of your own performance as public services Minister? What is it like for public services to be led by you?</p>	<p>Diolch, Ddirprwy Lywydd. Weinidog, yn ôl adroddiadau ar 5 Tachwedd, fe fuoch yn annerch cynhadledd Academi Cymru, a oedd yn cynnwys arweinwyr gwasanaethau cyhoeddus, ac fe ofynnodd iddynt, "Sut beth yw cael eich arwain gennych chi?" A hoffech chi roi asesiad i ni o'ch perfformiad eich hun fel Gweinidog gwasanaethau cyhoeddus? Sut brofiad yw cael gwasanaethau cyhoeddus wedi'u harwain gennych?</p>	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
14:32	<b>Leighton Andrews</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	<p>Well, we've protected local government spending in Wales better than it's been protected in England. We continue to believe in public services, and we want to ensure that public services remain public.</p>	<p>Wel, rydym wedi diogelu gwariant llywodraeth leol yng Nghymru yn well nag y cafodd ei warchod yn Lloegr. Rydym yn parhau i gredu mewn gwasanaethau cyhoeddus, ac rydym am sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus yn parhau i fod yn gyhoeddus.</p>	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
14:32	<b>Peter Black</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	<p>Well, thank you for that answer, Minister. Clearly, the assessment of what it's like to be led by you is very different if you go out to talk to local councillors around Wales. Many of them tell me that you have lots of personal ambition, but very little focus, vision or delivery, and, of course, councils all around Wales are struggling with excessive cuts to their budgets. Do you not think it might be better if, instead of boasting about one or two achievements, you actually go out and talk to those councils, particularly in terms of your reorganisation agenda, where many of them feel that the Welsh Government has lost its way?</p>	<p>Wel, diolch i chi am eich ateb, Weinidog. Yn amlwg, mae'r asesiad o sut beth yw cael eich arwain gennych yn wahanol iawn os ewch allan i siarad â chynghorwyr lleol o gwmpas Cymru. Mae llawer ohonynt yn dweud wrthyf fod gennych lawer o uchelgais personol, ond fawr iawn o ffocws, gweledigaeth neu gyflawniad, ac wrth gwrs, mae cynghorau ledled Cymru yn cael trafferth ymdopi gyda thoriadau gormodol i'w cyllidebau. Onid ydych yn meddwl, yn hytrach na brolio am un neu ddau o gyflawniadau, y byddai'n well i chi fynd allan i siarad â'r cynghorau hynny, yn enwedig ynglŷn â'ch agenda ad-drefnu, pan fo llawer ohonynt yn teimlo bod Llywodraeth Cymru wedi colli ei ffordd?</p>	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
14:33	<b>Leighton Andrews</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	<p>I think the Member is making up most of what he said, to be honest with you. I speak to councillors every week. I've been undertaking a series of discussions around Wales on our local government proposals. I think there is good engagement. I think it's understandable, given that our proposals will result in fewer chief executives, fewer council leaders and fewer cabinet members, that there will be disquiet in some quarters as to what we're proposing.</p>	<p>Rwy'n credu bod yr Aelod yn dychmygu'r rhan fwyaf o'r hyn a ddywedodd, a bod yn onest. Rwy'n siarad â chynghorwyr bob wythnos. Rwyf wedi cynnal cyfres o drafodaethau o amgylch Cymru ar ein cynigion ar gyfer llywodraeth leol. Rwy'n credu bod yna ymgysylltiad da. Rwy'n credu ei bod yn ddealladwy, o ystyried y bydd ein cynigion yn arwain at lai o brif weithredwyr, llai o arweinwyr cynghorau a llai o aelodau cabinet, y bydd anesmwythyd mewn rhai cylchoedd ynghylch yr hyn rydym yn ei gynnig.</p>	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>

14:33

**Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, I don't tend to make things up in this Chamber, and certainly I think you've just outlined why a lot of the councils are disillusioned with your leadership. In fact, the deputy leader of Flintshire council called the reorganisation of local government a 'sham' and called on the First Minister to resign over it. You spent £130,000 on the Williams commission, and largely ignored its 62 recommendations, and, of course, your whole agenda of reorganisation is more about overcentralising services rather than actually giving power back to local councils and giving people the opportunity to have more control over their own destiny, particularly in terms of your reluctance to have a proper voting system for that. Do you not accept, Minister, that the uncertainty that your reorganisation agenda is generating is having a devastating effect on the morale of local government, of officers and councillors, and undermining their defence of public services against excessive cuts from Westminster?

Weinidog, nid wyf yn tueddu i ddychmygu pethau yn y Siambr hon, ac yn sicr rwy'n meddwl eich bod newydd amlinellu pam y mae llawer o gynghorau wedi'u dadrithio gan eich arweinyddiaeth. Yn wir, galwodd dirprwy arweinydd cyngor sir y Fflint yr ad-drefnu llywodraeth leol yn 'lol llwyr' a galwodd ar Brif Weinidog Cymru i ymddiswyddo o'i herwydd. Rydych wedi gwario £130,000 ar gomisiwn Williams, ac anwybyddu ei 62 o argymhellion i raddau helaeth, ac wrth gwrs, mae eich holl agenda ad-drefnu yn ymwneud mwy â gor-ganoli gwasanaethau yn hytrach na rhoi grym yn ôl i gynghorau lleol mewn gwirionedd a rhoi cyfle i bobl gael mwy o reolaeth dros eu tynged eu hunain, yn enwedig o ran eich amharodrwydd i gael system bleidleisio briodol ar gyfer hynny. Onid ydych yn derbyn, Weinidog, fod yr ansicrwydd y mae eich agenda ad-drefnu yn ei greu yn dinistrio morâl llywodraeth leol, swyddogion a chynghorwyr, ac yn tansilio'r modd y maent yn amddiffyn gwasanaethau cyhoeddus yn erbyn toriadau gormodol o San Steffan?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:34

**Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I'm sorry that the councillor is so lacking in confidence in local government in Wales; I am not. I think that, if he looks at the record, he will see that 60 out of the 62 Williams commission recommendations have been implemented, or are being implemented at the present time. I don't think there's any uncertainty over our local government proposals. We passed the local government paving Bill through this Chamber on 20 October, and, next week, we will publish our local government merger and reorganisation Bill in draft.

Mae'n ddrwg gennyf fod y cynghorydd mor brin o hyder yn llywodraeth leol Cymru; nid wyf fi. Pe bai'n edrych ar y cofnodion, fe wêl fod 60 allan o 62 argymhelliad comisiwn Williams wedi'u rhoi ar waith, neu'n cael eu gweithredu ar hyn o bryd. Nid wyf yn credu bod unrhyw ansicrwydd ynghylch ein cynigion ar gyfer llywodraeth leol. Fe lwyddom i basio'r Bil ymbaratoi llywodraeth leol drwy'r Siambr hon ar 20 Hydref, a'r wythnos nesaf, byddwn yn cyhoeddi ein Bil uno ac ad-drefnu llywodraeth leol ar ffurf ddrafft.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:35

**Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I do remind the Minister that Peter Black is an esteemed Member of the Assembly when he's in this Chamber, and it is improper to refer to him in the manner you did, if you were attempting to demean his status, anyway, and I'm not passing any judgment on that. Question 3, Gwenda Thomas.

Rwy'n atgoffa'r Gweinidog fod Peter Black yn Aelod Cynulliad uchel ei barch pan fo yn y Siambr hon, ac mae'n amhriodol i chi gyfeirio ato yn y modd a wnaethoch, os oeddech yn ceisio bychanu ei statws, beth bynnag, ac nid wyf yn barnu ar hynny. Cwestiwn 3, Gwenda Thomas.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

## Trefniadau Cydweithredol

## Collaborative Arrangements

14:35

**Gwenda Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*3. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am werth trefniadau cydweithredol wrth ddarparu gwelliannau i wasanaethau? OAQ(4)0638(PS)*

*3. Will the Minister make a statement on the value of collaborative arrangements, led by public bodies, in the delivery of service improvements? OAQ(4)0638(PS)*

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:35

**Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Collaboration is an essential part of the landscape of public services in Wales. The Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015 makes it absolutely clear that public services must work together if we are to achieve 'The Wales We Want'.

Mae cydweithio yn rhan hanfodol o dirwedd gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ei gwneud yn gwbl glir fod rhaid i wasanaethau cyhoeddus weithio gyda'i gilydd os ydym am gyflawni 'Y Gymru a Garem'.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:35

**Gwenda Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you for that, Minister. As you are no doubt aware, earlier this month the National Adoption Service celebrated its one-year anniversary. By bringing together the key stakeholders in local government, health and the voluntary sector, not only has there been more efficient use of resources, but, most importantly, there's been a positive impact on children and families utilising the service. Similar successes can be seen in integrated family support services, children safeguarding boards, adult safeguarding boards and others. Within my own constituency, the former Cimla Hospital has been reborn as a hub for the joint delivery of health and social care. While there is still far more to do in a number of service areas, will you join with me, Minister, in applauding the dedication and hard work of those involved in building these local authority-led collaborative services and delivering vital improvements for service users?

Diolch am hynny, Weinidog. Fel rydych yn ymwybodol mae'n siŵr, yn gynharach y mis hwn dathlodd y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol ei ben-blwydd yn flwydd oed. Drwy ddwyn ynghyd y rhanddeiliaid allweddol ym maes llywodraeth leol, iechyd a'r sector gwirfoddol, cafwyd defnydd mwy effeithlon o adnoddau, a hefyd, yn bwysicach na dim, effeithiwyd yn gadarnhaol ar blant a theuluoedd sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Mae llwyddiannau tebyg i'w gweld mewn gwasanaethau cymorth integredig i deuluoedd, byrddau diogelu plant, byrddau diogelu oedolion ac eraill. Yn fy etholaeth fy hun, mae hen Ysbyty Cimla wedi cael ei aileni fel canolfan ar gyfer cydgyflwyno iechyd a gofal cymdeithasol. Er bod llawer mwy i'w wneud o hyd mewn nifer o feysydd gwasanaeth, a wnewch chi ymuno â mi, Weinidog, i ganmol ymroddiad a gwaith caled y rhai sy'n ymwneud â datblygu'r gwasanaethau cydweithredol hyn dan arweiniad awdurdodau lleol ac yn cyflawni gwelliannau hanfodol ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:36

**Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I welcome what has been said by my colleague the Member for Neath. It is important that we recognise and celebrate effective collaboration, and it's always good to hear of examples where collaboration is succeeding. I think the examples that the Member has given demonstrate that public services in Wales, putting our one Welsh public service values into practice, are starting to show how we can take forward the plans and principles set out in the Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015, which I think will lead to greater public service collaboration in the future.

Croesawaf yr hyn a ddywedodd fy nghyd-Aelod, yr Aelod dros Gastell-nedd. Mae'n bwysig ein bod yn cydnabod ac yn dathlu cydweithio effeithiol, ac mae bob amser yn dda clywed am enghreifftiau lle y mae cydweithio'n llwyddo. Rwy'n meddwl bod yr enghreifftiau a roddodd yr Aelod wedi dangos bod gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, gan roi ein gwerthoedd ynglŷn ag un gwasanaeth cyhoeddus ar gyfer Cymru ar waith, yn dechrau dangos sut y gallwn fwrw ymlaen â'r cynlluniau a'r egwyddorion a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, a chredaf y bydd yn arwain at fwy o gydweithio mewn gwasanaeth cyhoeddus yn y dyfodol.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

## Cyflogau Uwch-Swyddogion

## Senior Officer Salaries

14:37

**Aled Roberts** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*4. A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y camau sydd wedi eu cymryd i leihau gwariant ar gyflogau uwch-swyddogion o fewn gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru? OAQ(4)0644(PS)[W]*

*4. Will the Minister provide the latest information on the steps taken to reduce spending on the salaries of senior officers in public services in Wales? OAQ(4)0644(PS)[W]*

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:37

**Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yn 2013 fe wnaeth y Cynulliad gymeradwyo deddfwriaeth a oedd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol ymgynghori â Phanel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol cyn newid cyflog y prif weithredwr. Mae Bil Llywodraeth Leol (Cymru) 2015 wedi ymestyn hyn i gynnwys holl brif swyddogion llywodraeth leol.

In 2013 this Assembly approved legislation to require local authorities to consult with the Independent Remuneration Panel for Wales before changing the pay of their chief executive. The Local Government (Wales) Bill 2015 has extended this to cover all chief officers in local government.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

- 14:38 **Aled Roberts** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Mae'n siŵr eich bod chi wedi canlyn cyhoedduswydd wythnos diwethaf ynglŷn â rhai o gyflogau uwch-swyddogion yr heddlu. Mi roedd yna gyfeirio ddoe at gyflogau o fewn y gwasanaeth iechyd yng Nghymru. Ym mis Chwefror, dywedoch wrth y Sefydliad Materion Cymreig eich bod yn awyddus i edrych ar y sefyllfa a hwyrach fynd i'r afael efo'r broblem yma, o ystyried bod cyflogau pobl sydd yn gweithio yn y gwasanaethau yma wedi cael eu rhewi am nifer o flynyddoedd. Felly, pa gamau ydych chi wedi eu cymryd ers mis Chwefror i fynd i'r afael a'r broblem yma?
- I'm sure you will have followed the coverage last week on the salaries of some senior police officers. There was reference yesterday to salaries within the health service in Wales. In February, you said, in speaking to the Institute of Welsh Affairs, that you were keen to look at the situation and perhaps tackle this problem, given that the salaries of people working in these services had been frozen for many years. So, what steps have you taken since February to tackle this problem?
- 14:38 **Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- We've passed the Local Government (Wales) Bill, of course, which has extended the requirement on local authorities to consult the independent remuneration panel before changing the pay of their chief executives. I think that in itself was a significant move in the right direction.
- Rydym wedi pasio Bil Llywodraeth Leol (Cymru), wrth gwrs, sydd wedi ymestyn y gofyniad i awdurdodau lleol ymgynghori â'r panel taliadau annibynnol cyn newid cyflogau eu prif weithredwyr. Credaf fod hynny ynddo'i hun yn gam sylweddol i'r cyfeiriad cywir.
- 14:39 **Mike Hedges** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Public sector goes beyond local government itself. Will the Minister consider setting up a senior salaries board for bodies funded by the Welsh Government that could set recommended bands for senior salaries across the whole of the Welsh public sector?
- Mae'r sector cyhoeddus yn mynd y tu hwnt i lywodraeth leol ei hun. A wnaiff y Gweinidog ystyried sefydlu bwrdd cyflogau uwch-swyddogion ar gyfer cyrff a ariennir gan Lywodraeth Cymru a allai osod bandiau a argymhellir ar gyfer cyflogau uwch-swyddogion ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru?
- 14:39 **Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- One of the issues I think we have to look at as we create one Welsh public service is that there are different terms and conditions in different parts of the public services in Wales. We have established the Public Services Staff Commission, of course, on a non-statutory basis, and next week the draft Bill will set out our proposals for establishing the Public Services Staff Commission on a statutory basis. There are a number of issues that will arise I think that we will have to consider as we move forward on public service pay and public service rewards, and it's important, I think, that those considerations are given the right framework. I think the Public Services Staff Commission does that.
- Un mater rwy'n meddwl y bydd yn rhaid i ni edrych arno wrth i ni greu un gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru yw bod gwahanol delerau ac amodau mewn gwahanol rannau o'r gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Rydym wedi sefydlu'r Comisiwn Staff Gwasanaethau Cyhoeddus wrth gwrs, ar sail anstatudol, a'r wythnos nesaf bydd y Bil drafft yn nodi ein cynigion ar gyfer sefydlu'r Comisiwn Staff Gwasanaethau Cyhoeddus ar sail statudol. Bydd nifer o faterion yn codi y credaf y bydd rhaid i ni eu hystyried wrth i ni symud ymlaen ar fater cyflogau gwasanaethau cyhoeddus a thaliadau gwasanaethau cyhoeddus, ac rwy'n meddwl ei bod hi'n bwysig rhoi'r fframwaith cywir i'r ystyriaethau hynny. Rwy'n meddwl bod y Comisiwn Staff Gwasanaethau Cyhoeddus yn gwneud hynny.
- 14:40 **Janet Finch-Saunders** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- The Welsh Local Government Association has called for a rounded debate on senior salaries following the publication of the TaxPayers' Alliance town hall rich list last week, which showed the salary of the former chief executive of Gwynedd as £306,000, whilst the salary of the chief exec of Bridgend was £151,000. Minister, it is clear that whatever you're doing or not doing is definitely not working—
- Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi galw am ddadl lawn ar gyflogau uwch-swyddogion yn dilyn cyhoeddi rhestr cyfoethogion neuadd y dref gan Gynghair y Trethdalwyr yr wythnos diwethaf, a ddangosai gyflogau cyn-brif weithredwr Gwynedd sef £306,000, tra bod cyflog prif weithredwr Pen-y-bont ar Ogwr yn £151,000. Weinidog, mae'n sicr yn amlwg nad yw beth bynnag rydych yn ei wneud neu heb ei wneud yn gweithio—
- 14:40 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Question. Cwestiwn.
- 14:40 **Janet Finch-Saunders** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- How can you account for this difference of over £150,000 between two chief executives in Welsh local government?
- Sut y gallwch chi gyfrif am y gwahaniaeth hwn o dros £150,000 rhwng dau brif weithredwr llywodraeth leol yng Nghymru?

14:40 **Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
Can I start by saying that I wouldn't necessarily rely on figures produced by the TaxPayers' Alliance? I'd rather rely on figures produced by the independent remuneration panel. Let me remind the Member, because she appears to have forgotten, that Pembrokeshire County Council wanted to appoint a chief executive on a salary of £145,000. The independent remuneration panel looked at the situation and suggested a lower salary, and it was that lower salary that was subsequently adopted by that council.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

A gaf fi ddechrau drwy ddweud na fyddwn o reidrwydd yn dibynnu ar y ffigurau a gynhyrchwyd gan Gynghair y Trethdalwyr? Byddai'n well gennyf ddibynnu ar ffigurau a gynhyrchwyd gan banel taliadau annibynnol. Gadewch i mi atgoffa'r Aelod, gan ei bod i'w gweld wedi anghofio, fod Cyngor Sir Penfro yn awyddus i benodi prif weithredwr ar gyflog o £145,000. Edrychodd y panel taliadau annibynnol ar y sefyllfa ac awgrymodd gyflog is, a'r cyflog is a fabwysiadwyd wedi hynny gan y cyngor hwnnw.

14:41 **Alun Ffred Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
Mae'r ffigurau a gafodd eu dyfynnu rwan yn anghywir, wrth gwrs, ond pam ych chi mor amharod i symud i drefn debyg i'r hyn y mae Mike Hedges wedi ei awgrymu, a fyddai'n rhoi sicrwydd i drethdalwyr eu bod nhw'n cael gwerth am arian gan uwch-swyddogion?

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

The figures just quoted are incorrect, of course, but why are you so unwilling to move to a system similar to the one suggested by Mike Hedges, which would provide assurances for taxpayers that they do get value for money from senior officers?

14:41 **Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
Well, as I said in my answer to Mike Hedges, we have already established the Public Services Staff Commission on a non-statutory basis. We'll be establishing it on a statutory basis as we move forward, and the draft Bill next week will set out the context for that. The reality is, of course, that our programme of local government reform would result in fewer chief executives in local government, it would result in fewer chief officers in local government, whereas the proposals of his party return the same number of chief executives in Wales and, therefore, the same number of high-salaried officers.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

Wel, fel y dywedais yn fy ateb i Mike Hedges, rydym eisoes wedi sefydlu'r Comisiwn Staff Gwasanaethau Cyhoeddus ar sail anstatudol. Byddwn yn ei sefydlu ar sail statudol wrth i ni symud ymlaen, a bydd y Bil drafft yr wythnos nesaf yn nodi'r cyd-destun ar gyfer hynny. Y gwir amdani, wrth gwrs, yw y byddai ein rhaglen ddiwygio llywodraeth leol yn arwain at lai o brif weithredwyr mewn llywodraeth leol, byddai'n arwain at lai o brif swyddogion mewn llywodraeth leol, tra byddai cynigion ei blaid yn dychwelyd yr un nifer o brif weithredwyr yng Nghymru ac felly, yr un nifer o swyddogion ar gyflogau uchel.

## Diogelwch Cymunedol yn Sir Benfro

## Community Safety in Pembrokeshire

14:42 **Paul Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
*5. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am wella diogelwch cymunedol yn Sir Benfro? OAQ(4)0633(PS)*

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

*5. Will the Minister make a statement on improving community safety in Pembrokeshire? OAQ(4)0633(PS)*

14:42 **Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
In Pembrokeshire, as in the rest of Wales, we are committed to making people feel safe. The achievement of one of our top 'five for a fairer future' priorities, recruiting an extra 500 community support officers, is improving community safety across Wales.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

Yn Sir Benfro, fel yng ngweddill Cymru, rydym wedi ymrwymo i wneud i bobl deimlo'n ddiogel. Mae cyflawni o'n prif flaenoriaethau 'pump am ddyfodol tecach', recriwtio 500 o swyddogion cymorth cymunedol ychwanegol, yn gwella diogelwch cymunedol ledled Cymru.

14:42 **Paul Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
Minister, you'll be aware that it's currently Carbon Monoxide Awareness Week, and I'm sure you'll agree that it's important that everyone recognises the dangers of carbon monoxide and understands exactly what action to take to ensure that their homes are as safe as possible. Can you tell us what discussions you've had with local authorities about ensuring that all council properties are sufficiently protected? Can you tell us what the Welsh Government is doing to promote safety in our homes?

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

Weinidog, fe fyddwch yn ymwybodol ei bod yn Wythnos Ymwybyddiaeth o Garbon Monocsid ar hyn o bryd, ac rwy'n siwr y cytunwch ei bod yn bwysig i bawb adnabod peryglon carbon monocsid a deall yn union pa gamau i'w rhoi ar waith i sicrhau bod eu cartrefi mor ddiogel ag y bo modd. A allwch ddweud wrthym pa drafodaethau rydych chi wedi'u cael gydag awdurdodau lleol ynglŷn â sicrhau bod holl eiddo cynghorau wedi'u diogelu'n ddigonol? A allwch ddweud wrthym beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i hyrwyddo diogelwch yn ein cartrefi?



14:42 **Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
The Welsh Government is working with the fire and rescue authorities and indeed, in certain circumstances, other emergency services, to promote safety in the home, and that has been a very successful programme overall and has seen a reduction, for example, in the number of fires overall. In respect of work with local authorities, that is a matter that we are taking forward, but through the means of the fire and rescue authorities.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r awdurdodau tân ac achub ac yn wir, mewn rhai amgylchiadau, gyda gwasanaethau brys eraill, i hyrwyddo diogelwch yn y cartref, ac mae honno wedi bod yn rhaglen lwyddiannus iawn ar y cyfan ac wedi gweld gostyngiad, er enghraifft, yn nifer y tanau yn gyffredinol. O ran gwaith gydag awdurdodau lleol, mae hynny'n fater rydym yn ei ddatblygu, ond drwy'r awdurdodau tân ac achub.

14:43 **William Powell** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
Minister, earlier this afternoon, the Finance Minister made reference to the fact that, through the invest-to-save fund, the mid and west Wales fire and rescue authority will receive £165,000 to convert 57 stations in mid and west Wales, nine of which are in Pembrokeshire, to LED lighting, generating annual savings of some £55,000. Would you join me in congratulating the fire and rescue authority on submitting that bid, which has been judged to be successful? How will you ensure that the money that's being saved is actually delivered at the front line for fire and rescue services?

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

Weinidog, yn gynharach y prynhawn yma, cyfeiriodd y Gweinidog Cyllid at y ffaith y bydd awdurdod tân ac achub canolbarth a gorllewin Cymru yn cael £165,000 drwy arian buddsoddi i arbed ar gyfer newid i oleuadau LED mewn 57 o orsafoedd yng nghanolbarth a gorllewin Cymru, a naw ohonynt yn Sir Benfro, gan gynhyrchu arbedion blynyddol o tua £55,000. A wnewch chi ymuno â mi i longyfarch yr awdurdod tân ac achub ar gyflwyno'r cais hwnnw, a fu'n llyddiannus? Sut y byddwch yn sicrhau bod yr arian sy'n cael ei arbed yn cael ei ddarparu ar gyfer rheng flaen y gwasanaethau tân ac achub mewn gwirionedd?

14:43 **Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
The fire and rescue authority is certainly to be commended for making use of the invest-to-save fund, and they will have to account for the way in which they've used that money back to the Minister for Finance and Government Business. Clearly, we look at the fire and rescue authorities' budgets as we examine the support that we give them through the community safety funding. Members of fire and rescue authorities themselves must also scrutinise the way in which those savings are being delivered and implemented.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

Mae'r awdurdod tân ac achub yn sicr i'w canmol am wneud defnydd o'r gronfa buddsoddi i arbed, a bydd yn rhaid iddynt roi cyfrif am y modd y maent wedi defnyddio'r arian i'r Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth. Yn amlwg, rydym yn edrych ar gyllidebau'r awdurdodau tân ac achub wrth i ni edrych ar y cymorth rydym yn ei roi iddynt drwy'r cyllid diogelwch cymunedol. Rhaid i aelodau'r awdurdodau tân ac achub eu hunain graffu hefyd ar y ffordd y caiff yr arbedion hynny eu cyflawni a'u gweithredu.

## Toriadau i Wasanaethau Cyhoeddus

## Cuts to Public Services

14:44 **Bethan Jenkins** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
*6. A wnaiff y Gweinidog esbonio pa ffactorau y rhoddir ystyriaeth iddynt gan awdurdodau lleol pan fyddant yn gwneud toriadau i wasanaethau cyhoeddus?*  
OAQ(4)0634(PS)

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

*6. Will the Minister explain what factors are taken into account by local authorities when they are making cuts to public services?* OAQ(4)0634(PS)

14:44 **Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
It's the responsibility of each authority to set a balanced budget. In doing so, it should take account of local needs and priorities. Authorities are accountable to their local electorates for the budget decisions that they make.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

Mae'n gyfrifoldeb ar bob awdurdod i osod cyllideb gytbwys. Wrth wneud hynny, dylai ystyried anghenion a blaenoriaethau lleol. Mae awdurdodau yn atebol i'w hetholwyr lleol am y penderfyniadau cyllidebol a wnânt.

14:44 **Bethan Jenkins** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
Minister, we have an issue—. I've met with those who work at the Trem-y-Glyn care home in Glynneath. Neath Port Talbot staff obviously went through the job evaluation process, as demanded by the Equality Act 2010, only for the local authority then to spin out those services to third sector organisations—in this instance, it's Gwalia. What happened then was that they downgraded the staff to short-term contracts and to zero-hours contracts, so that, then, means that they're effectively doing the same work but on worse pay conditions.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

Weinidog, mae gennym broblem—. Rwyf wedi cyfarfod â phobl sy'n gweithio yng nghartref gofal Trem-y-Glyn yng Nglyn-nedd. Yn amlwg, aeth staff Castell-nedd Port Talbot drwy'r broses gwerthuso swyddi, yn ôl gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010, ond mae'r awdurdod lleol wedi cynnig y gwasanaethau hynny i sefydliadau trydydd sector—Gwalia yn yr achos hwn. Yr hyn a ddigwyddodd wedyn oedd eu bod wedi israddio'r staff ar gontractau tymor byr a chontractau dim oriau, sy'n golygu felly eu bod yn gwneud yr un gwaith i bob pwrpas ond am gyflogau salach.

This is an awful situation because, mostly, these are women who are passionate about what they do and want to see the care home being maintained and supported, but yet they feel that they cannot carry forth their work under the current circumstances. Is there anything that your Government can do, regardless of the fact that it has been put out to this independent company, where you can appeal to them to respect the conditions of the workforce that was there when it was council run, so that they are able to sustain their livelihoods in that particular area?

Mae hon yn sefyllfa ofnadwy oherwydd, yn bennaf, menywod yw'r rhain sy'n frwd ynghylch yr hyn y maent yn ei wneud ac sy'n awyddus i weld y cartref gofal yn cael ei gynnal a'i gefnogi, ond eto maent yn teimlo na allant gyflawni eu gwaith o dan yr amgylchiadau presennol. Er bod y gwaith wedi'i roi allan i'r cwmni annibynnol hwn, a oes unrhyw beth y gall eich Llywodraeth ei wneud o ran apelio arnynt i barchu amodau'r gweithlu a oedd yno pan oedd o dan reolaeth y cyngor, er mwyn iddynt allu parhau i ennill bywoliaeth yn yr ardal honno?

14:45 **Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, I don't know the full details of the situation that the Member has raised. She's obviously taken the time to set out her case in respect of that situation in the Chamber today. We have in place, of course, the two-tier code, which has been implemented effectively by most local authorities in Wales. It is important that terms and conditions are respected when services transfer.

Wel, nid wyf yn gwybod manylion llawn y sefyllfa a grybwyllodd yr Aelod. Yn amlwg mae wedi rhoi amser i gyflwyno ei hachos mewn perthynas â'r sefyllfa honno yn y Siambr heddiw. Wrth gwrs, mae gennym god dwy haen ar waith a weithredwyd yn effeithiol gan y rhan fwyaf o awdurdodau lleol Cymru. Mae'n bwysig fod telerau ac amodau'n cael eu parchu pan fydd gwasanaethau'n trosglwyddo.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

14:45 **David Rees** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, as many know, the local authorities are having to face some difficult decisions because of the record cuts coming from the Tories in Westminster. It always happens whenever they get into power. As local councils make those difficult decisions as to how to continue delivering public services in the light of the swingeing cuts from George Osborne, has the Welsh Government given guidance to the local authorities to ensure that the areas of deprivation within their boundaries are not penalised disproportionately by such decisions?

Weinidog, fel y mae llawer yn gwybod, mae'r awdurdodau lleol yn gorfod wynebu rhai penderfyniadau anodd oherwydd toriadau na welwyd mo'u tebyg o'r blaen gan y Torïaid yn San Steffan. Mae bob amser yn digwydd pan fyddant yn dod i rym. Wrth i gynghorau lleol wneud y penderfyniadau anodd ynglŷn â sut i barhau i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus yng ngoleuni'r toriadau llym gan George Osborne, a yw Llywodraeth Cymru wedi rhoi canllawiau i awdurdodau lleol er mwyn sicrhau nad yw'r ardaloedd o amddifadedd o fewn eu ffiniau yn cael eu cosbi'n anghymesur gan benderfyniadau o'r fath?

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

14:46 **Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

My colleague the Member for Aberavon is absolutely right to draw attention to the cuts that are imposed on the Welsh budget by the UK Conservative Government and by its predecessor Conservative-Liberal Democrat coalition. We have, of course, done what we can to protect local government budgets. Local authorities are required to undertake equality impact assessments in respect of the budgetary decisions they make, and therefore it is vital that they engage with all sectors of their communities, particularly those living in more deprived areas, in formulating proposals and making budgetary decisions.

Mae fy nghyd-Aelod, yr Aelod dros Aberafan, yn gwbl gywir i dynnu sylw at y toriadau sy'n cael eu gorfodi ar gyllideb Cymru gan Lywodraeth Geidwadol y DU a chan ei rhagflaenydd, clymblaid y Ceidwadwyr a'r Democratiaid Rhyddfrydol. Wrth gwrs, rydym wedi gwneud yr hyn a allwn i warchod cyllidebau llywodraeth leol. Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol gynnal asesiadau effaith ar gydraddoldeb o ran y penderfyniadau cyllidebol y maent yn eu gwneud, ac felly mae'n hanfodol eu bod yn ymgysylltu â phob sector yn eu cymunedau, yn enwedig y rhai sy'n byw mewn ardaloedd mwy difreintiedig, wrth lunio cynigion a gwneud penderfyniadau cyllidebol.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

14:47 **Altaf Hussain** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, in relation to cuts to public services, more and more local authorities are increasing charges for non-statutory services. What's your Government doing to ensure that local authorities tackle waste, such as excessive pay for senior officials, before putting the burden on residents who are already paying more via higher council tax bills?

Weinidog, o ran toriadau i wasanaethau cyhoeddus, mae mwy a mwy o awdurdodau lleol yn cynyddu taliadau a godir am wasanaethau anstatudol. Beth y mae eich Llywodraeth yn ei wneud i sicrhau bod awdurdodau lleol yn mynd i'r afael â gwastraff, megis cyflog gormodol i uwchswyddogion, cyn rhoi'r baich ar drigolion sydd eisoes yn talu mwy drwy gyfrwng biliau treth gyngor uwch?

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

14:47 **Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Can I remind the Member that those council tax bills are lower, on average, in Wales than they are in England? The real reason, of course, that local authorities in Wales face such burdens is because of the cuts being imposed by his Government and the Government that preceded it, which also included, of course, his party.

We have published this year the review of the cost of administration of local government, which indicated that local authorities could find up to £151 million per annum in savings if they operated to the best practice that was available in the UK.

## **Y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus**

14:48 **Mike Hedges** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*7. Faint o'r 62 o argymhellion a wnaed gan y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus sydd wedi cael eu rhoi ar waith? OAQ(4)0632(PS)*

**Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We set an ambitious reform agenda for public services in Wales last year and we are implementing the strategic actions committed to in that announcement. These relate to 60 of the 62 Williams commission recommendations, but are not limited to them.

14:48 **Mike Hedges** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Minister. I expected a number then. Will the Minister produce a timeline for the implementation of the rest and indicate which ones are no longer being brought forward?

14:49 **Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, I'm happy to publish an update on the implementation of the Williams recommendations and, let me say, there are two, specifically, that are not being taken forward, which are recommendations 12 and 19 in respect of community health councils and in respect of a proposed merger of Cadw and the Royal Commission on the Ancient and Historical Monuments of Wales.

14:49 **Janet Finch-Saunders** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, 12 of the key recommendations of the commission focus on the need to up the game in terms of the current workings within our public service delivery. Would you not agree that an appropriate way of reforming public service delivery would be to fully define local authority powers, following the 'Reforming Local Government: Power to Local People' White Paper, and allow them to inform the restructuring of local government and service delivery, rather than hurriedly producing your own restructuring map before this process was even completed?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

A gaf fi atgoffa'r Aelod fod y biliau treth gyngor yn is, ar gyfartaledd, yng Nghymru nag yn Lloegr? Wrth gwrs, y rheswm go iawn pam y mae awdurdodau lleol Cymru yn wynebu beichiau o'r fath yw oherwydd y toriadau sy'n cael eu gorfodi gan ei Lywodraeth a'r Llywodraeth a'i rhagflaenodd, a oedd hefyd yn cynnwys ei blaid wrth gwrs.

Eleni, rydym wedi cyhoeddi'r adolygiad o gost gweinyddu llywodraeth leol, a oedd yn nodi y gallai awdurdodau lleol ddod o hyd i hyd at £151 miliwn y flwyddyn mewn arbedion pe baent yn gweithredu'r arferion gorau sydd i'w gweld yn y DU.

## **The Commission on Public Service Governance and Delivery**

*7. How many of the 62 recommendations made by the Commission on Public Service Governance and Delivery have been implemented? OAQ(4)0632(PS)*

Y llynedd, pennwyd agenda ddiwygio uchelgeisiol ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru ac rydym yn gweithredu'r camau strategol yr ymrwymwyd iddynt yn y cyhoeddiad hwnnw. Mae'r rhain yn ymwneud â 60 o 62 o argymhellion comisiwn Williams, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Diolch yn fawr, Weinidog. Roeddwn yn disgwyl rhif. A wnaiff y Gweinidog gynhyrchu amserlen ar gyfer gweithredu'r gweddill a dangos pa rai nad ydynt yn cael eu datblygu bellach?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Wel, rwy'n hapus i gyhoeddi diweddariad ar weithredu argymhellion Williams a gadewch i mi ddweud, mae dau, yn benodol, nad ydynt yn cael eu datblygu, sef argymhellion 12 a 19 mewn perthynas â chynghorau iechyd cymuned ac mewn perthynas â'r bwriad i uno Cadw a Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Weinidog, mae 12 o argymhellion allweddol y comisiwn yn canolbwyntio ar yr angen i wella'r ffordd y caiff ein gwasanaethau cyhoeddus eu darparu ar hyn o bryd. Oni fydddech yn cytuno mai ffordd briodol o ddiwygio'r modd y caiff gwasanaethau cyhoeddus eu darparu yw diffinio pŵerau awdurdodau lleol yn llawn, yn dilyn y Papur Gwyn, 'Diwygio Llywodraeth Leol: Grym i Bobl Leol' a'u caniatáu i lywio'r gwaith o ailstrwythuro llywodraeth leol a darparu gwasanaethau lleol, yn hytrach na mynd ati'n frysio i gynhyrchu eich map ailstrwythuro eich hun cyn cwblhau'r broses hyd yn oed?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:50	<b>Leighton Andrews</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	<p>Well, one day, I'm accused of proceeding in a hurry to do these things and, on other days, I'm accused of delaying and taking too long to implement them, and usually by the same person. Let me say that, next week, we will publish our draft local government merger Bill, and, on the back of that, the Member may well find some of her questions are being answered.</p>	<p>Wel, un dydd, rwy'n cael fy nghyhuddo o symud ymlaen ar frys i wneud y pethau hyn ac ar ddyddiau eraill, caf fy nghyhuddo o oedi a chymryd gormod o amser i'w gweithredu, ac fel arfer gan yr un person. Gadewch i mi ddweud y byddwn yn cyhoeddi ein Bil uno llywodraeth leol drafft yr wythnos nesaf, ac yn sgil hynny, mae'n bur bosibl y gwêl yr Aelod fod rhai o'i chwestiynau yn cael eu hateb.</p>	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
<b>Tryloywder ac Atebolrwydd Llywodraeth Leol</b>		<b>Local Government Transparency and Accountability</b>		
14:50	<b>Mark Isherwood</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	<p>8. Pa ganllawiau y mae Llywodraeth Cymru yn eu darparu ar dryloywder ac atebolrwydd o fewn llywodraeth leol? OAQ(4)0639(PS)</p>	<p>8. What guidance does the Welsh Government provide on transparency and accountability in local government? OAQ(4)0639(PS)</p>	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
14:50	<b>Leighton Andrews</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	<p>There is a wide range of legislation and guidance relating to transparency and accountability, for example, in respect of scrutiny and senior salaries, and the 'Reforming Local Government: Power to Local People' White Paper set out further proposals to strengthen transparency and public involvement in local democracy.</p>	<p>Ceir ystod eang o ddeddfwriaeth a chanllawiau sy'n ymwneud â thryloywder ac atebolrwydd, er enghraifft mewn perthynas â chraffu a chyflogau uwch-swyddogion, ac roedd Papur Gwyn 'Diwygio Llywodraeth Leol: Grym i Bobl Leol' yn nodi cynigion pellach i gryfhau tryloywder ac ymwneud y cyhoedd mewn democratiaeth leol.</p>	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
14:50	<b>Mark Isherwood</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	<p>I recently received a freedom of information request response from Flintshire County Council marked 'confidential'. I took advice from the Assembly legal services department, which said that a freedom of information request can be treated as a publication to the world at large unless the council issued a refusal notice and that marking it 'confidential' would appear to be an error on their part. Will you, therefore, consider issuing guidance to local authorities, such as Flintshire, to ensure that they don't mark public documents as 'confidential' and advise their elected members that they should not be making such documents public?</p>	<p>Yn ddiweddar, derbyniais ymateb i gais rhyddid gwybodaeth gan Gyngor Sir y Fflint wedi'i nodi'n 'gyfrinachol'. Cymerais gyngor gan adran gwasanaethau cyfreithiol y Cynulliad, a ddywedodd y gellir trin cais rhyddid gwybodaeth fel cyhoeddiad i'r byd yn gyffredinol oni bai bod y cyngor yn cyhoeddi hysbysiad gwrthod ac y byddai'n ymddangos bod ei nodi'n 'gyfrinachol' yn gamgymeriad ar eu rhan. A wnewch chi, felly, ystyried cyhoeddi canllawiau i awdurdodau lleol, fel Sir y Fflint, er mwyn sicrhau nad ydynt yn nodi dogfennau cyhoeddus yn 'gyfrinachol' a chynghori eu haelodau etholedig na ddylent ddwyn dogfennau o'r fath i sylw'r cyhoedd?</p>	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
14:51	<b>Leighton Andrews</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	<p>I think it's for local authorities to ensure that their officers and elected representatives fully understand the obligations on them in respect of the Freedom of Information Act.</p>	<p>Rwy'n credu mai mater i awdurdodau lleol yw sicrhau bod eu swyddogion a'u cynrychiolwyr etholedig yn deall eu rhwymedigaethau'n llawn mewn perthynas â'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth.</p>	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
14:51	<b>Simon Thomas</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	<p>Rydym ni wedi cael nifer o drafodaethau heddiw, a dweud y gwir, ynglŷn â materion yn ymwneud â thryloywder mewn llywodraeth leol, yn enwedig cyflogau isel ac ati. Ond un o'r pethau sydd yn dechrau brigo yw'r ffaith bod cynifer o wasanaethau yn cael eu rhoi allan i dendr a bod yna broses gaffael yn digwydd, ac mae toriadau'n gyrru'r broses yma i raddau. Mae gan swyddogion a chynghorwyr llywodraeth leol wahanol reolau i'r rhai sydd gan weision sifil, er enghraifft, yn Llywodraeth Cymru pan mae'n dod i'r mater yma. A ydy hwn yn faes lle mae'r Gweinidog yn hapus bod pob dim yn ei le i sicrhau atebolrwydd ac i sicrhau nad oes dim drysau'n troi rhwng y sector preifat a llywodraeth leol mewn meysydd caffael?</p>	<p>We've had a number of discussions this afternoon on issues related to transparency in local government, particularly in terms of low pay and so on. But one of the things that is coming to the surface now is that so many services are being put out to tender, that there are procurement processes ongoing and that cuts are driving this process to a certain extent. Officers and councillors in local government have rules that are different to those for civil servants within the Welsh Government, for example, in this area. Is this an area where the Minister is content that everything is in place to ensure accountability and to ensure that there are no revolving doors between the private sector and local government in procurement?</p>	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>

14:52	<b>Leighton Andrews</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	<p>We're back to Powys again, I think. I'm going to look at the situation in respect of the issue that was raised with me by Kirsty Williams, and I know the Member has also raised it. Clearly, we would not want to see a situation where officers or, indeed, consultants advising authorities were then found, subsequently, to have an interest in a bid that came forward. I think what I want to do is ensure that we have in place the right framework for regulating such a situation.</p>	<p>Rydym yn ôl gyda Phowys eto, rwy'n meddwl. Rwy'n mynd i edrych ar y sefyllfa o ran y mater a grybwyllodd Kirsty Williams, ac rwy'n gwybod bod yr Aelod hefyd wedi tynnu sylw ato. Yn amlwg, ni fyddem am weld sefyllfa lle y byddem yn canfod wedyn fod gan swyddogion neu'n wir, ymgynghorwyr, sy'n cynghori awdurdodau, fuddiant mewn cais a ddaeth i law. Rwy'n credu mai'r hyn rwyf am ei wneud yw sicrhau bod gennym fframwaith cywir ar waith ar gyfer rheoleiddio sefyllfa o'r fath.</p>
	<b>Preifateiddio Gwasanaethau Cyhoeddus</b>	<b>Privatising Public Services</b>
14:53	<b>Eluned Parrott</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	<p>9. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am breifateiddio gwasanaethau cyhoeddus o fewn cyrff cyhoeddus yng Nghymru? OAQ(4)0640(PS)</p>	<p>9. Will the Minister make a statement on the privatisation of public services in public bodies in Wales? OAQ(4)0640(PS)</p>
14:53	<b>Leighton Andrews</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	<p>Deputy Presiding Officer, we support public services being delivered by the public sector workforce.</p>	<p>Ddirprwy Lywydd, rydym yn cefnogi gwasanaethau cyhoeddus a ddarperir gan weithlu'r sector cyhoeddus.</p>
14:53	<b>Eluned Parrott</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	<p>Thank you, Minister; I'd entirely agree. However, Cardiff council is planning to trial the privatisation of waste enforcement services and, clearly, with the shambolic way in which the refuse changes have been introduced in the city, with some homes still not in possession of the right combination of bags and bins, residents are absolutely horrified that they might be penalised by a private company that's motivated by collecting as many fines as possible, rather than a public service motivated by making sure our streets are as clean as possible. Clearly, you do not approve of privatisation in general, but will you write to Cardiff council and ask them not to take this step?</p>	<p>Diolch i chi, Weinidog; byddwn yn cytuno'n llwyr. Fodd bynnag, mae cyngor Caerdydd yn bwriadu treialu cynllun i breifateiddio gwasanaethau gorfodaeth gwastraff ac yn amlwg, gyda'r ffordd ddi-drefn y cyflwynwyd newidiadau i drefniadau casglu sbwriel yn y ddinas, a rhai cartrefi o hyd heb fod yn meddu ar y cyfuniad cywir o fagiâu a biniau, mae preswylwyr yn arsywdo y gallent gael eu cosbi gan gwmni preifat sy'n cael ei gymell gan yr ysgogiad i gasglu cymaint o ddirwyon ag y bo modd, yn hytrach na gwasanaeth cyhoeddus wedi'i gymell gan yr ysgogiad i wneud yn siŵr fod ein strydoedd mor lân â phosibl. Yn amlwg, nid ydych yn cymeradwyo preifateiddio yn gyffredinol, ond a wnewch chi ysgrifennu at gyngor Caerdydd a gofyn iddynt beidio â chymryd y cam hwn?</p>
14:53	<b>Leighton Andrews</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	<p>Well, I think it's a matter for Cardiff council as to how it takes forward its own budget discussions. Let me say that we have in place a clear framework. We have published our own views in respect of the use of alternative delivery models by local authorities. We have in place, as I said, the strengthened two-tier workforce code, which, of course, was abolished in England by the UK Government, ensuring the fair treatment of staff where services are outsourced. I think the fundamental issue here, of course, remains the cuts in public spending being imposed on Wales by the UK Government and the impact that is having on council budgets across the whole of Wales. But let me say that we would like local authorities to look at co-operative models and mutual models before they look at privatisation of services, and, certainly, we would like them to look at whether bids from their own workforce can produce savings within the council context.</p>	<p>Wel, rwy'n credu mai mater i gyngor Caerdydd yw sut y mae'n bwrw ymlaen â'i drafodaethau cyllidebol ei hun. Gadewch i mi ddweud bod gennym fframwaith clir ar waith. Rydym wedi cyhoeddi ein barn ein hunain ar ddefnydd awdurdodau lleol o fodelau darparu amgen. Fel y dywedais, mae gennym y cod gweithlu dwy haen wedi'i gryfhau ar waith, cod sydd wedi'i ddiddymu yn Lloegr, wrth gwrs, gan Lywodraeth y DU, ac mae'n sicrhau bod staff yn cael eu trin yn deg lle y rhoddir gwasanaethau ar gcontractau allanol. Rwy'n meddwl mai'r broblem sylfaenol yma o hyd, wrth gwrs, yw'r toriadau i wariant cyhoeddus a ofodir ar Gymru gan Lywodraeth y DU a'r effaith y mae hynny'n ei chael ar gyllidebau cynghorau ledled Cymru. Ond gadewch i mi ddweud y byddem yn hoffi i awdurdodau lleol edrych ar fodelau cydweithredol a modelau cydfuddiannol cyn iddynt ystyried preifateiddio gwasanaethau, ac yn sicr, byddem yn hoffi iddynt edrych i weld a allai cynigion gan eu gweithlu eu hunain gynhyrchu arbedion yng nghyd-destun y cyngor.</p>

## Gweithredu'r Bil Llywodraeth Leol (Cymru) Newydd

## Implementing the New Local Government (Wales) Bill

- 14:54 **Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
I declare an interest as a member of Swansea council.  
*10. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am sut y bydd Llywodraeth Cymru yn gweithredu'r Bil Llywodraeth Leol (Cymru) newydd? OAQ(4)0635(PS)*
- 14:55 **Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
Yes. The Bill enables important preparatory work to commence prior to the establishment of new merged authorities through voluntary merger or our proposals for reconfiguration of authorities to be set out in the second local government Bill, which I intend to publish for consultation next week.
- 14:55 **Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
Thank you for that answer, Minister. It seems to me that you're relying on the second Bill rather than the first Bill. Given that we have now just gone through quite an extensive process to pass this latest Local Government (Wales) Bill, are you anticipating getting any applications for voluntary mergers before we break for the Assembly elections in May next year?
- 14:55 **Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
Deputy Presiding Officer, can I start by saying that, when I referred to the Member earlier as a councillor, I was of course simply drawing attention to his extensive credentials in the field of local government? [Laughter.] Can I say that it's down to local authorities to bring forward proposals for a voluntary merger? If proposals are brought forward by the statutory date, I will be happy to look at them.
- Ariannu Llywodraeth Leol yn 2016-17**
- 14:56 **Lynne Neagle** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
*11. Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda llywodraeth leol yng Nghymru ynghylch ariannu llywodraeth leol yn 2016-17? OAQ(4)0643(PS)*
- 14:56 **Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
Tomorrow, the Welsh Government and the Welsh Local Government Association will be hosting a joint seminar on local government finance. We will consider collectively the challenges ahead for local service delivery in Wales. This is in addition to my regular discussions with local government leaders about funding matters.
- Rwy'n datgan buddiant fel aelod o gyngor Abertawe.
- 10. Will the Minister make a statement on how the Welsh Government will be implementing the new Local Government (Wales) Bill? OAQ(4)0635(PS)*
- Gwnaf. Mae'r Bil yn ein galluogi i ddechrau gwaith paratoi pwysig cyn sefydlu'r awdurdodau unedig newydd drwy uno gwirfoddol neu ein cynigion ar gyfer ad-drefnu awdurdodau sydd i'w nodi yn yr ail Fil Llywodraeth leol, y bwriadaf ei gyhoeddi yr wythnos nesaf ar gyfer ymgynghori yn ei gylch.
- Diolch i chi am eich ateb, Weinidog. Mae'n ymddangos i mi eich bod yn dibynnu ar yr ail Fil yn hytrach na'r Bil cyntaf. O gofio ein bod bellach newydd fynd drwy broses go helaeth i basio'r Bil Llywodraeth Leol (Cymru) diweddaraf hwn, a ydych yn rhagweld y cewch unrhyw geisiadau i uno'n wirfoddol cyn i ni dorri ar gyfer etholiadau'r Cynulliad ym mis Mai y flwyddyn nesaf?
- Ddirprwy Lywydd, a gaf fi ddechrau drwy ddweud, pan gyfeiriais at yr Aelod yn gynharach fel cynghorydd, tynnu sylw roeddwn i, wrth gwrs, at ei gymwysterau helaeth ym maes llywodraeth leol? [Chwerthin.] A gaf fi ddweud mai mater i awdurdodau lleol yw cyflwyno cynigion i uno'n wirfoddol? Os cyflwynir cynigion erbyn y dyddiad statudol, byddaf yn hapus i edrych arnynt.
- Local Government Funding in 2016-17**
- 11. What discussions has the Minister had with local government in Wales regarding local government funding in 2016-17? OAQ(4)0643(PS)*
- Yfory, bydd Llywodraeth Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn cynnal seminar ar y cyd ar gyllid llywodraeth leol. Byddwn yn ystyried gyda'n gilydd yr heriau sydd o'n blaenau o ran darparu gwasanaethau lleol yng Nghymru. Mae hyn yn ychwanegol at fy nhrafodaethau rheolaidd gydag arweinwyr llywodraeth leol ar faterion cyllido.
- Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:56

**Lynne Neagle** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Minister. As we've heard today, savage cuts to public services from Westminster is the reason councils across Britain are facing difficulties, but I was delighted to see the Prime Minister joining our campaign and opposing the cuts being delivered by the Chancellor in Westminster because, as we know, he has written to his local Conservative-led council to express his disappointment with cuts to front-line services. So, I am delighted that he is coming around to our point of view. Minister, I have been grateful for your assurances that you will continue to work closely with local government when deciding the future of our services. Can you give further assurances today, in anticipation of what is likely to be a very tough comprehensive spending review, that the Welsh Government will continue to do everything it can to protect local government and particularly funding for social services?

Diolch yn fawr, Weinidog. Fel y clywsom heddiw, toriadau llym i wasanaethau cyhoeddus o San Steffan yw'r rheswm pam y mae cynghorau ledled Prydain yn wynebu anawsterau, ond roeddwn yn falch o weld y Prif Weinidog yn ymuno â'n hymgyrch ac yn gwrthwynebu toriadau a gyflwynwyd gan y Canghellor yn San Steffan oherwydd, fel y gwyddom, mae wedi ysgrifennu at ei gyngor lleol a arweinir gan y Ceidwadwyr i fynegi ei siom ynghylch toriadau i wasanaethau rheng flaen. Felly, rwy'n falch iawn ei fod yn dechrau cytuno â'n safbwynt ni. Weinidog, rwyf wedi bod yn ddiolchgar am eich sicrwydd y byddwch yn parhau i weithio'n agos gyda llywodraeth leol wrth benderfynu ar ddyfodol ein gwasanaethau. A allwch roi sicrwydd pellach heddiw, gan ragweld yr hyn sy'n debygol o fod yn adolygiad cynhwysfawr o wariant anodd iawn, y bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i wneud popeth yn ei gallu i ddiogelu llywodraeth leol, a chyllid ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol yn benodol?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:57

**Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, can I thank my colleague, the Member for Torfaen, for that question? I'm sure that the Prime Minister would be delighted to know that the Welsh Government has protected local authorities in Wales better than his Government has protected authorities such as Oxfordshire in England. We have so far protected local authorities as much as we have been able to do in accordance with our priorities as a Government. It's been no secret that the spending review announcement is likely to mean further cuts to the Welsh budget, and there will be tough choices. The reality is that current approaches to service delivery are unlikely to be able to be sustained, and we need local authority to work with us and with other partners to use its resources in an innovative way.

Wel, a gaf fi ddiolch i fy nghyd-Aelod, yr Aelod dros Dorfaen, am y cwestiwn hwnnw? Rwy'n siŵr y byddai'r Prif Weinidog yn falch o wybod bod Llywodraeth Cymru wedi diogelu awdurdodau lleol yng Nghymru yn well nag y mae ei Lywodraeth ef wedi diogelu awdurdodau fel Swydd Rydychen yn Lloegr. Hyd yn hyn rydym wedi diogelu awdurdodau lleol gymaint ag y gallwn yn unol â'n blaenoriaethau fel Llywodraeth. Nid yw'n gyfrinach fod y cyhoeddiad am yr adolygiad o wariant yn debygol o olygu toriadau pellach i gyllideb Cymru, a bydd yna ddevisiadau anodd. Y realiti yw ein bod yn annhebygol o allu cynnal dulliau presennol o ddarparu gwasanaethau, ac mae angen i awdurdodau lleol weithio gyda ni a chyda phartneriaid eraill i ddefnyddio eu hadnoddau mewn ffordd arloesol.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

**Setliad Llywodraeth Leol ar gyfer 2016-17**

**The Local Government Settlement for 2016-17**

14:58

**Rhun ap Iorwerth** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*12. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y setliad llywodraeth leol ar gyfer 2016-17? OAQ(4)0636(PS)*

*12. Will the Minister make a statement about the local government settlement for 2016-17? OAQ(4)0636(PS)*

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:58

**Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Byddaf yn cyhoeddi setliad dros dro llywodraeth leol ar gyfer 2016-17 ar 9 Rhagfyr—y diwrnod ar ôl y gyllideb ddrafft.

I will be announcing the 2016-17 provisional local government settlement on 9 December—the day after the draft budget.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:58

**Rhun ap Iorwerth** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch. Mae yna bryder yn yr awdurdod lleol yn Ynys Môn, fel, rwy'n siŵr, mewn awdurdodau lleol ledled Cymru, ynglŷn â'r amserlen ar gyfer cyhoeddi y setliad ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf. Mae'r ffigurau drafft, fel yr ydych yn ei ddweud, yn dod ym mis Rhagfyr, yn hwyrach nag arfer. Y CSR yw'r rheswm sy'n cael ei roi am hynny, wrth gwrs. Nid oes disgwyl y ffigwr terfynol tan yn agos iawn, iawn at yr amser pan fydd disgwyl i gynghorau gyflwyno eu cyllidebau terfynol. Pa addewid y gall y Gweinidog ei roi y bydd o'n gwneud pob ymdrech i geisio cyhoeddi'r ffigwr terfynol hwnnw mor fuan â phosib, yn enwedig o ystyried, wrth gwrs, fod awdurdodau yn gorfod gwneud penderfyniadau ar gyfer y flwyddyn nesaf sy'n anoddach na'r rhai y maen nhw wedi gorfod eu gwneud ers sawl blwyddyn?

Thank you. There is concern in the local authority in Ynys Môn, as I'm sure is the case in local authorities throughout Wales, on the timetable for the announcement of the settlement for the next financial year. The draft figures, as you say, will emerge in December, which is later than usual. The CSR is the reason given for that, of course. The final figure is not expected until very close to the time when councils will be expected to put forward their own final budgets. What pledge can the Minister make that he will make every effort to try to make that final figure public as soon as possible, particularly given that authorities will have to make decisions for next year that will be more difficult than those that they've had to make for many years?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:59

**Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yes, I think it's a fair point that the Member makes. Let me say that I wrote last month, jointly with the leader of the Welsh Local Government Association, to council leaders, outlining the proposed timetable for the publication of the draft and final local government settlement. I think nobody in local government is in any doubt of the need to try and ensure a speedy resolution on their part. We will seek to publish a draft settlement and, alongside that, detail of the other grants that local authorities would expect to see. I would hope that there would be very little change between the draft settlement and the final settlement.

Ie, rwy'n credu bod yr Aelod yn gwneud pwynt teg. Gadewch i mi ddweud fy mod wedi ysgrifennu at arweinwyr y cynghorau y mis diwethaf, ar y cyd ag arweinydd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, yn amlinellu'r amserlen arfaethedig ar gyfer cyhoeddi'r drafft a'r setliad terfynol i lywodraeth leol. Rwy'n meddwl nad oes gan neb mewn llywodraeth leol unrhyw amheuaeth ynghylch yr angen i geisio sicrhau datrysiaid cyflym ar eu rhan. Byddwn yn ceisio cyhoeddi setliad drafft ac ochr yn ochr â hynny, manylion y grantiau eraill y byddai awdurdodau lleol yn disgwyl eu gweld. Byddwn yn gobeithio mai ychydig iawn o newid a fydd rhwng y setliad drafft a'r setliad terfynol.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

**Pwysau'r Gaeaf**

**Winter Pressures**

15:00

**Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*13. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y trafodaethau y mae wedi'u cael gydag awdurdodau lleol o ran pwysau'r gaeaf? OAQ(4)0631(PS)*

*13. Will the Minister make a statement on the discussions that he has had with local authorities in respect of winter pressures? OAQ(4)0631(PS)*

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

15:00

**Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yes. I attended the Wales resilience forum on 7 October, where winter preparedness was discussed. The Welsh Local Government Association represented local authorities at that forum.

Gwnaf. Mynychais fforwm Cymru gydnerth ar 7 Hydref, lle y trafodwyd parodrwydd ar gyfer y gaeaf. Roedd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn cynrychioli awdurdodau lleol yn y fforwm hwnnw.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

15:00

**Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Arweinydd yr Wrthblaid / The Leader of the Opposition*

Thank you, Minister, for that answer. I appreciate that many of the plans are the responsibility of local authorities the length and breadth of Wales, but much of the trunk road network, which is the responsibility of the Welsh Government, is contracted out to local authorities to be gritted, to be salted and to be made ready for bad weather. Have you had any representations from local authorities—and working with your colleague, the Minister for transport—to make sure that the plans are robust enough should we have some adverse weather, so that the trunk road network does not seize up and, ultimately, businesses and communities are affected?

Diolch am eich ateb, Weinidog. Rwy'n sylweddoli bod llawer o'r cynlluniau yn rhan o gyfrifoldebau awdurdodau lleol ar hyd a lled Cymru, ond mae llawer o'r rhwydwaith cefnffyrdd, sy'n gyfrifoldeb i Lywodraeth Cymru, yn cael ei roi ar gcontract allanol i awdurdodau lleol ei raeanu, gwasgaru halen a'i baratoi ar gyfer tywydd garw. A ydych wedi cael unrhyw sylwadau gan yr awdurdodau lleol—a chan weithio gyda'ch cyd-Weinidog, y Gweinidog trafnidiaeth—i sicrhau bod y cynlluniau'n ddigon cadarn pe baem yn cael tywydd garw, fel na fydd y rhwydwaith cefnffyrdd yn cau, gan effeithio ar fusnesau a chymunedau yn y pen draw?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)



15:00 **Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Well, I think local government is comfortable with the level of stocks. After a relatively mild winter last year, salt stock levels are currently high, but they are continually assessed. Over the summer months, salt stock levels were replenished across Wales to achieve a target level of 250,000 tonnes.

Wel, rwy'n meddwl bod llywodraeth leol yn gyfforddus gyda lefel y stociau. Ar ôl gaeaf cymharol fwyn y llynedd, mae lefelau stociau halen ar hyn o bryd yn uchel, ond maent yn cael eu hasesu'n barhaus. Dros fisoedd yr haf, ailgyflenwyd y stociau halen ledled Cymru er mwyn cyrraedd lefel darged o 250,000 o dunelli.

15:01 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Thank you, Minister. Diolch yn fawr, Weinidog.

### Cwestiwn Brys: Celsa Steel

*Mae [R] yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant. Mae [W] yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*

### Urgent Question: Celsa Steel

*[R] signifies the Member has declared an interest. [W] signifies that the question was tabled in Welsh.*

15:01 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

I have accepted an urgent question under Standing Order 12.66. I call on Eluned Parrott to ask the urgent question. Rwyf wedi derbyn cwestiwn brys o dan Reol Sefydlog 12.66. Galwaf ar Eluned Parrott i ofyn y cwestiwn brys.

15:01 **Eluned Parrott** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

*A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ei ddealltwriaeth o'r sefyllfa bresennol yn Celsa Steel yng Nghaerdydd yn dilyn y ffrwydriad y bore yma? EAQ(4)02584(FM)* *Will the First Minister make a statement on his understanding of the current situation at Celsa Steel in Cardiff following the explosion this morning? EAQ(4)02584(FM)*

15:01 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Thank you, Dirprwy Lywydd. We have been advised by Celsa that there was an explosion in the rolling mill on East Moors Road this morning. The company immediately put an emergency plan into operation. The site is now in the control of the police and emergency services, and we understand that the Health and Safety Executive is also on site. We further understand that the police will be making a statement during the course of this afternoon. Dirprwy Lywydd, I'm sure that all Members will join me in expressing our concern and, of course, will join with me in sharing our thoughts with the employees and their families at this very worrying and difficult time.

Diolch i chi, Ddirprwy Lywydd. Rydym wedi cael gwybod gan Celsa fod ffrwydrad wedi bod yn y felin rollo ar Heol East Moors y bore yma. Rhoddodd y cwmni gynllun argyfwng ar waith yn syth. Mae'r safle bellach dan reolaeth yr heddlu a'r gwasanaethau brys, ac rydym yn deall fod yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch hefyd ar y safle. Rydym yn deall hefyd y bydd yr heddlu yn gwneud datganiad y prynhawn yma. Ddirprwy Lywydd, rwy'n siŵr y bydd yr holl Aelodau'n ymuno â mi i fynegi ein pryder ac wrth gwrs, yn meddwl am y gweithwyr a'u teuluoedd ar yr adeg bryderus ac anodd hon.

15:02 **Eluned Parrott** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Thank you, First Minister, for that statement. Clearly, this is deeply disturbing news, and I'm sure that we speak for everyone when we express that our thoughts and best wishes go to those involved and their families at this time. I'd also like put on record our thanks to the emergency services for the very difficult job that they do, and for facing incidents that can be very difficult and dangerous for them on a daily basis. We thank them for their time. I understand that there have been five individuals injured in this incident, and that two people sadly remain unaccounted for at this time. I wonder if you have any news on the condition of those individuals, please.

Diolch yn fawr am y datganiad hwnnw, Brif Weinidog. Yn amlwg, mae'n newyddion annifyr iawn, ac rwy'n siŵr ein bod yn siarad ar ran pawb yn dweud bod ein meddyliau a'n dymuniadau gorau gyda'r gweithwyr dan sylw a'u teuluoedd ar yr adeg hon. Hoffwn hefyd gofnodi ein diolch i'r gwasanaethau brys am y gwaith anodd iawn y maent yn ei wneud, ac am wynebu digwyddiadau a allai fod yn anodd ac yn beryglus iawn yn ddyddiol. Rydym yn diolch iddynt am eu hamser. Deallaf fod pump o bobl wedi'u hanafu yn y digwyddiad hwn, a bod dau o bobl heb gyfrif amdanynt ar hyn o bryd, yn anffodus. Tybed a oes gennych unrhyw newyddion ar gyflwr yr unigolion hynny, os gwelwch yn dda.

15:03

**Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yes, it's right to say that five people were injured. One was treated at the scene and has been discharged from care. A further four were taken to the University Hospital of Wales. There are no further details as yet regarding their condition. It's also correct to say that two people are unaccounted for at this moment in time. Beyond that, there is no more information to add, but as I said, the police will be making a statement, we understand, during the course of the afternoon.

Ydy, mae'n gywir dweud bod pump o bobl wedi'u hanafu. Cafodd un driniaeth yn y fan a'r lle ac mae wedi'i ryddhau o ofal meddygol. Aed â phedwar arall i Ysbyty Athrofaol Cymru. Nid oes unrhyw fanylion pellach eto ynglŷn â'u cyflwr. Mae hefyd yn gywir i ddweud bod dau berson heb gyfrif amdanynt ar hyn o bryd. Y tu hwnt i hynny, nid oes rhagor o wybodaeth i'w hychwanegu, ond fel y dywedais, bydd yr heddlu'n gwneud datganiad, yn ôl yr hyn a ddeallwn, yn ystod y prynhawn.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

15:03

**Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Arweinydd yr Wrthblaid / The Leader of the Opposition*

First Minister, I echo the sentiments that you said about our thoughts and prayers being with the families concerned in this tragedy that has happened this morning. As someone who only visited the factory some two to three weeks ago, I can only comment on the safety that I felt there, and the way that the company and workers were all intertwined in making sure that it was as safe as possible a plant as could be in the environment in which it works. So, let's hope that the two missing workers can be located as soon as possible. The supply of information is of critical importance to the local community. The Welsh Government does have infrastructure at its disposal, when major incidents like this do come, to visit local communities. Has any request from the local authority or the police been put to the Welsh Government to activate any of its support that it is able to offer local public services, so that information can be disseminated out to the immediate surrounding areas, so that, obviously, people's fears can be allayed as quickly as possible?

Brif Weinidog, rwy'n adleisio'r teimladau a fynegwyd gennych yn dweud bod ein meddyliau a'n gweddïau gyda'r teuluoedd dan sylw yn y trychineb a ddigwyddodd y bore yma. Fel rhywun a ymwelodd â'r gwaith gwta ddwy neu dair wythnos yn ôl, ni allaf ond nodi'r diogelwch a deimlwn yno, a'r ffordd y mae'r cwmni a'r gweithwyr gyda'i gilydd yn gwneud yn siŵr ei fod yn safle mor ddiogel â phosibl yn yr amgylchedd y mae'n gweithio ynddo. Felly, gadewch i ni obeithio y gellir dod o hyd i'r ddau weithiwr coll mor fuan ag y bo modd. Mae cyflenwi gwybodaeth yn hanfodol bwysig i'r gymuned leol. Nid oes gan Lywodraeth Cymru y seilwaith ar gael iddi, pan fydd digwyddiadau mawr fel hyn yn digwydd, i ymweld â chymunedau lleol. A oes unrhyw gais wedi dod gan yr awdurdod lleol neu'r heddlu i Lywodraeth Cymru roi unrhyw gymorth ar waith y gallwn ei gynnig i wasanaethau cyhoeddus lleol, fel bod modd lleadaenu gwybodaeth yn yr ardaloedd cyfagos er mwyn lleddfu ofnau pobl cyn gynted â phosibl?

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

15:04

**Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Well, as I said in my original answer, the company has an emergency plan that has been put into operation. It is a matter now, of course, for the police to make a further statement, as I have no doubt that there will be an investigation into what happened. The fact that the Health and Safety Executive are also on the site is evidence of that. These are very early days, unfortunately, and we have to await further information from the authorities that are on site in terms of the two people who are unaccounted for as yet, and, of course, in time, there will be more information regarding the condition of the four who are in hospital. But I'm sure that Members will understand that the police and other authorities will need to take forward their investigation. They will also need to inform families and, once that is followed, Members and, indeed, the general public will be able to know more.

Wel, fel y dywedais yn fy ateb gwreiddiol, mae gan y cwmni gynllun argyfwng sydd wedi cael ei roi ar waith. Mater i'r heddlu yn awr, wrth gwrs, yw gwneud datganiad pellach, gan fy mod yn siŵr y cynhelir ymchwiliad i'r hyn a ddigwyddodd. Mae'r ffaith fod yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch hefyd ar y safle yn dystiolaeth o hynny. Mae'r rhain yn ddyddiau cynnar iawn, yn anffodus, ac mae'n rhaid i ni aros am wybodaeth bellach gan yr awdurdodau sydd ar y safle o ran y ddau a roddwyd cyfrif amdanynt hyd yn hyn, ac wrth gwrs, ymhen amser, daw mwyr o wybodaeth am gyflwr y pedwar sydd yn yr ysbyty. Ond rwy'n siŵr y bydd yr Aelodau'n deall y bydd angen i'r heddlu ac awdurdodau eraill fwrw ymlaen â'u hymchwiliad. Bydd angen iddynt roi gwybod i deuluoedd ac wedi gwneud hynny, bydd modd i'r cyhoedd, a'r Aelodau, yn wir, wybod mwyr.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

15:05

**Leanne Wood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Arweinydd Plaid Cymru / The Leader of Plaid Cymru*

First Minister, we're all concerned about this news, and my thoughts, and my party's thoughts, are with the workers affected and their families, along with the emergency services as they go about their work, and we thank them as well. Of course, Wales has a history of industrial accidents. We understand only too well; this is all part of our history.

Brif Weinidog, rydym i gyd yn pryderu am y newyddion, ac mae fy meddyliau, a meddyliau fy mhlaid, gyda'r gweithwyr yr effeithir arnynt a'u teuluoedd, ynghyd â'r gwasanaethau brys wrth iddynt wneud eu gwaith, a diolchwn iddynt hwythau hefyd. Wrth gwrs, mae gan Gymru hanes o ddamweiniau diwydiannol. Rydym yn deall ond yn rhy dda; mae hyn i gyd yn rhan o'n hanes.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

I'd like to ask the First Minister what discussions the Welsh Government intends to have with other public bodies and what discussions those public bodies can have with the company in order to provide a package of assistance to those people who are affected, if that is deemed appropriate.

Hoffwn ofyn i'r Prif Weinidog pa drafodaethau y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu eu cael gyda chyrrff cyhoeddus eraill a pha drafodaethau y gall y cyrrff cyhoeddus hynny eu cael gyda'r cwmni er mwyn darparu pecyn o gymorth i'r bobl a effeithiwyd, os tybir bod hynny'n briodol.

15:06

**Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Well, as I said earlier on, it's very early days yet. There will be much information to digest over the course of the next few hours. I've no doubt about that. At this moment in time, of course, the focus is on locating the two people who are yet unaccounted for. The focus of the hospital will, of course, be to provide the appropriate treatment for those who have been injured. And, of course, an investigation and an explanation will be required. As this process is taken through, I would expect further information to be released during the course of the day. Once a fuller picture is obtained, then we'll be in a position as a Government to understand what we might be able to do in terms of assisting both families and, indeed, the community.

Wel, fel y dywedais yn gynharach, mae'n ddyddiau cynnar iawn eto. Bydd llawer o wybodaeth i'w hystyried yn ystod yr ychydig oriau nesaf. Nid oes gennyf amheuaeth am hynny. Ar hyn o bryd, wrth gwrs, mae'r ffocws ar ddog o hyd i'r ddau berson na roddwyd cyfrif amdanynt eto. Ffocws yr ysbyty, wrth gwrs, fydd darparu'r driniaeth briodol i'r rhai a anafwyd. Ac wrth gwrs, bydd angen ymchwiliad ac eglurhad. Wrth i'r broses hon fynd rhagddi, byddwn yn disgwyl y rhyddheir rhagor o wybodaeth yn ystod y dydd. Pan geir darlun mwy cyflawn, yna byddwn mewn sefyllfa fel Llywodraeth i ddeall yr hyn y galleu ei wneud o ran cynorthwyo teuluoedd a'r gymuned yn wir.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

15:07

**Julie Morgan** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

It's very shocking to hear of the explosion in the Celsa steelworks. I had a tour around the steelworks, the East Moors works, earlier in the year, and went into the rolling mill. The steelworks are, of course, in the constituency of my colleague, Vaughan Gething, but some of my constituents actually work in the steelworks and I want to express my deepest sympathy and concern for the steelworkers and the families involved and, indeed, for the whole community of the steelworks in Cardiff.

Mae'n frawychus iawn clywed am y ffrwydrad yng ngwaith dur Celsa. Cefais fy nhywys o gwmpas y gwaith dur, gwaith dur East Moors, yn gynharach yn y flwyddyn, ac euthum i mewn i'r felin rollo. Mae'r gwaith dur, wrth gwrs, yn etholaeth fy nghyd-Aelod, Vaughan Gething, ond mae rhai o fy etholwyr yn gweithio yn y gwaith dur ac rwyf am fynegi fy nghydymdeimlad dwysaf a fy mhryder am y gweithwyr dur a'r teuluoedd dan sylw ac yn wir, cymuned gyfan y gwaith dur yng Nghaerdydd.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

I know that, earlier on, the Heath hospital followed an emergency major incident protocol when this incident was first notified. I understand that has now been stepped down. I don't know if the First Minister has any more information about that, though I would like to add my thanks to the staff at the hospital who have received the casualties, and, of course, the other emergency services that have been mentioned here today.

Yn gynharach, gwn fod ysbyty Mynydd Bychan wedi dilyn protocol ar gyfer argyfyngau mawr pan gafodd wybod gyntaf am y digwyddiad hwn. Deallaf fod hwnnw bellach wedi'i roi heibio. Nid wyf yn gwybod a oes gan y Prif Weinidog ragor o wybodaeth am hynny, er y byddwn yn hoffi ychwanegu fy niolch i staff yr ysbyty sydd wedi derbyn yr anafusion, ac wrth gwrs, y gwasanaethau brys eraill a grybwyllwyd yma heddiw.

15:08

**Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Could I join with Members in expressing my thanks to the emergency services for the work they have done during the course of the last few hours? Very difficult work, of course, but very necessary work, and we owe them a debt of gratitude. In terms of the situation at UHW, I know, and obviously have confirmed, that four individuals are at UHW and are receiving treatment. I also know that, certainly, UHW are not at this stage expecting any more admissions as a result of the incident earlier on this morning, but, of course, we know that the situation may well change in the course of the next few hours. Now, of course, it's a matter for the authorities who are on site—the police, particularly, and the HSE—to examine what has happened and, of course, to release further information in due course.

A gaf fi ymuno ag Aelodau i fynegi fy niolch i'r gwasanaethau brys am y gwaith y maent wedi'i wneud yn ystod yr ychydig oriau diwethaf? Mae'n waith anodd iawn, wrth gwrs, ond yn waith angenrheidiol iawn, ac mae ein dyled iddynt yn fawr. O ran y sefyllfa yn Ysbyty Athrofaol Cymru, rwy'n gwybod, ac mae wedi'i gadarnhau, yn amlwg, fod pedwar unigolyn yn cael triniaeth yn Ysbyty Athrofaol Cymru. Rwyf hefyd yn gwybod, yn bendant, nad yw'r Ysbyty Athrofaol yn disgwyl derbyn rhagor o bobl o ganlyniad i'r digwyddiad yn gynharach y bore yma, ond wrth gwrs, gwyddom y gall y sefyllfa newid yn ystod yr ychydig oriau nesaf. Nawr, wrth gwrs, mater i'r awdurdodau ar y safle—yr heddlu, yn enwedig, a'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch—yw archwilio'r hyn a ddigwyddodd a rhyddhau rhagor o wybodaeth maes o law wrth gwrs.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

15:09	<p><b>Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Thank you, First Minister.</p>	<p>Diolch yn fawr, Brif Weinidog.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
15:09	<p><b>3. Cynigion i Ethol Aelodau i Bwyllgorau</b></p> <p><b>Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Item 3: motions to elect Members to committees. Unless there are any objections, I propose that the motions are grouped for debate and voted on together. I call on a member of the Business Committee to move formally.</p> <p>Cynnig NDM5879 Rosemary Butler</p> <p>Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 17.14, yn ethol:</p> <p>(i) Lindsay Whittle (Plaid Cymru) yn aelod o'r Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol yn lle Jocelyn Davies (Plaid Cymru);</p> <p>(ii) Bethan Jenkins (Plaid Cymru) yn aelod o'r Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol yn lle Rhodri Glyn Thomas (Plaid Cymru).</p> <p>Cynnig NDM5880 Rosemary Butler</p> <p>Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 17.14, yn ethol Rhodri Glyn Thomas (Plaid Cymru) yn aelod o'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn lle Bethan Jenkins (Plaid Cymru).</p> <p>Cynnig NDM5886 Rosemary Butler</p> <p>Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 17.3, yn ethol John Griffiths (Llafur) fel eilydd ar gyfer y Pwyllgor Safonau Ymddygiad yn lle Ann Jones (Llafur).</p> <p><i>Cynigiwyd y cynigion.</i></p>	<p><b>3. Motions to Elect Members to Committees</b></p> <p><b>Y</b> <a href="#">Senedd.tv</a> <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p> <p>Eitem 3: cynigion i ethol Aelodau ar bwyllgorau. Oni bai bod gwrthwynebiad, rwy'n cynnig y dylid grwpio'r cynigion i'w trafod a phleidleisio arnynt gyda'i gilydd. Galwaf ar aelod o'r Pwyllgor Busnes i gynnig yn ffurfiol.</p> <p>Motion NDM5879 Rosemary Butler</p> <p>To propose that the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order 17.14, elects:</p> <p>(i) Lindsay Whittle (Plaid Cymru) as a Member of the Communities, Equality and Local Government Committee in place of Jocelyn Davies (Plaid Cymru);</p> <p>(ii) Bethan Jenkins (Plaid Cymru) as a Member of the Communities, Equality and Local Government Committee in place of Rhodri Glyn Thomas (Plaid Cymru).</p> <p>Motion NDM5880 Rosemary Butler</p> <p>To propose that the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order 17.14, elects Rhodri Glyn Thomas (Plaid Cymru) as a Member of the Children, Young People and Education Committee in place of Bethan Jenkins (Plaid Cymru).</p> <p>Motion NDM5886 Rosemary Butler</p> <p>To propose that the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order 17.3, elects John Griffiths (Labour) as an alternate member of the Standards of Conduct Committee in place of Ann Jones (Labour).</p> <p><i>Motions moved.</i></p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
15:09	<p><b>Paul Davies</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Yn ffurfiol.</p>	<p>Formally.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
15:09	<p><b>Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>There are no speakers, so the proposal is to agree the motions. Does any Member object? The motions are therefore agreed in accordance with Standing Order 12.36.</p> <p><i>Derbyniwyd y cynigion yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.</i></p>	<p>Nid oes unrhyw siaradwyr, felly y cynnig yw derbyn y cynigion. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Felly, derbyniwyd y cynigion yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.</p> <p><i>Motions agreed in accordance with Standing Order 12.36.</i></p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>

## 4. Dadl Plaid Cymru: Adnewyddu Trident

*Detholwyd y gwelliannau canlynol: gwelliant 1 yn enw Jane Hutt, gwelliant 2 yn enw Paul Davies, a gwelliant 3 yn enw Aled Roberts. Os derbynnir gwelliant 1, bydd gwelliannau 2 a 3 yn cael eu dad-ddethol. Os derbynnir gwelliant 2, bydd gwelliant 3 yn cael ei ddad-ddethol.*

## 4. Plaid Cymru Debate: Trident Renewal

*The following amendments have been selected: amendment 1 in the name of Jane Hutt, amendment 2 in the name of Paul Davies, and amendment 3 in the name of Aled Roberts. If amendment 1 is agreed, amendments 2 and 3 will be deselected. If amendment 2 is agreed, amendment 3 will be deselected.*

### 15:09 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Item 4 is the Plaid Cymru debate, Trident renewal, and I call on Leanne Wood to move the motion.

Eitem 4 yw dadl Plaid Cymru ar adnewyddu Trident, a galwaf ar Leanne Wood i gynig y cynnig.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Cynnig NDM5877 Elin Jones

Motion NDM5877 Elin Jones

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Yn gwrthwynebu adnewyddu neu ailosod y system Trident bresennol gan Lywodraeth y DU; a

1. Opposes the renewal or replacement of the current Trident system by the UK Government; and

2. Yn cefnogi ymdrechion rhyngwladol i ymgymryd â diarfogi niwclear ledled y byd.

2. Supports international efforts for world-wide nuclear disarmament.

*Cynigiwyd y cynnig.*

*Motion moved.*

### 15:09 **Leanne Wood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch, Ddirprwy Lywydd. The future defence needs of the UK have been brought into sharp focus following the atrocities carried out in Paris last weekend. We have to consider the defence needs of the UK in terms of the threats that we face now and in the future. We have to consider whether nuclear weapons deter violence or terror. Later in this Westminster Parliament there will be a decision and a vote on Trident renewal or replacement, and we note that the Labour Party has today announced that Ken Livingstone and Maria Eagle will co-chair the party's defence review, including its position on Trident. Now, I welcome the appointment of Ken Livingstone, and his appointment should encourage Labour Members here to vote with their consciences on Trident, as he has all of his political life.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Mae anghenion amddiffyn y DU yn y dyfodol wedi dod i sylw amlwg yn dilyn yr erchyllterau a gyflawnwyd ym Mharis y penwythnos diwethaf. Mae'n rhaid i ni ystyried anghenion amddiffyn y DU mewn perthynas â'r bygythiadau sy'n ein hwynebu yn awr ac yn y dyfodol. Mae'n rhaid i ni ystyried a yw arfau niwclear yn atal trais neu derfysgaeth. Yn nes ymlaen yn nhymor y Llywodraeth yn San Steffan ceir penderfyniad a phleidlais ar adnewyddu neu ailosod Trident, a nodwn fod y Blaid Lafur wedi cyhoeddi heddiw y bydd Ken Livingstone a Maria Eagle yn cyd-gadeirio adolygiad amddiffyn y blaid, gan gynnwys ei safbwynt ar Trident. Nawr, rwy'n croesawu penodiad Ken Livingstone, a dylai ei benodiad annog yr Aelodau Llafur yma i bleidleisio â'u cydwybod ar Trident, fel y mae ef wedi'i wneud ar hyd ei yrfa wleidyddol.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

At the heart of today's debate is the question as to whether this National Assembly should consider matters that are explicitly reserved or not devolved, and whether or not we can have any influence on those matters. There is of course a history of Trident being raised within this Assembly. In this Assembly term, the potential for Trident relocation to Wales was raised by the First Minister as a possible implication of the weapons being removed from Scotland following that country's independence referendum. That relocation would have had a significant and dramatic effect on public life in Wales. It would directly have impacted on a number of devolved matters such as the developments around Milford Haven. But the debate, of course, goes much further than the hypothetical relocation of Trident. The National Assembly has an interest in matters of UK-wide concern and in foreign policy issues. I'm sure that many Members here will remember the former Welsh Labour Minister Jane Davidson, who raised the matter of Trident in this Chamber back in 2007, and indicated at that time that she had the full support of the then First Minister, Rhodri Morgan.

The context of that discussion at that time was a UK-wide debate around Trident being updated, and the Minister wanted to ensure that something was said here in the Assembly to inform that wider discussion. We also have to recognise that Trident and questions relating to nuclear weapons more widely have also been a topic for local government following the formation in Wales—initiated, it has to be said, by Labour Party councillors—of the alliance of Nuclear Free Local Authorities.

Of course, our right to debate Trident is not in question. The Government amendment is specifically contesting the motion on the basis of competence. It is a fact that Trident renewal or replacement is a matter for the UK Government and will be voted on by the Westminster Parliament. It is also a fact that that decision will impact on Wales.

Today's Plaid Cymru motion calls on the National Assembly as a body to express its view. In today's debate we're not even calling on representations to be made to the UK Government. Advocates of abolishing Trident have spoken in the past of the spending, and of the escalating cost of Trident, on public services. There's no doubt that Plaid Cymru shares that position, but we should be clear that public services also include the police service, the counter-extremism and intelligence services, armed forces and all aspects of national security. Public services include a range of devolved and non-devolved functions, all of which need to work together to keep us safe both from terrorism, racism and wider discrimination. While we are in difficult times, it does fall to us to continue to advocate that nuclear weapons are not part of the solution in deterring violence or achieving peace.

Wrth wraidd y ddadl heddiw, mae'r cwestiwn a ddylai'r Cynulliad Cenedlaethol hwn ystyried materion penodol a gadwyd yn ôl neu sydd heb eu datganoli, ac a allwn gael unrhyw ddylanwad ar y materion hynny. Wrth gwrs, mae gan y Cynulliad hwn hanes o drafod Trident. Yn ystod tymor y Cynulliad hwn, trafodwyd y posibilrwydd o adleoli Trident i Gymru gan y Prif Weinidog fel canlyniad posibl i symud arfau o'r Alban yn dilyn eu refferendwm ar annibyniaeth. Byddai adleoli o'r fath wedi effeithio'n sylweddol ac yn ddramatig ar fywyd cyhoeddus yng Nghymru. Byddai wedi effeithio'n uniongyrchol ar nifer o faterion sydd wedi'u datganoli megis y datblygiadau yn Aberdaugleddau. Ond mae'r ddadl, wrth gwrs, yn mynd ymhellach o lawer nag adleoliad damcaniaethol Trident. Mae gan y Cynulliad Cenedlaethol ddiddordeb mewn materion sy'n ymwneud â'r DU gyfan ac mewn materion polisi tramor. Rwy'n siŵr bod llawer o'r Aelodau yma'n cofio cyn-Weinidog Llafur Cymru, Jane Davidson yn codi mater Trident yn y Siambur hon yn ôl yn 2007, a nododd bryd hynny fod y Prif Weinidog ar y pryd, Rhodri Morgan, yn ei chefnogi'n llwyr.

Cyd-destun y drafodaeth bryd hynny oedd dadl ledled y DU ynghylch diweddarau Trident, ac roedd y Gweinidog yn awyddus i sicrhau bod rhywbeth yn cael ei ddweud yma yn y Cynulliad i lywio'r drafodaeth ehangach. Mae'n rhaid i ni hefyd gydnabod bod Trident a chwestiynau sy'n ymwneud ag arfau niwclear yn fwy cyffredinol wedi bod yn bwnc trafod hefyd i lywodraeth leol yn dilyn sefydlu cynghrair Awdurdodau Lleol Di-niwclear Cymru a gychwynwyd, mae'n rhaid dweud, gan gynghorwyr Llafur.

Wrth gwrs, nid oes dadl ynghlŷn â'n hawl i drafod Trident. Mae gwelliant y Llywodraeth yn herio'r cynnig yn benodol ar sail cymhwysedd. Mae'n ffaith mai mater i Lywodraeth y DU yw adnewyddu neu ailosod Trident a bydd Senedd San Steffan yn pleidleisio arno. Mae hefyd yn ffaith y bydd y penderfyniad yn effeithio ar Gymru.

Heddiw, mae cynnig Plaid Cymru yn galw ar y Cynulliad Cenedlaethol fel corff i fynegi ei farn. Yn y ddadl heddiw nid ydym yn galw arnynt hyd yn oed i gyflwyno sylwadau i Lywodraeth y DU. Mae rhai unigolion sy'n cefnogi diddymu Trident wedi siarad yn y gorffennol am effaith y gwariant a chost gynyddol Trident ar wasanaethau cyhoeddus. Nid oes unrhyw amheuaeth fod Plaid Cymru yn rhannu'r farn honno, ond dylem fod yn glir fod gwasanaethau cyhoeddus hefyd yn cynnwys gwasanaeth yr heddlu, y gwasanaethau gwrth-eithafiaeth a chudd-wybodaeth, y lluoedd arfog a phob agwedd ar ddiogelwch cenedlaethol. Mae gwasanaethau cyhoeddus yn cynnwys amrywiaeth o swyddogaethau sydd wedi'u datganoli a heb eu datganoli, ac mae angen i bob un ohonynt weithio gyda'i gilydd i'n cadw'n ddiogel rhag terfysgaeth, hiliaeth a gwahaniaethu ehangach. Er ein bod mewn cyfnod anodd, mae'n gyfrifoldeb arnom ni i barhau i ddadlau nad yw arfau niwclear yn rhan o'r ateb wrth geisio atal trais neu sicrhau heddwch.

This is a debate that is accelerating in other parts of the United Kingdom, where a party outside of my political tradition, the Scottish Labour Party, has made a welcome move to oppose Trident renewal. We also have the UK Labour Party leader opposing Trident renewal. So, this leaves Wales as the only UK nation whose Labour leader remains committed to Trident. We would therefore not support amendment 1 in the name of Jane Hutt, as it doesn't allow us to have this full discussion. In fact, it's an attempt to close down the debate.

On amendment 2, I would join the Welsh Conservatives in expressing gratitude to those who work on the nuclear deterrent and, indeed, to all those in the armed forces and wider public services who play a role in the protection of the public. We would only reject that amendment due to its commitment to Trident itself.

Finally, we won't support amendment 3, as the Liberal Democrats' review of alternatives did not make Trident renewal or replacement less likely. And we would note that the party has since failed to back scrapping Trident at its conference.

To conclude, I would appeal to all of you: express your view on this question. Let's make sure that those who will make the decision in Westminster have a clear understanding of the feeling from Wales on this. Let's have a thorough debate about our security needs and the need for that, and for getting it right—and the importance of getting it right has been underlined by the tragic events on a global scale that have taken place over the past week.

Mae hon yn ddadl sy'n magu nerth mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig, ac mae plaid nad yw'n perthyn i fy nhraddodiad gwleidyddol i, Plaid Lafur yr Alban, wedi gwneud penderfyniad sydd i'w groesawu i wrthwynebu adnewyddu Trident. Hefyd, mae arweinydd Plaid Lafur y DU yn gwrthwynebu adnewyddu Trident. Felly, Cymru yw'r unig wlad yn y DU dan arweinydd Llafur sy'n parhau i gefnogi Trident. Felly, ni fyddem yn cefnogi gwelliant 1 yn enw Jane Hutt, gan nad yw'n caniatáu i ni gael y drafodaeth hon yn llawn. Yn wir, mae'n ymgais i fygu'r ddadl.

O ran gwelliant 2, byddwn yn ategu diolch y Ceidwadwyr Cymreig i'r rhai sy'n gweithio ar ataliaeth niwclear ac yn wir, i bawb yn y lluoedd arfog a'r gwasanaethau cyhoeddus ehangach sy'n chwarae rhan yn y gwaith o amddiffyn y cyhoedd. Ni fyddem ond yn gwrthod y gwelliant hwnnw oherwydd ei ymrwymiad i Trident ei hun.

Yn olaf, ni fyddwn yn cefnogi gwelliant 3, gan nad oedd adolygiad y Democratiaid Rhyddfrydol o ddewisiadau eraill yn gwneud adnewyddu neu ailosod Trident yn llai tebygol. A byddem yn nodi bod y blaid ers hynny wedi methu â chefnogi diddymu Trident yn ei chynhadledd.

I gloi, byddwn yn apelio ar bawb ohonoch: mynegwch eich barn ar y cwestiwn hwn. Gadewch i ni wneud yn siŵr fod y rhai a fydd yn penderfynu yn San Steffan yn deall teimladau Cymru ar hyn yn glir. Gadewch i ni gael trafodaeth drylwyr ynglŷn â'n hanghenion diogelwch a'r angen am hynny, a'r angen i'w gael yn iawn—ac ategwyd pwysigrwydd ei gael yn iawn gan y digwyddiadau trasig ar raddfa fyd-eang a welwyd dros yr wythnos ddiwethaf.

15:16 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I have selected the three amendments to the motion. If amendment 1 is agreed, amendments 2 and 3 will be deselected. If amendment 2 is agreed, amendment 3 will be deselected. I call on the First Minister to move formally amendment 1 tabled in the name of Jane Hutt.

*Gwelliant 1—Jane Hutt*

*Dileu pob dim a rhoi yn ei le:*

*Yn cefnogi ymdrechion rhyngwladol i ymgymryd â diarfogi niwclear ledled y byd, ond yn cydnabod mai mater i Lywodraeth y DU yw hwn.*

*Cynigiwyd gwelliant 1.*

Rwyf wedi dethol y tri gwelliant i'r cynnig. Os derbynir gwelliant 1, bydd gwelliannau 2 a 3 yn cael eu dad-ddethol. Os derbynir gwelliant 2, bydd gwelliant 3 yn cael ei ddad-ddethol. Galwaf ar y Prif Weinidog i gynnig gwelliant 1 a gyflwynwyd yn enw Jane Hutt yn ffurfiol.

*Amendment 1—Jane Hutt*

*Delete all and replace with:*

*Supports international efforts for world-wide nuclear disarmament, but recognises that this is a matter for the UK Government.*

*Amendment 1 moved.*

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

15:17 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Yn ffurfiol, Ddirprwy Lywydd.

Formally, Deputy Presiding Officer.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

15:17 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call on Andrew R.T. Davies to move amendment 2 tabled in the name of Paul Davies.

*Gwelliant 2—Paul Davies*

Galwaf ar Andrew R.T. Davies i gynnig gwelliant 2 a gyflwynwyd yn enw Paul Davies.

*Amendment 2—Paul Davies*

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

*Dileu pob dim a rhoi yn ei le:*

*Yn credu bod ailosod Trident yn hanfodol i sicrhau diogelwch cenedlaethol.*

*Yn diolch i'r dynion a'r menywod sy'n gweithio bob dydd i ddiogelu a darparu ataliad niwclear annibynnol y Deyrnas Unedig, sydd wedi helpu i gynnal heddwch am nifer o flynyddoedd.*

*Yn nodi ymhellach bod lleoliad ataliadau niwclear yn fater a gadwyd yn ôl ac felly nid yw o fewn maes cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru.*

*Cynigiwyd gwelliant 2.*

*Delete all and replace with:*

*Believes the replacement of Trident is vital to ensure national security.*

*Expresses gratitude to the men and women who work every day to safeguard and provide the United Kingdom's independent nuclear deterrent, which has helped maintain peace for many years.*

*Further notes that the siting of nuclear deterrents is a reserved matter and therefore not within the Welsh Government's remit.*

*Amendment 2 moved.*

15:17

**Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you very much, Deputy Presiding Officer. I welcome the opportunity to speak in the debate this afternoon. I couldn't agree more with the leader of Plaid Cymru—and it's not very often you hear me saying that—when there is an opportunity to debate any issue in this Chamber, and it's a very topical issue as well, in fairness. There are not many people who don't have an opinion on this particular field—whether it's the same opinion as mine or that of my party, well, that's what democracy is about; you pay your money, you take your chance, at the end of the day. As everything's on the record here, I'd also like to put on the record my sincere gratitude to Jeremy Corbyn in appointing Ken Livingstone as the co-ordinator of the Labour Party's defence review; it's a bit like getting Ronald McDonald to look after your cow, isn't it, really? [Laughter.] But, there you go, they're doing it their way, as they say, or as the song says.

The important thing here is, ultimately, what do people think will keep them safe and secure at the end of the day. It has been the established landscape of the United Kingdom that we do keep an independent nuclear deterrent across these islands to protect the safety and security of the people who live within the United Kingdom. That's not rocket science; that, ultimately, is good defence. [Interruption.] I'll take the intervention. [Interruption.] Well, actually, the Vulcan V-bombers were not rockets, they were bombs, they were. So, know your nuclear history, if you want to comment on it. I'll take the intervention.

Diolch yn fawr iawn, Ddirprwy Lywydd. Croesawaf y cyfle i siarad yn y ddadl y prynhawn yma. Ni allwn gytuno mwy ag arweinydd Plaid Cymru—ac ni fyddwch yn fy nghlywed i'n dweud hynny'n aml iawn—pan fo cyfle i drafod unrhyw fater yn y Siambr hon, ac mae'n fater amserol iawn hefyd, â bod yn deg. Nid oes llawer o bobl nad oes ganddynt farn ar y maes hwn—boed honno yr un farn â fy un i neu farn fy mhlaidd, ai peidio, wel, dyna yw democratiaeth; rydych yn bachu ar eich cyfle, yn y pen draw. Gan fod popeth yn cael ei gofnodi yma, hoffwn hefyd gofnodi fy niolch diffuant i Jeremy Corbyn am benodi Ken Livingstone fel cydlynnydd adolygiad amddiffyn y Blaid Lafur; mae'n debyg braidd i ofyn i Ronald McDonald ofalu am eich buwch, onid yw, mewn gwirionedd? [Chwerthin.] Ond dyna ni, maent yn ei wneud yn eu ffordd eu hunain, fel y maent yn ei ddweud, neu fel y mae'r gân yn ei ddweud.

Yr hyn sy'n bwysig yma yw beth y mae pobl yn credu y bydd yn eu cadw'n ddiogel yn y pen draw. Mae wedi bod yn rhan o dirwedd sefydledig y Deyrnas Unedig ein bod yn cadw ataliaeth niwclear annibynnol ledled yr ynysoedd hyn i amddiffyn diogelwch y bobl sy'n byw yn y Deyrnas Unedig. Nid yw hynny'n gymhleth; dyna, yn y pen draw, yw amddiffyn da. [Torri ar draws.] Fe gymeraf yr ymyriad. [Torri ar draws.] Wel, mewn gwirionedd, nid rocedi oedd awyrennau bomio Vulcan V, bomiau oeddent. Felly, dysgwch eich hanes niwclear, os ydych am roi sylwadau arno. Fe gymeraf yr ymyriad.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

15:18

**Mick Antoniw** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I was just wondering how you can say it's independent if it requires American permission to be used.

Roeddwn i'n meddwl tybed sut y gallwch ddweud ei fod yn annibynnol os oes angen caniatâd America i'w ddefnyddio.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)



It is an independent deterrent. Mick, your views are well known on this subject. I firmly believe, and my party firmly believes, that we need to renew the nuclear deterrent that we have at this moment in time. The amendment that we have put down to the motion clearly states what the Conservative Party's position is and what the Welsh Conservative Party's position is on this, and ultimately we also express our sincere gratitude to the men and women who work in the defence industries and also serve within our armed forces to make sure that there is a deterrent available to the Government of the day—the democratically elected Government of the day—to use if it sees fit.

It is fair to say that, ultimately, over time, the landscape of the security of this country has changed, without a shadow of a doubt, from the Warsaw pact and huge conventional forces, as well as nuclear forces, facing each other off on the continent of Europe. But also, as time has progressed, it is a fact that many countries—and some people would call those rogue countries—have tried to acquire nuclear technology, such as North Korea and other countries around the middle east and other parts of the world. Therefore, regrettably, we do not live in an internationally nuclear-free world. We'd love to live in that world and ultimately have that security. But the technology is out there and, as I've said, there are countries that are busily trying to acquire that capability to inflict damage on other countries.

Therefore, any Prime Minister of this country needs to have the confidence that, in the defence portfolio, the defence estate, call it what you will, he or she has significant capability to defend the interests of British citizens the length and breadth of this country and around the world. When we look at the complex and detailed negotiations and discussions that have gone on with Iran recently in trying to talk down the nuclear capability that that country was trying to acquire, we can see the complexities that people have to go through to actually convince countries that are aspiring to have the technology to arm themselves with nuclear weapons.

One of the things that does persuade people to take Britain seriously, whether it be in the United Nations or any other part of the world with our commitments to NATO, is the ability to have the full array of defence capabilities, whether that be conventional forces or whether that be nuclear forces. It will be next year that Westminster will take the decision on whether to renew the Trident project. I am convinced and confident that, with a majority Conservative Government, that decision will be taken. Considerable expenditure has already been put into this project and the amendment put down by the Lib Dems does do a disservice to what the previous Government did do under the agreements that they had, which was to commission much of the groundwork that has allowed the Parliament now to move to the stage of main gate and the commissioning of the Trident project.

Mae'n arf ataliol annibynnol. Mick, mae eich barn yn hysbys ar y pwnc hwn. Credaf yn gryf, ac mae fy mhlaidd yn credu'n gryf, fod angen i ni adnewyddu'r ataliaeth niwclear sydd gennym ar hyn o bryd. Mae'r gwelliant rydym wedi'i gyflwyno i'r cynnig yn datgan yn glir beth yw safbwynt y Blaid Geidwadol ar hyn a beth yw safbwynt Plaid Geidwadol Cymru ar hyn, ac yn y pen draw rydym hefyd yn mynegi ein diolch diffuant i'r dynion a'r menywod sy'n gweithio yn y diwydiannau amddiffyn, ac sydd hefyd yn gwasanaethu yn ein lluoedd arfog i wneud yn siŵr fod ataliaeth ar gael i Lywodraeth y dydd—Llywodraeth y dydd a etholwyd yn ddemocrataidd—i'w ddefnyddio os yw'n ystyried hynny'n addas.

Mae'n deg dweud, yn y pen draw, fod tirwedd ddiogelwch y wlad hon wedi newid dros gyfnod o amser heb rithyn o amheuaeth, ers cytundeb Warsaw a lluoedd confensiynol enfawr, yn ogystal â grymoedd niwclear, yn wynebu ei gilydd ar gyfandir Ewrop. Ond hefyd, wrth i amser fynd yn ei flaen, mae'n ffaith fod llawer o wledydd—a byddai rhai pobl yn galw'r rheini'n wledydd treisgar—wedi ceisio caffael technoleg niwclear, megis Gogledd Corea a gwledydd eraill ledled y dwyrain canol a rhannau eraill o'r byd. Felly, yn anffodus, nid ydym yn byw mewn byd sy'n ddi-niwclear yn rhyngwladol. Byddem wrth ein bodd yn byw mewn byd o'r fath a chael y diogelwch hwnnw yn y pen draw. Ond mae'r dechnoleg yn bodoli ac fel y dywedais, mae yna wledydd sy'n brysur yn ceisio caffael y gallu i achosi niwed i wledydd eraill.

Felly, mae angen i unrhyw Brif Weinidog ar y wlad hon fod yn hyderus, o ran y portffolio amddiffyn, yr ystad amddiffyn, beth bynnag yr hoffech ei alw, fod ganddo ef neu hi allu sylweddol i amddiffyn buddiannau dinasyddion Prydain ar hyd a lled y wlad hon ac ym mhob rhan o'r byd. Pan edrychwn ar y trafodaethau cymhleth a manwl a gafwyd gydag Iran yn ddiweddar i geisio dibrisio'r gallu niwclear roedd y wlad honno'n ceisio ei gaffael, gallwn weld y cymhlethdodau y mae'n rhaid i bobl eu goresgyn er mwyn argyhoeddi gwledydd sy'n dyheu am y dechnoleg i arfogi eu hunain ag arfau niwclear.

Un o'r pethau sy'n perswadio pobl i gymryd Prydain o ddifrif, boed yn y Cenhedloedd Unedig neu unrhyw ran arall o'r byd gyda'n hymrwymiaadau i NATO, yw'r gallu i gael yr amrywiaeth lawn o alluoedd amddiffyn, boed yn lluoedd confensiynol neu niwclear. Y flwyddyn nesaf, bydd San Steffan yn penderfynu a ddyliad adnewyddu prosiect Trident. Rwy'n argyhoeddedig ac yn hyderus, gyda Llywodraeth Geidwadol fwyafrifol, y bydd y penderfyniad hwnnw'n cael ei wneud. Cafwyd gwariant sylweddol eisoes ar y prosiect hwn ac mae'r gwelliant a gynnigwyd gan y Democratiaid Rhyddfrydol yn gwneud cam â'r hyn a wnaeth y Llywodraeth flaenorol o dan y cytundebau a oedd ganddynt, sef comisiynu llawer o'r gwaith sylfaen sydd bellach wedi caniatáu i'r Senedd symud at gam y prif borth a chomisiynu prosiect Trident.

We will see that vote come before the House of Commons and I would hope that people in this Chamber will cast their vote for the security of these islands and the people within these islands by maintaining the best insurance policy this country can have, and that is the renewal of the Trident nuclear fleet.

Byddwn yn gweld y bleidlais honno'n dod gerbron Tŷ'r Cyffredin a byddwn yn gobeithio y bydd pobl yn y Siambr hon yn bwrw eu pleidlais dros ddiogelwch yr ynysoedd hyn a'r bobl ar yr ynysoedd hyn drwy gynnal y polisi yswiriant gorau y gall y wlad hon ei gael, sef adnewyddu fflyd niwclear Trident.

15:22

## **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call on William Powell to move amendment 3, tabled in the name of Aled Roberts.

Galwaf ar William Powell i gynneg gweliant 3, a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts.

*Gwelliant 3—Aled Roberts*

*Amendment 3—Aled Roberts*

*Cynnwys pwynt 2 newydd ac ailrifo yn unol â hynny:*

*Insert as new point 2 and renumber accordingly:*

*Yn croesawu'r penderfyniad a wnaed gan Lywodraeth y DU i beidio ag adnewyddu Trident yn ystod y tymor seneddol blaenorol o ganlyniad i'r ffaith bod y Democratiaid Rhyddfrydol wedi mynnu hyn.*

*Welcomes the decision taken by the UK Government not to renew Trident during the last parliamentary term at the insistence of the Liberal Democrats.*

*Cynigiwyd gweliant 3.*

*Amendment 3 moved.*

15:22

## **William Powell** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch, Ddirprwy Lywydd.

Thank you, Deputy Presiding Officer.

I'd like to thank Plaid Cymru very much for bringing forward this important debate today and rise to move amendment 3, tabled, indeed, in the name of Aled Roberts.

Hoffwn ddiolch yn fawr iawn i Blaid Cymru am gyflwyno'r ddatl bwysig hon heddiw a chodaf i gynneg gweliant 3, a gyflwynwyd, yn wir, yn enw Aled Roberts.

The Welsh Liberal Democrats are crystal clear in our opposition to a like-for-like Trident replacement. The Liberal Democrats are committed to the global elimination of nuclear weapons and are committed also to the nuclear non-proliferation treaty. I join Leanne Wood in paying tribute to the nuclear-free local authorities movement, and to particularly mention the contribution to that made by our senior Gwynedd councillor, Stephen Churchman.

Mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn hollol glir yn ein gwrthwynebiad i newid un system Trident am system gyfatebol. Mae'r Democratiaid Rhyddfrydol wedi ymrwmo i ddileu arfau niwclear yn fyd-eang ac wedi ymrwmo hefyd i'r cytuniad i atal amlhau arfau niwclear. Hoffwn ategu teyrnged Leanne Wood i'r mudiad awdurdodau lleol di-niwclear, a sôn yn arbennig am y cyfraniad a wnaed iddo gan ein huwch gynghorydd Gwynedd, Stephen Churchman.

The world is moving against nuclear weapons. Since we last debated Trident in this Chamber, Iran and America have signed a deal in order to prevent nuclear proliferation in the middle east. In recent years, multilateral negotiations have led to America and Russia engaging in major nuclear reduction thanks to the new strategic arms reduction treaty, signed as recently as 2010 in Prague. We believe that these negotiations serve as evidence of the fact that the multilateral approach to nuclear disarmament is one that can be successful and one that can best serve our security.

Mae'r byd yn troi yn erbyn arfau niwclear. Ers y tro diwethaf i ni drafod Trident yn y Siambr hon, mae Iran ac America wedi arwyddo cytundeb er mwyn atal amlhau arfau niwclear yn y dwyrain canol. Yn y blynyddoedd diwethaf, mae trafodaethau amlochrog wedi arwain at America a Rwsia yn cyfyngu ar nifer eu harfau niwclear yn sylweddol, diolch i'r cytundeb strategol newydd ar gwtogi ar arfau, a lofnodwyd mor ddiweddar â 2010 ym Mhrag. Credwn fod y trafodaethau hyn yn tystio i'r ffaith fod y dull amlochrog o ddarfogi niwclear yn un a all lwyddo ac yn un a all sicrhau ein diogelwch yn y ffordd orau.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

While in Government, the Liberal Democrats in Westminster were the ones who stopped the early renewal of Trident, which had been planned by Tony Blair and supported by the Conservatives. We ensured, in Government, that the final decision on main gate, referred to by Andrew R.T. Davies, will not be made until 2016. We will continue to make the case for alternatives in the meantime. The main gate decision to proceed with Trident replacement is such a fundamental question affecting this nation's security that it should be subject to a binding vote in Parliament and not simply a Government decision. The Liberal Democrats in Parliament will be voting against any such proposal, should it come before Parliament.

The Liberal Democrats believe that a like-for-like Trident replacement cannot be justified in terms of cost or the security that it affords. The Trident alternatives review commissioned by the Liberal Democrats in Government was the most thorough review of nuclear systems that the UK has ever made public. This review showed that ending 24-hour patrols and procuring fewer submarines would both make substantial savings and still keep our country safe. While it seems inconceivable that the UK would ever use a nuclear weapon, simply deciding to disarm now would not yield financial savings in the next Parliament, nor would it give us leverage in the vital global nuclear disarmament talks. Thus we believe that to step down the nuclear ladder towards a minimal yet credible deterrent offers the best balance of deterrence, coupled with a clear commitment to further disarmament.

As my colleague Peter Black said when we last debated this subject in this Chamber, the UK still maintains and operates our nuclear deterrent with a cold war mentality, and as has been observed in recent hours and recent days, the world has moved on. The security threat has changed, and by not recognising this we are failing to show our commitment to meeting international commitments to reducing nuclear weapons under the non-proliferation treaty. The world is now a very, very different place, and our approach to protecting this country needs, of course, to adapt accordingly.

We won't be supporting any of the other amendments today, and it looks as though we'll be mutually met in that lack of support. In our view, the Government amendment weakens the motion and doesn't enable this Assembly to voice our belief that the current Trident system should not be renewed.

The amendment tabled by the Conservatives is fundamentally at odds with our stance on the nuclear and security issue. We can ensure our national security without replacing the current Trident system. I'm happy to give way.

Pan oeddent yn y Llywodraeth, y Democratiaid Rhyddfrydol yn San Steffan a ataliodd y broses o adnewyddu Trident yn gynnar, a gynlluniwyd gan Tony Blair a'i chefnogi gan y Ceidwadwyr. Yn y Llywodraeth, gwnaethom yn siŵr na fyddai'r penderfyniad terfynol ar y prif borth, y cyfeiriodd Andrew R.T. Davies ato, yn cael ei wneud tan 2016. Byddwn yn parhau i gyflwyno'r achos dros ddewisiadau amgen yn y cyfamser. Mae'r penderfyniad ar y prif borth i fwrw ymlaen ag ailosod y system Trident yn gwestiwn mor sylfaenol sy'n effeithio ar ddiogelwch y genedl hon fel y dylai fod yn destun pleidleis orfodi yn y Senedd yn hytrach na phenderfyniad i'r Llywodraeth. Bydd y Democratiaid Rhyddfrydol yn y Senedd yn pleidleisio yn erbyn unrhyw gynnyg o'r fath, pe bai'n dod gerbron y Senedd.

Mae'r Democratiaid Rhyddfrydol yn credu na ellir cyfiawnhau cyfnewid un system Trident am system gyfatebol ar sail cost na diogelwch. Yr adolygiad o ddewisiadau amgen yn lle Trident, a gomisiynwyd gan y Democratiaid Rhyddfrydol mewn Llywodraeth, oedd yr adolygiad mwyaf trylwyr o systemau niwclear a gyhoeddwyd gan y DU erioed. Dangosodd yr adolygiad y byddai rhoi diwedd ar batrolau 24 awr a chaffael llai o longau tanfor yn sicrhau arbedion sylweddol ac yn dal i gadw ein gwlad yn ddiogel. Er ei bod yn ymddangos yn annirnadwy y byddai'r DU byth yn defnyddio arf niwclear, ni fyddai penderfynu diarfogi yn awr yn cynhyrchu arbedion ariannol yn y Senedd nesaf, ac ni fyddai'n rhoi trosoledd i ni yn y trafodaethau allweddol ar ddarfogi niwclear byd-eang. Felly, rydym yn credu bod camu i lawr yr ysgol niwclear tuag at leiafswm credadwy o arfau ataliol yn cynnig y cydbwysedd gorau o ataliaeth, ynghyd ag ymrwymiad clir i ddarfogi pellach.

Fel y dywedodd fy nghyd-Aelod, Peter Black, pan gawsom y ddad ddiwethaf ar y pwnc yn y Siambr hon, mae'r DU yn dal i fod yn cynnal ac yn gweithredu ein harfau niwclear ataliol gyda meddylfryd y rhyfel oer, ac fel y gwelwyd dros yr oriau a'r dyddiau diwethaf, mae'r byd wedi symud yn ei flaen. Mae'r bygythiad diogelwch wedi newid, a thrwy beidio â chynabod hyn rydym yn methu â dangos ein hymrwymiad i gyflawni ymrwymadau rhyngwladol i leihau arfau niwclear o dan y cytuniad i atal amlhau arfau. Mae'r byd yn lle gwahanol iawn bellach, ac mae angen i'n dull o amddiffyn y wlad hon addasu yn unol â hynny wrth gwrs.

Ni fyddwn yn cefnogi unrhyw un o'r gwelliannau eraill heddiw, ac mae'n ymddangos y bydd yr un diffyg cefnogaeth yn ein hwynebu ni. Yn ein barn ni, mae gwelliant y Llywodraeth yn gwanhau'r cynnyg ac nid yw'n galluogi'r Cynulliad hwn i leisio ein cred na ddylid adnewyddu'r system Trident gyfredol.

Mae'r gwelliant a gyflwynwyd gan y Ceidwadwyr yn sylfaenol groes i'n safbwynt ar arfau niwclear a diogelwch. Gallwn sicrhau ein diogelwch cenedlaethol heb newid y system Trident gyfredol. Rwy'n hapus i ildio.

15:26 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I'm not quite sure why the amendment should be at odds, because you have said that you're not against the replacement—it's just the type of replacement that you're talking about, or are you against any form of replacement as Liberal Democrats?

Nid wyf yn hollol siŵr pam y dylai'r gwelliant fod yn groes i'ch safbwynt, gan eich bod wedi dweud nad ydych yn erbyn y newid—mae'n ymwneud â'r math o newid rydych yn sôn amdano, neu a ydych chi, fel Democratiaid Rhyddfrydol, yn erbyn unrhyw fath o newid?

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

15:26 **William Powell** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I think the leader of the opposition is engaging here in some semantics. We are against a like-for-like replacement, as I've stated and as Peter Black has previously stated.

Rwy'n credu bod arweinydd yr wrthblaid yn defnyddio semanteg yma. Rydym yn erbyn cyfnewid un system Trident am system gyfatebol, fel rwyf wedi'i ddatgan ac fel y mae Peter Black wedi'i ddatgan yn flaenorol.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

It is not to say, of course, that we would not wish to acknowledge or be grateful for the major efforts and the work undertaken by men and women who are involved in working in the UK's independent nuclear deterrent, ensuring that the highest standards of safety and professionalism are met. And the Fukushima nuclear disaster in 2011 serves as a stark reminder of the deep environmental, societal and personal risks involved in working in this field.

Nid yw hynny'n dweud, wrth gwrs, na fyddem yn dymuno cydnabod neu fod yn ddiolchgar am yr ymdrechion pwysig a'r gwaith a wneir gan ddynion a menywod sy'n gweithio ar arfau niwclear ataliol annibynnol y DU, yn sicrhau bod y safonau uchaf o ran diogelwch a phroffesiynoldeb yn cael eu cyflawni. Ac mae trychineb niwclear Fukushima yn 2011 yn ein hatgoffa'n glir am y peryglon amgylcheddol, cymdeithasol a phersonol difrifol sy'n gysylltiedig â gweithio yn y maes hwn.

15:27 **Rhodri Glyn Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Rwy'n falch iawn fod y gwrthbleidiau eraill wedi croesawu'r ddatganioli, sef darlledu, wrthym ni, 'Rŷm ni wedi eich ethol chi i fod yn gynrychiolwyr ar ein rhan ni, ac rŷm ni'n disgwyl i chi fynegi barn ar y pwnc yma, ac rydym yn disgwyl i chi adlewyrchu ein teimladau ni ar y pwnc yma.' Ac mae'r un peth yn wir am Trident. Mae pobl Cymru yn disgwyl i ni, fel fforwm cenedlaethol ac fel senedd-dy Cymru, lle mae'r drafodaeth yn cymryd lle—maen nhw'n disgwyl i ni fynegi barn ar eu rhan nhw, ac maen nhw'n disgwyl i Lywodraeth Cymru hefyd i fynegi barn ar eu rhan nhw. Mae'n drist bod Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r dacteg yma er mwyn osgoi mynegi barn ar y pwnc hollbwysig yma.

I'm very pleased that the other opposition parties have welcomed this debate this afternoon, but I am saddened that the Welsh Government has tabled an amendment that endeavours to avoid expressing a view on this subject.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

Roeddwn mewn pwyllgor y bore yma pan ddywedodd un o'r tystion, tra roeddem yn trafod mater nad ydyw wedi'i ddatganioli, sef darlledu, wrthym ni, 'Rŷm ni wedi eich ethol chi i fod yn gynrychiolwyr ar ein rhan ni, ac rŷm ni'n disgwyl i chi fynegi barn ar y pwnc yma, ac rydym yn disgwyl i chi adlewyrchu ein teimladau ni ar y pwnc yma.' Ac mae'r un peth yn wir am Trident. Mae pobl Cymru yn disgwyl i ni, fel fforwm cenedlaethol ac fel senedd-dy Cymru, lle mae'r drafodaeth yn cymryd lle—maen nhw'n disgwyl i ni fynegi barn ar eu rhan nhw, ac maen nhw'n disgwyl i Lywodraeth Cymru hefyd i fynegi barn ar eu rhan nhw. Mae'n drist bod Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r dacteg yma er mwyn osgoi mynegi barn ar y pwnc hollbwysig yma.

I was in a committee this morning when one of the witnesses said, whilst we were discussing a non-devolved issue, namely broadcasting, 'We have elected you to be our representatives and we expect you to express a view on this subject, and we expect you to reflect our feelings on this subject'. And the same is true of Trident. The people of Wales expect us, as a national forum and as the Parliament of Wales, where the debate takes place—they expect us to express a view on their behalf, and they expect the Welsh Government, too, to express a view on their behalf. It is sad that the Welsh Government uses this tactic in order to avoid expressing a view on this extremely important subject.

Fel rhywun sydd wedi ymgyrchu yn erbyn arfau niwclear am dros 40 mlynedd, yn y gorffennol rwyf wedi wynebu'r ymosodiad fy mod i'n byw mewn rhyw fyd delfrydol, fy mod i'n osgoi realiti, ac nad oeddwn i'n barod i ofyn y cwestiynau caled ynglŷn â diogelwch pobl yn y byd real. Gadewch imi fod yn glir: yng nghyd-destun y ddadl yma, mae Plaid Cymru yn gofyn y cwestiynau caled hynny ynglŷn â beth sy'n angenrheidiol heddiw er mwyn diogelu pobl Cymru, diogelu pobl y Deyrnas Unedig a diogelu pobl y byd yn erbyn ymosodiadau. Fe wnaeth arweinydd y Ceidwadwyr Cymreig, chwarae teg iddo, gydnabod bod maes y gad wedi newid, bod arfau niwclear a'r taflegrau Trident yma wedi cael eu creu yn y lle cyntaf i wrthsefyll y bygythiad o'r dwyrain comiwnyddol. Mae'n ddiddorol, onid yw hi, yr wythnos yma, fod Prif Weinidog Cymru wedi bod yn trafod gyda Vladimir Putin sut y gellid gwrthsefyll y bygythiad diweddaraf? Ac, eto, mae'r taflegrau niwclear yma yn dal i fodoli. Beth sydd yn gwbl amlwg, nid yn unig o'r hyn ddigwyddodd ym Mharris yr wythnos diwethaf—ac rydym yn tristáu oherwydd hynny, ac yn cydymdeimlo'n fawr â phawb sydd wedi dioddef yn sgil hynny—yw mai'r bygythiadau sydd yn wynebu Cymru, y Deyrnas Unedig a'r byd gorllewinol y dyddiau yma, yw ymosodiadau terfysgldd, rhyfela dinesig, ac ymosodiadau seiber. A all unrhyw un esbonio sut y mae taflegrau Trident yn gwrthsefyll yr ymosodiadau hynny?

Mae Andrew R.T. Davies wedi dweud, 'Wel, fe gawn ni'r cyfan; fe gawn ni bob peth; fe gawn ni'r holl ystod o amddiffynfeydd sydd yn bosibl'. Dyna anwybyddu realiti. Mae yna gynhadledd yn cael ei chynnal yn Llundain heddiw, sydd yn cydnabod nad oes gennym ni'r dechnoleg ar hyn o bryd i wrthsefyll ymosodiadau seiber, a bod angen buddsoddi'n helaeth yn y dechnoleg honno er mwyn sicrhau diogelwch o'r cyfeiriad hwnnw. Os siaradwch chi ag unrhyw un o heddluoedd Cymru, fe wnawn nhw gydnabod nad oes gan yr heddlu adnoddau digonol i amddiffyn pobl Cymru, na phobl y Deyrnas Unedig, ar hyn o bryd rhag ymosodiadau terfysgldd nac unrhyw fath o ryfela dinesig. Mae'n rhaid i ni wneud y dewis syml: sut ydym yn amddiffyn pobl Cymru? Sut ydym yn amddiffyn pobl y Deyrnas Unedig ar yr adeg arbennig yma? Nid yw buddsoddi mewn adnewyddu Trident yn mynd i wneud hynny, ac mae'n rhaid i ni ailgyfeirio'r arian hwnnw er mwyn sicrhau ein bod ni'n buddsoddi yn y pethau hynny sy'n angenrheidiol bellach i wynebu'r math o fygythiadau sydd yn amlwg iawn yn ein wynebu ni i gyd, ym mhob rhan o'r byd gorllewinol. Mae'n bwysig ein bod ni'n gwneud y penderfyniad caled hwnnw, ac rwy'n falch iawn, yn y cynnig yma, fod Plaid Cymru yn wynebu'r realiti hwnnw.

As one who has campaigned against nuclear arms for over 40 years, in the past, I have faced the allegation that I live in an ideal world, that I'm avoiding reality, and that I wasn't willing to ask the hard questions about people's security in the real world. Let me be clear: in the context of this debate, Plaid Cymru is posing those hard questions about what is vital and essential today in order to safeguard the people of Wales, to protect the people of the United Kingdom and to protect the people of the world against attacks. The Welsh Conservative leader, fair play to him, did acknowledge that the theatre of war had changed and that these nuclear arms and these Trident missiles were created in the first place to withstand the threat from the communist east. It's ironic that, this week, the First Minister has been having discussions with Vladimir Putin on how to address the latest threat. Yet, these nuclear weapons still exist. What is perfectly clear, not just from what happened in Paris last week—and we are extremely saddened by that and sympathise greatly with everybody who has suffered as a result of that—is that the threats that face Wales, the United Kingdom and the western world these days are terrorist attacks, urban warfare and cyber attacks. Can anybody explain how Trident missiles could help in withstanding those attacks?

Andrew R.T. Davies has said, 'We'll have it all; we'll have the whole range of defences, we'll take them all'. That is to ignore reality. A conference is being held in London today that acknowledges that we do not have the technology at present to withstand cyber attacks, and that there's a need to invest significantly in that technology in order to secure ourselves from that direction. If you speak to any police force in Wales, they will acknowledge that the police do not have the adequate resources to defend the people of Wales or the people of the United Kingdom at present from terror attacks, or from any kind of urban warfare. Therefore, we must make the simple choice: how do we protect the people of Wales? How do we protect the people of the United Kingdom at this particular time? Investing in the renewal of Trident will not do that and we must redirect that funding, those moneys, in order to ensure that we invest in the things that are, by now, essential to face the kinds of threats that are most evidently facing us all in every part of the western world. It's important that we take that hard decision, and I'm very pleased that, in this motion, Plaid Cymru is facing that reality.

Every political party is signed up to the international efforts for world-wide nuclear disarmament, but not every party is prepared to do anything about it. Let's assume you believe that nuclear weapons act as a deterrent. If you believe that they stop wars, if you believe that they make the world safer, surely the logic of that argument is that every country should have them. We should not be trying to stop countries having nuclear weapons; we should be encouraging every country to have nuclear weapons, because we believe they act as a deterrent. We believe they stop us having wars, therefore, we should make sure everybody has them. We should be exporting enriched uranium so that they can make the bomb that is necessary for the safety of all of us—making nuclear bombs out of enriched uranium, once you've got enriched uranium, is not particularly difficult.

So, that's what we should be doing if we actually believe it's going to make the world a safer place by having nuclear weapons. Great Britain has had an independent nuclear deterrent since it became the third country to test its own nuclear weapon in October 1952. Since 1998, we've had the Trident programme, which is thought to have 200 thermonuclear warheads, 160 which are operational at any one time, although, again, the Government refuses to tell us the exact number. I'm sure that most other countries in the world that are our likely opponents could probably tell us, but the Government doesn't think we ought to know.

The dictionary definition of 'deterrent' includes 'military strength' or 'an ability to defend a country or retaliate strongly enough to deter an enemy from attacking'. If Britain's nuclear deterrent were to work, no non-nuclear power would dare to attack us or any of our dependencies, any of our allies, or any of our overseas territories. Evidently, the script wasn't read by the Argentinian junta, who invaded the Falklands without any fear of nuclear attack. The nuclear deterrent completely failed to deter Argentina. It believed, correctly, that not only would Britain not use it, we wouldn't even threaten to use it; we wouldn't say that we were thinking about using it if we were losing, which we were at one time. Other countries we have failed to deter with our nuclear weapons include Iraq over the invasion of Kuwait and Egypt over the annexing of the Suez canal. I don't want to continue, but it's certainly not deterred anybody.

The USA has nuclear weapons—probably the most nuclear weapons of any country in the world—but when it was fighting in Vietnam, it used conventional bombing; it also used things that I don't think it should have done, such as Agent Orange and napalm, but it never threatened North Vietnam with a nuclear attack let alone used nuclear weapons on it, despite being forced out of South Vietnam. The USSR, which is now Russia, which we think about as a state that will do almost anything and which we have to be frightened of, was forced out of Afghanistan. The Taliban was not deterred by their nuclear arsenal—

Mae pob plaid wleidyddol wedi ymrwymo i'r ymdrechion rhyngwladol dros ddiarfog niwclear byd-eang, ond nid yw pob plaid yn barod i wneud rhywbeth yn ei gylch. Gadewch i ni dybio eich bod yn credu bod arfau niwclear yn gweithredu fel ataliaeth. Os ydych yn credu eu bod yn rhoi terfyn ar ryfeloedd, os ydych yn credu eu bod yn gwneud y byd yn fwy diogel, 'does bosibl mai rhesymeg y ddadl yw y dylai pob gwlad eu cael. Ni ddylem geisio atal gwledydd rhag cael arfau niwclear; dylem annog pob gwlad i gael arfau niwclear, gan ein bod yn credu eu bod yn gweithredu fel ataliaeth. Rydym yn credu eu bod yn ein hatal rhag cael rhyfeloedd, felly, dylem sicrhau bod gan bawb arfau o'r fath. Dylem fod yn allforio wraniwm wedi'i gyfoethogi er mwyn iddynt allu creu'r bom sy'n angenrheidiol er diogelwch pawb ohonom—nid yw creu bomiau niwclear o wraniwm wedi'i gyfoethogi, pan fydd gennych wraniwm wedi'i gyfoethogi, yn arbennig o anodd.

Felly, dyna ddylem ei wneud os credwn fod cael arfau niwclear yn mynd i wneud y byd yn fwy diogel. Mae arfau niwclear ataliol annibynnol wedi bod gan Brydain Fawr ers iddi brofi ei harf niwclear ei hun ym mis Hydref 1952, y drydedd wlad i wneud hynny. Er 1998, mae'r rhaglen Trident wedi bod gennym, a chredir bod y rhaglen honno'n cynnwys 200 o arfbennau thermoniwclear, gyda 160 ohonynt yn weithredol ar unrhyw adeg, er bod y Llywodraeth, unwaith eto, yn gwrthod dweud wrthym beth yw'r union nifer. Rwy'n siŵr y gallai'r rhan fwyaf o wledydd eraill y byd a allai fod yn wrthwynebwyr i ni ddweud wrthym, ond nid yw'r Llywodraeth yn credu y dylem gael gwylbod.

Mae diffiniad y geiriadur o arf ataliol yn cynnwys 'cryfder milwrol neu allu i amddiffyn gwlad neu i ddial yn ddigon cryf i atal gelyn rhag ymosod.' Os yw arfau niwclear ataliol Prydain yn gweithio, yna ni fyddai unrhyw rym di-niwclear yn meiddio ymosod arnom nac unrhyw un o'n gwledydd dibynnol, ein cynghreiriaid, neu ein tiriogaethau tramor. Yn amlwg, mae'n sgript na ddarllenwyd gan jwnta yr Ariannin, a ymosododd ar y Falklands heb ofni ymosodiad niwclear. Methodd yr arfau niwclear ataliol yn llwyr ag atal yr Ariannin. Credai'r Ariannin, yn gywir, nid yn unig na fyddai Prydain yn eu defnyddio, ond na fyddem hyd yn oed yn bygwth eu defnyddio; ni fyddem yn dweud ein bod yn ystyried eu defnyddio pe baem yn colli, ac roedd hynny'n wir ar un adeg. Mae gwledydd eraill rydym wedi methu â'u hatal gyda'n harfau niwclear yn cynnwys Irac ar adeg yr ymosodiad ar Kuwait a'r Aifft dros gipio rhannau o gamlas Suez. Nid wyf am barhau, ond yn sicr nid yw wedi atal neb.

Mae gan yr UDA arfau niwclear—mwy o arfau niwclear nag unrhyw wlad yn y byd yn ôl pob tebyg—ond pan oedd yn ymladd yn Fietnam, defnyddiai fomiau confensiynol; roedd hefyd yn defnyddio pethau nad wyf yn credu y dylai fod wedi'u defnyddio, megis Agent Orange a napalm, ond ni fgythiodd Ogledd Fietnam ag ymosodiad niwclear heb sôn am ddefnyddio arfau niwclear yno, er iddi gael ei gorfodi allan o Dde Fietnam. Cafodd yr Undeb Sofietaidd, sef Rwsia erbyn hyn—gwlad y meddylwng amdani fel gwladwriaeth a fyddai'n gwneud unrhyw beth bron a gwlad y mae'n rhaid i ni ei hofni—ei gorfodi o Afghanistan. Ni chafodd y Taliban eu hatal gan eu harfau niwclear—

15:35	<p><b>Andrew R.T. Davies</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Will you take an intervention?</p>	<p>A wnewch chi dderbyn ymyriad?</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
15:35	<p><b>Mike Hedges</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Can I just finish the sentence? Instead, they forced the USSR out of Afghanistan. Certainly.</p>	<p>A gaf fi orffen y frawddeg? Yn hytrach, cafodd yr Undeb Sofietaidd eu gorfodi allan o Afghanistan gan y Taliban. Yn sicr.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
15:35	<p><b>Andrew R.T. Davies</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>It is because it is used so responsibly and it is the final hurdle or final wall that people use in their defence that it hasn't been used in those conflicts. To compare those conflicts that you've just mentioned, Mike, really shows a detachment from reality and not an understanding of what the deterrent's real purpose is about. It's bizarre.</p>	<p>Ni ddefnyddiwyd arfau niwclear yn y rhyfeloedd hynny am eu bod yn cael eu defnyddio mor gyfrifol a dyna'r cam olaf a'r dewis olaf y mae pobl yn ei ddefnyddio i amddiffyn eu hunain. Mae'r ffaith eich bod yn cymharu'r rhyfeloedd rydych newydd sôn amdanynt, Mike, yn dangos eich diffyg cysylltiad â realiti yn hytrach na dealltwriaeth o wir bwrpas arfau ataliol. Mae'n rhyfeddol.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
15:36	<p><b>Mike Hedges</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Sorry, I thought a deterrent's real purpose was to deter, and it certainly hasn't acted as a deterrent. Supporters of nuclear weapons would say, 'They have stopped a major war in Europe'. Interestingly, supporters of the European Community make exactly the same argument. But, even if the mutual assured destruction of the nuclear arms race was true of the immediate post-war period until the fall of the Berlin wall, it's certainly untrue now. Does anybody seriously expect present-day Russia to start invading the rest of Europe? If they do, shouldn't we be getting nuclear weapons to Norway and Finland immediately? If it wants to make an aggressive act, it is more likely to turn the gas supply off than to fire nuclear weapons.</p> <p>So, why do we continue to want to invest in nuclear weapons that we will not only not use, but not even threaten to use, even when a British overseas territory is invaded? The terrible nature of nuclear weapons together with their environmental impact means that it is unlikely that any respectable Government would use them for fear of the political backlash from the rest of the world.</p> <p>Interestingly, hydrogen bombs have not been tested in recent times. We don't actually know it works, because it hasn't been tested—not that I'm arguing it should be tested, but it could just be filled with hydrogen and it wouldn't cause a thermonuclear reaction on explosion. We don't know that. I think the last time they were tested by the Americans or the British or even the Russians was probably back in the 1980s. So, we don't actually know it works.</p>	<p>Mae'n ddrwg gennyf, roeddwn o dan yr argraff mai gwir bwrpas arfau ataliol oedd atal, ac yn sicr nid ydynt wedi gweithredu fel ataliaeth. Byddai cefnogwyr arfau niwclear yn dweud, 'Maent wedi atal rhyfel mawr yn Ewrop'. Yn ddiddorol, mae cefnogwyr y Gymuned Ewropeaidd yn cyflwyno'r un ddadl yn union. Ond hyd yn oed os oedd dinistr cilyddol sicr y ras arfau niwclear yn wir am y cyfnod yn syth ar ôl y rhyfel hyd nes y cwmpodd wal Berlin, yn bendant nid yw'n wir bellach. A oes unrhyw un o ddifrif yn disgwyl i'r Rwsia gyfoes ddechrau goresgyn gweddill Ewrop? Os oes, oni ddylem anfon arfau niwclear i Norwy a'r Ffindir ar unwaith? Os yw am gyflawni gweithred ymosodol, mae'n fwy tebygol o ddiffodd y cyflenwad nwy na saethu arfau niwclear.</p> <p>Felly, pam rydym yn dal i fod eisiau buddsoddi mewn arfau niwclear na fyddwn yn eu defnyddio, na hyd yn oed yn bygwth eu defnyddio, hyd yn oed pan ymosodir ar diriogaeth dramor Brydeinig? Mae natur erchyll arfau niwclear ynghyd â'u heffaith ar yr amgylchedd yn golygu ei bod yn annhebygol y byddai unrhyw Lywodraeth barchus yn eu defnyddio am eu bod yn ofni adwaith gwleidyddol gweddill y byd.</p> <p>Yn ddiddorol, nid yw bomiau hydrogen wedi cael eu profi yn y cyfnod diweddar. Nid ydym yn gwybod eu bod yn gweithio mewn gwirionedd, gan na chawsant eu profi—nid wyf yn dadlau y dylid eu profi, ond mae'n bosibl y byddent yn cael eu llenwi â hydrogen ac na fyddent yn achosi adwaith thermoniuclear wrth ffrwydro. Nid ydym yn gwybod hynny. Rwy'n credu mai'r tro diwethaf iddynt gael eu profi gan yr Americanwyr neu'r Prydeinwyr neu'r Rwsiaid hyd yn oed oedd yn ystod yr 1980au yn ôl pob tebyg. Felly, nid ydym yn gwybod eu bod yn gweithio mewn gwirionedd.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>

So, why do we continue to sustain it as a misnamed nuclear deterrent? We're not even independent; we'd only fire it if the Americans said so, so we'd have to ask, 'Please Sir, can we fire our independent weapon?' I'm not sure how independent that makes it. The answer appears to be less military than political. It guarantees our place on the UN Security Council. So, why do we want to upgrade Trident? It's not rusting away. It will still continue to work. It will still continue to work for the next 40 or 50 years. It's not going to be used anyway, so why waste billions of pounds on upgrading it to buy another system? I'm old enough to remember the argument over upgrading Polaris into Trident. We've had one upgrade and nothing has worked. I think really the argument is: why spend money on something not only that we won't use and won't threaten to use but that everybody else in the world knows we're not going to use?

Felly, pam rydym yn parhau i gynnal yr arfau niwclear hyn a gamenwyd fel rhai ataliol? Nid ydym yn annibynnol hyd yn oed; ni fyddem ond yn eu saethu pe bai'r Americanwyr yn dweud wrthym am wneud hynny, felly byddai'n rhaid i ni ofyn, 'Os gwelwch yn dda Syr, a gawn ni saethu ein harf annibynnol?' Nid wyf yn siŵr pa mor annibynnol yw hynny. Mae'r ateb i'w weld yn fwy gwleidyddol na milwrol. Maent yn gwarantu ein lle ar Gyngor Diogelwch y Cenhedloedd Unedig. Felly, pam rydym ni eisiau uwchraddio Trident? Nid yw'n rhydu. Bydd yn dal i weithio. Bydd yn dal i weithio am y 40 neu 50 mlynedd nesaf. Nid yw'n mynd i gael ei ddefnyddio beth bynnag, felly pam gwastraffu biliynau o bunnoedd ar ei uwchraddio i brynu system arall? Rwy'n ddigon hen i gofio'r ddadl dros uwchraddio Polaris i Trident. Rydym wedi uwchraddio unwaith ac nid oes dim wedi gweithio. Rwy'n credu mai'r ddadl mewn gwirionedd yw: pam gwario arian ar rywbeth na fyddwn yn ei ddefnyddio ac na fyddwn yn bygwth ei ddefnyddio, a rhywbeth y mae pawb arall yn y byd yn gwybod na fyddwn yn ei ddefnyddio?

15:38

### Simon Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Rydw i'n cydsynio'n llwyr â'r hyn y mae Mike Hedges newydd ei ddweud, ac rwy'n credu ei fod e wedi rhoi ei fys ar nifer o'r problemau sydd gyda ni ynglŷn ag adnewyddu Trident ond hefyd ynglŷn ag arfau niwclear fel y cyfryw. Rydw i'n meddwl ei fod e a Rhodri Glyn hefyd wedi gosod allan achos eithaf moesol yn erbyn y defnydd o arfau niwclear. Nid wyf i'n cytuno â Jeremy Corbyn ar bob dim—er roedd e'n fy nghefnogi i'n fwy aml na'i blaid ei hunan pan oeddwn i'n Aelod o Dŷ'r Cyffredin—ond pan ddywedodd Jeremy Corbyn na fyddai e byth yn pwyso'r botwm ei hunan, rwy'n credu bod hynny'n onestrwydd yr oedd ei angen ar y ddadl yma. Ond nid fe yw'r arweinydd Llafur cyntaf i ddweud hynny, achos dim ond ar ôl gadael y Llywodraeth y dywedodd Dennis Healey, a oedd yn ail—y 'substitute', os liciwch chi—ond a oedd hefyd â'r cyfrifoldeb i bwysu'r botwm pe bai rhywbeth wedi digwydd i'r Prif Weinidog ar y pryd, na fyddai e chwaith byth wedi pwyso'r botwm pe byddai wedi bod yn y sefyllfa honno. Ac mae hynny'n tanlinellu pa mor anfoesol yw arfau niwclear a bod derbyn anfoesoldeb arfau niwclear wedi bod yn rhywbeth llawer mwy cyffredin mewn gwleidyddiaeth nag yw e ar hyn o bryd. Yn sicr, rydym ni, yn y ddadl yma, eisiau adfer rhywfaint o'r olwg o'r newydd nid yn unig ar gost ac nid yn unig ar ddefnyddioldeb ymarferol arfau niwclear, ond ar y moesau y tu ôl i hyn. A yw e'n foesol o gwbl i ystyried defnyddio arfau o ddinistr mor eang, a'r hyn a oedd yn arfer cael ei alw yn MAD—'mutually assured destruction'—fel ffordd o amddiffyn yr hyn sydd yn bwysig i ni, sef ein tir, ein gwlad, ein pobl a'r ffordd rydym ni'n byw? Rydw i'n meddwl bod yr ateb yn ddigon syml: nid oes lle i arfau niwclear yn y math yma o amddiffyn.

I agree entirely with what Mike Hedges has just said, and I think he's put his finger on a number of the problems that we have in terms of the renewal of Trident but also nuclear weapons in general. I think that he and Rhodri Glyn have set out a moral case against the use of nuclear weapons. I don't agree with Jeremy Corbyn on everything—although he supported me more often than his own party when I was a Member of the House of Commons—but when Jeremy Corbyn said that he would never press the button himself, I think that was the honesty that we needed as part of this debate. But he isn't the first Labour leader to say that, because it was only after leaving Government that Denis Healey, who was the substitute, if you like, who also had a responsibility to press the nuclear button should anything have happened to the Prime Minister at that time, said that he would never have pressed the nuclear button if he'd found himself in that position. That underlines just how immoral and unethical nuclear weapons are. Accepting that immorality has been far more common in politics than it is at present. I certainly believe that we, in this debate, want to take a new view, not only of the cost, not only of the practicality of nuclear weapons, but also on the ethical and moral issues. Is it moral or ethical to consider using weapons of such mass destruction, which used to be described as MAD, mutually assured destruction, as a means of protecting what is important to us, namely our land, our country, our people and our way of life? I think that the answer is quite simple: there is no room for nuclear weapons in this sort of defence.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)



Ond, mae'r ateb yn fwy pwysig nawr, oherwydd rydym ni'n wynebu rhywbeth sydd yn mynd i gosti hyd at rywbeth fel £167 biliwn i adnewyddu Trident. Felly, mae hynny hefyd yn fater i'r Senedd hon, achos ni sy'n gyfrifol am wariant cyhoeddus yng Nghymru, ac os gwelwn ni benderfyniad yn San Steffan i wario mor helaeth ar adnewyddu Trident, fe fydd yna ganlyniadau anffodus i wariant cyhoeddus i ni yma yng Nghymru. Mae pob £1 biliwn sy'n cael ei wario ar Trident yn £1 biliwn yn llai i fuddsoddi yn ein hadeiladwaith ni, yn ein hysgolion, ein ysbytai ac yn y ffordd rŷm ni'n sôn am y gwario ar Trident i amddiffyn ein ffordd ni o fyw. Felly, mae'n bwysig ein bod ni'n gwneud y ddadl honno hefyd: mai cost annerbyniol yw adnewyddu Trident a rhywbeth na fyddwn yn ei dderbyn, fel y bobl sydd wedi cael eu hethol i amddiffyn buddiannau gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

Yr ail ran o hwn a dadl sydd yn bwysig heddiw yw'r cydestun rŷm ni'n ei weld yn agor i fyny yn rhyngwladol. Erbyn hyn, y bygythiad mwyaf yw terfysgaeth. Nid oes angen mynd yn ôl at y trychineb a ddigwyddodd ym Mharis i gredu hynny; mae terfysgaeth wedi bod ar strydoedd Llundain yn y ddegawd ddiwethaf ac rŷm ni wedi'i gweld yn glir yn datblygu dros y ddau ddegawd ddiwethaf, a dweud y gwir, gan ddechrau, o bosib, yn Afghanistan, ond yn estyn allan ar hyd y dwyrain canol, a nawr i'n strydoedd ni. Nid yw arfau niwclear yn unrhyw fath o amddiffyniad yr erbyn terfysgaeth, nac yn amddiffyniad rhag ymosodiadau economaidd, megis ymosodiadau seiber a'r angen i ddiogelu'n busnesau ni a'n Llywodraeth ni yn erbyn ymosodiadau o'r fath. Dyna'r fath o beth mae Llywodraeth Tsieina, er enghraifft, yn arbenigo ynddo ar hyn o bryd a dyna'r fath o beth mae Llywodraeth Gogledd Korea yn ceisio ei ddylanwadu.

Y drydedd elfen o hyn, wrth gwrs, yw'n cymunedau ni yma yng Nghymru, achos, eto, rŷm ni wedi ein hethol fan hyn i amddiffyn ein cymunedau a hyrwyddo cydlyniant a 'solidarity' rhwng y gwahanol gymunedau sydd yng Nghymru. Mae hyn i gyd yn gofyn gwario, ac y mae angen cefnogaeth a gwaith gofalus yn ei gylich. Mae adnewyddu Trident yn 'destruction' llwyr i'r gwaith pwysig yma. Os ydym ni'n mynd i fod o ddifrif ynglŷn â delio â therfysgaeth, os ydym yn mynd i fod o ddifrif ynglŷn â delio ag ideoleg sy'n gorwedd y tu ôl i derfysgaeth, ac os ydym yn mynd i fod o ddifrif ynglŷn â delio ag ymosodiadau yn erbyn diogelwch y wlad sydd yn dod o lu o wahanol gyfeiriadau—economaidd yn fwy na byddinoedd erbyn hyn—mae'n rhaid inni fuddsoddi mewn dulliau amgen o ddelio â'r dyfodol. Mae Trident yn ffordd rhyfel oer o ddelio rhwng dau floc mawr. Erbyn hyn, mae'r byd yn llawer mwy cymhleth, ac mae Trident yn ateb llawer rhy syml.

But the answer is even more important now because we are facing a cost in the region of £167 billion to renew Trident. This is an issue for this Senedd because we are responsible for public expenditure in Wales and, if we see decisions taken in Westminster to spend so much on Trident renewal, then there will be unfortunate knock-on effects for public expenditure here in Wales. Every £1 billion spent on Trident is £1 billion less to invest in our infrastructure, our schools and our hospitals, and in relation to the way in which we look at Trident to protect our way of life. So, it's important that we make that point: it is an unacceptable cost, and it is something that we wouldn't accept, as the people elected to protect the interests of public services in Wales.

The second part of this is the context that we see emerging on the international stage. By now, the greatest threat, of course, is terrorism. We don't need to look at the atrocities in Paris to see that that is the case; we've seen atrocities on the streets of London over the past decade, and we've seen this develop over the past two decades, if truth be told, starting possibly in Afghanistan and extending out across the middle east and now to our own streets. Nuclear weapons are no sort of defence against terrorism, and neither are they a defence against economic attacks, such as cyber attacks and the need to safeguard our businesses and Government against such attacks. This is the kind of thing that the Chinese Government is specialising in at the moment and it's what North Korea is seeking to influence.

The third element is our communities in Wales, because, again, we have been elected to this place to protect our communities and to promote cohesion and solidarity between the various communities in Wales. We need expenditure, support and careful consideration in this area. The renewal of Trident is a complete distraction from this important work. If we are serious about dealing with terrorism, if we are serious about dealing with the ideology that underpins that terrorism, and if we are serious about dealing with attacks on national security coming from all sorts of different directions—economically perhaps more than militarily by now—then we have to invest in alternative ways of dealing with the future. Trident is a cold-war approach of dealing with two major global blocks. The world is now far more complex and Trident is far too simple a solution.

15:43

### **Julie Morgan** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you very much, Deputy Presiding Officer. I'm very pleased to be able to speak in this debate. I know that we have no power to decide whether Trident is renewed or not here in this Assembly and I will be voting for the Government's amendment. But it does seem important to me to use the opportunity to express our views about the renewal of Trident.

Diolch yn fawr iawn, Ddirprwy Lywydd. Rwy'n falch iawn o allu siarad yn y ddadl hon. Rwy'n gwybod nad oes gennym unrhyw rym yn y Cynulliad hwn i benderfynu a fydd Trident yn cael ei adnewyddu ai peidio a byddaf yn pleidleisio o blaid gwelliant y Llywodraeth. Ond mae'n ymddangos yn bwysig i mi ein bod yn defnyddio'r cyfle i fynegi ein barn ar adnewyddu Trident.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

The first point I want to make is similar to that made by Simon Thomas and Rhodri Glyn Thomas that, it does seem to me that, in view of the tragic events in Paris and in France, and the situation that we face in terms of terrorism, the Trident weapons system seems increasingly obsolete and irrelevant. When we've looked at the events that have happened over the last week, how does Trident, in any way, fit into that? We need intelligence above all. We do need conventional forces and it's not surprising, really, that so many ex-generals, when they retire, come out and speak out against Trident. As far as I'm concerned, Trident will not help solve any of the important issues that we need to address in the present situation.

On a slighter side, this lunch time, children from my constituency came to hang messages on the small Christmas trees in the Senedd upstairs and they wrote their messages about what they wanted for the children of Wales. I found it quite upsetting, actually, reading some of those messages, because there was a consistent theme in wanting to be safe. They said they want to be safe, not frightened. They want children to be protected from bombs and terrorists, and one child said, 'My Christmas wish is that all the children in Wales are safe.'

I think it's very important to remember that it's obvious that what's happened over the last week is having a profound effect on children here, and the sort of issues that we're debating today are so important for the future of those children. So, I think the decisions that will be made in Westminster about whether Trident is renewed have got a huge impact on what happens and what the thoughts are of our children in Wales.

Secondly, I want to refer to the importance of using the skills that there are amongst the people who manufacture Trident and a natural concern about the jobs that are under threat, because this is something that has come up in our discussions in the Labour Party, that many of the unions are very concerned about the threat to jobs, which are, obviously, 6,000 jobs in Barrow-in-Furness and 7,000 or 8,000 in Faslane. I wanted to raise the issue of some of the experience that we've got in Cardiff of defence diversification, because I think it's really important that any Government that is planning not to renew Trident looks at those skills that need to be used for peaceful means.

Mae'r pwynt cyntaf rwyf am ei wneud yn debyg i'r un a wnaed gan Simon Thomas a Rhodri Glyn Thomas. Yng ngoleuni'r digwyddiadau trasig ym Mharis ac yn Ffrainc, a'r sefyllfa sy'n ein hwynebu o ran terfysgaeth, mae'n ymddangos i mi fod system arfau Trident i'w gweld yn fwyfwy hynafol ac amherthnasol. Wrth i ni edrych ar yr hyn sydd wedi digwydd dros yr wythnos ddiwethaf, pa le sydd i Trident, mewn unrhyw ffordd, yn hynny? Mae angen cuddwbyodaeth arnom yn fwy na dim. Mae angen lluoedd confensiynol arnom ac nid yw'n syndod, mewn gwirionedd, fod cynifer o gyn-gadfridogion, wrth ymddeol, yn siarad yn erbyn Trident. O'm rhan i, ni fydd Trident yn helpu i ddatrys unrhyw un o'r materion pwysig sy'n galw am ein sylw ar hyn o bryd.

Ar ochr ysgafnach, amser cinio heddiw, daeth plant o fy etholaeth i hongian negeseuon ar y coed Nadolig bychan i fyny'r grisiau yn y Senedd a buont yn ysgrifennu eu negeseuon o ran yr hyn roeddent ei eisiau i blant Cymru. Testun diflastod i mi, mewn gwirionedd, oedd darllen rhai o'r negeseuon hynny, am fod un thema gyson i'w gweld, sef eisiau bod yn ddiogel. Roeddent yn dweud eu bod eisiau bod yn ddiogel, nid yn ofnus. Roeddent am i blant gael eu hamddiffyn rhag bomiau a therfysgwyr, a dywedodd un plentyn, 'My Christmas wish is that all the children in Wales are safe.'

Credaf ei bod yn bwysig iawn i ni gofio ei bod hi'n amlwg fod yr hyn a ddigwyddodd dros yr wythnos ddiwethaf yn effeithio'n ddifrifol ar blant yma, ac mae'r math o faterion rydym yn eu trafod heddiw mor bwysig i ddyfodol y plant hyn. Felly, rwy'n credu bod y penderfyniadau a wneir yn San Steffan ynglŷn ag adnewyddu Trident yn effeithio'n fawr iawn ar yr hyn sy'n digwydd a'r hyn sy'n mynd drwy feddyliau ein plant yng Nghymru.

Yn ail, rwyf am gyfeirio at bwysigrwydd defnyddio'r sgiliau sydd gan y bobl sy'n cynhyrchu Trident a'r pryder naturiol am y swyddi sydd o dan fgythiad, gan fod hwn yn fater a gododd yn ein trafodaethau yn y Blaid Lafur, fod llawer o'r undebau yn bryderus iawn am y bygythiad i swyddi, sef, yn amlwg, 6,000 o swyddi yn Barrow-in-Furness a 7,000 neu 8,000 yn Faslane. Roeddwn am sôn am y profiad sydd gennym yng Nghaerdydd o arallgyfeirio amddiffyn, gan fy mod yn credu ei bod hi'n wirioneddol bwysig i unrhyw Lywodraeth sy'n bwriadu peidio ag adnewyddu Trident edrych ar y sgiliau y dylid eu defnyddio at ddbenion heddychlon.

Some of you may remember the royal ordnance factory on Caerphilly Road in Cardiff North, in my constituency. That used to make the sophisticated metal components used to form the nuclear warheads. I spent more time outside it with a banner than going inside it, I have to say, but it employed 1,000 people, and some of them—well, they were very highly skilled people. Before it actually closed, some diversification did take place. In a corner of the factory, they started to make autoclaves—very high-temperature ovens for sterilising instruments in the health service, for example. That use of the skills—. The fantastic skills there were starting to be used for peaceful means, but then the Government lost interest in that site, the factory was closed down, and now it's a housing site. But I think that's an example of how skills can be transformed and used for peaceful purposes. I think it's really important that we do think of that when we do have this debate.

The final point I wanted to make was, again, about the issue of money—over £100 billion being spent to replace Trident. In the finance questions today, we were continually talking about how we're going to cope with finance this year in Wales. How can that budget be sacrosanct when all the other budgets are being cut? How can that be justified? So, I think the final point I want to make is an economic point, really, that we need that money to use in Wales.

15:48

## **Bethan Jenkins** [Bywgraffiad Biography](#)

When we last debated Trident in the Assembly, I said the debate around our nuclear defence has been structured in a way that ignores need, ignores cost and ignores a changing world. On that occasion, I focused on the cost and how the acquisition of a Trident replacement flew in the face of austerity. In the light of what happened in Paris on Friday and in Beirut on Thursday, it seems to me that we must have a full and unfettered debate on whether these hugely expensive weapons are going to meet their purpose of providing a defence in this changing world.

Most of you will have seen social media in the wake of these atrocities, and the arguments that raged as a consequence. One comment said simply, 'Nuke 'em'. 'Nuke who?' I thought. And where exactly? The truth is that we don't know for sure that the attack in Paris was the work of Islamic State. As Peter Hitchens, not a man that I'm apt to quote, pointed out:

'there is no mastermind sitting in a cave issuing orders... That is a James Bond fantasy.'

Efallai y bydd rhai ohonoch yn cofio'r ffatri ordnans brenhinol ar Heol Caerffili yng Ngogledd Caerdydd, yn fy etholaeth i. Y ffatri honno oedd yn arfer gwneud y cydrannau metel soffistigedig a ddefnyddid i greu'r arfbennau niwclear. Roeddwn yn treulio mwy o amser y tu allan i'r ffatri gyda baner nag ynnddi, mae'n rhaid i mi ddweud, ond roedd yn cyflogi 1,000 o bobl, ac roedd rhai ohonynt—wel, roeddent yn bobl fedrus iawn. Cyn iddi gau, digwyddodd rhywfaint o arallgyfeirio. Mewn cornel o'r ffatri, dechreuodd y gweithwyr wneud awtoclafau—poptai gyda thymheredd uchel iawn ar gyfer sterileiddio offer yn y gwasanaeth iechyd, er enghraifft. Roedd y defnydd hwnnw o'r sgiliau—. Roedd y sgiliau gwych hynny'n dechrau cael eu defnyddio at ddibenion heddychlon, ond wedyn colodd y Llywodraeth ddiddordeb yn y safle hwnnw, caewyd y ffatri, ac mae bellach yn safle tai. Ond rwy'n credu bod honno'n enghraifft o sut y gellir trawsnewid sgiliau a'u defnyddio at ddibenion heddychlon. Rwy'n credu ei bod yn bwysig iawn ein bod yn meddwl am hynny wrth i ni gael y ddadl hon.

Roedd y pwynt olaf roeddwn am ei wneud yn ymwneud, unwaith eto, ag arian—dros £100 biliwn yn cael ei wario i ailosod Trident. Yn y cwestiynau cyllid heddiw, roeddem yn sôn yn barhaus ynglŷn â sut rydym yn mynd i ymdopi â chyllid eleni yng Nghymru. Sut y gall y gyllideb honno fod yn gysegredig pan fo'r holl gyllidebau eraill yn cael eu torri? Sut y gellir cyfiawnhau hynny? Felly, rwy'n credu bod y pwynt olaf rwyf am ei wneud yn bwynt economaidd, mewn gwirionedd, ein bod ni angen yr arian i'w ddefnyddio yng Nghymru.

Y tro diwethaf i ni drafod Trident yn y Cynulliad, dywedais fod y ddadl am ein trefniadau amddiffyn niwclear wedi'i strwythuro mewn ffordd sy'n anwybyddu anghenion, yn anwybyddu cost ac yn anwybyddu byd sy'n newid. Ar yr achlysur hwnnw, canolbwytiais ar y gost a sut roedd ailosod Trident yn mynd yn groes i'r mesurau caledi. Yng ngoleuni'r hyn a ddigwyddodd ym Mharis ddydd Gwener ac yn Beirut ddydd Iau, mae'n ymddangos i mi fod yn rhaid i ni gael dadl lawn a dilyffethair ynglŷn ag i ba raddau y mae'r arfau hynod ddrudd hyn yn mynd i ateb eu diben o ddarparu amddiffyniad yn y byd newidiol hwn.

Bydd y rhan fwyaf ohonoch wedi gweld cyfryngau cymdeithasol yn sgil yr erchyllterau hyn, a'r dadlau rhemp a'u dilynodd. Roedd un sylw'n dweud yn syml, 'Nuke 'em'. 'Niwcio pwy?' meddyliais. A ble yn union? Y gwir yw nad ydym yn gwybod i sicrwydd mai gweithred gan y Wladwriaeth Islamaidd oedd yr ymosodiad ym Mharis. Fel y dywedodd Peter Hitchens, dyn nad wyf yn tueddu i'w ddyfynnu:

'there is no mastermind sitting in a cave issuing orders... That is a James Bond fantasy.'

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

The real threat from Islamic State, and al-Qaeda before it, doesn't come in the form of legions of fighters in the Levant, or in terrorist cells allegedly making their way here amongst refugees. The real threat comes in the form of an idea, the notion that any young man or woman with access to YouTube can, if they get involved in activity online or in other ways, say, 'Me, too. I want a piece of this.' They don't need to travel to Syria. They don't need to meet with Abu Bakr al-Baghdadi. They don't even need contact with the Islamic State. It takes one or two accomplices, access to weapons as basic as kitchen knives, a mobile phone that records video, and a target as straightforward as a local restaurant or bar in the suburbs of the city, not even in an area where we assume that large-scale attacks could happen. That may then constitute an Islamic State-inspired act of aggression. It can be varied over and over again because it is an idea, and an idea has no weapon to destroy and no body to kill.

So, we do need a different approach, because dropping bombs doesn't stop these young people from taking action. It just actually makes them angrier. At the weekend, a young Muslim called Nader—

Nid yw bygythiad gwirioneddol y Wladwriaeth Islamaidd, ac al-Qaeda cyn hynny, yn dod ar ffurf llengoedd o ymladdwyr yn y Levant nac mewn celloedd terfysgwyr sy'n anelu yma ymysg ffoaduriaid. Daw'r bygythiad go iawn ar ffurf syniad, y syniad fod unrhyw ddyn neu fenyw ifanc sy'n gallu mynd ar YouTube, os ydynt yn cymryd rhan mewn gweithgaredd ar-lein neu mewn ffyrdd eraill, yn gallu dweud, 'A minnau hefyd. Rwyf eisiau rhan yn hyn.' Nid oes angen iddynt deithio i Syria. Nid oes angen iddynt gyfarfod ag Abu Bakr al-Baghdadi. Nid oes angen iddynt fod mewn cysylltiad â'r Wladwriaeth Islamaidd hyd yn oed. Nid oes ond angen un neu ddau o gyd-droseddwyr, defnydd o arfau mor sylfaenol â chyllyll cegin, ffôn symudol sy'n gallu recordio fideo, a tharged mor syml â bwyty neu far lleol yn maestrefi'r ddinas, nid mewn ardal lle rydym yn cymryd yn ganiataol y gallai ymosodiadau ar raddfa fawr ddigwydd hyd yn oed. Gallai honno felly fod yn weithred ymosodol wedi'i hysbrydoli gan y Wladwriaeth Islamaidd. Gellir ei hamrywio dro ar ôl tro gan mai syniad ydyw, ac nid oes gan syniad arf i ddinistrio na chorff i'w ladd.

Felly, rydym angen dull gwahanol o fynd ati, oherwydd nid yw gollwng bomiau'n atal y bobl ifanc hyn rhag gweithredu. Y cyfan y mae'n ei wneud mewn gwirionedd yw eu gwneud yn fwy dig. Dros y penwythnos, dywedodd Mwslim ifanc o'r enw Nader—

15:50 **Nick Ramsay** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Will you give way, Bethan?

A wnewch chi ildio, Bethan?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

15:50 **Bethan Jenkins** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I just want to finish this point about why it makes them angrier.

Rwyf am orffen y pwynt hwn ynglŷn â pham y mae'n eu gwneud yn fwy dig.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

At the weekend, a young Muslim called Nader Atassi said:

Dros y penwythnos, dywedodd Mwslim ifanc o'r enw Nader Atassi:

'ISIS types want an Islamophobic backlash because it lends credence to their narrative that there is a war between the West and Islam. By strengthening and emboldening the xenophobic right-wing in Europe, they strengthen their own worldview as well.'

'ISIS types want an Islamophobic backlash because it lends credence to their narrative that there is a war between the West and Islam. By strengthening and emboldening the xenophobic right-wing in Europe, they strengthen their own worldview as well.'

15:51 **Nick Ramsay** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thanks for giving way. I agree with much of what you've said about nuclear weapons not being a deterrent to the sort of terrorism that you've outlined. However, I think that speakers—and yourself included in this—are missing the point that it's not just a battle against terrorism. There are countries out there—nuclear armed countries—and there will be in the future, which we must also guard against. We don't believe that dropping our nuclear guard will help in that regard.

Diolch am ildio. Rwy'n cytuno â llawer o'r hyn rydych wedi'i ddweud ynglŷn ag arfau niwclear yn methu ag atal y math o derfysgaeth rydych wedi'i disgrifio. Fodd bynnag, rwy'n credu bod siaradwyr—ac rydych chi wedi'ch cynnwys yn hyn—yn methu'r pwynt nad brwydr yn erbyn terfysgaeth yn unig yw hi. Mae yna wledydd hefyd—gwledydd sydd ag arfau niwclear—a bydd gwledydd yn y dyfodol sy'n rhaid i ni amddiffyn ein hunain rhagddynt. Nid ydym yn credu y bydd llacio ein gwylidwriaeth niwclear yn helpu yn hynny o beth.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

15:51	<b>Bethan Jenkins</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	<p>That is why, as Mike Hedges said earlier, we've signed an agreement against nuclear arms, and that's why we should be focusing our attention on making sure that they don't either. Why is us having a nuclear deterrent more important than them not having it? If we are intent on that agenda, then we should take a principled stance on this, surely. Why are we better to have the responsibility of such arms than others across the world? That is the debate I would have in terms of nuclear arms as well, but I'm focusing on the reality that we have in front of us. Because, of course, as we've said, do we want to spend our resources on this, or do we want to invest it in other places? Suddenly, David Cameron has found money to be able to put into the SAS, into surveillance services, into policing. Why has that been the case, and how can he justify spending twice the money then on nuclear deterrent and on other counter-insurgency work when we simply do not have the budget in other areas to be able to justify that? If the Tories want to justify how we can spend on both, then I'd like to hear it.</p>	<p>Fel y dywedodd Mike Hedges yn gynharach, dyna pam ein bod wedi llofnodi cytundeb yn erbyn arfau niwclear, a dyna pam y dylem ganolbwyntio ar sicrhau nad oes arfau ganddynt hwythau chwaith. Pam ei bod hi'n bwysicach i ni gael ataliaeth niwclear nag yw hi iddynt hwy beidio â'i chael? Os ydym yn benderfynol ynglŷn â'r agenda honno, yna 'does bosibl na ddylem fabwysiadu safbwynt egwyddorol ar hyn. Pam ei bod hi'n well i ni gael cyfrifoldeb dros arfau o'r fath nag eraill ar draws y byd? Dyna fy nadl o ran arfau niwclear hefyd, ond rwy'n canolbwyntio ar y realiti sydd o'n blaenau. Oherwydd, wrth gwrs, fel rydym wedi'i ddweud, a ydym eisiau gwario ein hadnoddau ar hyn, neu a ydym eisiau eu buddsoddi mewn pethau eraill? Yn sydyn, mae David Cameron wedi dod o hyd i arian i'w roi tuag at yr SAS, tuag at wasanaethau gwyliadwriaeth, tuag at blismona. Pam y mae hynny wedi digwydd, a sut y gall gyfiawnhau gwario ddwywaith yr arian ar arfau niwclear ataliol ac ar waith gwrthchwyldro arall pan nad oes gennym, yn syml, y gyllideb mewn meysydd eraill i allu cyfiawnhau hynny? Os yw'r Toriaid yn awyddus i gyfiawnhau sut y gallwn wario ar y ddau beth, yna hoffwn glywed hynny.</p>
15:52	<b>Andrew R.T. Davies</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	Will you take an intervention?	A wnewch chi dderbyn ymyriad?
15:52	<b>Bethan Jenkins</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	Yes, fine.	Gwnaf, iawn.
15:52	<b>Andrew R.T. Davies</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	<p>In light of the events on the weekend I think every sane and sensible person thinks it's sensible for the Government at the UK level to be investing that extra money to protect the UK against such terrorist attacks. There is always discretionary spend in all budgets—the Welsh Government have that—and the money's going to be made available. From what you've said, Plaid clearly aren't able to do that.</p>	<p>Yn wyneb digwyddiadau'r penwythnos rwy'n credu bod pob person call a synhwyrol o'r farn ei bod yn gwneud synnwyr i'r Llywodraeth ar lefel y DU fuddsoddi arian ychwanegol i amddiffyn y DU yn erbyn ymosodiadau terfysgol o'r fath. Mae yna wariant disgresiynol bob amser ym mhob cyllideb—mae gan Lywodraeth Cymru hynny—ac mae'r arian yn mynd i fod ar gael. O'r hyn rydych wedi'i ddweud, mae'n amlwg nad yw Plaid Cymru yn gallu gwneud hynny.</p>
15:53	<b>Bethan Jenkins</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	<p>I'm saying: what do you want to prioritise? Do you want to spend more money on nuclear arms and on this as well? Because I didn't know that we had all the budget to be able to do that. You tell me what you want to prioritise, because that's certainly what I would be spending money on over nuclear weapons that will not serve their purpose in this world.</p>	<p>Rwy'n dweud: beth rydych chi eisiau ei flaenoriaethu? A ydych am wario mwy o arian ar arfau niwclear ac ar hyn hefyd? Oherwydd nid oeddwn yn gwybod bod gennym gyllideb i allu gwneud hynny. Dywedwch chi wrthyf beth rydych am ei flaenoriaethu, am mai dyna'n sicr y buaswn i'n gwario arian arno yn hytrach nag arfau niwclear na fydd yn cyflawni eu diben yn y byd hwn.</p>
	<p>In today's world of asymmetrical terrorism and cyber warfare—something former UK defence secretary, Philip Hammond, said would be the war of the future—nuclear weapons look about as relevant as a siege engine. It is the sheer scale of the destruction that they are capable of that no doubt makes their retention appealing. But to date they have not deterred a single Islamist. Even our American allies vary from the Westminster parties in their views of what is required for the future. In 2013, one US official told the 'International Herald Tribune' that the UK</p>	<p>Mewn byd o derfysgaeth anghymesur a seiber-ryfela—rhywbeth a gafodd ei alw'n rhyfel y dyfodol gan gyn-ystrifennydd amddiffyn y DU, Philip Hammond—mae arfau niwclear yn edrych yr un mor berthnasol â magnel. Nid oes amheuaeth mai maint y dinistr y gallant ei greu sy'n eu gwneud yn atyniadol. Ond hyd yn hyn nid ydynt wedi rhwystro'r un Islamaidd. Mae hyd yn oed ein cynghreiriaid Americanaidd yn coleddu barn wahanol i un y pleidiau yn San Steffan o ran eu safbwynt ar yr hyn sydd ei angen ar gyfer y dyfodol. Yn 2013, dywedodd un swyddog o'r Unol Daleithiau wrth yr 'International Herald Tribune' nad yw'r DU</p>

'can't afford Trident, and they need to confront the choice: either they can be a nuclear power and nothing else or a real military partner.'

'can't afford Trident, and they need to confront the choice: either they can be a nuclear power and nothing else or a real military partner.'

15:54 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

I call the First Minister.

Galwaf ar y Prif Weinidog.

15:54 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Thank you, Dirprwy Lywydd. I listened carefully to the views that have been expressed around the Chamber. Can I thank Members for their contributions to what is, and always has been, a passionate debate? There are many views, of course, not least within my own party, in terms of what should be done in the future when it comes to Trident and, indeed, nuclear weapons more generally.

Diolch i chi, Ddirprwy Lywydd. Gwrandewais yn astud ar y safbwyntiau a fynegwyd o gwmpas y Siambr. A gaf fi ddiolch i'r Aelodau am eu cyfraniadau i'r hyn sydd, fel y bu erioed, yn ddadl angerddol? Mae yna lawer o safbwyntiau, wrth gwrs, yn sicr yn fy mhlaidd fy hun, o ran yr hyn y dylid ei wneud yn y dyfodol ynglŷn â Trident ac yn wir, arfau niwclear yn fwy cyffredinol.

Now, there is an amendment, which I have moved, which seeks to move the debate on towards, of course, a world where there are fewer and fewer nuclear weapons, and ultimately to a world where there are none. It isn't a devolved area. That much is true. Technically, I'm not speaking on behalf of the Welsh Government today, because the Welsh Government doesn't have a position on this. But I will, nevertheless, develop some arguments that I think will need to be answered by the UK Government in terms of Trident. Members here will know that, as a party, we are committed to a world free of nuclear weapons. Previous Labour Governments have delivered good progress in achieving this goal by pursuing a policy of multilateral disarmament and non-proliferation. That has to be the aim in the future. It is absolutely right to say that the global threat has changed massively in the past 50 years. The threat of terrorism has increased. We all saw that again in Paris on Friday. We know, looking at the events not that long ago in Ukraine, that there are some who still worry that the world is entering an era of a new cold war, although that may have changed in the last few weeks. I hope that isn't the case, but there are fears, of course, in terms of what has happened in Ukraine in the past. The world doesn't need to see more centres of conflict in the future.

Nawr, mae yna welliant, a gynigwyd gennyf i, sy'n ceisio symud y ddadl ymlaen, wrth gwrs, tuag at fyd lle y ceir llai a llai o arfau niwclear, ac yn y pen draw, byd heb arfau niwclear o gwbl. Nid yw'n faes datganoledig. Mae hynny'n wir. Yn dechnegol, nid wyf yn siarad ar ran Llywodraeth Cymru heddiw, gan nad oes gan Lywodraeth Cymru safbwynt ar hyn. Serch hynny, byddaf yn datblygu rhai dadleuon y bydd angen i Lywodraeth y DU eu hateb mewn perthynas â Trident rwy'n credu. Bydd yr Aelodau yma'n gwybod ein bod, fel plaid, wedi ymrwymo i fyd heb arfau niwclear. Mae Llywodraethau Llafur blaenorol wedi dangos cynnydd da tuag at gyflawni'r nod hwnnw drwy ddilyn polisi o ddiafogi amlochrog ac atal amlhau arfau niwclear. Mae'n rhaid i hynny fod yn nod yn y dyfodol. Mae'n hollol gywir i ddweud bod y bygythiad byd-eang wedi newid yn aruthrol yn ystod y 50 mlynedd diwethaf. Mae'r bygythiad o derfysgaeth wedi cynyddu. Gwelsom hynny eto ym Mharis ddydd Gwener. Wrth gofio'r digwyddiadau lled ddiweddar yn yr Ukrain, gwyddom fod rhai yn dal i boeni bod y byd ar drothwy rhyfel oer newydd, er y gallai hynny fod wedi newid dros yr wythnosau diwethaf. Rwy'n gobeithio nad yw hynny'n wir, ond mae yna ofnau, wrth gwrs, o ran yr hyn a ddigwyddodd yn yr Ukrain yn y gorffennol. Nid yw'r byd angen gweld rhagor o ganolbwyntiau o wrthdaro yn y dyfodol.

I'm not, by nature, a unilateralist; I've always been somebody who has believed in multilateral disarmament by agreement. But I do have some questions that I will come to in the future, which I think the UK Government will need to explain. I do believe that nuclear weapons were a deterrent, particularly in western Europe—or Europe generally—in the 1970s and 1980s and, indeed, before that, although it's questionable whether it was the independent British deterrent that was actually a deterrent. In fact, it's the American nuclear umbrella, which has many, many, many more weapons than the UK has, that was the deterrent. It's also right to say that nuclear weapons are a deterrent to an extent. They are no deterrent to Islamic State for many reasons, least of all because, as Bethan Jenkins has said, who do you fire a missile at? Is it Brussels? Because that, of course, seems to be the city where the attackers in Paris came from. So, they are no deterrent in terms of Islamic State. It's true to say, of course, that even in the 1960s, 1970s and 1980s, the major cause of loss of life for British military personnel, and, indeed, civilians, was Northern Ireland, where, for obvious reasons, nuclear weapons were never going to be a deterrent.

But there are three questions that I think the UK Government needs to explain to the people of Britain as it makes its case for Trident. First of all, what is it for? The question that has been asked in this Chamber: what is it for in the modern world, and what does it add to Britain's security? Secondly, will money be diverted from the budget for conventional weapons in order to pay for Trident? Thirdly, what difference do the 160 British nuclear missiles, out of 10,000, at least, around the world, make in terms of the balance of arms? Those are questions, I think, that are important, that the public should be able to pose and have answers to.

Felly, hon yw'r sefyllfa: mae tri chwestiwn i Lywodraeth y Deyrnas Unedig. Beth, yn gwmws, yw Trident, nawr, am—? Beth yw pwrpas Trident? Mae'n gwestiwn agored, ac yn rhywbeth iddyn nhw ei ateb. Yn ail, a fydd arian yn cael ei drosglwyddo o'r gyllideb ar gyfer arfau confensiynol i dalu am Trident, a beth fydd effaith hynny? Ac, wrth gwrs, pa fath o effaith y mae'r 160 o 'missiles' sydd gan y Deyrnas Unedig yn ei chael ar gydbwysedd arfau'r byd, o gofio bod yna fwy na 10,000 rownd y byd? Rwy'n credu y byddai atebion i'r cwestiynau hynny yn ychwanegu at y ddadl ei hun.

Nid wyf, yn ôl fy natur, o blaid diarfogi unochrog; rwyf bob amser wedi credu mewn diarfogi amlochrog drwy gytundeb. Ond mae gennyf rai cwestiynau y byddaf yn dod atynt yn y dyfodol, ac rwy'n credu y bydd angen i Lywodraeth y DU eu hesbonio. Rwy'n credu bod arfau niwclear yn arfer bod yn ataliaeth, yn enwedig yng ngorllewin Ewrop—neu Ewrop yn gyffredinol—yn ystod y 1970au a'r 1980au ac yn wir, cyn hynny, er ei bod yn amheus ai ataliaeth annibynnol Brydeinig a'u rhwystrodd mewn gwirionedd. Yn wir, yr ymbarél niwclear Americanaidd, gwlad sydd â llawer, llawer, llawer mwy o arfau na'r DU, dyna oedd yr ataliaeth. Mae hefyd yn gywir i ddweud bod arfau niwclear yn ataliaeth i raddau. Nid ydynt yn arfau ataliol yn erbyn y Wladwriaeth Islamaidd am nifer o resymau, nid yn lleiaf oherwydd, fel y dywedodd Bethan Jenkins, at bwy rydych chi'n saethu taflegryn? Ai at Frwsel? Oherwydd mae'n ymddangos mai o'r ddinas honno, wrth gwrs, y daeth yr ymosodwyr ar Baris. Felly, nid ydynt yn arfau ataliol o ran y Wladwriaeth Islamaidd. Mae'n wir dweud, wrth gwrs, hyd yn oed yn ystod y 1960au, 1970au a'r 1980au, mai prif achos marwolaethau personél milwrol Prydeinig, a dinasyddion yn wir, oedd Gogledd Iwerddon, lle nad oedd arfau niwclear byth am fod yn ataliaeth am resymau amlwg.

Ond mae yna dri chwestiwn rwy'n credu bod angen i Lywodraeth y DU eu hesbonio i bobl Prydain wrth iddi gyflwyno'i hachos dros Trident. Yn gyntaf oll, beth yw ei ddiben? Y cwestiwn a ofynnwyd yn y Siambur hon: beth yw ei ddiben yn y byd modern, a beth y mae'n ei ychwanegu at ddiogelwch Prydain? Yn ail, a fydd arian yn cael ei ddargyfeirio o'r gyllideb ar gyfer arfau confensiynol er mwyn talu am Trident? Yn drydydd, pa wahaniaeth y mae'r 160 o daflegrau niwclear sydd gan Brydain, allan o 10,000, fan lleiaf, ohonynt ledled y byd yn ei wneud o ran y cydbwysedd arfau? Rwy'n credu mai dyma'r cwestiynau pwysig y dylai'r cyhoedd allu eu holi a chael atebion iddynt.

Therefore, the situation is this: there are three questions for the UK Government. What, exactly, is Trident for, now? What is Trident's purpose? That's an open question, and something for them to answer. Secondly, will funding be transferred from the budget for conventional weapons to pay for Trident, and what impact will that have? And, of course, what impact do the 160 missiles that Britain have, in terms of the balance of weapons in the world, given that there are more than 10,000 around the world? I think answers to those questions would add to the debate itself.

But we know that we live in a world where the number of nuclear weapons can be measured in the upper thousands. And the true way to make the world a safer place is, at the very least, to reduce the number of operational weapons, to ensure that there is no further proliferation of those weapons, and to at least begin the task of moving towards a world where nuclear weapons are detested by all. Mike Hedges was absolutely right to say that it's difficult to say to other countries, 'We have these weapons but you cannot.' There are obvious reasons, because there are some regimes we would not want them to have their hands on nuclear weapons. But, in order for us to be able to say that to other countries, we have to be prepared—to my mind, on a multilateral basis—to look to reduce weapons around the world. That is something that the UK has taken a lead in in years gone by. There is much debate yet to be had in terms of the question of replacing Trident. Those are three questions I would pose to the UK Government, which I think are important to resolve—

*Rhun ap Iorwerth a gododd—*

Ond rydym yn gwybod ein bod yn byw mewn byd lle y gellir mesur y nifer o arfau niwclear yn y miloedd uwch. A'r ffordd gywir i wneud y byd yn lle mwy diogel yw lleihau'r nifer o arfau gweithredol, fan lleiaf, er mwyn sicrhau nad oes unrhyw gynnydd pellach yn nifer yr arfau hynny, ac o leiaf ddechrau ar y dasg o symud tuag at fyd lle y mae arfau niwclear yn destun casineb pawb. Mae Mike Hedges yn llygad ei le yn dweud ei bod yn anodd dweud wrth wledydd eraill, 'Mae'r arfau hyn gennym ni, ond ni allwch chi eu cael.' Mae yna resymau amlwg, oherwydd bod yna rai cyfundrefnau na fyddem am iddynt gael eu dwylo ar arfau niwclear. Ond er mwyn i ni allu dweud hynny wrth wledydd eraill, mae'n rhaid i ni fod yn barod—yn fy marn i, ar sail amlochrog—i ystyried lleihau'r nifer o arfau o amgylch y byd. Mae hynny'n rhywbeth y mae'r DU wedi arwain arno dros y blynyddoedd. Mae llawer i'w drafod eto ar fater ailosod Trident. Dyna dri chwestiwn y byddwn yn eu gofyn i Lywodraeth y DU, ac rwy'n credu eu bod yn gwestiynau pwysig i'w hateb—

*Rhun ap Iorwerth rose—*

15:59 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
*Y Prif Weinidog / The First Minister*

In a second, yes. They are important to resolve before the final vote is taken, and I hope that they are questions that will receive answers.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

Mewn eiliad, iawn. Mae'n bwysig eu bod yn cael eu hateb cyn y bleidlais derfynol, ac rwy'n gobeithio eu bod yn gwestiynau a fydd yn cael atebion.

15:59 **Rhun ap Iorwerth** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I accept that it is your wish that we would live in a world without nuclear weapons, and I'm sure that everybody in this Chamber would believe that. We are trying to send a message from the whole of Wales today, which is why we'd like widespread support for this motion, but do you still believe that if there was every reason that Trident could no longer be housed on the Clyde, we in Wales should give them a home? Is that the message that you want to go out from Wales still?

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

Rwy'n derbyn mai eich dymuniad yw i ni fyw mewn byd heb arfau niwclear, ac rwy'n siŵr y byddai pawb yn y Siambr hon yn credu hynny. Rydym yn ceisio anfon neges o Gymru gyfan heddiw, a dyna pam yr hoffem weld cefnogaeth eang i'r cynnig hwn, ond a ydych yn dal i gredu, pe bai yna resymau pam na ellid lleoli Trident ar y Clyde mwyach, y dylem ni yng Nghymru roi cartref iddo? Ai dyna'r neges rydych chi'n dal i fod eisiau ei chyfleu o Gymru?

16:00 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
*Y Prif Weinidog / The First Minister*

No, and that's not going to be the case in the future. The weapons system, as it is at the moment, remains at Faslane, but I certainly hope there will come a time when there is no need for nuclear weapons to be based anywhere—not in Britain, not in the US, Russia, or anywhere else in the world.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

Na, ac nid yw hynny'n mynd i fod yn wir yn y dyfodol. Mae'r system arfau, fel y mae ar hyn o bryd, yn parhau i fod yn Faslane, ond rwy'n sicr yn gobeithio y daw amser pan na fydd angen lleoli arfau niwclear yn unman—nid yw Mhrydain, nid yn yr Unol Daleithiau, Rwsia, neu unrhyw le arall yn y byd.

16:00 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call on Leanne Wood to reply to the debate.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

Galwaf ar Leanne Wood i ymateb i'r ddadl.



I thank all Members for their contributions today. This issue will become increasingly visible as we approach the UK Government's decision on the future of the UK's weapons of mass destruction. From Plaid Cymru's point of view, as has been expressed by my colleagues here today, there is no moral justification for the possession or use of such weapons. There is no practical use in possessing them either, based on the security needs of the UK today. There is no financial sense in spending up to £167 billion on a weapons system when we have armed services personnel and veterans unable to access housing, health services and rehabilitation services, and while we are generally slashing public services. And from a Welsh perspective, it makes no economic, political or social sense for us to seek the relocation of weapons of mass destruction to our shores here, and I welcome the First Minister's change of heart on that point.

No-one will be surprised to hear that I disagree with the leader of the opposition on this question; we simply disagree, I think, on all points. You have been given an opportunity to outline and give an account of yourself today. The intervention from the Member for Pontypridd on you, I think, was a case in point: the UK's nuclear deterrent, of course, is not independent; it requires the backing of the United States.

In fairness, Bill Powell attempted to give a fairly decent explanation as to where the Liberal Democrats come from on this. I thank you for that attempt, and particularly the attempt to explain the review that you secured whilst in coalition Government in Westminster, but I'm afraid we are no clearer, and, of course, the problem is that that review made it no less likely that Trident will be replaced. You had a chance to do something about this and, frankly, you blew it.

Rhodri Glyn Thomas gave a strong line of argument for us here in this place to be expressing our views on behalf of the people that we represent. He pointed out that, in Plaid Cymru, far from being idealist on this question, we are the ones asking the difficult questions, and we won't apologise for that. The expenditure on Trident makes no sense when investment is required in other, alternative security measures, and I think the arguments for the redirection of that funding were well made.

I thank Mike Hedges for your contribution, and for the wit that you brought to the debate. I think you give an excellent argument as to why nuclear weapons are not a deterrent and how they've failed to deter plenty of recent conflicts. I think you reinforced the point as well that was made earlier about the lack of independence.

Diolch i'r holl Aelodau am eu cyfraniadau heddiw. Bydd y mater hwn yn dod yn fwyfwy amlwg wrth i ni nesáu at benderfyniad Llywodraeth y DU ar ddyfodol arfau distryw mawr yn y DU. O safbwynt Plaid Cymru, fel y'i mynegwyd gan fy nghyd-Aelodau yma heddiw, nid oes unrhyw gyfiawnhad moesol dros feddu ar, na defnyddio arfau o'r fath. Nid oes unrhyw ddefnydd ymarferol o feddu arnynt chwaith, ar sail anghenion diogelwch y DU heddiw. Nid oes unrhyw synnwyr ariannol mewn gwario hyd at £167 biliwn ar system arfau pan fo gennym bersonél a chyn-filwyr y lluoedd arfog sy'n methu â chael mynediad at dai, gwasanaethau iechyd a gwasanaethau adsefydlu, a thra'n bod yn torri gwasanaethau cyhoeddus yn gyffredinol. Ac o safbwynt Cymru, nid yw'n gwneud synnwyr yn economaidd, yn wleidyddol nac yn gymdeithasol i ni geisio adleoli arfau distryw mawr yn ein gwlad ni, ac rwy'n croesawu'r newid ym marn y Prif Weinidog ar y pwynt hwnnw.

Ni fydd neb yn synnu clywed fy mod yn anghytuno ag arweinydd yr wrthblaid ar y mater hwn; yn syml iawn, rydym yn anghytuno, rwy'n credu, ar bob pwynt. Rydych wedi cael cyfle i amlinellu a rhoi eich safbwynt heddiw. Mae'r ymyriad a gawsoc'h gan yr Aelod dros Bontypridd, rwy'n credu, yn enghraifft o hyn: nid yw ataliaeth niwclear y DU yn annibynnol, wrth gwrs; mae'n gofyn am gefnogaeth yr Unol Daleithiau.

A bod yn deg, ceisiodd Bill Powell roi esboniad eithaf gweddus o safbwynt y Democratiaid Rhyddfrydol ar hyn. Diolch i chi am yr ymdrech honno, ac yn enwedig yr ymgais i esbonio'r adolygiad a sicrhawyd gennych tra oeddech yn Llywodraeth glymblaid yn San Steffan, ond rwy'n ofni nad ydym ronyn yn fwy eglur ein meddyliau, ac wrth gwrs, y broblem yw na lwyddodd yr adolygiad hwnnw i'w gwneud yn llai tebygol y bydd Trident yn cael ei ailodod. Cawsoc'h eich cyfle i wneud rhywbeth ynglŷn â hyn ac a dweud y gwir, fe wastraffoch chi'r cyfle hwnnw.

Rhododd Rhodri Glyn Thomas ddadl gref i ni yma yn y lle hwn dros fynegi ein barn ar ran y bobl rydym yn eu cynrychioli. Nododd mai ni ym Mhlaid Cymru, ymhell o fod yn ddelfrydwyr ar y mater hwn, sy'n gofyn y cwestiynau anodd ac nid ydym yn ymddiheuro am hynny. Nid yw'r gwariant ar Trident yn gwneud unrhyw synnwyr pan fo angen buddsoddiad mewn mesurau diogelwch eraill amgen, ac rwy'n credu bod y dadleuon dros ailgyfeirio'r cyllid hwnnw wedi'u cyfleu yn dda.

Diolch i Mike Hedges am eich cyfraniad, ac am y crebwyll a gyfrannoch chi i'r ddadl. Rwy'n credu eich bod yn cynnig dadl ardderchog ynglŷn â pham nad yw arfau niwclear yn ataliaeth a sut y maent wedi methu ag atal nifer o achosion o wrthdaro yn ddiweddar. Rwy'n credu eich bod wedi atgyfnerthu'r pwynt a wnaed yn gynharach ynglŷn â'r diffyg annibyniaeth hefyd.

Simon talked about the ethics of being prepared or otherwise to press that button and the question of honesty that surrounds that. Now, I can't imagine in what circumstances someone would say that they would press that button. It's not something that I could personally do. So, if that is the case, why on earth would you spend more than £100 billion—and it's been estimated now as costing up to £167 billion—on something that most rational people would never, ever use?

Julie Morgan, it's a shame that you will be voting for the Government amendment. As I've said, my view is that that amendment closes down the debate, and it's a shame, because you've got such a good record on this question, and I'm disappointed, therefore, that you're not prepared to back the Party of Wales motion this afternoon. But I thank you for sharing the accounts of those children and what they were expressing to you about their fears; I think that's real food for thought for all of us. I thank you for your words on the question of job security as well and transferable skills, and the experiences that you've already had in your own constituency. The question of jobs and job security is an important one for us in Plaid Cymru and, as you will all be aware, we've placed a lot of emphasis on the question of jobs and the economy in recent times.

Thanks, too, to Bethan Jenkins for outlining the real threats that we face today, and for linking the questions to recent events, and for also outlining how the threats to us on a world basis have changed. She pointed out, of course, that there is an unlimited pot for spending on nuclear weapons, but not when it comes to social programmes. 'Public services must be cut', we're told—'there is no option'. But nuclear budgets, it seems, can grow and grow.

I was interested to hear that the First Minister was unable to speak on behalf of his Government. He says that they don't have a position on this question, and I wonder, then, whether or not that situation has changed, because it looks as though the Government had a very clear position on this question back in 2007. There are obviously a variety of positions in the Labour Party on this question, and we wait with baited breath to find out what their final position is on this, and indeed whether they can all unite around one final position. I do welcome, though, the change of tone and the change of heart that the First Minister has signalled on the question of the relocation of nuclear weapons to Milford Haven. He was very clear previously that he would welcome the relocation of nuclear weapons there. I'm glad that situation has now changed.

In conclusion, I hope that Members here will join me in sending a clear message that this country's National Assembly does not want and will not accept nuclear weapons, and we certainly don't want them to be housed here. I think there is some consensus now on that point, finally.

I'd ask you, therefore, all to support Plaid Cymru's motion this afternoon, to make it clear that the possession of such weapons by the British state is not and will not be held in the name of the people of Wales.

Soniodd Simon am foeseq bod yn barod, neu fel arall, i wasgu'r botwm a'r gonestrwydd ynghylch hynny. Nawr, ni allaf ddychmygu o dan ba amgylchiadau y byddai rhywun yn dweud y byddent yn gwasgu'r botwm hwnnw. Nid yw'n rhywbeth y gallwn ei wneud yn bersonol. Felly, os yw hynny'n wir, pam ar y ddaear y byddech chi'n gwario mwy na £100 biliwn—ac amcangyfrifir ei fod bellach yn costio hyd at £167 biliwn—ar rywbeth na fyddai'r rhan fwyaf o bobl resymol byth bythoedd yn ei ddefnyddio?

Julie Morgan, mae'n drueni eich bod yn mynd i bleidleisio o blaid gwelliant y Llywodraeth. Fel y dywedais, yn fy marn i, mae'r gwelliant hwnnw'n mygu'r ddadl, ac mae hynny'n bechod, oherwydd mae gennych hanes mor dda ar y mater hwn, ac rwy'n siomedig, felly, nad ydych yn barod i gefnogi cynnig Plaid Cymru y prynhawn yma. Ond diolch i chi am rannu negeseuon y plant a'r hyn roeddent wedi'i fynegi wrthyhch ynglŷn â'u hofnau; rwy'n credu bod hynny'n rhywbeth i bob un ohonom gnoi cil arno. Diolch i chi am eich geiriau ar fater sicrwydd swyddi hefyd, a sgiliau trosglwyddadwy, a'r profiadau a gawsoch eisoes yn eich etholaeth. Mae mater swyddi a sicrwydd swyddi yn bwysig i ni ym Mhlaid Cymru ac fel y byddwch i gyd yn gwybod, rydym wedi rhoi llawer o bwyslais ar fater swyddi a'r economi yn ddiweddar.

Diolch, hefyd, i Bethan Jenkins am amlinellu'r bygythiadau gwirioneddol a wynebwn heddiw, ac am gysylltu'r cwestiynau â digwyddiadau diweddar, ac am amlinellu sut y mae'r bygythiadau i ni ar sail fyd-eang wedi newid. Tynnodd sylw, wrth gwrs, at y ffaith fod yna grochan diwaelod ar gyfer gwariant ar arfau niwclear, ond nid yw hynny'n wir ar gyfer rhaglenni cymdeithasol. 'Rhaid torri gwasanaethau cyhoeddus', dywedant wrthym—'nid oes dewis gennym'. Ond mae'n ymddangos bod cyllidebau niwclear yn gallu tyfu a thyfu.

Roedd yn ddiddorol clywed nad oedd y Prif Weinidog yn gallu siarad ar ran ei Lywodraeth. Mae'n dweud nad oes ganddynt safbwynt ar y cwestiwn hwn, ac rwy'n meddwl tybed, felly, a yw'r sefyllfa honno wedi newid ai peidio, gan ei bod yn ymddangos fel pe bai gan y Llywodraeth safbwynt clir iawn ar y mater yn ôl yn 2007. Yn amlwg mae yna amrywiaeth o safbwyntiau ar y mater yn y Blaid Lafur, ac rydym yn aros yn eiddgar i weld beth yw eu safbwynt terfynol ar hyn, ac yn wir, pa un a ydynt i gyd yn mynd i allu uno ar un safbwynt terfynol. Fodd bynnag, rwy'n croesawu'r newid pwyslais a'r newid barn a welwyd gan y Prif Weinidog ar fater adleoli arfau niwclear i Aberdaugleddau. Roedd yn glir iawn o'r blaen y byddai'n croesawu adleoli arfau niwclear yno. Rwy'n falch fod y sefyllfa honno wedi newid erbyn hyn.

I gloi, rwy'n gobeithio y bydd yr Aelodau yma yn ymuno â mi i anfon neges glir nad yw Cynulliad Cenedlaethol y wlad hon eisiau, ac na fydd yn derbyn, arfau niwclear, ac nad ydym am iddynt gael eu lleoli yma, yn bendant. Rwy'n credu bod rhywfaint o gonsensws ar y pwynt hwnnw bellach, o'r diwedd.

Felly byddwn yn gofyn i chi gyd gefnogi cynnig Plaid Cymru y prynhawn yma, er mwyn ei gwneud yn glir nad yw, ac na fydd meddiant y wladwriaeth Brydeinig ar arfau o'r fath yn digwydd yn enw pobl Cymru.

16:07

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

The proposal is to agree the motion without amendment. Does any Member object? [Objection.] I defer voting until voting time.

Y cynnig yw derbyn y cynnig heb ei ddiwygio. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Gohiriaf y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.*

*Voting deferred until voting time.*

## 5. Dadl Ceidwadwyr Cymru: Oedi wrth Drosglwyddo Gofal

*Detholwyd y gwelliannau canlynol: gwelliant 1 yn enw Elin Jones, a gwelliant 2 yn enw Aled Roberts.*

## 5. Welsh Conservatives Debate: Delayed Transfers of Care

*The following amendments have been selected: amendment 1 in the name of Elin Jones, and amendment 2 in the name of Aled Roberts.*

16:07

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Item 5 is the Welsh Conservatives debate on delayed transfers of care. I call on Altaf Hussain to move the motion.

Eitem 5 yw dadl y Ceidwadwyr Cymreig ar oedi wrth drosglwyddo gofal. Galwaf ar Altaf Hussain i gynnig y cynnig.

Cynnig NDM5875 Paul Davies

Motion NDM5875 Paul Davies

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Yn nodi'r effaith negyddol y gall oedi wrth drosglwyddo gofal ei chael ar y GIG yng Nghymru ac ansawdd bywyd yr unigolyn;

1. Notes the negative impact that delayed transfers of care can have on the Welsh NHS and an individual's quality of life;

2. Yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau bod pobl yng Nghymru yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt i'w galluogi i aros yn eu cartref eu hunain cyhyd â phosibl; a

2. Recognises the importance of ensuring that people in Wales have the necessary support to enable them to remain in their own home for as long as possible; and

3. Yn credu y gallai cyflwyno'r opsiwn o asesiad 'aros yn y cartref' yng Nghymru ar gyfer pawb sy'n cyrraedd oedran ymdddeol fod yn fesur ymyrraeth cynnar allweddol a allai atal pobl rhag mynd i'r ysbty ac atal oedi wrth drosglwyddo gofal ar ôl gadael yr ysbty.

3. Believes that introducing the option of a 'stay at home' assessment in Wales for all people upon retirement age could provide a key early intervention measure which could prevent hospitalisation and delayed transfers of care upon leaving hospital.

*Cynigiwyd y cynnig.*

*Motion moved.*

16:07

## Altaf Hussain [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Thank you very much, Mr Deputy Presiding Officer. I formally move the motion tabled in the name of my colleague, Paul Davies.

Diolch yn fawr iawn, Mr Dirprwy Lywydd. Cynigaf y cynnig a gyflwynwyd yn enw fy nghyd-Aelod Paul Davies yn ffurfiol.

In my 25 years working in the NHS, I experienced first-hand the misery caused by lack of proper integration of health and social care. Delays in delivering adequate social care were preventing people from leaving hospital, causing unnecessary distress for patients, and costly to the NHS. I've been thinking about solutions for many years. The motion before you today seeks to offer a solution to the growing problem of delayed transfer of care. Figures from StatsWales for September 2015 show a total of 510 delayed transfers of care and almost half of those resulted in delays of three weeks or more. This figure is set to increase in the future.

Yn ystod y 25 mlynedd y bŵm yn gweithio yn y GIG, cefais brofiad uniongyrchol o'r gofid a gâi ei achosi gan ddiffyg integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol priodol. Roedd oedi wrth gyflwyno gofal cymdeithasol digonol yn rhwystro pobl rhag gadael yr ysbty, gan beri gofid diangen i gleifion, a chost i'r GIG. Rwyf wedi bod yn meddwl am atebion ers nifer o flynyddoedd. Mae'r cynnig sydd ger eich bron heddiw yn ceisio cynnig ateb i broblem gynyddol oedi wrth drosglwyddo gofal. Mae ffigurau gan StatsCymru ar gyfer mis Medi 2015 yn dangos cyfanswm o 510 achos o oedi wrth drosglwyddo gofal a bu'n rhaid i bron i hanner y rhain wynebu oedi o dair wythnos neu fwy. Mae'r ffigur hwn yn debygol o gynyddu yn y dyfodol.

We have an ageing population. In fact, the population of over-65s is projected to grow by over 50 per cent over the next 20 years. We are also seeing record cuts to the health and social service budgets. When asked by the NHS Confederation, the majority of NHS leaders said that shortfalls in local authorities' spending had impacted on their services. The fact that so many people are staying weeks longer in the hospital than necessary is of great concern. The cost to the NHS of these unnecessary delays runs into the millions, but the cost to the individuals is immeasurable. Waiting in hospital a month or more for social care to be organised can undermine an older person's chances of recovery and be profoundly distressing for them and their families.

*Daeth y Llywydd (y Fonesig Rosemary Butler) i'r Gadair.*

### **Altat Hussain** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

There are many factors that result in delays in discharge from hospitals. According to Age Cymru, the main factors include a lack of appropriate facilities for reablement and recuperation, long delays in arranging services to support people in their own homes and the barriers that exist between health and social services. The Welsh Conservatives are today proposing preventative measures to tackle the growing burden of delayed transfers, both on our healthcare system and our social services. We would like to see the introduction of a stay-at-home assessment—an MOT, if you like—to be offered to every person upon reaching state pension age. A stay-at-home assessment would involve a visit by social services, who will ensure that the person has in place the necessary support that will allow them to remain in their own home for as long as possible. This is an early intervention measure that will ensure that any home adaptations are in place as they become necessary, rather than waiting until a crisis point—

Mae gennym boblogaeth sy'n heneiddio. Yn wir, rhagwelir y bydd y boblogaeth dros 65 oed yn codi i fwy na 50 y cant dros yr 20 mlynedd nesaf. Rydym hefyd yn wynebu toriadau i'r cyllidebau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol. Pan gawsant eu holi gan Gydffederasiwn y GIG, dywedodd y mwyafrif o arweinwyr y GIG fod diffyg gwariant awdurdodau lleol wedi effeithio ar eu gwasanaethau. Mae'r ffaith fod cymaint o bobl yn aros yn yr ysbyty am wythnosau yn hwy na sydd angen iddynt yn peri pryder mawr. Mae cost oedi diangen o'r fath i'r GIG yn y miliynau, ond mae'r gost i'r unigolion yn anfesuradwy. Mae aros yn yr ysbyty, am fis neu fwy, i ofal cymdeithasol gael ei drefnu yn gallu andwyo gobaith person hŷn o wella yn ogystal â bod yn hynod o dralodus iddynt hwy a'u teuluoedd.

*The Presiding Officer (Dame Rosemary Butler) took the Chair.*

Mae nifer o ffactorau'n arwain at oedi wrth ryddhau unigolion o'r ysbyty. Yn ôl Age Cymru, mae'r prif ffactorau'n cynnwys diffyg cyfleusterau priodol ar gyfer ailalluogi ac ymadfer, oedi hir wrth drefnu gwasanaethau i gynorthwyo pobl yn eu cartrefi eu hunain a'r rhwystrau sy'n bodoli rhwng gwasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol. Heddiw, mae'r Ceidwadwyr Cymreig yn cynnig mesurau ataliol i fynd i'r afael â'r baich cynyddol o oedi wrth drosglwyddo gofal, ar ein system gofal iechyd a'n gwasanaethau cymdeithasol. Byddem yn hoffi gweld asesiad aros yn y cartref yn cael ei gyflwyno—MOT, os hoffech chi—i'w gynnig i bob person sy'n cyrraedd oedran pensiwn y wladwriaeth. Byddai asesiad aros yn y cartref yn cynnwys ymweliad gan y gwasanaethau cymdeithasol a fydd yn sicrhau bod gan yr unigolyn dan sylw gefnogaeth angenrheidiol a fydd yn eu galluogi i aros yn eu cartrefi eu hunain cyhyd ag y bo modd. Mae'n fesur ymyrraeth gynnar a fydd yn sicrhau bod unrhyw addasiadau i'r cartref yn eu lle wrth iddynt ddod yn angenrheidiol, yn hytrach nag aros nes y ceir argyfwng—

16:11 **David Rees** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
Will you take an intervention on that point?

A wnewch chi dderbyn ymyriad ar y pwynt hwnnw?

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

16:11 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
Are you taking an intervention?

A ydych am dderbyn ymyriad?

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

16:11 **Altat Hussain** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
Yes, please.

Gwnaf, ewch ymlaen.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

16:11 **David Rees** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
Thank you for taking the intervention. Just for clarity purposes, clearly the state pension age is going to vary, with the way that the UK Government is changing it at the moment, but are you talking about a one-off type of assessment, or are you talking about one per year, because clearly people's circumstances change on a yearly basis?

Diolch i chi am dderbyn yr ymyriad. Er eglurder yn unig, yn amlwg mae oedran pensiwn y wladwriaeth yn mynd i amrywio, gyda'r ffordd y mae Llywodraeth y DU yn ei newid ar hyn o bryd, ond a ydych yn sôn am un asesiad, neu a ydych chi'n sôn am un bob blwyddyn, oherwydd yn amlwg mae amgylchiadau pobl yn newid yn flynyddol?

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

Absolutely. It is just that the pension age is constant for every person, and it will be a one-off. As I said, it will be an MOT for the further 20 to 30 years, but there may be interventions in between.

The assessment will also look at whether a person has a support network of family and friends. It will put the person in touch with local third sector agencies and organisations in order to try to tackle the isolation and loneliness experienced by many older people, which can also contribute to poor health.

The stay-at-home assessment will also enable the early diagnosis of dementia and other conditions requiring long-term assessments. Having trained professionals who can identify the early signs of dementia can ensure that appropriate assistance is in place for those living with this terrible disease. It is estimated that the number of people with dementia across Wales will increase by 31 per cent, and by as much as 44 per cent in some rural areas, by 2021. Figures also show that as few as one in five of those living with dementia feel they are getting adequate support. If we are to become a truly dementia-friendly nation, we need to improve early diagnosis and continuing support. We believe that the stay-at-home assessment will assist in delivering these aims.

A stay-at-home assessment will also help tackle other health inequalities. Some 40 per cent of over-65s suffer from undiagnosed malnutrition. Compared with well-nourished people, those who are malnourished see their GP twice as often, have three times the number of hospital admissions, and stay in hospital more than three days longer. By recognising the signs of malnutrition, the stay-at-home assessment team can tackle this hidden problem and help ensure that older people do not slip through the net.

We can also look to mitigate the likelihood of hospital-acquired infections. The majority of MRSA infections occur in elderly females admitted to hospital following a fall, and typically they are a lot more likely to arrive in the hospital as carriers of MRSA. We know that their prognosis and chance of returning to independent living arrangements are significantly reduced by picking up such an infection.

Yn hollol. Mae'r oedran pensiwn yn gyson ar gyfer pob person, a bydd yn asesiad untro. Fel y dywedais, bydd yn MOT ar gyfer yr 20 i 30 mlynedd i ddilyn, ond mae'n bosibl y ceir ymyriadau yn ystod y cyfnod hwnnw.

Bydd yr asesiad hefyd yn edrych i weld a oes gan berson rwydwaith cefnogi o deulu a ffrindiau. Bydd yn rhoi'r person mewn cysylltiad ag asiantaethau a sefydliadau trydydd sector lleol er mwyn ceisio mynd i'r afael â'r arwahanrwydd a'r unigrwydd a brofir gan lawer o bobl hŷn, sy'n gallu cyfrannu hefyd at iechyd gwael.

Bydd yr asesiad aros yn y cartref hefyd yn ein galluogi i wneud diagnosis cynnar o ddementia a chyflyrau eraill sy'n gofyn am asesiadau hirdymor. Mae cael gweithwyr proffesiynol wedi'u hyfforddi sy'n gallu adnabod arwyddion cynnar o ddementia yn gallu sicrhau bod cymorth priodol ar gael i'r rhai sy'n byw gyda'r clefyd dychrynlyd hwn. Amcangyfrifir y bydd nifer y bobl sydd â dementia ledled Cymru yn cynyddu 31 y cant, a chymaint â 44 y cant mewn rhai ardaloedd gwledig, erbyn 2021. Mae'r ffigurau hefyd yn dangos mai un o bob pump yn unig o'r rhai sy'n byw gyda dementia sy'n teimlo eu bod yn cael cefnogaeth ddigonol. Os ydym am fod yn genedl ddementia-gyfeillgar, mae angen i ni wella diagnosis cynnar a chymorth parhaus. Credwn y bydd yr asesiad aros yn y cartref yn helpu i gyflawni'r amcanion hyn.

Bydd asesiad aros yn y cartref hefyd yn helpu i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd eraill. Mae tua 40 y cant o bobl dros 65 oed yn dioddef o ddiffyg maeth ond heb gael diagnosis. O'u cymharu â phobl sy'n bwyta bwyd maethlon, mae'r rhai sy'n dioddef o ddiffyg maeth yn gweld eu meddyg teulu ddwywaith mor aml, yn cael eu derbyn i'r ysbyty dair gwaith mor aml, ac yn aros yn yr ysbyty am fwy na thri diwrnod yn hwy. Drwy adnabod arwyddion diffyg maeth, gall y tîm asesu aros yn y cartref fynd i'r afael â'r broblem gudd hon a helpu i sicrhau nad yw pobl hŷn yn llithro drwy'r rhwyd.

Hefyd, gallwn geisio lliniaru'r tebygolrwydd o heintiau a gafwyd yn yr ysbyty. Mae'r rhan fwyaf o heintiau MRSA yn digwydd mewn menywod oedranus sy'n cael eu derbyn i'r ysbyty ar ôl codwm, ac fel arfer maent yn llawer mwy tebygol o gyrraedd yr ysbyty fel cludwyr MRSA. Rydym yn gwybod bod eu prognosis a'u gobaith o ddychwelyd at drefniadau byw'n annibynnol yn lleihau'n sylweddol drwy ddal haint o'r fath.

Unsuitable bathrooms and toilet facilities at home, unmanageable stairs to climb and often hidden difficulties undertaking personal hygiene tasks are things that a lot of older people might find it difficult to talk about until a crisis occurs. By conducting a stay-at-home assessment, we can ensure that we remove any barriers that are preventing an older person taking care of themselves. The stay-at-home assessment will contribute to the Ageing Well in Wales programme's key aims of delivering age-friendly communities, fall prevention, dementia support and tackling isolation and loneliness. The stay-at-home assessment will help address delayed transfers of care, which are costly and have a major impact on waiting times and emergency response. With the number of hospital beds in decline—we have nearly 50 per cent fewer beds than we did a quarter of a century ago—we can't afford to have people taking up hospital beds unnecessarily.

The stay-at-home assessment contributes to the prudent healthcare agenda. Delayed transfers cost the NHS over £20 million a year. Early intervention will prevent many of these delays, delivering significant savings. These savings will fund the scheme that will cost around £0.5 million a year. I would urge you to support the motion and reject Plaid's amendment. We'll be supporting the Liberal Democrats' amendment. As I said earlier, we have lost nearly half of the available beds, and we must ensure that we use those that remain more effectively. Winter pressures can't continually be rolled out as an excuse. We have had mild winters in recent years. Yet, last year, our hospitals ground to a halt. Welsh Ministers must take action to ensure we have proper planning in place. The scheme will also help reduce the burden on dwindling hospital beds.

Let's put in place a scheme that will empower older people and at the same time establish a relationship with social services, which will work with them throughout their retirement to enable them to remain in their own home and be active in their community for as long as possible. Over the years I worked as a clinician in the NHS, I saw first-hand the need for such a scheme. I entered politics to deliver such improvements and I hope you will support me. This I owe to the people of Wales. Thank you.

Mae ystafelloedd ymolchi a chyfleusterau toiled anaddas yn y cartref, grisiau na ellir eu dringo ac anawsterau, sy'n aml yn gudd, wrth gyflawni tasgau hylendid personol yn bethau y gallai llawer o bobl hŷn ei chael hi'n anodd siarad amdanynt hyd nes y bydd argyfwng yn digwydd. Drwy gynnal asesiad aros yn y cartref, gallwn sicrhau ein bod yn cael gwared ar unrhyw rwystrau sy'n atal person hŷn rhag gofalu amdanynt eu hunain. Bydd yr asesiad aros yn y cartref yn cyfrannu at amcanion allweddol rhaglen Heneiddio'n Dda yng Nghymru, sef sicrhau cymunedau oed-gyfeillgar, atal cwympiadau, cymorth dementia a mynd i'r afael ag arwahanrwydd ac unigrwydd. Bydd yr asesiad aros yn y cartref yn helpu i fynd i'r afael ag oedi wrth drosglwyddo gofal, sy'n gostus ac yn effeithio'n fawr ar amseroedd aros ac ymateb brys. Gyda nifer y gwelyau ysbty yn gostwng—mae gennym bron i 50 y cant yn llai o welyau nag oedd gennym chwarter canrif yn ôl—ni allwn forddio rhoi gwelyau ysbty i bobl yn ddiangen.

Mae'r asesiad aros yn y cartref yn cyfrannu at yr agenda gofal iechyd darbodus. Mae oedi wrth drosglwyddo gofal yn costio dros £20 miliwn y flwyddyn i'r GIG. Bydd ymyrraeth gynnar yn atal llawer o'r oedi, ac o ganlyniad yn sicrhau arbedion sylweddol. Bydd yr arbedion hyn yn ariannu'r cynllun a fydd yn costio tua £0.5 miliwn y flwyddyn. Byddwn yn eich annog i gefnogi'r cynnig a gwrthod gwelliant Plaid Cymru. Byddwn yn cefnogi gwelliant y Democratiaid Rhyddfrydol. Fel y dywedais yn gynharach, rydym wedi colli bron i hanner y gwelyau sydd ar gael, ac mae'n rhaid i ni sicrhau ein bod yn defnyddio'r rhai sydd ar ôl yn fwy effeithiol. Ni ellir parhau i ddefnyddio pwysau'r gaeaf fel esgus. Rydym wedi cael gaeafau mwyn yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Eto i gyd, y llynedd, daeth ein hysbytai i stop. Mae'n rhaid i Weinidogion Cymru roi camau ar waith i sicrhau bod gennym gynllun priodol yn ei le. Bydd y cynllun hefyd yn helpu i leihau'r baich ar nifer lai a llai o welyau ysbty.

Gadewch i ni roi cynllun ar waith a fydd yn grymuso pobl hŷn ac ar yr un pryd yn sefydlu perthynas â'r gwasanaethau cymdeithasol, cynllun a fydd yn gweithio gyda hwy drwy gydol eu hymddeoliad i'w galluogi i aros yn eu cartrefi eu hunain a bod yn weithgar yn eu cymuned cyhyd ag y bo modd. Dros y blynyddoedd y bŵm yn gweithio fel clinigydd yn y GIG, gwelais yr angen am gynllun o'r fath â'm llygaid fy hun. Penderfynais ddod yn wleidydd er mwyn sicrhau gwelliannau o'r fath ac rwy'n gobeithio y byddwch yn fy nghefnogi. Mae arnaf hyn i bobl Cymru. Diolch.

16:17

## **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I have selected the two amendments to the motion. I call on Elin Jones to move amendment 1, which is tabled in her name. Elin Jones.

*Gwelliant 1—Elin Jones*

*Dileu pwynt 3.*

*Cynigiwyd gwelliant 1.*

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Rwyf wedi dethol y ddau welliant i'r cynnig. Galwaf ar Elin Jones i gynnig gwelliant 1, sy'n cael ei gyflwyno yn ei henw. Elin Jones.

*Amendment 1—Elin Jones*

*Delete point 3.*

*Amendment 1 moved.*

**Elin Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch, Lywydd. Rwy'n cyflwyno'r gwelliant yn enw Plaid Cymru. Fe fyddwn yn cefnogi gwelliant y Democratiaid Rhyddfrydol y prynhawn yma. Rŷm ni hefyd yn gefnogol o'r byrddwn ym mhwynt 1 a phwynt 2 o gynnig y Toriaid y prynhawn yma, ond nid pwynt 3.

Pwynt 1: mae'n gwbl bwysig, wrth gwrs, fod pobl yn symud o fewn y gyfundrefn iechyd a gofal mewn ffordd lyfn a heb rwystrau, ac rydym yn gefnogol iawn i'r hyn y mae'r Toriaid yn ei gyflwyno ym mhwynt 1 y cynnig yma y prynhawn yma. Mae hefyd yn bwysig fod y gwasanaethau'n caniatáu i bobl aros yn eu tai a'u cartrefi cyhyd â phosib. Nid wyf yn meddwl bod unrhyw ddaidl ynglŷn â phwynt 2 o'r cynnig yma, ond mae datrysiad y Toriaid i rai o'r problemau sy'n wynebu ein NHS, a'r hyn rydym wedi'i glywed yn cael ei amlinellu gan Altaf Hussain y prynhawn yma, yn annigonol ac yn simplistig ddywedwn i.

Yr hyn y mae'r cynnig yn ei ddweud yw y dylai bod yna asesiad aros yn y cartref yng Nghymru ar gyfer pawb sy'n cyrraedd oedran ymddeol fel mesur ymyrraeth cyntaf. I ddechrau, mae'n siŵr bod sawl un o fewn y Siambr hon y prynhawn yma a fyddai felly'n gymwys ar gyfer asesiad yn y cartref. Mae siŵr o fod 10 y cant o Aelodau'r Cynulliad yma yn gymwys ar gyfer asesiad unifersal o'r math yna, ac rŷm ni'n gwybod, ar y cyfan, fod y Toriaid yn dueddol o fod yn erbyn polisiau unifersal felly sy'n rhoi i bawb ar unrhyw bwynt. Presgripsiwn am ddim—rŷch chi'n erbyn hynny. Ond, y prynhawn yma, rŷch chi'n cynnig y dylai fod yna asesiad yn y cartref i bob un sydd yn cyrraedd yr oed ymddeol, sef 65. Ac fe fyddwn i'n dweud nad yw hynny yn cwrdd â'r gofynion ac nad yw'n flaenoriaeth. Wrth gwrs bod eisiau asesiad yn y cartref, ond ni ddylai hynny fod yn bolisi unifersal ar gyfer pawb sy'n cyrraedd 65 oed.

Thank you, Presiding Officer. I move the amendment in the name of Plaid Cymru. We will be supporting the Liberal Democrat amendment this afternoon. We are also supportive of points 1 and 2 in the Conservative motion this afternoon, but we cannot agree with point 3.

Point 1: it's very important, of course, that people do move smoothly and without barriers in the health and care systems, and we are very supportive of the what the Tories propose in point 1 of the motion this afternoon. It's also important that services allow people to remain in their own homes as long as possible. I don't think there could be any disagreement on point 2 of this motion, but the Tories' solution to some of the problems facing our NHS, and what we've heard outlined by Altaf Hussain this afternoon, is inadequate and simplistic, I would say.

What the motion states is that there should be a stay-at-home assessment in Wales for all people upon reaching retirement age as a key early intervention. First of all, I'm sure that there are many people in this Chamber this afternoon who would therefore qualify for this stay-at-home assessment. I would say that perhaps 10 per cent of Assembly Members would qualify for that universal assessment, and we know that, generally speaking, the Conservatives tend to oppose universal approaches of that sort—providing the same to all people. You were against the universal free prescription. But, this afternoon, you are suggesting that there should be a stay-at-home assessment for everyone reaching retirement age, namely 65. And I would say that that doesn't meet the needs and is not a priority. Of course, we need home assessments, but that shouldn't be a universal policy for everyone reaching 65 years of age.

**Angela Burns** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I'm very grateful to the Member for taking the intervention. I would like to re-read to her, though, option 3, which is to introduce

'the option of a "stay at home" assessment'.

There is no intention for it to be a universal benefit, but there are clearly some sectors of society, in particular when you look at their housing and capability levels, who would benefit from this.

Rwy'n ddiolchgar iawn i'r Aelod am dderbyn yr ymyriad. Hoffwn ail-ddarllen opsiwn 3 iddi, fodd bynnag, sef cyflwyno'r

'opsiwn o asesiad "aros yn y cartref"'.

Nid oes bwriad iddo fod yn fudd cyffredinol, ond mae'n amlwg fod yna rai sectorau o'r gymdeithas, yn enwedig pan ystyriwch eu tai a'u lefelau gallu, a fyddai'n cael budd o hyn.

**Elin Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

le, ac wrth gwrs mae hynny yn bodoli i ryw raddau ar hyn o bryd—pan mae pobl yn cwrrdd â gofynion penodol ac maen nhw yn cael eu cyfeirio'n benodol, mae yna asesiad. Ac os ydyn nhw yn cael diagnosis o ddementia neu ddiagnosis o ryw afiechyd, yna mae'r math yna o asesiadau yn digwydd ar hyn o bryd. Felly, mae ei gyflwyno fe yn y modd yma fel rhywbeth sydd ar gael i bawb sy'n cyrraedd oedran ymdddeol—rwy'n meddwl bod eisiau i chi edrych eto ar hynny, nid dim ond o ran geiriad y cynnig y prynhawn yma ond hefyd o ran yr hyn rŷch chi yn ei gynnig fel opsiwn penodol i hyrwyddo, achos nid wy'n credu taw dyna'r flaenoriaeth ar gyfer cwrrdd â rhai o'r anghenion a'r problemau sydd yn y gwasanaeth iechyd, fel mae Altaf Hussain wedi ei nodi y prynhawn yma wrth gyflwyno'r ddadl.

Well, yes, of course, that exists to a certain extent now—when people have certain requirements and they are specifically referred, then there is an assessment. If they're given a diagnosis of dementia or another illness, then that kind of assessment already happens. So, introducing it in this way, as something that will be available to everyone reaching retirement age, means that I think that you need to look anew at that, not only in terms of the wording of the motion this afternoon, but also in terms of what you are proposing as a specific option, because I don't think that that is the priority in meeting some of the needs and problems that exist within the health service, as Altaf Hussain has already noted this afternoon in opening the debate.

Rwy'n derbyn, wrth gwrs, nad prif bwrpas y ddadl y prynhawn yma yw i edrych ar opsiwn yr asesiadau yma yn unig, ond i grynhoi rhai o'r problemau sydd yn y system, a beth sydd ei angen i greu system sydd yn fwy llyfn ac yn fwy effeithiol ar gyfer yr unigolion bregus yna—yr henoed bregus yna—sydd angen cyfundrefn a gwasanaeth sydd yn fwy llyfn ar eu cyfer nhw.

I accept, of course, that main purpose of the debate this afternoon is not only to look at this option of stay-at-home assessment, but to summarise some of the problems in the system and what is needed to create a more streamlined and more effective system for those vulnerable individuals—those elderly individuals—who need a regime and a service that runs far more smoothly.

Fel mae nifer o bobl yn y Cynulliad yma yn credu, mae angen integreiddio gwasanaethau o ddifri yng Nghymru. Lle rŷm ni'n gwahaniaethu, siŵr o fod, yw bod Plaid Cymru nawr yn credu bod rhaid inni gynllunio ein gwasanaethau ar gyfer y 50 mlynedd nesaf, ac i gwrrdd â her y 50 mlynedd nesaf. I wneud hynny, mae eisiau sicrhau integreiddiad y cyrff sy'n gyfrifol am wasanaethau iechyd a gofal—y byrddau iechyd a'r awdurdodau lleol—a hefyd greu cyfundrefn ariannu a chyllido sydd yn gyfartal rhwng gwasanaethau gofal a gwasanaethau iechyd. Ni all fod yn iawn yn yr unfed ganrif ar hugain i unigolyn sydd yn 65 heddiw, ddywedwn ni, ac sydd yn cael diagnosis o ddementia ac sydd yn wynebu gorfod talu am gyfran helaeth o'u gofal nhw yn ystod y 10 i 20 mlynedd nesaf, ond bod unigolyn sydd yn cael diagnosis heddiw o ganser ac sydd yn gwybod y bydd y rhan fwyaf o'r gofal hynny sydd ei angen ar eu clefyd nhw am ddim. Felly, mae angen inni gwrrdd â'r heriau tymor hir a'r heriau sefydliadol a chyllidol mawr sydd yn ein cyfundrefn iechyd a gofal ni nawr. Rwy'n credu bod yr hyn mae Plaid Cymru—

As many people in this Assembly believe, there is a need to truly integrate services in Wales. Where we differ, probably, is that Plaid Cymru now believes that we must plan our services for the next 50 years, and to meet the challenge of the next 50 years. To do that, we must ensure the integration of the bodies responsible for health and social care services—the health boards and the local authorities—and also create a funding regime that is equal between care services and health services. It can't be right in the twenty-first century for an individual who is 65 today, let's say, and is diagnosed with dementia and faces having to pay for a large proportion of their care during the next 10 or 20 years, but that an individual who is diagnosed with cancer today and knows that most of the care required for their treatment will be available free of charge. Therefore, we need to meet those long-term challenges and the major institutional and funding problems in our health and social care system now. What Plaid Cymru—

**Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Your time is up.

Mae eich amser ar ben.

**Elin Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Yn parhau.]—yn ei gynnig yn fodd o sicrhau hynny. Rwy'n gwerthfawrogi'r cyfle i drafod y materion pwysig yma y prynhawn yma.

[Continues.]—is proposing is a means of ensuring that that happens. I do appreciate the opportunity to discuss these important issues this afternoon.

**Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call on Aled Roberts to move amendment 2, which was tabled in his name.

Galwaf ar Aled Roberts i gynnig gwelliant 2, a gyflwynwyd yn ei enw.

*Gwelliant 2—Aled Roberts*

*Amendment 2—Aled Roberts*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*



*Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod camau'n cael eu cymryd ar unwaith i sicrhau bod cynifer o welyau â phosibl ar gael yn GIG Cymru, yn enwedig yn ystod misoedd y gaeaf.*

Cynigiwyd gwelliant 2.

*Calls on the Welsh Government to ensure immediate steps are taken to ensure that bed capacity in the Welsh NHS is maximised, in particular during winter months.*

Amendment 2 moved.

16:23

**Aled Roberts** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch, Lywydd. Rwyf hefyd yn falch iawn o'r cyfle i gael cynnig gwelliant 2, a hefyd i gyfrannu at y ddatl yma.

Nid wyf yn meddwl bod unrhyw un yma yn credu bod oedi wrth drosglwyddo o'r ysbytai i'r sector gofal ddim yn broblem. Ac nid yw hynny jest yn broblem yma yng Nghymru, ond ar draws y Deyrnas Gyfunol, i ddweud y gwir. Rydym yn yr un sefyllfa â Phlaid Cymru, i ryw raddau, lle rydym yn derbyn pwynt 1 a 2 o'r cynnig, ac yn fodlon derbyn y cynnig ar y sail yna, ond mi fyddwn ni yn cefnogi gwelliant Plaid Cymru achos ein bod ni yn gweld bod yr ateb rydych chi wedi ei roi ger ein bron ni y prynhawn yma yn annigonol, fel y dywedodd Elin Jones.

Roeddwn i yn ysbyty Wrecsam ddydd Llun diwethaf yn trafod â staff o fewn yr uned frys y problemau maen nhw'n eu dioddef, ac i ddweud y gwir roddwn i'n synnu eu bod nhw'n dweud mai'r broblem fwyaf sydd ganddyn nhw yw nid yn unig y cynnydd yn y galw o ran y bobl sydd yn dod i'r ysbyty, a hefyd y ffaith bod nifer y gwllâu wedi gostwng dros y blynyddoedd diweddar, ond hefyd bod yna nifer o gleifion o fewn yr ysbyty erbyn hyn yn aros yn yr ysbyty am dros 100 diwrnod, a bod hynny'n creu broblem. Nid wyf felly yn credu, o fy mhrofiad i o fewn llywodraeth leol, bod un asesiad sy'n cael ei gynnal fel opsiwn—rwy'n derbyn y pwynt a wnaethpwyd gan Angela Burns—yn mynd i fynd i'r afael â'r broblem yma. Beth sy'n digwydd ar ôl yr asesiad ydy'r broblem ar hyn o bryd. Nid oes digon o wllâu ar gael o fewn cartrefi gofal nyrsio a hefyd mae cymaint o oedi o ran y gwelliannau sydd angen eu gwneud o fewn y cartrefi.

Thank you, Presiding Officer. I'm also very pleased to have the opportunity to move amendment 2, and also to contribute to this debate.

I don't think that anyone here believes that delays in the transfer of care between the hospital and the care sector isn't a problem. And that is not just a problem here in Wales, but across the United Kingdom in reality. We are in the same position as Plaid Cymru, to some extent, where we accept points 1 and 2 of the motion, and are willing to accept the motion on that basis, but we will also be supporting Plaid Cymru's amendment because we see that the solution that you've presented to us this afternoon is inadequate, as Elin Jones stated.

I was in Wrexham hospital last Monday discussing with staff within the emergency department the problems they suffer, and to be honest I was quite surprised that they were saying that the main problem that they have is not only the increase in demand in terms of people who come to the hospital, and also the fact that the number of beds has reduced over recent years, but also that a number of patients within the hospital by now stay in hospital for more than 100 days, and that that creates a problem. I therefore don't think, from my experience within local government, that one assessment that is offered as an option—I accept the point made by Angela Burns—is going to address this problem. What happens after that assessment is the problem at the moment. There aren't enough beds available within nursing care home and also there is so much delay in terms of the improvements that need to be made within the homes.

16:25

**Altaf Hussain** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you very much for giving way. At 65, it is the pensionable age—that's No. 1. No. 2 is that we've identified that 40 per cent of the population are malnourished. No. 3 is that people at that age, as you might have heard in my short debate last time, are developing MRSA and other problems, which they take from home to the hospital, and it is the hospital beds that we are not able to maintain—the transfer of patients back to care—because there is nowhere for those patients to go. So, this will identify them. At the same time, it will allow social services to visit them regularly.

Diolch yn fawr iawn i chi am ildio. Yr oedran pensiwn yw 65 oed—dyna rif 1. Rhif 2 yw ein bod wedi nodi bod 40 y cant o'r boblogaeth yn dioddef o ddiffyg maeth. Rhif 3 yw bod pobl yr oedran hwnnw, fel y byddwch wedi'i glywed yn fy nadl fer y tro diwethaf efallai, yn datblygu MRSA a phroblemau eraill sy'n cael eu cludo ganddynt o'u cartref i'r ysbyty, ac nid ydym yn gallu cynnal y gwelyau ysbyty—trosglwyddo cleifion yn ôl i ofal—gan nad oes unman i'r cleifion hynny fynd. Felly, bydd hyn yn nodi pwy ydynt. Ar yr un pryd, bydd yn caniatáu gwasanaethau cymdeithasol i ymweld â hwy yn rheolaidd.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

16:25

**Aled Roberts** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Rwy'n derbyn hynny, ond mae yna broblem hefyd oherwydd y pwynt a wnaethpwyd gan Elin Jones, oherwydd rŷch chi'n dweud nad ydych chi'n mynd i gynning yr asesiad yma yn ôl y gofyn—rŷch chi'n mynd i gynnal yr asesiad os ydy pobl yn gofyn amdano. Mae hynny'n creu sefyllfa lle rydych yn barod i asesu pobl, hwyrach, sydd â'r modd i gael yr asesiad yna. Felly, mae'r hyn sy'n gywir o ran presgripsiynau hefyd yn gywir o ran asesiadau, os ydych yn canlyn eich dadl chi. Rwyf hefyd yn gofyn i chi: mae'n rhaid ichi edrych ar y broblem yma yn systemig a chyfan. Rŷch chi am ddiogelu'r gyllideb iechyd. Mae rhan fwyaf o'r broblem yma oherwydd y problemau o fewn llywodraeth leol, a heblaw eich bod yn dweud bod hyn yn broblem systemig, fe allwch chi wneud beth bynnag fedrwrch chi ynglŷn ag asesiadau. Ond os nad ydy'r gofal yn y cartref ar gael, pan mae'n rhaid ichi aros wythnosau am becynnau gofal, fel mae nifer ohonyn nhw yn ei wneud mewn ysbytai erbyn hyn, ac os ydych yn creu sefyllfa lle rŷch chi'n aros am wlaŷu mewn cartrefi gofal oherwydd nad yw'r cyngor sir eisiau derbyn cyfrifoldeb am dalu'r biliau yna, mae hyn yn llawer iawn mwy cymhleth na beth rŷch chi wedi rhoi ger ein bron y prynhawn yma. Dyna hefyd pam ein bod yn barod i dderbyn bod yna broblem, ond nid ydym yn barod i dderbyn yr ateb rŷch chi wedi'i roi gerbron.

Rŷm ni hefyd yn meddwl bod rhaid i'r Llywodraeth dderbyn bod y gostyngiad yn nifer y gwlaŷu o fewn ein hysbytai cyffredinol hefyd yn rhan o'r broblem. Mae hynny yn cael ei ddweud wrthym dro ar ôl tro gan y meddygon sydd yn delio â hyn yn ein hysbytai. Felly, mae yna gyfrifoldeb ar y Llywodraeth Lafur. Rwyf hefyd yn meddwl—

I accept that, but there is a problem also because of the point made by Elin Jones, because you say that you're not going to offer this assessment according to the need—you're going to offer the assessment if people ask for it. That creates a situation where you're willing to assess people who have the means to have that assessment. So, what is right about prescriptions is also right about the assessments, if you follow your argument. I am also asking you: you have to look at this problem in a whole and systemic way. You want to safeguard the health budget. Most of this problem is a result of the problems within local government, and unless you say that this is a systemic problem, you can do whatever you want in terms of assessments. But if the care in the home isn't available, where you have to wait for weeks for care packages, as a number of patients in hospitals have to, and if you're creating a situation where you are waiting for beds in care homes because the county council doesn't want to accept responsibility for paying those bills, this is much more complex than what you have placed before us this afternoon. That also is why we are ready to accept there is a problem but we're not ready to accept the solution that you have presented before us.

We also believe that the Government has to accept that the reduction in the number of beds within our general hospitals is also part of the problem. We are told that over and over by the doctors who deal with this in our hospitals. So, there is a responsibility on the Labour Government. I also think—

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

16:28

**Angela Burns** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Will you take an intervention?

A wnewch chi dderbyn ymyriad?

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

16:28

**Aled Roberts** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yes.

Gwnaf.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

16:28

**Angela Burns** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank the Member for taking an intervention. So, are you basically saying that the Liberal Democrat solution to this perennial problem is that we simply have more hospital beds—

Diolch i'r Aelod am dderbyn ymyriad. Felly, a ydych yn dweud yn y bôn mai ateb y Democratiaid Rhyddfrydol i'r broblem barhaol hon yw bod yn rhaid i ni, yn syml iawn, gael mwy o welyau ysbyty—

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

16:28

**Aled Roberts** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

No, I'm not.

Na, nid wyf yn dweud hynny.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

16:28

**Angela Burns** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Continues.]—because that does nothing to help people stay in their homes and retain their independence and their dignity—

[Yn parhau.]—oherwydd nid yw hynny'n gwneud dim i helpu pobl i aros yn eu cartrefi a chadw eu hannibyniaeth a'u hurddas—

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

- 16:28 **Aled Roberts** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- No, that isn't what I said at all. I said that you must look at this as a whole-system problem. That's what you're not doing. You're putting an option as far as assessments are concerned. The problem here is what actually leads on from the assessment. Your policies that you put forward whereby you would actually protect health spending whilst cutting local government spending, which is creating part of this problem as far as the availability of adaptations is concerned, the availability of care packages—. It is very, very simplistic, and it does you no credit at all to be putting forward—[Interruption.]—this simplistic answer to a problem—. I won't take any lessons from Andrew R.T. Davies—[Interruption.]—on this particular issue.
- Na, nid dyna a ddywedais o gwbl. Dywedais fod yn rhaid i chi edrych ar hon fel problem system gyfan. Dyna'r hyn nad ydych yn ei wneud. Rydych yn rhoi opsiwn o ran asesiadau. Y broblem yma yw'r hyn sy'n dilyn yr asesiad. Mae'r polisiau rydych yn eu cyflwyno lle y byddech, mewn gwirionedd, yn diogelu gwariant ar iechyd wrth dorri gwariant llywodraeth leol, yn creu rhan o'r broblem hon o ran argaeledd addasiadau, argaeledd pecynnau gofal—. Mae'n or-sympl tu hwnt, ac nid yw'n dod ag unrhyw glod i chi o gwbl eich bod yn cynnig—[Torri ar draws.]—ateb gor-sympl o'r fath i broblem—. Nid wyf am wrando ar bregeth gan Andrew R.T. Davies—[Torri ar draws.]—ar y mater penodol hwn.
- 16:28 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Order. Order. Trefn. Trefn.
- 16:28 **Aled Roberts** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- You will say one thing to one person; you will say something to another person—[Interruption.]—and you are—[Interruption.]—and you—[Interruption.]—and you are being found out, Mr Davies.
- Rydych chi'n dweud un peth wrth un person; rydych yn dweud rhywbeth wrth berson arall—[Torri ar draws.]—ac rydych—[Torri ar draws.]—ac rydych—[Torri ar draws.]—ac rydym yn gweld hynny, Mr Davies.
- 16:29 **Janet Finch-Saunders** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- May I just put on record how heartened I am to see a new Member coming forward with a solution to a problem that is very endemic in our health service? With 487 hospital beds blocked in Wales, every day, and 129 of those in north Wales, it is crucial that we examine ways of mitigating this and that we look for alternatives to long, avoidable hospital stays. These stays mean delayed transfers, meaning a higher risk of contracting hospital-contracted infections, leading to dangerous side-effects, treatment delay and resource-intensive associated complications, knock-on effects to emergency responses, emergency admissions and waiting lists. Age Cymru and Professor Marcus Longley have highlighted the need for action to reduce the number of patients in hospital who simply shouldn't be there. This frequent scenario is, too often, created by a lack of simple integration and poor communication between health and social services, which then result in bedblocking, delays in community care arrangements, delays in healthcare assessments and the lack of availability of care home beds. The Wales average for availability of care homes being one of the reasons for delayed transfers is 8.8. Betsi, my own health board, is 27.5 per cent with 37 older patients in September delayed in hospital, simply because they were waiting for availability in a care home setting. Furthermore, in Conwy, over—
- A gaf fi gofnodi cymaint o bleser yw gweld Aelod newydd yn cynnig ateb i broblem sy'n endemig iawn yn ein gwasanaeth iechyd? Gyda 487 o welyau mewn ysbyta'n cael eu blocio yng Nghymru bob dydd, a 129 o'r rheini yng ngogledd Cymru, mae'n hanfodol ein bod yn edrych ar ffyrdd o liniaru hyn a'n bod yn edrych am ddewisiadau eraill yn hytrach nag arosiadau hir yn yr ysbyty y gellid eu hosgoi. Mae'r arosiadau hyn yn golygu oedi wrth drosglwyddo gofal, gan greu risg uwch o ddal heintiau a gafwyd yn yr ysbyty, sy'n arwain at sgil-ffeithiau peryglus, oedi cyn cael triniaeth a chymhlethdodau cysylltiedig sy'n galw am adnoddau sylweddol, sgil-ffeithiau i ymatebion brys, derbyniadau brys a rhestrau aros. Mae Age Cymru a'r Athro Marcus Longley wedi tynnu sylw at yr angen am gamau gweithredu i leihau nifer y cleifion yn yr ysbyty na ddylent fod yno. Crëir senario o'r fath yn aml drwy ddiffyg integreiddio syml a chyfathrebu gwael rhwng gwasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, sy'n arwain wedyn at flocio gwelyau, oedi yn y trefniadau gofal yn y gymuned, oedi cyn cael asesiadau gofal iechyd a phrinder gwelyau mewn cartrefi gofal. Mae prinder lle mewn cartrefi gofal yn rheswm dros oedi cyn trosglwyddo mewn 8.8 y cant o'r achosion o oedi ar gyfartaledd drwy Gymru. Canran Betsi Cadwaladr, fy mwrdd iechyd fy hun, yw 27.5 y cant gyda 37 o gleifion hŷn wedi gorfod aros yn yr ysbyty ym mis Medi, am y rheswm syml eu bod yn aros am le mewn cartref gofal. Ar ben hynny, yng Nghonwy, mae dros—
- 16:30 **David Rees** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Thank you for taking the intervention. Clearly, the care home issue is critical, because getting patients into and out of hospital is critical. Are you therefore disappointed that the Prime Minister put a stop to the cap available to encourage more people to go in and put the cost on people who may be at high risk in their homes because of them?
- Diolch i chi am dderbyn yr ymyriad. Yn amlwg, mae problem cartrefi gofal yn hollbwysig, gan fod cael cleifion i mewn ac allan o'r ysbyty yn allweddol. A ydych chi, felly, yn siomedig fod y Prif Weinidog wedi rhoi diwedd ar y cap a fodolai i annog mwy o bobl i fynd yno a throsglwyddo'r gost i bobl a allai wynebu risg uchel yn eu cartrefi o'i herwydd?

16:31 **Janet Finch-Saunders** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you for your question. We're looking for solutions here in Wales; I'm not interested in the Prime Minister right now.

Furthermore, in Conwy, over 19 per cent of patients have to wait over 26 weeks for transfers. I'll tell you now—it's an absolute scandal—I have a constituent who is in hospital now, and has been for 17 months, because they cannot find an EMI bed suitable for him. That is a national disgrace for this Welsh Government. I've also got another constituent who has, for 100 days, been in hospital. It's a scandal. It needs a solution and a new Member has come forward with one, we should, at least, give him the courtesy of—.

Diolch i chi am eich cwestiwn. Rydym yn chwilio am atebion yma yng Nghymru; nid oes gennyf ddi-ddordeb yn y Prif Weinidog ar hyn o bryd.

Ar ben hynny, yng Nghonwy, mae'n rhaid i dros 19 y cant o gleifion aros dros 26 wythnos i gael eu trosglwyddo. Rwy'n dweud wrthy ch yn awr—mae'n gwbl warthus—mae gennyf etholwr sydd yn yr ysbty ar hyn o bryd, ac mae wedi bod yno ers 17 mis, am na allant ddod o hyd i wely henoed bregus eu meddwl sy'n addas ar ei gyfer. Mae hynny'n warth cenedlaethol ar y Llywodraeth hon. Mae gennyf etholwr arall hefyd sydd wedi bod yn yr ysbty am 100 diwrnod. Mae'n warthus. Mae angen ateb ac mae Aelod newydd wedi cynnig un, a dylem, o leiaf, ddangos cwrteisi iddo drwy—.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

16:31 **Aled Roberts** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Can you explain to us how it is a solution to have an assessment? The problems with regard to care beds are caused by the rates that local authorities are able to pay, which have been reduced time after time, which would be worsened by your proposals for local government funding.

A allwch chi egluro i ni sut y mae cael asesiad yn ateb? Achosir y problemau gyda gwelyau gofal gan y cyfraddau y mae awdurdodau lleol yn gallu eu talu, sydd wedi'u gostwng dro ar ôl tro, ac a fyddai'n cael eu gwaethygu gan eich cynigion ar gyfer ariannu llywodraeth leol.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

16:32 **Janet Finch-Saunders** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank the Member for that, but I'll be honest with him—a simple fact: my father fell recently and, had he had an assessment, he wouldn't now be stuck in hospital for about the next 12 weeks, as a result of having broken two bones in his leg at 90 years of age. Had he had an assessment, this wouldn't have happened, because other alternatives would have been found to cater for his needs. Fact.

Diolch i'r Aelod am hynny, ond byddaf yn onest gydag ef—ffraith syml: cafodd fy nhad godwm yn ddiweddar a phe bai wedi cael asesiad, ni fyddai'n awr yn gaeth yn yr ysbty am y 12 wythnos nesaf o ganlyniad i dorri dau asgwrn yn ei goes yn 90 mlwydd oed. Pe bai wedi cael asesiad, ni fyddai hyn wedi digwydd, oherwydd byddai dewisiadau eraill wedi'u canfod i ddarparu ar gyfer ei anghenion. Ffaith.

Our policy of stay-at-home assessments—[Interruption.]—

Mae ein polisi ynglŷn ag asesiadau aros yn y cartref—[Torri ar draws.]—

*Aelod Cynulliad a gododd—*

*An Assembly Member rose—*

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

16:32 **Janet Finch-Saunders** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

With all due respect, I've taken too many interventions.

Gyda phob parch, rwyf wedi derbyn gormod o ymyriadau.

I would like to pay tribute to Altaf Hussain who actually has worked in the medical profession for so many years. The Assembly should be made up of people who can bring real life experience to the Chamber, and we shouldn't dis them when they do.

Hoffwn dalu teyrnged i Altaf Hussain sydd wedi gweithio yn y proffesiwn meddygol ers cymaint o flynyddoedd. Dylai'r Cynulliad gynnwys pobl sy'n gallu dod â phrofiadau bywyd go iawn i'r Siambr, ac ni ddylem ladd arnynt pan fyddant yn gwneud hynny.

Our policy of stay-at-home assessments would be a key early intervention measure, led by social services in collaboration with local third sector expertise. Our policy would provide early identification of health complications, levels of poverty and housing quality. By streamlining the integration of health and social services in this manner, we could see a real reduction in the tensions currently faced by our health services in Wales.

Byddai ein polisi ar asesiadau aros yn y cartref yn ymyrraeth gynnar allweddol dan arweiniad y gwasanaethau cymdeithasol ar y cyd ag arbenigedd y trydydd sector yn lleol. Byddai ein polisi yn nodi cymhlethodau iechyd, lefelau tlodi ac ansawdd tai yn gynnar. Drwy symleiddio'r broses o integreiddio gwasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yn y modd hwn, gallem weld gostyngiad gwirioneddol yn y tensiynau y mae ein gwasanaethau iechyd yng Nghymru yn eu hwynebu ar hyn o bryd.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

Carers Wales has highlighted the vast contribution that carers give in terms of time, energy and savings—£8.1 billion to the Welsh budget. They warn, too, that if a small percentage of people were unable to continue caring in Wales, this would be catastrophic for the economy. Stay-at-home assessments would and could ensure that support in terms of healthcare, physical assistance or housing adjustments are in place as soon as possible, thereby relieving some of the pressures that carers and our health system are well and truly under.

They would also ensure much improved data collection. The Wales Audit Office has found that a lack of data is making it difficult for councils and health services to demonstrate the impact of their services in supporting the independence of older people, and this weakens their decision making and scrutiny when setting future priorities. With a complete and accurate data pool, health boards and local authorities can better plan their services and budgets. Our innovative, practical and cost-saving policy has the potential to revolutionise Wales as an age-friendly nation, to reduce strain on our NHS, to enable independent living, to empower older people and carers, and engage the local third sector. I urge Members to give this Member the courtesy of some support for this debate.

Mae Gofalwyr Cymru wedi tynnu sylw at y cyfraniad enfawr y mae gofalwyr yn ei wneud o ran amser, egni ac arbedion—£8.1 biliwn i gyllideb Cymru. Maent yn rhybuddio hefyd y byddai'n drychinebus i'r economi pe bai canran fechan o bobl yn methu â pharhau i ofalu yng Nghymru. Byddai asesiadau aros yn y cartref yn sicrhau'r cymorth hwnnw o ran gofal iechyd, cymorth corfforol neu sicrhau bod addasiadau yn cael eu gwneud i dai cyn gynted ag y bo modd, gan leddfu peth o'r pwysau mawr ar ofalwyr ac ar ein system iechyd.

Byddent hefyd yn sicrhau ffyrdd llawer gwell o gasglu data. Mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi canfod bod diffyg data yn ei gwneud hi'n anodd i gynghorau a gwasanaethau iechyd ddangos effaith eu gwasanaethau yn cefnogi annibyniaeth pobl hŷn, ac mae hyn yn gwanhau eu proses o wneud penderfyniadau a chraffu wrth bennu blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol. Gyda chronfa ddata gyflawn a chywir, gall byrddau iechyd ac awdurdodau lleol gynllunio eu gwasanaethau a'u cyllidebau'n well. Mae gan ein polisi arloesol, ymarferol, sydd hefyd yn arbed arian, botensial i chwyldroi Cymru fel cenedl oed-gyfeillgar, er mwyn lleihau straen ar ein GIG, galluogi pobl i fyw'n annibynnol, grymuso pobl hŷn a gofalwyr, a chynnwys y trydydd sector lleol. Anogaf yr Aelodau i ddangos cwртеisi i'r Aelod drwy roi rhywfaint o gefnogaeth i'r ddadl hon.

- 16:34 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
Keith Davies. Keith Davies.
- 16:34 **Aelod Cynulliad / An Assembly Member** Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
Will you take a point of order? A wnewch chi dderbyn pwynt o drefn?
- 16:34 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
I will take your point of order later. Keith Davies. Byddaf yn derbyn eich pwynt o drefn yn nes ymlaen. Keith Davies.
- 16:34 **Keith Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
Rwy'n falch i gyfrannu i'r ddadl y prynhawn yma ac rwyf yn cefnogi gwelliant Plaid Cymru, achos rwy'n credu, yn y pen draw, nad yw'r ddadl hon yn ddadl iawn, oherwydd bod y problemau mwyaf sydd gennym ni oherwydd nad oes gan y cynghorau sir y cyllid i gefnogi pobl i ddod mas o'r ysbyty a'u cefnogi nhw'n iawn. Mae hyn yn mynd i waethygu dros y blynyddoedd sy'n dod. Mae gennym ni broblem yn y byd gorllewinol: mae'r boblogaeth yn heneiddio—mae jest edrych o gwmpas fan hyn yn dweud hyn. O ganlyniad, mae mwy a mwy o bobl hŷn angen triniaeth feddygol ac mae hyn yn achosi gwasgedd anferthol ar y gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Dylem ni fod yn hynod o ddiolchgar am y ffordd mae'r staff yn ymdopi â'u gwaith yn bresennol. I'm pleased to contribute to this afternoon's debate and I support the Plaid Cymru amendment, because I do believe, ultimately, that this debate is flawed, because the main problem we have is that the county councils don't have the necessary funding to support people properly when they leave hospital. This is going to get worse over the ensuing years. We do have a problem in the western world: the population is ageing—you need only look around this Chamber to see that. As a result, more and more older people need medical treatment and this is causing huge pressures on the health and social care services. We should be extremely grateful for the way that staff actually cope with the current situation.

Mae'r gwasanaeth iechyd yng Nghymru yn cydweithio â rhai awdurdodau lleol i gymryd camau i ostwng y nifer o bobl sy'n dioddef oedi wrth ddisgwyl am drosglwyddo gofal. Oherwydd cydweithio, rwyf wedi gweld y gwelliannau. Gallaf i sôn am Gastell-nedd a Phort Talbot a gallaf i sôn am sir Gâr. Gwnaeth y Gweinidog iechyd ymweld—ddwy flynedd nôl rwy'n credu yr oedd e—ag enghraifft ardderchog o gydweithio rhwng bwrdd iechyd ac awdurdod lleol. Yng nghartref preswyl Llys-y-Bryn ger Llanelli, mae cyngor sir Gaerfyrddin yn gweithio gyda bwrdd iechyd Hywel Dda I drosglwyddo cleifion hŷn o'r ysbty yn Llanelli i'r cartref. Yn y cartref, mae'r cleifion yn cael eu hyfforddi i fyw yn ddiogel yn eu cartrefi eu hunain. Pan maen nhw'n barod, maen nhw'n cael cymorth I ddychwelyd i'w cartrefi. Mae hyn yn atal oedi wrth drosglwyddo gofal ac yn gostwng y siawns y bydd y claf yn cael ei aildderbyn i'r ysbty. Hoffwn weld yr enghraifft yna yn cael ei chyflwyno ar draws Cymru gyfan.

Mae'n glir bod Llywodraeth Lafur Cymru yn ymroddedig i alluogi pobl hŷn i fyw bywydau annibynnol drwy ddarparu gwasanaethau iechyd a gofal diogel, cynaliadwy ac o safon uchel, mewn hinsawdd o doriadau difrifol gan y Llywodraeth Doriaidd Brydeinig. Fe wnaeth dadansoddiad ystadegol o wariant cyhoeddus diweddar ddangos bod Cymru yn gwario £172 yn fwy ar bob person ar iechyd a gwasanaethau cymdeithasol nag y maen nhw'n ei wneud yn Lloegr. Mae gan Lywodraeth Cymru nifer o raglenni i ddarparu addasiadau i alluogi pobl i fyw'n annibynnol yn eu cartrefi eu hunain, fel gofal ac atgyweirio. Mae addasiadau tebyg yn atal derbyniadau diangen i ysbtyai a gofal preswyl. Prif amcan y Llywodraeth yw sicrhau bod addasiadau yn cael eu darparu yn fwy cyflym i'r rheini sydd eu hangen.

Mae gwelliannau hefyd wedi cael eu gwneud i leihau'r amser i ddarparu grantiau cyfleusterau—

The health service in Wales does collaborate with some local authorities to take steps to reduce the number of people who suffer delayed transfers of care. Because of this collaboration, I have seen improvements. I could mention Neath Port Talbot and I could also mention Carmarthenshire. The health Minister visited—I believe it was two years ago—an excellent example of collaboration between a health board and the local authority. In the Llys-y-Bryn care home near Llanelli, Carmarthenshire County Council is working with Hywel Dda health board to transfer older patients from the hospital in Llanelli to the home. There, patients are trained to live safely in their own homes. When they are ready, they are given the necessary support to return home. This prevents delayed transfers of care and reduces the chance of those patients being readmitted to hospital. I would like to see that example being rolled out across the whole of Wales.

It's clear that the Welsh Labour Government is committed to enabling older people to live independently by providing health and care services that are safe, sustainable of a high quality, in a context of swingeing cuts by the Tory Government at a UK level. A statistical analysis of public expenditure recently showed that Wales spent £172 more per capita on health and social services than they do in England. The Welsh Government has a number of programmes to provide adaptations to allow people to live independently in their own homes, such as care and repair. That actually prevents unnecessary admissions to hospitals and residential care. The main aim of Government is to ensure that adaptations are provided more swiftly to those who need them.

There have also been improvements made in terms of reducing the time to provide disabled facilities grants—

16:37 **Angela Burns** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, I'm very grateful to you for taking an intervention and I'm very heartened to hear some of those good stories that you've told of. But may I tell you that I saw a lady sitting in hospital in a chair by the side of a hospital bed, unable to get into the bed, because the hospital itself couldn't find the adapter chair she needed, and she spent just under a week there? I know, because I was in the bed opposite her. So, if a hospital can't find what it needs to help somebody, what hope do some of these other organisations that you talk of—? I mean, it's not that easy—all these adapted things around the place. It doesn't exist.

Diolch i chi, rwy'n ddiolchgar iawn i chi am dderbyn ymyriad ac mae'n galonogol iawn clywed rhai o'r straeon da hynny rydych wedi sôn amdanynt. Ond a gaf fi ddweud wrthyf fy mod wedi gweld gwraig yn eistedd yn yr ysbty mewn cadair wrth ochr y gwely, yn methu â mynd i'r gwely, gan na allai'r ysbty ei hun ddod o hyd i'r gadair godi oedd ei hangen arni, a threuliodd ychydig yn llai nag wythnos yno? Rwy'n gwybod, am fy mod yn y gwely gyferbyn â hi. Felly, os na all ysbty ddod o hyd i'r hyn sydd ei angen arnynt i helpu rhywun, pa obaith sydd i rai o'r sefydliadau eraill hyn rydych yn sôn amdanynt? Hynny yw, nid yw mor hawdd â hynny—yr holl bethau a addaswyd ymhobman. Nid yw'n bodoli.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

16:38 **Keith Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I can't remember the organisation that sent me an e-mail today, where there's a chair that can be converted into a bed, so that a person can actually sit on a chair and when, because the person can't move, the person is disabled, they can turn it into a bed. It's really up to the hospital to have a look at that.

Nid wyf yn gallu cofio pa sefydliad a anfonodd e-bost ataf heddiw yn sôn am gadair y gellir ei haddasu'n wely, fel y gall rhywun eistedd ar gadair, a phan nad yw person yn gallu symud, pan fo'n anabl, gallant droi'r gadair yn wely. Mater i'r ysbty yw edrych ar hynny.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Mae gwelliannau hefyd wedi cael eu gwneud i leihau'r amser, fel y dywedais i, i ddarparu'r grantiau cyfleusterau i'r anabl. I gyflymu'r system o grantiau, mae'r Llywodraeth Lafur wedi cynghori awdurdodau lleol i beidio â chynnal profion modd am addasiadau gwerth llai na £3,000. Ar ben popeth, mae yna nifer o raglenni eraill, gan gynnwys rhaglen addasiadau brys a rhaglen gofal ychwanegol. Hoffwn gannol Llywodraeth Cymru am y gwaith maent yn ei wneud ar drosglwyddo gofal a lleihau problemau'r gwasanaeth iechyd, achos yn yr ysbytai mae'r problemau ac mae'r ateb tu fas gyda'r awdurdodau lleol. Ond os nad ydym nhw'n cael y cyllid, nid oes llawer o obaith ein bod ni'n mynd i wella'r sefyllfa.

Improvements have also been made, as I said, to reduce the time taken to provide disabled facilities grants. In speeding up the grant system, the Labour Government has advised local authorities not to carry out means tests for adaptations of less than £3,000 in value. On top of all of this, there are a number of other programmes, including the emergency adaptation programme and the extra care programme. I would like to praise the Welsh Government for the work that they are doing in terms of transfers of care and reducing the problems within the health service, because it's in the hospitals that the problems exist and the solutions are outwith them, with the local authorities. But if they don't have the funding, there isn't much hope that we can improve the situation.

16:39 **Angela Burns** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I'm very grateful to take part in this debate today, because most of us value our independence and our particular way of life, but to have that taken from you, for whatever reason, is a hard blow. I'd just like to row the debate back a little bit, because we accept that this is not a panacea, this isn't the answer to the issues that we have, and we haven't said in our motion that we think that the Welsh Government are not doing anything constructive about it. We are merely trying to add to the debate. We add to the debate because of the wealth of experience that Members bring, and because of the experiences of the constituents who've come to see us and the stories that we've all heard. We feel that this has mirrored this concept. You can argue over the retirement age—maybe it isn't 65, because we all age at different rates and people may get to a point in their lives when they might need that assessment and that help that is quite different to another person.

*Gwenda Thomas a gododd—*

Rwy'n falch iawn o gymryd rhan yn y ddadl hon heddiw, oherwydd bod y rhan fwyaf ohonom yn gwerthfawrogi ein hannibyniaeth a'n ffordd arbennig o fyw, ond mae cael hynny wedi'i gymryd oddi wrthyf, am ba reswm bynnag, yn ergyd galed. Hoffwn symud y ddadl hon yn ôl ychydig bach, gan ein bod yn derbyn nad yw hyn yn ateb i bob dim, nid dyma'r ateb i'r problemau sydd gennym, ac nid ydym wedi dweud yn ein cynnig ein bod yn credu nad yw Llywodraeth Cymru yn gwneud unrhyw beth adeiladol ynglŷn â'r peth. Rydym yn syml yn ceisio ychwanegu at y ddadl. Rydym yn ychwanegu at y ddadl oherwydd cyfoeth y profiad sydd gan yr Aelodau, ac oherwydd profiadau'r etholwyr sydd wedi dod i'n gweld a'r straeon y mae pob un ohonom wedi'u clywed. Rydym yn teimlo bod hynny wedi adlewyrchu'r cysyniad hwn. Gallwch ddadlau dros yr oedran ymdeol—efallai nad 65 oed ydyw, oherwydd mae pob un ohonom yn heneiddio ar wahanol gyflymder a gallai pobl gyrraedd pwynt yn eu bywydau lle y gallent fod angen yr asesiad hwnnw a'r cymorth hwnnw ar adeg wahanol iawn i rywun arall.

*Gwenda Thomas rose—*

16:40 **Angela Burns** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Of course I'll give way to Gwenda Thomas.

Ildiaf i Gwenda Thomas, wrth gwrs.

16:40 **Gwenda Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you for giving way. I'm a bit confused as to what is being said here, what particular assessments we are talking about, and why you think the Social Services and Well-being (Wales) Act doesn't provide for this already. In fact, it wouldn't confine these assessments where they are needed to people over 65, because it's a people's Act. Anybody who has a care and support need can, under the Act, ask for information, advice and assistance. Information and advice must be free and provided by the local authorities. A local authority has to make an assessment of local needs and, of course, early intervention and prevention is a major section of this Act, and there is no reason why these ideas can't be put forward under the provisions that we have.

Diolch i chi am ildio. Rwyf ychydig yn ddryslyd ynglŷn â'r hyn sy'n cael ei ddweud yma, am ba asesiadau penodol rydym yn sôn, a pham eich bod yn credu nad yw Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn darparu ar gyfer hyn yn barod. Mewn gwirionedd, ni fyddai'n cyfyngu'r asesiadau hyn, lle y bo'u hangen, i bobl dros 65 oed, gan ei bod yn Ddeddf ar gyfer y bobl. Gall unrhyw un sydd ag anghenion gofal a chymorth, yn ôl y Ddeddf, ofyn am wybodaeth, cyngor a chymorth. Mae'n rhaid i'r wybodaeth a'r cyngor fod yn rhad ac am ddim ac mae'n rhaid iddo gael ei ddarparu gan yr awdurdodau lleol. Rhaid i awdurdod lleol wneud asesiad o anghenion lleol ac wrth gwrs, mae ymyrraeth gynnar ac atal yn rhan bwysig o'r Ddeddf hon, ac nid oes unrhyw reswm pam na ellir cyflwyno'r syniadau hyn yn rhan o'r darpariaethau sydd gennym eisoes.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

16:41

**Angela Burns** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you. I would like to restore to my comments that I'd like to make. Maybe if I explain the situation, this may help the situation.

Drawing on personal experience in two completely different ways, in the past year I've had the opportunity to meet a significant number of hospitalised people, almost without exception in their 60s, 70s and 80s. The problem that most of them faced was that they couldn't leave the hospital, even though they were just about well enough to do so, because they needed support in the community. The Act may well be a great step forward, but it's not delivering on the ground yet. Maybe it will, but we're talking about the situation that we have now. These people couldn't leave hospital because they needed help with looking after themselves, help with transport, or help with accessing additional services. They couldn't get back because there was no-one who was available to even be a carer for them, or to install a stairlift. There was no-one who was prepared to make a judgment about whether they had a short-term rehabilitation need or a long-term chronic support need.

I'd like to talk about one particular constituent of mine, because she was an elderly lady who had always lived a very rich and independent life. She had chronic obstructive pulmonary disease, but she managed. She had learned that if she went slow and steady, she could manage her life, and manage her situation. She lived in Saundersfoot. She could go out shopping, meet her friends, and get back to her home. She lives on the top of a hill. The reason she could do that was because the bus stopped outside her house. Of course, what happened? The bus stopped stopping outside her house. Everything got moved around and she became trapped. There were not the support services that were able to be in place where one person could look and say, 'This person needs an assessment. In order for her to continue a rich and fulfilling life in her home, if she had a, b, c, d and e, she would be able to carry on'. So, what happened? She became more withdrawn, more depressed, she couldn't get out, and ultimately—to cut a very long and sad story short—she ended up being driven unwillingly from her home into a nursing home. All she wanted to do was stay at home. We think that if people, when they are at the right stage after they've retired, were to have, basically, an MOT, a health check, a self-assessment—and we're not talking about a GP-driven one; we're talking about where the state, the social services and the local authority would come in and say, 'For you to continue to live in this home that you so cherish—

Diolch. Hoffwn fynd yn ôl at y sylwadau rwy'n awyddus i'w gwneud. Pe bawn i'n egluro'r sefyllfa, efallai y byddai hynny'n helpu'r sefyllfa.

O fy mhrofiad fy hun, mewn dwy ffordd hollol wahanol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf rwyf wedi cael cyfle i gyfarfod â nifer sylweddol o bobl yn yr ysbyty, bron yn ddiethriad yn eu 60au, 70au a'u 80au. Y broblem roedd y rhan fwyaf ohonynt yn ei hwynebu oedd na allent adael yr ysbyty, er eu bod wedi gwella digon i wneud hynny, oherwydd eu bod angen cymorth yn y gymuned. Efallai bod y Ddeddf yn gam mawr ymlaen, ond nid yw'n cyflawni ar lawr gwlad hyd yma. Mae'n bosibl y bydd, ond rydym yn sôn am y sefyllfa sydd gennym yn awr. Ni allai'r bobl hyn adael yr ysbyty oherwydd eu bod angen cymorth i ofalu amdanynt eu hunain, cymorth gyda chludiant, neu gymorth o ran cael mynediad at wasanaethau ychwanegol. Nid oeddent yn gallu mynd adref am nad oedd neb ar gael i fod yn ofalwr ar eu cyfer hyd yn oed, neu i osod lifft risiau. Nid oedd unrhyw un yn barod i farnu pa un a oedd ganddynt angen adsefydlu byrdymor neu angen cronig am gymorth hirdymor.

Hoffwn sôn am un etholwr yn arbennig, oherwydd roedd hi'n hen wraig a oedd wedi byw bywyd llawn ac annibynnol iawn ar hyd ei hoes. Roedd ganddi glefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint, ond roedd hi'n ymdopi. Roedd hi wedi dysgu y gallai reoli ei bywyd a'i sefyllfa drwy symud yn araf ac yn bwylllog. Roedd hi'n byw yn Saundersfoot. Gallai fynd allan i siopa, cyfarfod â'i ffrindiau, a dychwelyd i'w chartref. Mae hi'n byw ar ben bryn. Y rheswm y gallai wneud hynny oedd am fod y bus yn stopio y tu allan i'w thŷ. Wrth gwrs, beth ddigwyddodd? Peidiodd y bus â stopio y tu allan i'w thŷ. Newidiwyd popeth gan ei gwneud yn gaeth. Nid oedd gwasanaethau cymorth ar gael lle y gallai un person edrych arni a dweud, 'Mae angen asesiad ar y person yma. Er mwyn iddi barhau i fyw bywyd llawn a bodlon yn ei chartref, pe bai ganddi a, b, c, ch a d, gallai barhau i wneud hynny'. Felly, beth ddigwyddodd? Aeth i mewn i'w chragen, yn fwy isel ei hysbryd, ni allai fynd allan o'r tŷ, ac yn y pen draw—i dorri stori hir a thrist iawn yn fyr—cafodd ei gyrru'n anfoddog o'i chartref i gartref nyrsio. Y cyfan roedd hi eisiau ei wneud oedd aros gartref. Yn ein barn ni, pan fyddant wedi cyrraedd y cam cywir ar ôl iddynt ymddeol, pe bai pobl yn cael MOT yn y bôn, archwiliad iechyd, hunanasesiad—ac nid ydym yn sôn am archwiliad gan feddy teulu; rydym yn sôn am un lle y byddai'r wladwriaeth, y gwasanaethau cymdeithasol a'r awdurdod lleol yn dweud, 'Er mwyn i chi barhau i fyw yn y cartref hwn sydd mor annwyl i chi—

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

16:44

**Aled Roberts** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Will you take an intervention?

A wnewch chi dderbyn ymyriad?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

16:44

**Angela Burns** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

One moment please, Aled.

Un eiliad os gwelwch yn dda, Aled.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)



[Continues.] '—and to have the independence that you crave and you want to keep, we can see that you're going to need this. Perhaps not now, but perhaps in a couple of years' time'. It's about planning it. It's about putting in place the communication. It's about knitting together the national health service requirements and social services requirements, and having everybody on board so that if and when a catastrophic event happens, or if and when a slow decline, like that of my constituent with COPD happens, there are enough people who already have an awareness, and there are enough systems already in place that you can actually pick that person up. Because, ultimately, all we are doing is sending people back into hospitalisation, and then they start going down a route where they lose their independence. We spend an awful lot of time talking about children and young people, about how we drive all sorts of other aspects of our society. But older people absolutely deserve this right to be protected and to have that element of dignity, and the ability to retain their independence.

[Yn parhau.]—a chael yr annibyniaeth rydych yn awyddus i'w chael ac rydych am ei chadw, gallwn weld bod angen hyn arnoch. Efallai nad ydych ei angen ar hyn o bryd, ond mewn ychydig o flynyddoedd, efallai.' Mae'n ymwneud â chynllunio. Mae'n ymwneud â rhoi cyfathrebu ar waith. Mae'n ymwneud â phlethu gofynion gwasanaeth iechyd gwladol a gofynion gwasanaethau cymdeithasol a chynnwys pawb, ac os a phan fydd digwyddiad trychinebus yn digwydd, neu os a phan fydd dirywiad araf, fel yn achos fy etholwr sydd â COPD, yn digwydd, bydd yna ddigon o bobl eisoes yn ymwybodol, a digon o systemau eisoes ar waith fel na fyddwch yn esgeuluso'r person hwnnw. Oherwydd, yn y pen draw, y cyfan rydym yn ei wneud yw anfon pobl yn ôl i'r ysbty, ac yna byddant yn dechrau dilyn llwybr lle y byddant yn colli eu hannibyniaeth. Rydym yn treulio llawer iawn o amser yn siarad am blant a phobl ifanc, am y modd rydym yn llywio pob math o agweddau eraill ar ein cymdeithas. Ond mae pobl hŷn yn llawn haeddu'r hawl hwn i gael eu hamddiffyn ac i gael yr elfen honno o urddas, a'r gallu i ddal i fyw'n annibynnol.

16:45

### Mark Isherwood [Bywgraffiad Biography](#)

The situation regarding delayed transfers of care from hospitals in Wales is worsening, with older people the hardest hit. The introduction of the stay-at-home assessment would enable early-stage intervention, in collaboration with local third-party bodies, keeping older people in their homes longer, decreasing the burden on the Welsh NHS by freeing up hospital resources, and reducing both so-called bedblocking by older patients and the infections contracted during their hospital stay. The devastating closure of NHS Wales community beds means that the availability of care home beds is cited as being the main cause of delayed transfers of 8.8 per cent, but the figure escalates to 27.4 per cent in Betsi Cadwaladr University Local Health Board. Delayed transfers of care have a knock-on effect on emergency response, emergency admissions and waiting times. Only today, we've heard that the accident and emergency waiting time target, which has not been met for six years, has been missed again. In providing preventative action to reduce unnecessary hospitalisation and delayed transfers of care, we've estimated that the stay-at-home assessment could save over £20 million annually.

It's now several years since the Wales Council for Voluntary Action and partner organisations highlighted the need to involve—

*Peter Black a gododd—*

Mae'r sefyllfa o ran oedi wrth drosglwyddo gofal o ysbytaï yng Nghymru yn gwaethygu, gyda phobl hŷn yn dioddef yn waeth na neb. Byddai cyflwyno asesiad aros yn y cartref yn galluogi ymyrraeth gynnar, mewn cydweithrediad â chyrff trydydd parti lleol, a fydd yn cadw pobl hŷn yn eu cartrefi yn hwy, gan leihau'r baich ar y GIG yng Nghymru drwy ryddhau adnoddau ysbty, a lleihau'r nifer o welyau sy'n cael eu blocio fel y'i gelwir gan gleifion hŷn a'r heintiau sy'n cael eu dal yn ystod eu harhosiad yn yr ysbty. Mae'r ffaith drist bod gwelyau cymunedol GIG Cymru wedi'u colli yn golygu bod argaeledd gwelyau mewn cartrefi gofal yn cael ei nodi fel y prif achos dros oedi wrth drosglwyddo gofal, ar 8.8 y cant, ond mae'r ffigur yn codi i 27.4 y cant ym Mwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr. Mae oedi wrth drosglwyddo gofal yn cael effaith ganlyniadol ar ymateb brys, derbyniadau brys ac amseroedd aros. Heddiu ddiwethaf, rydym wedi clywed bod y targed amser aros ar gyfer damweiniau ac achosion brys, nad yw'r GIG wedi ei gyrraedd ers chwe blynedd, heb ei gyrraedd unwaith eto. Wrth weithredu'n ataliol i leihau'r nifer sy'n cael eu derbyn i'r ysbty yn ddiangen ac oedi wrth drosglwyddo gofal, rydym wedi amcangyfrif y gallai asesiad aros yn y cartref arbed dros £20 miliwn y flwyddyn.

Mae yna sawl blwyddyn bellach ers i Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru a sefydliadau partner dynnu sylw at yr angen i gynnwys—

*Peter Black rose—*

16:46

### Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad Biography](#)

Have you been here for the whole debate?

A ydych chi wedi bod yma ar gyfer y ddatl gyfan?

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

16:46

### Mark Isherwood [Bywgraffiad Biography](#)

I'll finish the sentence, Peter.

Gorffennaf y frawddeg, Peter.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

[Continues.]—involve the voluntary sector in the development of primary care services across Wales. Peter.

[Yn parhau.]—gynnwys y sector gwirfoddol wrth ddatblygu gwasanaethau gofal sylfaenol ledled Cymru. Peter.

**Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Surely the saving that you get from intervention of this kind depends on when you intervene. If you intervene with everyone at the same age, then you are not going to make that saving. You need to intervene when you most need it. But you're proposing a common age at which you intervene. How do you square that?

'Does bosibl nad yw'r arian y byddwch yn ei arbed drwy ymyrraeth o'r fath yn dibynnu ar ba bryd y byddwch yn ymyrryd. Os yw'n ymyrraeth i bawb ar yr un oedran, yna nid ydych yn mynd i sicrhau'r arbediad hwnnw. Mae angen i chi ymyrryd pan fyddwch ei angen fwyaf. Ond rydych yn argymhell oedran cyffredin ar gyfer ymyrryd. Sut rydych yn cysoni hynny?

**Mark Isherwood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

This is actually a demand-led process to ensure the needs of individuals are identified, so that progressive support can then be put in. The Wales Council for Voluntary Action and partners championed co-design and co-delivery in public services, bringing together the independent, third sector and the public sector, with the citizen and community at the centre, reducing demand on other services. That was six years ago. They feared the move to community care would be more expensive, when it needn't be if we changed the way we did things, unleashing third sector expertise that the state sector doesn't have, allowing it to play a strategic role with Government, delivering a whole-service approach, putting people and communities, rather than service deliverers, at the centre.

Mae hon yn broses a arweinir gan y galw mewn gwirionedd er mwyn sicrhau bod anghenion unigolion yn cael eu nodi, fel y gellir darparu cymorth cynyddol wedyn. Mae Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru a phartneriaid wedi hyrwyddo cydgyllunio a chyd-ddarparu mewn gwasanaethau cyhoeddus, gan ddod â'r sector annibynnol, y trydydd sector a'r sector cyhoeddus at ei gilydd, gyda'r dinesydd a'r gymuned yn y canol, gan leihau'r galw ar wasanaethau eraill. Roedd hynny chwe blynedd yn ôl. Roeddent yn ofni y byddai symud i ofal cymunedol yn fwy costus, ond ni fyddai angen iddo fod pe baem yn newid y ffordd rydym yn gwneud pethau, gan ryddhau'r arbenigeidd sydd gan y trydydd sector nad yw gan y sector gwladol, a'i alluogi i chwarae rôl strategol gyda'r Llywodraeth, gan gyflwyno ymagwedd gwasanaeth cyfan, a rhoi pobl a chymunedau, yn hytrach na darparwyr gwasanaethau, yn y canol.

In practice, the fact that only lip service is only being paid to this is a shocking betrayal of individuals and communities, where person-centred and citizen-directed support are key to reablement, to giving people independence, voice, choice and control, and to doing things better in any budgetary environment. As Age Cymru states, older people, wherever they live, should have free and fair access to health and care services that maintain and promote their physical, spiritual and mental health, treat illness, and support those living with chronic conditions. This principle applies to all older people, wherever they are—in their own homes, in care homes or hospitals. Health services should be designed to support people's wellbeing and independence, but our NHS often appears to be set up purely to treat illness on a condition-specific basis, with the goal of curing disease rather than focusing on the complete needs of the person. They add that, in order to provide the best possible care, people need to be the priority rather than systems.

Yn ymarferol, mae'r ffaith mai sylw arwynebol yn unig a roddir i hyn yn bradychu unigolion a chymunedau, lle y mae cymorth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a chymorth a gyfarwyddir gan ddinasyddion yn allweddol i ailalluogi, rhoi annibyniaeth, llais, dewis a rheolaeth i bobl, a gwneud pethau'n well mewn unrhyw amgylchiadau cyllidebol. Fel y dywed Age Cymru, dylai pobl hŷn, ble bynnag y maent yn byw, gael mynediad rhad ac am ddim a theg at wasanaethau iechyd a gofal sy'n cynnal ac yn hyrwyddo eu hiechyd corfforol, ysbrydol a meddyliol, sy'n trin salwch, ac sy'n cefnogi'r rhai hynny sy'n byw gyda chyflyrau cronig. Mae'r egwyddor hon yn berthnasol i bob person hŷn, lle bynnag y maent yn byw—yn eu cartrefi eu hunain, mewn cartrefi gofal neu yn yr ysbytai. Dylid cynllunio gwasanaethau iechyd i gefnogi lles ac annibyniaeth pobl, ond yn aml mae'n ymddangos bod ein GIG wedi'i sefydlu i drin salwch ar sail cyflyrau penodol yn unig, gyda'r nod o wella clefyd yn hytrach na chanolbwyntio ar anghenion cyflawn yr unigolyn. Er mwyn darparu'r gofal gorau posibl, maent yn ychwanegu mai'r bobl a ddylai fod yn flaenoriaeth yn hytrach na systemau.

Age Alliance Wales states that preventative services should not be viewed solely as a means to reduce current pressure on the NHS, but as a way in which the Welsh Government can plan effectively to maintain the health and wellbeing of the rising number of older people in Wales, adding that the voluntary sector plays an important role in supporting people to age well, cope better with illness and improve their wellbeing. They see policies that empower older people to continue living independently in their communities as essential. That's what this is about. Quoting the Welsh Government's third sector scheme, a September 2015 report commissioned for the health Minister by Cartrefi Cymru and Co-production Wales states:

Mae Cynghair Henoed Cymru yn datgan na ddylid ystyried gwasanaethau ataliol fel ffordd o leihau'r pwysau presennol ar y GIG yn unig, ond fel ffordd i Lywodraeth Cymru gynllunio'n effeithiol ar gyfer cynnal iechyd a lles y nifer cynyddol o bobl hŷn yng Nghymru, gan ychwanegu bod y sector gwirfoddol yn chwarae rôl bwysig yn cynorthwyo pobl i heneiddio'n dda, i ymdopi'n well â salwch a gwella eu lles. Maent yn ystyried bod polisïau sy'n grymuso pobl hŷn i barhau i fyw'n annibynnol yn eu cymunedau yn hanfodol. Ymwneud â hynny y mae hyn. Gan ddyfynnu cynllun trydydd sector Llywodraeth Cymru, mae adroddiad a gomisiynwyd ym mis Medi 2015 ar gyfer y Gweinidog Iechyd gan Cartrefi Cymru a Cydgynhyrchu Cymru yn dweud:

'We believe that the Third Sector can help to transform the way that public services meet present and future demands, by treating people and communities as assets and equals in the design and delivery of services, not only as service receivers. Some people describe this as co-production, and it means building services around the person and the community and unlocking potential resources of time, money and expertise to combine with, not replace state support. It makes resources go much further by using them in different and new ways which strengthen individuals and communities.'

As Marie Curie state,

'do we really want to professionalise all end of life care in the community?

'An alternative is to...support people who want to help friends and neighbours...at the end of their lives.'

All those who signed their pledge yesterday have committed to that.

I'll conclude by saying we need a bidet revolution, bottom-up.

'We believe that the Third Sector can help to transform the way that public services meet present and future demands, by treating people and communities as assets and equals in the design and delivery of services, not only as service receivers. Some people describe this as co-production, and it means building services around the person and the community and unlocking potential resources of time, money and expertise to combine with, not replace state support. It makes resources go much further by using them in different and new ways which strengthen individuals and communities. "

Fel y mae Marie Curie yn datgan,

'do we really want to professionalise all end of life care in the community?

'An alternative is to...support people who want to help friends and neighbours...at the end of their lives.'

Mae pawb a lofnododd eu haddewid ddoe wedi ymrwymo i hynny.

Ffe orffennaf drwy ddweud ein bod angen chwyldro o'r gwaelod i fyny.

16:50 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call on the Deputy Minister for Health, Vaughan Gething.

Galwaf ar y Dirprwy Weinidog Iechyd, Vaughan Gething.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

16:50 **Vaughan Gething** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Dirprwy Weinidog Iechyd / The Deputy Minister for Health*

Thank you, Presiding Officer. I'd like to start by thanking Members for engaging in today's debate. The Welsh Government, of course, acknowledges the impact of delayed transfers of care, both for the individual citizen and, of course, for the health and social care service. It is, of course, important to ensure that people are transferred to an appropriate setting for their ongoing care and support needs. This will usually be their own home. It's equally important to prevent inappropriate admissions to hospitals in the first place. That's why we have continued to emphasise the need for partnership between community and primary health care services with social services partners. On these broad issues, we agree with the motion, but we don't agree that the proposed stay-at-home check will have the system-wide transformation that the mover suggested. We've already introduced 50-plus health checks, and we ought to encourage more people to take advantage of this. It's also worth reminding ourselves of the point Gwenda Thomas made, that the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014 already provides for an ongoing right to assessment. We will therefore support the Plaid Cymru amendment.

Diolch i chi, Lywydd. Hoffwn ddechrau drwy ddiolch i'r Aelodau am gymryd rhan yn y ddaid heddiw. Mae Llywodraeth Cymru, wrth gwrs, yn cydnabod effaith achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal ar y dinesydd unigol ac wrth gwrs ar y gwasanaeth iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'n bwysig sicrhau bod pobl yn cael eu trosglwyddo i leoliad priodol ar gyfer ateb eu hanghenion parhaus am ofal a chymorth. Fel arfer, bydd hyn yn digwydd yn eu cartrefi eu hunain. Mae hi'r un mor bwysig atal derbyniadau amhriodol i ysbytai yn y lle cyntaf. Dyna pam rydym wedi parhau i bwysleisio'r angen am bartneriaeth rhwng gwasanaethau gofal iechyd sylfaenol a chymunedol a phartneriaid gwasanaethau cymdeithasol. Ar y materion cyffredinol hyn, rydym yn cytuno â'r cynnig, ond nid ydym yn cytuno y bydd yr asesiad 'aros yn y cartref' arfaethedig yn trawsnewid y system gyfan fel y mae'r cynigydd yn ei awgrymu. Rydym eisoes wedi cyflwyno asesiadau iechyd i bobl dros 50, a dylem annog mwy o bobl i fanteisio ar hyn. Mae hefyd yn werth atgoffa ein hunain am y pwynt a wnaeth Gwenda Thomas, fod Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 eisoes yn darparu ar gyfer hawl parhaus i asesiad. Felly, byddwn yn cefnogi gwelliant Plaid Cymru.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

16:51 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Are you taking an intervention?

A ydych yn derbyn ymyriad?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

16:51 **Vaughan Gething** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I will, yes.

Gwnaf, iawn.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

16:51	<p><b>Y Llywydd / The Presiding Officer</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Darren Millar.</p>	<p>Darren Millar.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
16:51	<p><b>Darren Millar</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>You made reference to the over-50s health checks. Will you tell us how many people each year have had one of those checks?</p>	<p>Fe gyfeirioch at asesiadau iechyd i bobl dros 50 oed. A wnewch chi ddweud wrthym faint o bobl bob blwyddyn sydd wedi cael asesiad o'r fath?</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
16:51	<p><b>Vaughan Gething</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>I don't know the figures offhand, but I'm happy to provide an answer and an update to Members on the over-50s health checks. I think, if my memory serves me correctly, there have been over 20,000 people who have actually gone online. I think it's about half of those who've gone on to complete a health check, but I'll come back to you with confirmed figures.</p> <p>We won't support the Lib Dem amendment on bed capacity. I think this is perhaps a wording issue, because I agreed with much of what Aled Roberts had to say. NHS Wales will, of course, flex bed capacity as required, especially in the winter, but there must be more focus on strengthening primary care services in partnership with social care services, and on caring for people in the community wherever possible, rather than in hospital. That should mean less dependence on increasing hospital beds throughout the year. And, on this, I'm disappointed by one of the Tory claims made today, that hospitals ground to a halt last winter in Wales. That simply isn't true. The doors stayed open in every single hospital in Wales, unlike 20 health trusts in England that did close their doors last winter.</p> <p>Health boards, local authorities, and the ambulance service have developed integrated winter plans again this year. Each plan identifies a number of additional surge beds needed to increase capacity in response to winter demand, but each plan emphasises that reducing occupancy and avoiding admission, reducing lengths of stay, and a more effective discharge, are key to part of their arrangements. Now, prevention and partnership are at the core of our approach in the social services and wellbeing Act, and the intermediate care fund reinforces that emphasis and has helped to develop and accelerate that approach across Wales.</p> <p>The intermediate care fund has helped us to develop reablement services, both in the community and in care homes, provide more timely adaptations and equipment, telecare, seven-day working, and single points of access. It has brought together health, social care and the third sector. In Gwynedd, for example, nearly 2,000 hospital bed days have been avoided, saving over £0.5 million. The challenge will be now how that more effective and new way of working will become more embedded and the normal and expected practice.</p>	<p>Nid wyf yn gwybod y ffigurau ar fy nghof, ond rwy'n hapus i roi ateb a diweddariad i'r Aelodau ar yr asesiadau iechyd dros 50 oed. Rwy'n meddwl, os cofiaf yn iawn, fod dros 20,000 o bobl wedi bod ar-lein mewn gwirionedd. Rwy'n credu mai tua hanner y nifer honno a aeth ymlaen i gwblhau asesiad iechyd, ond dof yn ôl atoch gyda'r ffigurau wedi'u cadarnhau.</p> <p>Ni fyddwn yn cefnogi gwelliant y Democratiaid Rhyddfrydol ar nifer y gwelyau. Rwy'n credu efallai mai mater sy'n ymwneud â geiriad yw hwn, gan fy mod yn cytuno gyda llawer o'r hyn a oedd gan Aled Roberts i'w ddweud. Bydd GIG Cymru, wrth gwrs, yn amrywio nifer y gwelyau yn ôl yr angen, yn enwedig yn y gaeaf, ond mae'n rhaid cael mwy o ffocws ar gryfhau gwasanaethau gofal sylfaenol mewn partneriaeth â'r gwasanaethau gofal cymdeithasol, ac ar ofalu am bobl yn y gymuned yn hytrach na mewn ysbyty lle bynnag y bo modd. Dylai hynny olygu llai o ddibyniaeth ar gynnyddu nifer y gwelyau mewn ysbytai drwy gydol y flwyddyn. Ac ar y mater hwn, cefais fy siomi gan un o'r honiadau a wnaed gan y Torïaid heddiw, fod ysbytai wedi dod i stop yn ystod y gaeaf diwethaf yng Nghymru. Nid wyf hynny'n wir. Arhosodd y drysau ar agor ym mhob un ysbyty yng Nghymru, yn wahanol i 20 o ymddiriedolaethau iechyd yn Lloegr a gaeodd eu drysau yn ystod y gaeaf diwethaf.</p> <p>Mae byrddau iechyd, awdurdodau lleol, a'r gwasanaeth ambiwlans wedi datblygu cynlluniau integredig ar gyfer y gaeaf eto eleni. Mae pob cynllun yn nodi nifer y gwelyau capasiti ymchwydd ychwanegol sydd eu hangen i gynyddu capasiti mewn ymateb i'r galw dros y gaeaf, ond mae pob cynllun yn pwysleisio bod gostwng lefelau defnydd gwâl ac osgoi derbyn i'r ysbyty, lleihau hyd arosiadau, a rhyddhau mwy effeithiol, yn allweddol i ran o'u trefniadau. Nawr, mae atal a phartneriaeth yn ganolog i'n dull o weithredu yn y Ddeddf gwasanaethau cymdeithasol a llesiant ac mae'r gronfa gofal canolraddol yn cadarnhau'r pwyslais ac wedi helpu i ddatblygu a chyflymu'r dull hwnnw o weithredu ledled Cymru.</p> <p>Mae'r gronfa gofal canolraddol wedi ein helpu i ddatblygu gwasanaethau ailalluogi, yn y gymuned ac mewn cartrefi gofal, i ddarparu addasiadau a chyfarpar yn fwy amserol, teleofal, gweithio saith diwrnod, a phwyntiau mynediad unigol. Mae wedi dod ag iechyd, gofal cymdeithasol a'r trydydd sector at ei gilydd. Yng Ngwynedd, er enghraifft, llwyddwyd i osgoi bron 2,000 o ddyddiau gwely mewn ysbytai, gan arbed dros £0.5 miliwn. Yr her yn awr yw sut bydd y ffordd newydd a mwy effeithiol hon o weithio yn ymwreiddio'n ddyfnach ac yn dod yn ymarfer arferol a disgwyledig.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>

Now, I've personally been meeting with the leaders and senior managers of health boards and local authorities to reinforce the need for more effective work between them and the third and the independent sector. I started by meeting colleagues here in Cardiff and Vale, and I'm pleased to hear that their efforts have seen a significant improvement. There's been a reduction of over a third in the overall number of delays since February this year, and, last week, I met with those partners again, and they have agreed a further reduction target for the next five months. Across Wales, we've actually seen a 12 per cent fall in delayed transfers since 2010. In contrast, unfortunately, in England, they've seen a near 5 per cent rise, with a much sharper increase this year. Now, all health boards and their local authority partners are producing action plans to address this issue. I expect to see an improvement in performance, and clarity on both what has worked as well as what has not. I also expect all partners to continue working together and to review the impact of their action over the course of the winter and the rest of the year. I'm optimistic that the report on delayed transfers—the next report—will highlight that real progress is being made. Now, to help make progress, the Welsh Government and the Social Services Improvement Agency will be making a number of recommendations for health and social care partners, and the initial recommendations are expected this year.

Care home capacity and choice of accommodation pose serious and continuing challenge. I think Aled Roberts made a point about the capacity for EMI and nursing bed capacity being a real issue in some parts of Wales. Now, we want people to be able to make positive choices about their accommodation. However, that choice should not be made from an acute hospital bed that is no longer needed by its occupant. That choice denies an acute bed to a person who really needs to be there. Part of the challenge, of course, includes developing a more integrated and effective approach to commissioning for residential nursing and home care services. Again, the social services and wellbeing Act regulations will require the development of formal partnerships and the use of pooled funds for the commissioning of care home services from April 2018. But we do not want the development of partnerships to get in the way of integrated commissioning. In the meantime, health boards and local authorities must assess and agree the range of services that they require and will jointly commission for long-term placements, including continuing healthcare, funded nursing care, and local authority funded placements; short-term interim placements, to enable hospital discharge; choice of accommodation to be made real; and step-up, step-down intermediate care and respite care. These are things they must and should do now.

Delayed transfers are a major challenge across the UK. We've taken a different approach here to England and Scotland, and we see health and social care as a whole system. To quote:

'We're interested in care, not just health care. No point having an effective NHS & crumbling social care system.'

Nawr, rwyf wedi bod yn cyfarfod yn bersonol ag arweinwyr ac uwch-reolwyr byrddau iechyd ac awdurdodau lleol i gadarnhau'r angen am waith mwy effeithiol rhyngddynt a'r trydydd sector a'r sector annibynnol. Dechreuais drwy gyfarfod â chydweithwyr yma yng Nghaerdydd a'r Fro, ac rwy'n falch o glywed bod eu hymdrechion wedi gwella'n sylweddol. Bu gostyngiad o dros draean yn nifer cyffredinol yr achosion o oedi ers mis Chwefror eleni, a'r wythnos diwethaf, cyfarfûm â'r partneriaid hynny eto, ac maent wedi cytuno ar darged ar gyfer gostwng y nifer ymhellach dros y pum mis nesaf. Ledled Cymru, rydym wedi gweld gostyngiad o 12 y cant yn yr achosion o oedi wrth drosglwyddo ers 2010 mewn gwirionedd. Ar y llaw arall, yn anffodus, yn Lloegr, maent wedi gweld cynnydd o bron 5 y cant, gyda chynnydd llawer cliriach eleni. Nawr, mae'r holl fyrddau iechyd a'u partneriaid awdurdod lleol yn cynhyrchu cynlluniau gweithredu i fynd i'r afael â'r mater hwn. Rwy'n disgwyl gweld gwelliant yn y perfformiad, ac eglurder ar yr hyn sydd wedi gweithio'n dda yn ogystal â'r hyn nad yw wedi gweithio. Rwyf hefyd yn disgwyl i bob partner barhau i weithio gyda'i gilydd ac i adolygu effaith eu camau gweithredu yn ystod y gaeaf a gweddill y flwyddyn. Rwy'n obeithiol y bydd yr adroddiad ar oedi wrth drosglwyddo—yr adroddiad nesaf—yn tynnu sylw at y cynnydd gwirioneddol sy'n cael ei wneud. Nawr, i helpu i wneud cynnydd, bydd Llywodraeth Cymru a'r Asiantaeth Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol yn gwneud nifer o argymhellion ar gyfer partneriaid iechyd a gofal cymdeithasol, a disgwylir yr argymhellion cychwynnol eleni.

Mae nifer y lleoedd mewn cartrefi gofal a dewis o lety yn creu her ddifrifol a pharhaus. Rwy'n meddwl bod Aled Roberts wedi gwneud pwynt ynglŷn â bod nifer y lleoedd ar gyfer henoed bregus eu meddwl a nifer y gwelyau nyrsio yn broblem wirioneddol mewn rhai rhannau o Gymru. Nawr, rydym am i bobl allu gwneud dewisiadau cadarnhaol ynglŷn â'u llety. Fodd bynnag, ni ddylid gwneud y dewis hwnnw o wely ysbyty aciwt nad oes ei angen mwyach ar y sawl sy'n ei ddefnyddio. Mae'r dewis hwnnw'n cadw person y mae gwir angen iddo fod yno rhag cael gwely. Mae rhan o'r her, wrth gwrs, yn cynnwys datblygu dull mwy integredig ac effeithiol o gomisiynu gwasanaethau nyrsio preswyl a gofal cartref. Unwaith eto, bydd rheoliadau'r Ddeddf gwasanaethau cymdeithasol a llesiant yn ei gwneud hi'n ofynnol datblygu partneriaethau ffurfiol a'r defnydd o gronfeydd cyfun ar gyfer comisiynu gwasanaethau cartrefi gofal o fis Ebrill 2018 ymlaen. Ond nid ydym am i ddatblygu partneriaethau fynd yn y ffordd rhag comisiynu integredig. Yn y cyfamser, mae'n rhaid i fyrddau iechyd ac awdurdodau lleol asesu a chytuno ar yr ystod o wasanaethau sydd eu hangen arnynt ac y byddant yn eu comisiynu ar y cyd ar gyfer lleoliadau hirdymor, gan gynnwys gofal iechyd parhaus, gofal nyrsio a ariennir, a lleoliadau a ariennir gan awdurdod lleol; lleoliadau tymor byr dros dro, i alluogi rhyddhau o'r ysbyty; sicrhau bod y dewis o lety yn real; a gofal canolraddol a gofal seibiant cam i fyny, cam i lawr. Mae'r rhain yn bethau y dylent eu gwneud yn awr, ac yn bethau sy'n rhaid iddynt eu gwneud yn awr.

Mae oedi wrth drosglwyddo yn her fawr ar draws y DU. Rydym wedi mabwysiadu ymagwedd wahanol yma i'r hyn a geir yn Lloegr a'r Alban, ac rydym yn gweld iechyd a gofal cymdeithasol fel system gyfan. Dyfynnaf:

'We're interested in care, not just health care. No point having an effective NHS & crumbling social care system.'

That quote is from Simon Stevens, the chief executive of NHS England today. We recognise the very real progress that has been made on reducing delayed transfers in Wales over this Assembly term. There is more to do, and that is why we will continue to work proactively with partners across health, social care, the third and independent sectors.

Despite the financial challenges that we face, we can be positive about our work to date here in Wales, and we will continue to focus on further improvement, with ever better outcomes for citizens across Wales.

Dyna eiriau Simon Stevens, prif weithredwr y GIG yn Lloegr heddiw. Rydym yn cydnabod y cynnydd gwirioneddol a wnaed ar leihau oedi wrth drosglwyddo yng Nghymru dros dymor y Cynulliad hwn. Mae mwy i'w wneud, a dyna pam y byddwn yn parhau i weithio'n rhagweithiol gyda phartneriaid ar draws y sector iechyd, y sector gofal cymdeithasol, y trydydd sector a'r sector annibynnol.

Er gwaethaf yr heriau ariannol a wynebwn, gallwn fod yn gadarnhaol ynglŷn â'n gwaith hyd yn hyn yma yng Nghymru, a byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar wella ymhellach, gyda chanlyniadau gwell eto i ddinasyddion ledled Cymru.

16:57 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Darren Millar to reply to the debate.

Darren Millar i ymateb i'r ddadl.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

16:58 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Presiding Officer. I'm very pleased to be able to wrap up this debate on behalf of the Welsh Conservatives. I thought it was opened excellently by Altaf Hussain, who spoke clearly from his experience as a clinician in the health service, seeing the problems that have been caused for individuals who are in hospital beds but who could be in other places, hopefully returning home, or in other care settings. I think the fact that we've brought a potential solution, or something that can contribute to a holistic solution, here this afternoon is something that everybody should welcome. I also welcome the contributions of some other Members, too.

This is a preventative measure. This is a solution that is designed to head off any unnecessary long-term stays in our hospitals, because if somebody's able to get an assessment when they are around retirement age and be entitled to accessing an assessment, then it allows people to head off potential problems in the future—particularly if someone's got a degenerative condition that's likely to get worse, and of course people could be entitled to further assessments, if they've got a degenerative condition, in 12 months' time or five years' time, depending on their condition.

I think Elin Jones made reference to dementia in particular, and one thing that we all know in this Chamber is that there are insufficient numbers of people being diagnosed with dementia. Their dementia goes undiagnosed for far too long, and, as a result of that, that can cause problems for our care system. I say 'care system', because I agree with the Minister that we do have to think about this as being health and social care together, and not just exclusively a social care or a health particular problem. So, I think it is important that we recognise that this is part of a preventative programme that we believe can help to deliver reduced costs to the taxpayer and better benefits for individuals who can maintain their independence for longer.

*David Rees a gododd—*

Diolch i chi, Lywydd. Rwy'n falch iawn o allu cloi'r ddadl hon ar ran y Ceidwadwyr Cymreig. Roeddwn i'n meddwl ei bod wedi'i hagor yn ardderchog gan Altaf Hussain, a siarodd yn amlwg o'i brofiad fel clinigydd yn y gwasanaeth iechyd, yn gweld y problemau a achoswyd i unigolion mewn gwelyau ysbyty ond a allai fod mewn mannau eraill, yn dychwelyd adref gobeithio, neu'n mynd i leoliadau gofal eraill. Rwy'n meddwl bod y ffaith ein bod wedi dod o hyd i ateb posibl, neu rywbeth a all gyfrannu at ateb cyfannol, yma y prynhawn yma, yn rhywbeth y dylai pawb ei groesawu. Rwyf hefyd yn croesawu cyfraniadau rhai o'r Aelodau eraill hefyd.

Mae hwn yn fesur ataliol. Mae'n ateb a gynlluniwyd i atal unrhyw arosiadau hirdymor diangen yn ein hysbytai, oherwydd os yw rhywun yn gallu cael asesiad pan fyddant oddeutu oedran ymddeol, a bod â hawl i gael asesiad, yna mae'n galluogi pobl i osgoi problemau posibl yn y dyfodol—yn enwedig os yw rhywun yn dioddef o gyflwr dirywiol sy'n debygol o waethygu, ac wrth gwrs, os ydynt yn dioddef o gyflwr dirywiol, gallai fod hawl gan bobl i asesiadau pellach ymhen 12 mis neu bum mlynedd, yn dibynnu ar eu cyflwr.

Rwy'n meddwl bod Elin Jones wedi cyfeirio at ddementia yn benodol, ac un peth y mae pawb yn y Siambr hon yn ei wybod yw bod gormod o bobl yn aros yn rhy hir cyn cael diagnosis o ddementia. Ni wneir diagnosis o'u dementia am amser llawer rhy hir, ac o ganlyniad i hynny, gall achosi problemau i'n system ofal. Dywedaf 'system ofal', gan fy mod yn cytuno â'r Gweinidog fod yn rhaid meddwl am hyn fel iechyd a gofal cymdeithasol gyda'i gilydd, ac nid gofal cymdeithasol yn unig neu broblem iechyd benodol. Felly, rwy'n meddwl ei bod yn bwysig i ni gydnabod bod hyn yn rhan o raglen ataliol y credwn y gall helpu i leihau costau i'r trethdalwr a sicrhau gwell manteision i unigolion a all aros yn annibynnol am fwy o amser.

*David Rees rose—*

17:00	<b>Darren Millar</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	I'll happily take an intervention.	Rwy'n hapus i dderbyn ymyriad.
17:00	<b>David Rees</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	Just for clarity, are you now saying that, in fact, it's not a one-off at retirement age, it can happen at any time, whenever anyone wants it?	Er eglurder yn unig, a ydych yn awr yn dweud, mewn gwirionedd, nad un asesiad ar oedran ymdeol yw hwn, gall ddigwydd ar unrhyw adeg, pa bryd bynnag y bydd rhywun ei eisiau?
17:00	<b>Darren Millar</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	<p>I think Gwenda Thomas made this precise point. Of course, under the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014, there are provisions that entitle people to an assessment where a need has been identified. What we're talking about is where those needs have not yet been identified and where people do not put themselves forward for assessment because they don't think that they've got a particular need. What we're trying to do is to engage the social care profession or the healthcare profession, if you like, to be able to head off potential problems for individuals by, perhaps, making that home adaptation earlier than would usually be the case to prevent a fall, to prevent someone from then requiring a hip operation, which causes them to stay in hospital for a long time. To take the example of dementia as well, to put in place those routines for that individual to help them maintain their independence in the home.</p> <p>So, I think we're probably all on the same side here. We all want to maintain independence for as long as possible, and we see this as part of the solution for helping to deliver just that. What is incredible is that the cost of delayed transfers of care to the NHS, a good proportion of that, we believe, could be staved off as a result of this sort of measure. The Deputy Minister is quite right, there have been some areas of good practice across Wales. It's not nearly sufficiently rolled out everywhere, but there has been some good practice. We mustn't forget—and we mustn't be complacent—that, actually, the number of people in hospital beds has been increasing. Those who could be discharged, but have delayed transfers, have been increasing over the past 12 months, and that is a cause for concern. We need to take some more rapid action to be able to address this.</p> <p>Pople on this side of the Chamber are prepared to bring forward solutions. I heard criticism from the Liberal Democrats and Plaid Cymru, but not a single solution from either of them—just harping on about our proposed solutions. They can cry crocodile tears about the challenges in our public services, but the reality is both of you have supported budgets that have reduced the resources that are available to the health service to be able to deal with the consequences.</p> <p><i>Aled Roberts a gododd—</i></p>	<p>Rwy'n meddwl bod Gwenda Thomas wedi gwneud yr union bwynt hwn. Wrth gwrs, o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, ceir darpariaethau sy'n rhoi hawl i bobl gael asesiad lle y nodwyd bod angen. Yr hyn rydym yn sôn amdano yw lle nad yw'r anghenion hynny wedi'u nodi hyd yn hyn, a lle nad yw pobl yn dod i gael eu hasesu gan nad ydynt yn credu bod ganddynt angen penodol. Yr hyn rydym yn ceisio ei wneud yw ennyn diddordeb y proffesiwn gofal cymdeithasol neu'r proffesiwn gofal iechyd, os mynnwch, i allu atal problemau posibl i unigolion drwy wneud yr addasiad hwnnw i'w cartref yn gynt nag y byddent yn ei wneud fel arfer i'w hatal rhag cael codwm, i'w hatal rhag bod angen llawdriniaeth i'r clun, sy'n peri iddynt aros yn yr ysbyty am gyfnod hir. Wrth edrych ar ddementia, er enghraifft, gellid sefydlu arferion ar gyfer yr unigolyn i'w helpu i aros yn annibynnol yn ei gartref.</p> <p>Felly, rwy'n credu ein bod i gyd ar yr un ochr yma yn ôl pob tebyg. Rydym i gyd yn awyddus i gynnal annibyniaeth cyhyd ag y bo modd, ac rydym yn gweld hyn fel rhan o'r ateb ar gyfer helpu i gyflawni hynny. Yr hyn sy'n anhygoel yw y gellid atal cyfran dda o'r gost i'r GIG o oedi wrth drosglwyddo gofal, yn ein barn ni, o ganlyniad i'r math hwn o fesur. Mae'r Dirprwy Weinidog yn llygad ei le, cafwyd rhai ardaloedd lle y gwelir arfer da ledled Cymru. Nid yw wedi'i gyflwyno'n ddigonol ym mhob man o bell ffordd, ond bu rhywfaint o arfer da. Rhaid i ni beidio ag anghofio—a rhaid i ni beidio â bod yn hunanfodlon—ynghylch y cynnydd a fu yn nifer y bobl sydd mewn gwelyau ysbyty. Dros y 12 mis diwethaf, bu cynnydd yn nifer y bobl y gellid bod wedi'u rhyddhau o'r ysbyty, ond bod oedi wrth eu trosglwyddo, ac mae hynny'n destun pryder. Mae angen i ni roi rhai camau ar waith yn fwy cyflym i allu mynd i'r afael â hyn.</p> <p>Mae pobl ar yr ochr hon i'r Siambr yn barod i gyflwyno atebion. Clywais feirniadaeth gan y Democratiaid Rhyddfrydol a Phlaid Cymru, ond ni chafwyd ateb gan y naill neu'r llall ohonynt—dim ond rhygnu ymlaen am yr atebion a argymhellwyd gennym. Gallant wylo dagrau crocodeil am yr heriau yn ein gwasanaethau cyhoeddus, ond y gwir amdani yw bod y ddwy blaid wedi cefnogi cyllidebau sydd wedi lleihau'r adnoddau sydd ar gael i'r gwasanaeth iechyd allu ymdrin â'r canlyniadau.</p> <p><i>Aled Roberts rose—</i></p>
17:02	<b>Darren Millar</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	You weep about the situation in Wrexham Maelor, Aled Roberts, but the fact is your hospital is being starved of cash because you allowed budgets—	Rydych yn wylo am y sefyllfa yn Ysbyty Maelor Wrecsam, Aled Roberts, ond y ffaith amdani yw bod eich ysbyty wedi'i amddifadu o arian oherwydd eich bod yn caniatáu cyllidebau—

17:02	<p><b>Aled Roberts</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Will you take an intervention?</p>	<p>A wnewch chi dderbyn ymyriad?</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
17:02	<p><b>Darren Millar</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>I'll happily take the intervention.</p>	<p>Rwy'n hapus i dderbyn ymyriad.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
17:02	<p><b>Aled Roberts</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>The problem is, you say you're willing to have the solutions, but your budget proposals would actually create more difficulties for the NHS. There would be even greater delays, because you would actually cut the budget to local authorities and also call for a council tax freeze.</p>	<p>Y broblem yw eich bod yn dweud eich bod yn barod i gael yr atebion, ond byddai eich cynigion ar gyfer y gyllideb yn creu mwy o anawsterau i'r GIG mewn gwirionedd. Byddai hyd yn oed mwy o oedi, gan y byddech yn torri'r gyllideb i awdurdodau lleol gan alw hefyd am rewi'r dreth gyngor.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
17:02	<p><b>Darren Millar</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>What our solution will do is to save the public purse as a whole in order that further investment can be made in public services. Who can disagree with that? Clearly, you do, and I'd love to see your alternative solutions. Perhaps when you've prepared them, you can send them on and we'll consider them.</p> <p><i>Elin Jones a gododd—</i></p>	<p>Yr hyn y bydd ein hateb yn ei wneud yw arbed arian i'r pwrs cyhoeddus yn ei gyfanrwydd er mwyn buddsoddi ymhellach mewn gwasanaethau cyhoeddus. Pwy all anghytuno â hynny? Yn amlwg, rydych chi'n anghytuno, a byddwn wrth fy modd yn gweld eich atebion amgen. Pan fyddwch wedi'u paratoi, efallai y gallwch eu hanfon atom a byddwn yn eu hystyried.</p> <p><i>Elin Jones rose—</i></p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
17:03	<p><b>Darren Millar</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>I'll happily take another intervention.</p>	<p>Rwy'n hapus i dderbyn ymyriad arall.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
17:03	<p><b>Elin Jones</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Here's an alternative solution for you: the intermediate care fund that was part of the Plaid Cymru and Labour Party budget package a few years ago, which you voted against.</p>	<p>Dyma ateb arall i chi: y gronfa gofal canolraddol a oedd yn rhan o becyn cyllidebol Plaid Cymru a'r Blaid Lafur ychydig flynyddoedd yn ôl, y pleidleisioch chi yn ei erbyn.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
17:03	<p><b>Darren Millar</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>You know what's incredible? I remember when you were in Government, Elin Jones, protecting and defending the Government for the health service cuts—the record-breaking cuts that you helped to sanction, and that has inflicted the biggest damage on our care systems.</p> <p>Now, I don't have much time left, but I would encourage you—. We tried to bring this in a positive way to the Chamber as a solution. Other people have turned this into a bit more of a political football, and I understand that, as we're approaching election season, but I do hope that one thing we can all agree on is that we need some cross-party work on these issues if we're going to deliver the long-term solutions that our nation needs to deliver. I very much hope that you'll reconsider your positions and support the motion before you this afternoon.</p>	<p>Wyddoch chi beth sy'n anhygoel? Rwy'n cofio pan oeddech chi yn y Llywodraeth, Elin Jones, yn gwarchod ac yn amddiffyn y Llywodraeth dros y toriadau i'r gwasanaeth iechyd— toriadau na welwyd eu tebyg o'r blaen a gynorthwyoch chi i'w cymeradwyo, ac mae hynny wedi peri'r difrod mwyaf i'n systemau gofal.</p> <p>Nawr, nid oes llawer o amser ar ôl gennyf, ond byddwn yn eich annog—. Rydym wedi ceisio cyflwyno hyn mewn ffordd gadarnhaol i'r Siambr fel ateb. Mae pobl eraill yn troi'r mater yn fwy o gêm wleidyddol, ac rwy'n deall hynny, gan ein bod yn nesáu at y tymor etholiadol, ond rwy'n gobeithio mai un peth y gallwn i gyd gytuno arno yw bod arnom angen rhywfaint o waith trawsbleidiol ar y materion hyn os ydym yn mynd i gyflawni'r atebion hirdymor sydd angen i'n cenedl eu cyflawni. Rwy'n gobeithio'n fawr y byddwch yn ailystyried eich safbwyntiau ac yn cefnogi'r cynnig ger eich bron y prynhawn yma.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
17:04	<p><b>Y Llywydd / The Presiding Officer</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>The proposal is to agree the motion without amendment. Does anyone object? [Objection.] We will defer all voting on this item until voting time.</p> <p><i>Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.</i></p>	<p>Y cynnig yw derbyn y cynnig heb ei ddiwygio. A oes unrhyw un yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Gohiriwn yr holl bleidleisio ar yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.</p> <p><i>Voting deferred until voting time.</i></p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>



## 6. Dadl Democratiaid Rhyddfrydol Cymru: Y Sector Twristiaeth

*Detholwyd y gwelliannau canlynol: gwelliannau 1, 2, 3 a 4 yn enw Paul Davies.*

## 6. Welsh Liberal Democrats Debate: The Tourism Sector

*The following amendments have been selected: amendments 1, 2, 3 and 4 in the name of Paul Davies.*

17:04

### Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

We now move to item 6, which is the Welsh Liberal Democrats' debate on the tourism sector, and I call on Eluned Parrott to move the motion. Eluned Parrott.

Symudwn nawr at eitem 6, sef dadl Democratiaid Rhyddfrydol Cymru ar y sector twristiaeth a galwaf ar Eluned Parrott i gynig y cynnig. Eluned Parrott.

Cynnig NDM5878 Aled Roberts

Motion NDM5878 Aled Roberts

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Yn nodi bod mwy na 170,000 o bobl yng Nghymru yn cael eu cyflogi'n uniongyrchol ac yn anuniongyrchol ym maes twristiaeth a sectorau cysylltiedig;

1. Notes that over 170,000 people in Wales are employed directly and indirectly in tourism and related sectors;

2. Yn nodi bod 44 y cant o'r bobl a gyflogir o fewn y sector twristiaeth o dan 30, ac felly gallai mesurau i gefnogi'r sector hwn chwarae rôl allweddol yn y broses o leihau'r gyfradd ddiweithdra ymhlith pobl ifanc yng Nghymru;

2. Notes that 44 per cent of people employed within the tourism sector are under 30 years old, and therefore measures to support this sector could play a key role in reducing the youth unemployment rate in Wales;

3. Yn credu y byddai gostyngiad mewn TAW ar dwristiaeth yn annog mwy o ymwelwyr rhyngwladol a domestig, yn rhoi hwb sylweddol i fusnesau lleol ac yn arwain at fwy o fuddsoddiad, swyddi a thwf economaidd;

3. Believes that a reduction in VAT on tourism would encourage more domestic and international visitors, provide a significant boost to local businesses and lead to increased investment, jobs and economic growth.

4. Yn nodi bod 25 o aelod-wladwriaethau eraill yr UE eisoes yn manteisio ar eithriad yr EU ar gyfer cyfradd TAW is ar gyfer atyniadau a llety twristaidd; a

4. Notes that 25 other EU Member States already take advantage of an EU dispensation for a lower VAT rate on tourist attractions and accommodation; and

5. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno sylwadau i Lywodraeth y DU i ostwng TAW ar dwristiaeth o 20 y cant i 5 y cant, i'n helpu ni i gystadlu yn erbyn gwledydd eraill Ewrop ac anfon neges gref bod Cymru yn agored i dwristiaid ac yn agored ar gyfer busnes.

5. Calls on the Welsh Government to make representations to the UK Government to lower the VAT on tourism from 20 per cent to 5 per cent, to help us compete with other European countries and send a strong message that Wales is open to tourists and open for business.

*Cynigiwyd y cynnig.*

*Motion moved.*

17:04

### Eluned Parrott [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Diolch, Lywydd. It's a pleasure to move this motion today. Whether you live in urban Cardiff or on the Ceredigion coast, from the mountains of Snowdonia to the beaches of Pembrokeshire, there is one industry—one—that has the power to create jobs in your local community, and that is tourism. We have an embarrassment of riches to offer our visitors, and I'm sure Members will make a compelling case for visiting their own constituencies in the debate today, as they often do when we debate tourism. However, there is a source of competitive disadvantage that is undermining the success of that industry right now, and that we must tackle.

Diolch, Lywydd. Mae'n bleser cynnig y cynnig hwn heddiw. Pa un a ydych yn byw yng Nghaerdydd ddinesig neu ar arfordir Ceredigion, o fynyddoedd Eryri i draethau Sir Benfro, un diwydiant—un—sydd â'r pŵer i greu swyddi yn eich cymuned leol, sef twristiaeth. Mae gennym gyfoeth rhyfeddol i'w gynnig i'n hymwelwyr, ac rwy'n siŵr y bydd yr Aelodau'n cyflwyno achos cryf dros ymweld â'u hetholaethau eu hunain yn y ddaol heddiw, fel y maent yn aml yn ei wneud pan fyddwn yn trafod twristiaeth. Fodd bynnag, ceir ffynhonnell o anfantais gystadleuol sy'n tansellio llwyddiant y diwydiant ar hyn o bryd, ac mae'n rhaid i ni fynd i'r afael ag ef.

Our motion today calls on the Welsh Government to make representations to the UK Government to lower the VAT on tourism from 20 per cent to 5 per cent to help us compete with other European countries and send a strong message that Wales, as the rest of the UK, is open to tourists and open for business. The campaign to cut VAT on tourism has received widespread support, not surprisingly from the tourism industry, but from politicians of all colours too, and from economists, because it makes good financial sense. It is an investment which has a very good return.

The campaign was established in 2011, representing over 3,500 individual businesses, many of them small businesses in our own communities, and more than 45 national and regional trade organisations. The crux of the matter is this: since 2006, European VAT law has allowed member states the dispensation to charge a lower level of VAT on certain tourism supplies—hotel accommodation, certain restaurant services and some types of admission charges. Twenty-five of the other 28 EU member states have taken advantage of this to reduce VAT on all or some of those tourism businesses, but the UK still has not. The UK's current rate of 20 per cent is almost twice the European average, undermining the competitiveness of our tourism industry by comparison with our nearest neighbours.

The UK has the second highest rate of VAT on hotel accommodation in the EU and the world economic forum places the UK one hundred and fortieth for price competitiveness, out of 141 countries. It is a very difficult position to be in. The impact of this on our tourism businesses is that it encourages UK customers to holiday abroad. And, of course, it deters visitors to the UK as well. It is a double whammy. But price sensitivity in the tourism industry also acts in subtler ways that are equally damaging to us in Wales. With UK hotels seen as more expensive than continental ones, visitors to Europe from the US and the far east, doing the grand tour, if you like, of the major attractions of Europe, spend less time here in the UK. They tick off the major sites in London but they never step beyond the capital to see what the rest of Britain has to offer.

The higher upfront cost of staying here means that businesses in other parts of the UK, business in Wales, simply don't benefit from the high visitor numbers that London is getting. Those visitors that do come spend less in restaurants, in shops and in visitor attractions, simply by dint of the fact that they're not here as long as they might be. This is a particular source of competitive disadvantage to Wales because there is this barrier now where major tour operators, according to good data from the industry, do not now include many parts of the UK in their European tours.

Mae ein cynnig heddiw yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno sylwadau i Lywodraeth y DU i ostwng y TAW ar dwristiaeth o 20 y cant i 5 y cant i'n helpu i gystadlu â gwledydd eraill yn Ewrop ac anfon neges gref fod Cymru, fel gweddill y DU, yn agored i dwristiaid ac yn agored ar gyfer busnes. Mae'r ymgyrch i leihau TAW ar dwristiaeth wedi cael cefnogaeth eang, gan y diwydiant twristiaeth yn amlwg, ond gan wleidyddion o bob lliw hefyd, a chan economegwyr, gan ei fod yn gwneud synnwyr yn ariannol. Mae'n fuddsoddiad sydd ag enillion da iawn.

Sefydlwyd yr ymgyrch yn 2011, gan gynrychioli dros 3,500 o fusnesau unigol, llawer ohonynt yn fusnesau bach yn ein cymunedau ein hunain, a mwy na 45 o sefydliadau masnach cenedlaethol a rhanbarthol. Craidd y mater yw hyn: er 2006, mae cyfraith TAW Ewropeaidd wedi caniatáu goddefeb i aelod-wladwriaethau godi lefel TAW is ar gyflenwadau twristiaeth penodol—llety mewn gwesty, gwasanaethau bwytaï penodol a rhai mathau o dâl mynediad. Mae 25 o 28 aelod-wladwriaeth arall yr UE wedi manteisio ar hyn er mwyn gostwng cyfradd TAW ar bob un neu rai o'r busnesau twristiaeth hynny, ond nid yw'r DU wedi gwneud. Mae cyfradd gyfredol y DU o 20 y cant bron ddwywaith yn uwch na'r cyfartaledd Ewropeaidd, ac yn tansellio cystadleurwydd ein diwydiant twristiaeth o'i gymharu â'n cymdogion agosaf.

Y DU sydd â'r gyfradd TAW uchaf ond un ar lety mewn gwesty yn yr UE ac mae'r fforwm economaidd byd-eang yn gosod y DU yn safle 140 am gystadleurwydd o ran pris, allan o 141 o wledydd. Mae'n sefyllfa anodd iawn i fod ynddi. Effaith hyn ar ein busnesau twristiaeth yw ei fod yn annog cwsmeriaid y DU i dreulio eu gwyliau dramor. Yn ogystal, mae'n atal ymwelwyr rhag dod i'r DU. Mae'n ergyd ddwbl. Ond mae sensitifrwydd pris yn y diwydiant twristiaeth hefyd yn gweithredu mewn ffyrdd mwy cynnill sydd yr un mor niweidiol i ni yng Nghymru. Gyda gwestai yn y DU yn cael eu hystyried yn ddrytach na rhai cyfandirol, mae ymwelwyr sy'n dod i Ewrop o'r Unol Daleithiau a'r dwyrain pell, sy'n gwneud y daith fawr, os hoffwch, o gwmpas prif atyniadau Ewrop, yn treulio llai o amser yma yn y DU. Maent yn ymweld â'r prif safleoedd yn Llundain, ond ni fyddant yn camu y tu hwnt i'r brifddinas i weld beth sydd gan weddill Prydain i'w gynnig.

Mae'r gost uwch ymlaen llaw o aros yma yn golygu nad yw busnesau mewn rhannau eraill o'r DU, busnesau yng Nghymru, yn elwa ar y niferoedd uchel o ymwelwyr y mae Llundain yn eu cael. Mae'r ymwelwyr sy'n dod yn gwario llai mewn tai bwyta, siopau ac atyniadau i ymwelwyr, yn syml oherwydd nad ydynt yma gyn hired ag y gallent fod. Mae'n ffynhonnell arbennig o anfantais gystadluol i Gymru, gan fod yna rwystr yn awr lle nad yw gweithredwyr teithiau o bwys, yn ôl data da gan y diwydiant, yn cynnwys sawl rhan o'r DU yn eu teithiau Ewropeaidd.

We don't have to look far, though, to see examples of where this kind of policy has been introduced and has delivered real results. In 1996, Ireland reduced the VAT on hotel rooms from 18 per cent to 10 per cent, and on restaurant meals from 23 per cent to 10 per cent. This helped stimulate a period of strong growth in the Irish tourism industry after a long period of stagnation. That was independently reviewed on behalf of the Irish Government. Studies have found that, since that VAT cut in Ireland, there's been renewed and sustained growth in overseas tourism numbers and earnings, even through the difficulties of the financial crisis; that tourism businesses have used that boost in earnings to invest in training staff and improving their facilities; and that employment in the target sectors has increased by approximately 30,000, with direct tourism employment up by more than 20,000. Activity levels have increased across the industry and visitors believe they are getting improved value for money as well. It is not just that the rates have fallen, it is that their visitors believe this to be the case too. All of this has encouraged more people to visit Ireland and for people to see Ireland as a much more competitive nation for tourism than perhaps they were used to.

But, there are other signals that this is a positive move too. When Greece, in the financial crisis, was being urged by the troika to find ways to earn and generate more tax income, the one thing the troika told Greece not to touch was its lower rate of VAT on tourism. It described that as being economic suicide. If the troika think that this is a fiscally-responsible move, given how aggressively they have pursued the Greek nation in terms of repayments, I think we all have to stop to consider whether or not this is something that we ought to be seriously considering here in the UK too.

In terms of the benefits for Wales, just imagine the impact a policy like this could have, particularly, for example, in our coastal areas that have suffered from flooding in recent years, or rural areas that really do need an economic boost and suffer socially as well as financially when generations of their young people are forced to leave their local area to find work. By reducing the tax on tourism, we'll attract new visitors and encourage them to spend money, therefore stimulating the economy and creating jobs in those local areas. As I say, this is often in areas that otherwise would not have those jobs and would not have that investment. It's estimated that supporting the tourism sector in this way could generate 80,000 new jobs over three years—6,000 in Wales—as well as £170 million a year for the Welsh economy.

Fodd bynnag, nid oes raid i ni edrych yn bell i weld enghreifftiau o fannau lle y cyflwynwyd y math hwn o bolisi a lle y mae wedi cyflawni canlyniadau go iawn. Yn 1996, gostyngodd Iwerddon y TAW ar ystafelloedd gwesty o 18 y cant i 10 y cant, ac ar brydau bwyd mewn bwytai o 23 y cant i 10 y cant. Helpodd hyn i ysgogi cyfnod o dwf cryf yn y diwydiant twristiaeth yn Iwerddon ar ôl cyfnod hir o ddiffyg cynnydd. Cafodd ei adolygu'n annibynnol ar ran Llywodraeth Iwerddon. Ers y toriad i'r TAW yn Iwerddon, mae astudiaethau wedi canfod fod twf newydd a pharhaus wedi bod yn niferoedd ac enillion twristiaeth o dramor, drwy gydol anawsterau'r argyfwng ariannol hyd yn oed; fod busnesau twristiaeth wedi defnyddio'r hwb i'r enillion i fuddsoddi mewn hyfforddiant i staff a gwella cyfleusterau; a bod nifer y swyddi yn y sectorau targed wedi cynyddu tua 30,000, gyda mwy nag 20,000 yn fwy o swyddi twristiaeth uniongyrchol. Mae lefelau gweithgarwch wedi cynyddu ar draws y diwydiant ac mae ymwelwyr yn credu eu bod yn cael gwell gwerth am arian. Mae'r cyfraddau wedi gostwng, ac mae eu hymwelwyr yn gwybod hynny hefyd. Mae hyn oll wedi annog mwy o bobl i ymweld ag Iwerddon ac i weld Iwerddon fel cenedl lawer mwy cystadleuol nag yr arferai fod o ran twristiaeth.

Ond mae yna arwyddion eraill fod hwn yn gam cadarnhaol hefyd. Pan oedd Gwlad Groeg, yn ystod yr argyfwng ariannol, yn cael ei hannog gan y troica i ddod o hyd i ffyrdd o ennill a chynhyrchu mwy o incwm treth, yr un peth a ddywedodd y troica wrth Wlad Groeg am beidio â'i gyffwrdd oedd ei chyfradd TAW is ar dwristiaeth. Disgrifiodd hynny fel hunanladdiad economaidd. Os yw'r troica yn meddwl ei fod yn gam cyfrifol yn gyllidol, o ystyried pa mor ymosodol y maent wedi mynd ar drywydd Gwlad Groeg o ran ad-daliadau, rwy'n meddwl y dylem i gyd aros i feddwl a yw hyn yn rhywbeth y dylem fod yn ei ystyried o ddirif yma yn y DU hefyd.

O ran y manteision i Gymru, dychmygwch yr effaith y gallai polisi o'r fath ei chael, yn enwedig, er enghraifft, yn ein hardaloedd arfordirol sydd wedi dioddef yn sgil llifogydd yn y blynyddoedd diwethaf, neu ardaloedd gwledig sydd angen hwb economaidd gwirioneddol ac sy'n dioddef yn gymdeithasol yn ogystal ag yn ariannol pan fo cenedlaethau o'u pobl ifanc yn cael eu gorfodi i adael eu hardal leol i ddod o hyd i waith. Drwy leihau'r dreth ar dwristiaeth, byddwn yn denu ymwelwyr newydd ac yn eu hannog i wario arian, ac felly'n ysgogi'r economi a chreu swyddi yn yr ardaloedd lleol hynny. Fel rwy'n dweud, ardaloedd yw'r rhain yn aml na fyddai â'r swyddi hynny fel arall na'r buddsoddiad hwnnw. Amcangyfrifir y gallai cefnogi'r sector twristiaeth yn y modd hwn greu 80,000 o swyddi newydd dros dair blynedd—6,000 yng Nghymru—yn ogystal â £170 miliwn y flwyddyn i economi Cymru.

For those who think that the value of tourism jobs is inevitably low and consider perhaps that there are other industries which we might prefer to encourage, let me counter that. The tourism sector has proven its commitment to upskilling its workforce with 61 per cent of its businesses providing training. And in Wales, where we've seen major growth in high-adrenalin activity tourism, we're seeing the creation of highly-skilled, specialist jobs. Tourism really does have a record to be proud of in valuing people and giving them a break, and that's a lesson I learned in person when Techniquet, the science museum here in Cardiff, gave me my first ever job, and then gave me the professional training I needed to build a successful career in marketing before coming here. They also gave me my first training in public speaking, for which I thank them very heartily.

The Minister will say perhaps that the Lib Dems have been in Government in Westminster for the past five years, so why didn't we do it then? Well, the UK has had the power to make this change since 2006, so I could pose the same question about his party when they were in Government. But I note that the First Minister has recently commented that this policy would be a great boon to tourism, not just in Wales but across the UK, and the Minister himself has also been critical of the UK Government for not fully considering this option. So, I do very much welcome those positive signs.

But, let's not look back; let's unite today and send a very, very strong signal that we can unite behind this campaign here in Wales, that we will do it, and that we call on the UK Government to take this step because it could boost every single community the length and breadth of this country.

I'r rhai sy'n credu bod gwerth swyddi twristiaeth yn anochel o isel ac yn ystyried efallai fod yna ddiwydiannau eraill y byddai'n well gennym eu hannog, gadewch i mi wrthod hynny. Mae'r sector twristiaeth wedi profi ei ymrwymiad i wella sgiliau ei weithlu gyda 61 y cant o'i fusnesau'n darparu hyfforddiant. Ac yng Nghymru, lle rydym wedi gweld twf mawr mewn twristiaeth gweithgareddau llawn adrenalin, gwelwn swyddi arbenigol, medrus yn cael eu creu. Mae gan dwristiaeth hanes i ymfalchïo ynddo o werthfawrogi pobl a rhoi cyfle iddynt, a dyna wers a ddysgais yn bersonol pan roddodd Techniquet, yr amgueddfa wyddoniaeth yma yng Nghaerdydd, fy swydd gyntaf erioed i mi, ac yna rhoddodd i mi yr hyfforddiant proffesiynol roeddwn ei angen ar gyfer datblygu gyrfa lwyddiannus mewn marchnata cyn dod yma. Hefyd, rhoesant i mi fy hyfforddiant cyntaf mewn siarad cyhoeddus, rhywbeth rwy'n ddiolchgar iawn iddynt amdano.

Efallai y bydd y Gweinidog yn dweud bod y Democratiaid Rhyddfrydol wedi bod yn y Llywodraeth yn San Steffan am y pum mlynedd diwethaf, felly pam na wnaethom hyn bryd hynny? Wel, mae'r pŵer i wneud y newid wedi bod gan y DU er 2006, felly gallwn ofyn yr un cwestiwn i'w blaidd ef pan oeddent mewn grym. Ond rwy'n nodi bod Prif Weinidog Cymru wedi gwneud sylwadau'n ddiweddar y byddai'r polisi hwn yn hwb mawr i dwristiaeth, nid yn unig yng Nghymru ond ledled y DU, ac mae'r Gweinidog ei hun hefyd wedi beirniadu Llywodraeth y DU am beidio ag ystyried yr opsiwn hwn yn llawn. Felly, rwy'n croesawu'r arwyddion cadarnhaol hyn.

Gadewch i ni beidio ag edrych yn ôl; gadewch i ni uno heddiw ac anfon neges gref iawn y gallwn uno i gefnogi'r ymgyrch yma yng Nghymru, y byddwn yn gwneud hynny, a'n bod yn galw ar Lywodraeth y DU i gymryd y cam hwn oherwydd gallai roi hwb i bob cymuned ledled y wlad hon.

17:12

## Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

I have selected the four amendments to the motion. I call on Suzy Davies to move amendments 1, 2, 3 and 4, tabled in the name of Paul Davies.

Rwyf wedi dethol y pedwar gwelliant i'r cynnig. Galwaf ar Suzy Davies i gynnig gwelliannau 1, 2, 3 a 4, a gyflwynwyd yn enw Paul Davies.

*Gwelliant 1—Paul Davies*

*Amendment 1—Paul Davies*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn croesawu'r rôl y mae busnesau twristiaeth preifat yn ei chwarae o ran adfywio lleol, yn ogystal ag economi ehangach Cymru.*

*Welcomes the role that private tourism businesses play in local regeneration, as well as the wider Welsh economy.*

*Gwelliant 2—Paul Davies*

*Amendment 2—Paul Davies*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn gresynu at y ffaith bod rhai darparwyr twristiaeth yn parhau i fod yn ansicr am rôl Croeso Cymru.*

*Regrets that some tourism providers remain unclear as to Visit Wales's role.*

*Gwelliant 3—Paul Davies*

*Amendment 3—Paul Davies*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn nodi bod cefnogaeth eang ar gyfer trosglwyddo'r cyfrifoldeb dros gyflawni datblygu a hyrwyddo twristiaeth o Lywodraeth Cymru.*

*Gwelliant 4—Paul Davies*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyhoeddi asesiad gwerth am arian ar gyfer cynlluniau rheoli cyrchfannau cyn diwedd mis Ionawr 2016.*

*Cynigiwyd gwelliannau 1, 2, 3 a 4.*

*Notes that there is widespread support for transferring responsibility for delivering tourism development and promotion from the Welsh Government.*

*Amendment 4—Paul Davies*

*Add as new point at end of motion:*

*Calls on the Welsh Government to publish a value for money assessment of Destination Management Plans before the end of January 2016.*

*Amendments 1, 2, 3 and 4 moved.*

17:12

## **Suzy Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch, Lywydd. I declare an interest as my husband is a partner in a tourism business.

Can I thank the Lib Dems for highlighting the campaign to cut tourism VAT today? Although we've tabled amendments, which I move now, we will hope to support the motion, demonstrating Welsh Conservative commitment to that campaign. In addition to calling upon the Welsh Government to make representations to the UK Government, perhaps I can be cheeky enough to ask Members to offer direct support for that as well.

When the campaign representatives came to speak at the cross-party group on tourism some time ago, they provided these postcards which may be familiar to you, and which are directly addressed to the Chancellor. I've left you all a sample card, and if you feel moved to stick a stamp on it and pop it into your nearest post box, then I would encourage you all to do that.

My only issue with the message on this card is the particular reference to benefiting low-skilled workers. A significant percentage of people employed in the tourism sector may be young, as the motion says, but we should resist the implication to say that this a low-skilled industry and nothing more; it's a point, actually, that Eluned made towards the end of her contribution. Of course, I recognise that not everybody can be a Donald Trump, and I think that's something for which we should all be very, very grateful, but it is a mistake if we let our young people believe that tourism is a sector in which either you don't have to try too hard, or that it's an industry where there's no point in trying hard. And this is behind our first amendment.

Diolch, Lywydd. Rwy'n datgan buddiant gan fod fy ngŵr yn bartner mewn busnes twristiaeth.

Diolch i'r Democratiaid Rhyddfrydol am dynnu sylw at yr ymgyrch i dorri TAW ar dwristiaeth heddiw. Er ein bod wedi cyflwyno'r gwelliannau rwy'n eu cynnig yn awr, byddwn yn gobeithio cefnogi'r cynnig, gan ddangos ymrwymiad y Ceidwadwyr Cymreig i'r ymgyrch. Yn ogystal â galw ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno sylwadau i Lywodraeth y DU, efallai y gallaf fod yn ddigon hy i ofyn i'r Aelodau gynneg cefnogaeth uniongyrchol i hynny hefyd.

Pan ddaeth cynrychiolwyr yr ymgyrch i siarad yn y grŵp trawsbleidiol ar dwristiaeth beth amser yn ôl, darparwyd y cardiau post hyn ganddynt—efallai eu bod yn gyfarwydd i chi—wedi'u cyfeirio'n uniongyrchol at y Canghellor. Rwyf wedi gadael cerdyn sampl i bob un ohonoch, ac os teimlwch fel rhoi stamp arno a'i roi yn eich blwch post agosaf, yna byddwn yn eich annog i gyd i wneud hynny.

Fy unig broblem gyda'r neges ar y cerdyn yw'r cyfeiriad penodol at fod o fudd i weithwyr heb lawer o sgiliau. Efallai bod canran sylweddol o'r bobl a gyflogir yn y sector twristiaeth yn ifanc, fel y mae'r cynnig yn ei ddweud, ond dylem wrthsefyll yr ensyniad mai diwydiant heb lawer o sgiliau ydyw a dim byd mwy; mae'n bwynt a wnaed gan Eluned tua diwedd ei chyfraniad mewn gwirionedd. Wrth gwrs, rwy'n cydnabod na all pawb fod yn Donald Trump, ac rwy'n credu bod hynny'n rhywbeth y dylem i gyd fod yn ddiolchgar iawn amdano, ond camgymeriad yw gadael i'n pobl ifanc gredu bod twristiaeth yn sector lle nad oes rhaid i chi ymdrechu'n rhy galed, neu ei fod yn ddiwydiant lle nad oes pwynt ymdrechu'n galed. A dyma sydd wrth wraidd ein gwelliant cyntaf.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Tourism is such an important industry for Wales—and a significant contributor to our GDP—that we have to reinforce this: this industry provides fulfilling, lucrative career paths, worthwhile opportunities for those who are able to seize them and it's a sector where the entrepreneur really matters. Inevitably perhaps, I draw attention to the success of the likes of Zip World with its clear vision and a detailed plan of how to fulfil that vision, an understanding of how to work with complementary local business and an ability to engage with Visit Wales. There are other entrepreneurs who are perhaps a little more exasperated by Visit Wales and who work with complementary businesses themselves directly to create a high-quality visitor destination. Those destination businesses benefit their immediate hinterland in terms of secondary spend and employment, helping to regenerate local economies and fostering ideas and practices which bring on young people, valuing and using their potential rather than seeing them as cheap and dispensable.

As amendments 2 and 4 suggest, I've seen the reverse too. I understand that not every Welsh town can be a London or New York, but Welsh Government has used money from its tourism budget to offer financial support to communities across Wales to improve their environment and visitor experience in their areas. That money has gone primarily, but not exclusively, to local authorities, and some have worked very well, really where there's already an established tourism offer where tourism businesses and associations and the local authority have an inclusive strategy and a functioning relationship.

In other places, I think the success is far from clear, and I'd expect—I think; yes, I would expect—destination management plans, which attract funding, as I've said, to ensure that streets in somewhere like Burry Port, for example, are kept litter-free, rather than the cleaning services being reduced. I'd expect councils to help town-centre traders in somewhere like Llanrwst to see themselves as tourism businesses rather than watch them shut up shop over the bank holiday weekend. And that speaks to amendment 2, which highlights that there are still some tourism businesses that don't really understand the potential of a relationship with Visit Wales.

Mae twristiaeth yn ddiwydiant mor bwysig i Gymru—ac yn cyfrannu'n sylweddol at ein Cynnyrch Domestig Gros—fel bod yn rhaid i ni gadarnhau hyn: mae'r diwydiant yn darparu llwybrau gyrfa boddhaus a buddiol, cyfleoedd gwerth chweil i'r rhai sy'n gallu bachu arnynt ac mae'n sector lle y mae'r entrepreneur yn wirioneddol bwysig. Yn anochel efallai, rwy'n tynnu sylw at lwyddiant busnesau fel Zip World, gyda'i weledigaeth glir a chynllun manwl o sut i gyflawni'r weledigaeth honno, dealltwriaeth o sut i weithio gyda busnesau lleol cyflenwol a gallu i ymgysylltu â Croeso Cymru. Mae yna entrepreneuriaid eraill sydd ychydig yn fwy rhwystredig gyda Croeso Cymru ac sy'n gweithio gyda busnesau cyflenwol eu hunain yn uniongyrchol i greu cyrchfan o safon uchel i ymwelwyr. Mae busnesau'r cyrchfannau yn sicrhau budd i'w cyffiniau uniongyrchol o ran gwariant a chyflogaeth eilaidd, gan helpu i adfywio economïau lleol a meithrin syniadau ac arferion sy'n denu pobl ifanc, gan werthfawrogi a defnyddio eu potensial yn hytrach na'u gweld fel llafur rhad y gellir ei hepgor.

Fel y mae gwelliannau 2 a 4 yn ei awgrymu, rwyf wedi gweld y gwrthwyneb hefyd. Rwy'n deall na all pob tref yng Nghymru fod yn Llundain neu Efrog Newydd, ond mae Llywodraeth Cymru wedi defnyddio arian o'i chyllideb dwristiaeth i gynnig cymorth ariannol i gymunedau ledled Cymru wella eu hamgylchedd a phrofiad ymwelwyr yn eu hardaloedd. Mae'r arian wedi mynd yn bennaf, ond nid yn gyfan gwbl, i awdurdodau lleol, ac mae rhai wedi gweithio'n dda iawn, lle y ceir cynnig twristiaeth sefydledig eisoes mesur gwirionedd, lle y mae gan fusnesau a chymdeithasau twristiaeth a'r awdurdod lleol strategaeth gynhwysol a pherthynas weithredol.

Mewn mannau eraill, credaf fod y llwyddiant yn bell o fod yn amlwg, a byddwn yn disgwyl—credaf, ie, byddwn yn disgwyl—i gynlluniau rheoli cyrchfannau, sy'n denu cyllid, fel rwyf wedi'i ddweud, i sicrhau bod strydoedd yn rhywle fel Porth Tywyn, er enghraifft, yn cael eu cadw'n lân o sbwriel, yn hytrach na bod y gwasanaethau glanhau yn cael eu cwtogi. Byddwn yn disgwyl i gynghorau helpu masnachwyr canol y dref yn rhywle fel Llanrwst i weld eu hunain fel busnesau twristiaeth yn hytrach na'u gwyllo yn cau eu siopau dros benwythnos gŵyl y banc. Ac mae hynny'n gyfeiriad at welliant 2, sy'n amlygu bod yna rai busnesau twristiaeth o hyd nad ydynt yn deall potensial cysylltiad â Croeso Cymru.

The Welsh Conservatives conducted a Wales-wide survey of tourism businesses this year. A third of respondents had not engaged with Visit Wales in the last three years, and two of those years, of course, were when visitor figures were pretty good. While, of course, it would be justifiable to argue that perhaps some of these businesses could make more of an effort themselves to see what Visit Wales could do for them, a number of those who said that they hadn't engaged said it was as a result of previous dispiriting experiences. Unfortunately, those experiences were replicated for some of those who had engaged more recently. They raised the issue of the website and the accommodation grading programme, support for SMEs, the branding—. I don't have time for all the detail, I'm afraid, today, but the research showed that, if you were good at engaging with a Government department, you do well, and, if you don't know how, which is true of so many small businesses, then there is a feeling of exclusion. I think Visit Wales needs to work on that, and soon, because, although there were some very positive observations about Visit Wales in our survey, twice as many respondents said that they thought that an arm's-length body would do better than part of a Government department, as our third amendment suggests. They'll be more from our research in one of our own debates in the new year, but today we can confirm that we do see a VAT cut as nothing but good news for Welsh tourism. Thank you.

Cynhaliodd y Ceidwadwyr Cymreig arolwg drwy Gymru gyfan o fusnesau twristiaeth eleni. Nid oedd traean o'r ymatebwyr wedi ymgysylltu â Croeso Cymru yn ystod y tair blynedd diwethaf, ac roedd ffigurau ymwelwyr yn eithaf da ar gyfer dwy o'r blynyddoedd hynny. Er y byddai'n bosibl cyfiawnhau dadl y gallai rhai o'r busnesau hyn ymdrechu'n well eu hunain i weld beth y gallai Croeso Cymru ei wneud ar eu cyfer, dywedodd nifer o'r rhai a nododd nad oeddent wedi ymgysylltu mai profiadau digalon blaenorol a oedd yn gyfrifol am hynny. Yn anffodus, cafodd y profiadau hynny eu hailadrodd i rai o'r rhieni a oedd wedi ymgysylltu'n fwy diweddar. Cyfeiriodd y rhain at fater y wefan a'r rhaglen graddio llety, cymorth i fusnesau bach a chanolig, y brandio—. Nid oes gennyf amser i roi'r holl fanylion heddiw, yn anffodus, ond dangosodd yr ymchwil, os oeddech yn dda am ymgysylltu ag adran o'r Llywodraeth, rydych yn gwneud yn dda, ac os nad ydych yn gwybod sut i wneud hynny, sy'n wir am gynyfer o fusnesau bach, yna ceir teimlad o gael eich diystyru. Credaf fod angen i Croeso Cymru weithio ar hynny, ac yn fuan, oherwydd, er bod rhai sylwadau cadarnhaol iawn am Croeso Cymru yn ein harolwg, dywedodd dwywaith cymaint o ymatebwyr eu bod yn meddwl y byddai corff hyd braich yn gwneud yn well na rhan o adran Llywodraeth, fel y mae ein trydydd gwelliant yn ei awgrymu. Bydd rhagor o'n gwaith ymchwil yn cael ei gynnwys yn un o'n dadleuon ein hunain yn y flwyddyn newydd, ond heddiw, gallwn gadarnhau ein bod yn ystyried y byddai torri TAW yn ddim byd ond newyddion da i dwristiaeth Cymru. Diolch.

17:17

## William Powell [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

For the record, I declare a couple of interests. Firstly, I'm a member of the cross-party group on tourism, chaired by Suzy Davies. Also, until a number of years ago, I was vice-chair of Tourism Partnership Mid Wales, which has, in the meantime, been abolished. Finally, I'm a director of Y Felin Talgarth Mill, which is also reflected in the register of interests.

I'm very pleased indeed that we've put forward this motion today as many rural and seaside areas in my region rely hugely on tourism and have been heavily affected by flooding over recent years or disproportionately affected also by the recession. In places like this, when the young people leave, communities die, schools close, facilities disappear and local high streets fall into decline. By reducing the tax on tourism, we will attract new visitors and encourage them to spend more, thus stimulating the economy and creating jobs in areas that wouldn't otherwise have them. There are places in Britain, especially in rural areas, where the economic recovery hasn't yet been felt. We have the ability today to do something about that. It's our duty to do so. Reducing VAT on tourism offers particular benefits for the many small hospitality businesses in my region, which are often afraid to go above the threshold for VAT registration for fear of having to pay the 20 per cent VAT rate on their income. These businesses are being stifled and have little incentive to grow and to expand, but this policy has the potential to change that.

Rwy'n datgan rhai buddiannau ar gyfer y cofnod. Yn gyntaf, rwy'n aelod o'r grŵp trawsbleidiol ar dwristiaeth, a gadeirir gan Suzy Davies. Hefyd, tan nifer o flynyddoedd yn ôl, roeddwn yn is-gadeirydd Partneriaeth Twristiaeth Canolbarth Cymru, sydd wedi'i ddiddymu yn y cyfamser. Yn olaf, rwy'n un o gyfarwyddwyr Y Felin Talgarth Mill, sydd hefyd yn cael ei nodi yn y gofrestr o fuddiannau.

Rwy'n falch iawn ein bod wedi cyflwyno'r cynnig hwn heddiw gan fod cymaint o ardaloedd gwledig a glan môr yn fy rhanbarth yn dibynnu'n helaeth ar dwristiaeth ac effeithiwyd arnynt yn drwm gan lifogydd dros y blynyddoedd diwethaf. Effeithiwyd arnynt yn anghymesur gan y dirwasgiad hefyd. Mewn mannau fel hyn, pan fydd y bobl ifanc yn gadael, mae cymunedau'n marw, ysgolion yn cau, cyfleusterau'n diflannu a strydoedd mawr lleol yn dirywio. Drwy ostwng y dreth ar dwristiaeth, byddwn yn denu ymwelwyr newydd ac yn eu hannog i wario mwy, a thrwy hynny'n ysgogi'r economi a chreu swyddi mewn ardaloedd na fyddai fel arall yn eu cael. Ceir lleoedd ym Mhrydain, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, lle na theimlwyd yr adferiad economaidd hyd yn hyn. Mae gennym y gallu heddiw i wneud rhywbeth am hynny. Mae'n ddyletswydd arnom i wneud hynny. Mae gostwng TAW ar dwristiaeth yn cynnig manteision penodol i'r nifer o fusnesau lletygarwch bach yn fy rhanbarth, sy'n aml yn ofni mynd yn uwch na'r trothwy cofrestru ar gyfer TAW rhag ofn y byddant yn gorfod talu cyfradd TAW o 20 y cant ar eu hincwm. Mae'r busnesau hyn yn cael eu mygu ac nid oes ydynt yn cael fawr o gymhelliant i dyfu ac ehangu, ond mae gan y polisi hwn botensial i newid hynny.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Turning to the Conservative amendments, we welcome these amendments, which, in the main, add to our motion. However, perhaps the Welsh Conservatives here in the Assembly need to enter a more vigorous dialogue with their former leader, the noble Lord Bourne, who was quoted as saying in a recent debate that this was a 'non-runner'. He said:

'We have free entry to national museums, for example... many countries don't have that free entry.'

This, I would argue, is a somewhat narrow view of the measures that are needed to support the tourism sector here in Wales. Reducing VAT offers a far wider benefit in terms of stimulating the whole tourism sector, enabling businesses to reduce their costs and to attract more visitors. We will support amendments 1 and 2. The Enterprise and Business Committee's inquiry last year highlighted some key areas where Visit Wales gives cause for concern. The committee recommended that Visit Wales needs to involve businesses more closely with its marketing campaigns, so that they can better understand what is to be achieved and can better co-ordinate their work in accordance with that.

Last year saw the launch of a new branding for Visit Wales, yet its website remains deeply frustrating to use and is far from user-friendly. We need greater accountability for Visit Wales, as there seems to be no annual report on its work and little clarity over how much funding this body receives and how this funding is allocated. That also relates to the point I made earlier regarding the original tourism partnerships, which were a valuable contributor. There also still seems to be minimal co-ordination between Visit Wales and Visit Britain, which has a global reach of tens of millions of people. So, we do support the sentiment underlying amendment 2.

However, we do not support amendment 3. It is unclear exactly what structure the Conservatives are proposing or how this would work in practice. Suggesting the transfer of responsibility for tourism at this stage does smack of a party that doesn't know what it really wants to achieve.

There have been recent changes within Visit Wales, including a couple of senior appointments last year and the creation of the regional team, and we need to let these bed in. But there are many other steps that we can take, such as reducing VAT; more investment in broadband and Wi-Fi, so that businesses can improve their advertising; greater promotion of off-season and shoulder season activities to reduce seasonal variation; and the creation of a major events calendar to bring more key events to Wales, with all the benefits that they bring.

We will support Conservative amendment 4. Destination management plans do have a valuable role to play, but it is unclear how effective they are currently in Wales, and we would welcome more information on this in the Minister's response.

Gan droi at welliannau'r Ceidwadwyr, rydym yn croesawu'r gwelliannau hyn, sydd, ar y cyfan, yn ychwanegu at ein cynnig. Fodd bynnag, efallai bod angen i'r Ceidwadwyr Cymreig yma yn y Cynulliad gael sgwrs fwy bywiog gyda'u cyn-arweinydd, y bonheddig Arglwydd Bourne, y'i dyfynnwyd yn dweud mewn dadl yn ddiweddar fod hyn yn 'non-runner'. Dywedodd:

'We have free entry to national museums, for example... many countries don't have that free entry.'

Byddwn yn dadlau bod hon yn farn braidd yn gul ar y mesurau sydd eu hangen i gefnogi'r sector twristiaeth yma yng Nghymru. Mae gostwng TAW yn cynnig budd llawer ehangach o ran ysgogi'r sector twristiaeth cyfan, gan alluogi busnesau i leihau eu costau ac i ddenu mwy o ymwelwyr. Byddwn yn cefnogi gwelliannau 1 a 2. Roedd ymchwiliad y Pwyllgor Menter a Busnes y llynedd yn amlygu rhai meysydd allweddol lle y mae Croeso Cymru yn achos pryder. Argymhellodd y pwyllgor fod angen i Croeso Cymru gynnwys busnesau yn well yn ei ymgyrchoedd marchnata, fel y gallant ddeall yn well yr hyn sydd i'w gyflawni a gallu cydlynu eu gwaith yn well yn unol â hynny.

Y llynedd, gwelwyd lansio brand newydd ar gyfer Croeso Cymru, ac eto mae defnyddio ei wefan yn parhau i fod yn broses rwystredig iawn ac yn bell o fod yn hawdd. Mae arnom angen mwy o atebolrwydd dros Croeso Cymru, gan nad yw'n ymddangos bod unrhyw adroddiad blynyddol ar ei waith a fawr o eglurder ynglŷn â faint o gyllid y mae'r corff hwn yn ei dderbyn a sut y caiff y cyllid ei ddyrannu. Mae hynny hefyd yn ymwneud â'r pwynt a wneuthum yn gynharach ynglŷn â'r partneriaethau twristiaeth gwreiddiol, a oedd yn gyfrannwyr gwerthfawr. Yn ogystal, mae'n ymddangos nad oes fawr o gydlynu o hyd rhwng Croeso Cymru a Visit Britain, sydd â chyrhaeddiad byd-eang o ddegau o filiynau o bobl. Felly, rydym yn cefnogi'r ystyriaeth sy'n sail i welliant 2.

Fodd bynnag, nid ydym yn cefnogi gwelliant 3. Nid yw'n glir pa strwythur yn union y mae'r Ceidwadwyr yn ei gynnig na sut y byddai hyn yn gweithio'n ymarferol. Mae awgrymu trosglwyddo cyfrifoldeb dros dwristiaeth ar y cam hwn yn rhoi'r argraff o blaid nad yw'n gwybod beth y mae eisiau ei gyflawni.

Cafwyd newidiadau diweddar o fewn Croeso Cymru, gan gynnwys un neu ddau o benodiadau i swyddi uwch y llynedd a chreu tîm rhanbarthol, ac mae angen i ni adael i'r rhain ymwreiddio. Ond mae llawer o gamau eraill y gallwn eu cymryd, megis gostwng TAW; mwy o fuddsoddi mewn band eang a Wi-Fi, fel y gall busnesau wella eu gweithgaredd hysbysebu; hyrwyddo gweithgareddau'r tymor tawel a'r tymor rhwng y tymor prysur a'r tymor tawel yn well, er mwyn lleihau amrywio tymhorol; a chreu calendr digwyddiadau mawr er mwyn dod â mwy o ddigwyddiadau allweddol i Gymru, gyda'r holl fuddion y maent yn eu cynnig.

Byddwn yn cefnogi gwelliant 4 y Ceidwadwyr. Mae gan gynlluniau rheoli cyrchfannau rôl werthfawr i'w chwarae, ond nid yw'n glir pa mor effeithiol ydynt ar hyn o bryd yng Nghymru, a byddem yn croesawu mwy o wybodaeth am hynny yn ymateb y Gweinidog.



17:22

**Sandy Mewies** [Bywgraffiad Biography](#)

Can I say first of all that I fully support anything at all that helps us to reduce the cost to the tourism industry here in Wales? We should be capitalising on the excellent tourism figures that Wales is attracting and I do find it very strange that anyone would want to ditch Visit Wales, which has been, really, at the forefront of ensuring, because of the things that have been organised, that Wales is indeed flourishing. We've had major events—sporting and otherwise—that have given us greater exposure to visitors.

If you don't mind, I'd like to touch on tourism in my own area. Flintshire is the gateway to north Wales and has a great deal of tourism potential and some of it isn't always recognised. But thanks to Welsh Government support, we're now seeing some of that potential realised, from faith tourism to walking trails, and of course we've got the castles, which are worth a visit by anyone at all. It is important that we go on doing this, because tourism isn't just something that we can talk about as figures being on the increase; for an area like mine it boosts the local economy and many, many small businesses do depend on tourism and it is of great economic benefit to many of my villages and towns.

I've always banged the tourism drum for Delyn and I'm pleased to say that progress is being made. In my area, we've got St Winefride's Well at Holywell, Basingwerk Abbey at Greenfield and the historic Flint castle, but I do feel that they need more promotion, and I'm very pleased that the need to do that promotion has been recognised both by the Minister, Edwina Hart, and by Ken Skates who was with me recently at Flint castle, where really good ideas were discussed, even down to the detail of additional brown signs, which are needed. It's that sort of detail that is needed for areas like mine.

The Welsh Government is right to focus on major tourism events, but we must continue to focus on delivery in areas like mine, because the visitor numbers do create growth. So, what I hope will happen in future is: when there is a major event here in Cardiff, Newport or Swansea, can we ensure that other areas of Wales, perhaps those not quite so well known for their tourism potential, are promoted as well as places that are well worth a visit, and we continue to link things up?

A gaf fi ddweud yn gyntaf oll fy mod yn llwyr gefnogi unrhyw beth o gwbl sy'n ein helpu i leihau'r gost i'r diwydiant twristiaeth yma yng Nghymru? Dylem fod yn manteisio ar y ffigurau twristiaeth ardderchog y mae Cymru yn eu denu ac rwy'n credu ei bod yn rhyfedd iawn y byddai unrhyw un yn awyddus i gefnu ar Croeso Cymru, sydd wedi bod ar flaen y gad, mewn gwirionedd, o ran sicrhau bod Cymru yn ffynnu go iawn, oherwydd y pethau sydd wedi cael eu trefnu. Rydym wedi cael digwyddiadau o bwys—chwaraeon ac fel arall—sydd wedi ein rhoi mewn mwy o gysylltiad ag ymwelwyr.

Os nad oes ots gennych, hoffwn grybwyll twristiaeth yn fy ardal fy hun. Sir y Fflint yw'r porth i ogledd Cymru, ac mae gan yr ardal lawer iawn o botensial twristiaeth nad yw llawer ohono'n cael ei gydnabod bob amser. Ond diolch i gefnogaeth Llywodraeth Cymru, rydym yn awr yn gweld rhywfaint o'r potensial hwnnw'n cael ei wireddu, o dwristiaeth ffydd i lwybrau cerdded, ac wrth gwrs mae'r cestyll yno, sy'n werth i bawb ymweld â hwy. Mae'n bwysig ein bod yn parhau i wneud hyn, gan nad yw twristiaeth yn rhywbeth y gallwn siarad amdano fel ffigurau'n cynyddu; i ardaloedd fel fy ardal i, mae'n rhoi hwb i'r economi leol ac mae llawer iawn o fusnesau bach yn dibynnu ar dwristiaeth, ac mae o fudd economaidd mawr i nifer o fy mhentrefi a threfi.

Rwyf bob amser wedi bod yn uchel fy nghloch dros dwristiaeth yn Nelyn ac rwy'n falch o ddweud bod cynnydd yn cael ei wneud. Yn fy ardal i, ceir Ffynnon Gwenffrewi yn Nhreffynnon, Abaty Dinas Basing ym Maes-glas a chastell hanesyddol y Fflint, ond rwy'n teimlo bod angen mwy o hyrwyddo arnynt, ac rwy'n falch iawn fod yr angen i wneud hynny wedi'i gydnabod gan y Gweinidog, Edwina Hart, a chan Ken Skates, a oedd gyda mi yn ddiweddar yng nghastell y Fflint, lle y trafodwyd syniadau da iawn, hyd at fanylion ynglŷn ag arwyddion brown ychwanegol, sydd eu hangen. Y math hwn o fanylder sydd ei angen ar ardaloedd fel fy un i.

Mae Llywodraeth Cymru yn iawn i ganolbwyntio ar ddigwyddiadau twristiaeth o bwys, ond rhaid i ni barhau i ganolbwyntio ar gyflawni mewn ardaloedd fel fy un i, gan fod niferoedd yr ymwelwyr yn creu twf. Felly, yr hyn rwy'n gobeithio y bydd yn digwydd yn y dyfodol yw: pan fydd digwyddiad o bwys yma yng Nghaerdydd, Casnewydd neu Abertawe, a gawn ni sicrhau bod ardaloedd eraill yng Nghymru, efallai'r rhai nad ydynt mor adnabyddus am botensial eu twristiaeth, yn cael eu hyrwyddo hefyd fel lleoedd sy'n werth ymweld â hwy, a'n bod yn parhau i gydgyssylltu pethau?

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

17:24

**Mark Isherwood** [Bywgraffiad Biography](#)

Will you take an intervention?

A wnewch chi gymryd ymyriad?

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

17:24

**Sandy Mewies** [Bywgraffiad Biography](#)

Yes.

Gwnaf.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

17:25

**Mark Isherwood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Given that the incoming chair of the Wales Tourism Alliance is a Flintshire resident, and one known to both of us, would you encourage—and I fully support what you're saying—the Welsh Government and tourism bodies to engage with them and utilise his expertise and knowledge?

O ystyried bod cadeirydd newydd Cynghrair Twristiaeth Cymru yn un o drigolion Sir y Fflint, ac yn gyfarwydd i'r ddau ohonom, a fydddech yn annog—ac rwy'n cefnogi'r hyn rydych yn ei ddweud yn llwyr—Llywodraeth Cymru a chyfrff twristiaeth i ymgysylltu â hwy a defnyddio ei arbenigedd a'i wybodaeth?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

17:25

**Sandy Mewies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, in my experience, the Welsh Government do engage with everyone involved in tourism, and what I was going to go on to say was that when Ken Skates came to look around my area, he talked to everyone who was interested in promotion, even, with me, going along to talk to some visitors to Flint castle to find out that they were from the north, they'd come to see Flint castle and then were going to visit other castles in the area. Those sorts of linkages are what we must continue to promote, and I hope that the Deputy Minister will be able to give us that guarantee that we'll do it.

Yn fy mhrofiad i, mae Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu â phawb sy'n ymwneud â thwristiaeth, a'r hyn roeddwn am fynd ymlaen i'w ddweud oedd, pan ddaeth Ken Skates i edrych o gwmpas fy ardal, siaradodd â phawb a oedd â diddordeb mewn hyrwyddo, gan fynd draw, gyda mi, i siarad â rhai o'r bobl a oedd yn ymweld â chastell y Fflint, hyd yn oed, i ganfod eu bod yn dod o'r gogledd. Roeddent wedi dod i weld castell y Fflint ac yna roeddent yn mynd i ymweld â chestyll eraill yn yr ardal. Y mathau hynny o gysylltiadau yw'r hyn sy'n rhaid i ni barhau i'w hyrwyddo, ac rwy'n gobeithio y bydd y Dirprwy Weinidog yn gallu rhoi'r sicrwydd i ni y byddwn yn gwneud hynny.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

17:25

**Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Taxation, of course, is there to fund Government services, but if it's badly targeted, it can have unintended consequences, and I think, in this particular case—. While VAT is a form of taxation there to fund Government services, but in terms of tourism, it does have a poor impact and is, actually, impacting and undermining that particular industry.

Mae trethiant yn bodoli er mwyn ariannu gwasanaethau'r Llywodraeth, ond os yw'n cael ei dargedu'n wael, gall arwain at ganlyniadau anfwriadol, ac rwy'n meddwl, yn yr achos penodol hwn—. Er bod TAW yn fath o drethiant sydd yno i ariannu gwasanaethau'r Llywodraeth, o ran twristiaeth, mae'n cael effaith wael ac mewn gwirionedd, mae'n effeithio ar y diwydiant penodol hwnnw, ac yn ei danseilio.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

The proposal we have in this motion is to try to tackle that particular trend. In this instance, reducing VAT on tourist accommodation and attractions offers an opportunity to grow the nation's future tax receipts, whilst, at the same time, helping the tourism industry. The upfront cost of this policy is £1.2 billion a year, but more than half of that would be recouped immediately from savings in unemployment benefits for the people we found work for. Research carried out between 2011 and 2012 by Professor Adam Blake, a Treasury adviser, using the computable general equilibrium model used by Her Majesty's Treasury, found that a reduction in VAT on visitor accommodation and attractions would be revenue neutral and contribute £4 billion to the UK economy. According to Professor Blake, reducing VAT in this way

Yr argymhelliad sydd gennym yn y cynnig hwn yw ceisio mynd i'r afael â'r duedd benodol honno. Yn yr achos hwn, mae gostwng TAW ar lety ac atyniadau i dwristiaid yn cynnig cyfle i gynyddu derbyniadau treth y genedl yn y dyfodol, gan helpu'r diwydiant twristiaeth ar yr un pryd. Cost ymlaen llaw'r polisi yw £1.2 biliwn y flwyddyn, ond byddai mwy na hanner hwnnw'n cael ei adennill ar unwaith o'r arbedion ar fudd-daliadau diweithdra i'r bobl y down o hyd i waith ar eu cyfer. Canfu ymchwil a wnaed rhwng 2011 a 2012 gan yr Athro Adam Blake, un o gynghorwyr y Trysorlys, gan ddefnyddio'r model cydbwysedd cyffredinol cyfrifadwy a ddefnyddir gan Drysorlys Ei Mawrhydi, y byddai gostwng TAW ar lety ac atyniadau i ymwelwyr yn niwtral o ran refeniw ac yn cyfrannu £4 biliwn i economi'r DU. Yn ôl yr Athro Blake, mae gostwng TAW yn y modd hwn

'represents one of the most, if not the most efficient, means of generating GDP gains at a low cost to the Exchequer that we have seen with the CGE model'.

'represents one of the most, if not the most efficient, means of generating GDP gains at a low cost to the Exchequer that we have seen with the CGE model'.

Further research by Her Majesty's Treasury compared other fiscal measures of lower corporation tax and reduced fuel duty with reduced tourism VAT. It found that, with fuel duty, 49 per cent of the initial cost would be recovered through additional tax receipts from additional economic output. It was 46 per cent for corporation tax and 78 per cent for tourism VAT. Cutting tax and VAT is therefore a highly efficient measure—a win-win all round.

Roedd ymchwil pellach gan Drysorlys Ei Mawrhydi yn cymharu mesurau cyllidol eraill ar ffurf treth gorfforaeth is a threth tanwydd is gyda gostwng TAW ar dwristiaeth. O ran treth danwydd, canfu y byddai 49 y cant o'r gost gychwynnol yn cael ei hadennill drwy dderbyniadau treth ychwanegol o gynhyrchiant economaidd ychwanegol. Roedd yn 46 y cant ar gyfer y dreth gorfforaeth a 78 y cant ar gyfer TAW twristiaeth. Felly, mae torri treth a TAW yn gamau hynod effeithlon—byddai pawb ar eu hennill.

Tourism is a key industry in Wales, contributing £8.7 billion to our economy, and supporting almost 250,000 jobs. It's particularly important in areas such as Swansea and Gower in my region and, of course, also in Porthcawl. Those areas are attractions in their own right, but there are many local businesses that would benefit immensely from such a move, including accommodation providers across the region and on the Gower peninsula.

Tourism creates jobs where no other industry can, across every square foot of this country. It has been the fastest-growing job sector in the UK, employing 3.1 million people or 10 per cent of the workforce. Cutting VAT on tourism could generate 80,000 new jobs over three years and 120,000 over 10 years, according to research by Nevin Associates, and provide starter jobs for young people and those with low skills who might otherwise be at risk of long-term unemployment.

Recent statistics on unemployment in Wales show that the 16 to 24 age group continues to have the highest unemployment rate at 18.9 per cent. With around 44 per cent of people employed in the tourism sector being under 30 years old, measures to support this sector could, therefore, play a key role in reducing the youth unemployment rate in Wales.

It also offers an opportunity to ensure that jobs are better paid. New figures today show that Wales is the only part of the UK where average wages are decreasing. The annual survey of hours and earnings shows that average weekly wages in Wales decreased by 0.1 per cent this year—the only part of the UK to show a decrease.

In a survey of British Hospitality Association members in 2012, over 95 per cent of respondents said that if VAT was lowered then some or all of this would be passed on. Eighty-two per cent said they would invest in more products or facilities; 67 per cent would employ more people; 57 per cent would invest in more training; and 48 per cent would increase staff wages. Reducing VAT to a fairer level, therefore, offers the potential to boost jobs, improve skills and also help to ensure that tourism becomes a more high-wage industry, so that we no longer lag at the bottom of the league tables in terms of average earnings.

People want a vibrant Welsh economy with real job opportunities so that they can get on in life. This policy represents an investment that will create opportunities and help sustain communities today, and that will save money for the Government in the future.

Mae twristiaeth yn ddiwydiant allweddol yng Nghymru, sy'n cyfrannu £8.7 biliwn i'n heconomi, ac yn cynnal bron 250,000 o swyddi. Mae'n arbennig o bwysig mewn ardaloedd fel Abertawe a Gŵyr yn fy rhanbarth i ac wrth gwrs, ym Mhorthcawl. Mae'r ardaloedd hynny'n atyniadau ynddynt eu hunain, ond mae llawer o fusnesau lleol a fyddai'n cael budd aruthrol o weithred o'r fath, gan gynnwys darparwyr llety ledled y rhanbarth ac ar benrhyn Gŵyr.

Mae twristiaeth yn creu swyddi lle na all unrhyw ddiwydiant arall wneud hynny, dros bob troedfedd sgwâr y wlad hon. Dyma'r sector swyddi sydd wedi tyfu gyflymaf yn y DU, gan gyflogi 3.1 miliwn o bobl neu 10 y cant o'r gweithlu. Gallai torri TAW ar dwristiaeth greu 80,000 o swyddi newydd dros dair blynedd a 120,000 dros 10 mlynedd, yn ôl ymchwil gan Nevin Associates, a gallai ddarparu swyddi cychwynnol i bobl ifanc a'r rhai sydd heb lawer o sgiliau a allai fod mewn perygl fel arall o wynebu diweithdra hirdymor.

Mae ystadegau diweddar ar ddiweithdra yng Nghymru yn dangos mai'r grŵp oedran rhwng 16 a 24 oed sydd â'r gyfradd ddiweithdra uchaf o hyd, sef 18.9 y cant. Gyda thua 44 y cant o'r bobl sydd wedi'u cyflogi yn y sector twristiaeth o dan 30 oed, gallai mesurau i gefnogi'r sector chwarae rhan allweddol yn lleihau cyfradd diweithdra ymhlith pobl ifanc yng Nghymru.

Mae hefyd yn cynnig cyfle i sicrhau bod swyddi'n talu cyflogau gwell. Mae ffigurau newydd heddiw yn dangos mai Cymru yw'r unig ran o'r DU lle y mae cyflogau cyfartalog yn gostwng. Mae'r arolwg blynyddol o oriau ac enillion yn dangos bod cyflogau wythnosol cyfartalog yng Nghymru wedi gostwng 0.1 y cant eleni—yr unig ran o'r DU i ddangos gostyngiad.

Mewn arolwg o aelodau Cymdeithas Lletygarwch Prydain yn 2012, dywedodd dros 95 y cant o'r ymatebwyr, pe bai TAW yn cael ei ostwng, yna byddai rhywfaint neu'r cyfan ohono'n cael ei drosglwyddo ymlaen. Dywedodd 82 y cant y byddent yn buddsoddi mewn mwy o gynhyrchion neu gyfleusterau; byddai 67 y cant yn cyflogi mwy o bobl; byddai 57 y cant yn buddsoddi mewn mwy o hyfforddiant; a byddai 48 y cant yn cynyddu cyflogau staff. Mae lleihau TAW i lefel decach, felly, yn cynnig y potensial i roi hwb i swyddi, gwella sgiliau a hefyd helpu i sicrhau bod twristiaeth yn dod yn ddiwydiant sy'n cynnig cyflogau uwch, fel na fyddwn yn llusgo ar waelod y tablau cynghrair mwyach o ran cyfartaledd enillion.

Mae pobl eisiau economi ffyniannus yng Nghymru, gyda chyfleoedd gwaith go iawn, fel y gallant symud ymlaen mewn bywyd. Mae'r polisi hwn yn fuddsoddiad a fydd yn creu chyfleoedd ac yn helpu i gynnal cymunedau heddiw, a fydd yn arbed arian i'r Llywodraeth yn y dyfodol.

Kirsty Williams attended a meeting with tourism operators in Powys earlier this week, and there was overwhelming agreement in that meeting that reducing VAT on tourism is the single biggest thing that we could do to support businesses in this sector, to help them grow and expand and to boost opportunities. That is why I believe it is vital that we send a strong message to the UK Government, following this debate today, that we want to see this change that could play a huge role in generating investment and driving regeneration across Wales. I hope that Members will support this motion.

Mynychodd Kirsty Williams gyfarfod gyda gweithredwyr twristiaeth ym Mhowys yn gynharach yr wythnos hon, a chafwyd cytundeb helaeth yn y cyfarfod mai gostwng TAW ar dwristiaeth yw'r peth mwyaf y gallem ei wneud i gefnogi busnesau yn y sector, i'w helpu i dyfu ac ehangu ac i hybu cyfleoedd. Dyna pam rwy'n credu ei bod yn hanfodol ein bod yn anfon neges gref at Lywodraeth y DU, yn dilyn y ddadl hon heddiw, ein bod am weld y newid hwn a allai chwarae rhan enfawr yn cynhyrchu buddsoddiad ac yn ysgogi adfywio ledled Cymru. Rwy'n gobeithio y bydd yr Aelodau'n cefnogi'r cynnig.

17:31

## Rhun ap Iorwerth [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Mae twristiaeth yn werth bron £7 biliwn i'r economi Gymreig. Mae'n cefnogi rhyw 200,000 o swyddi. Mae'n un o'n sectorau allforio mwyaf ni. Felly, mae twristiaeth yn gryfder I ni yng Nghymru, ac rwy'n gredwr cryf iawn mewn adeiladu, neu geisio adeiladu, ar ein cryfderau. Rwyf wedi cael fy argyhoeddi ers tro bod treth ar werth yn gallu cael ei ddefnyddio fel arf er mwyn rhoi hwb i'r diwydiant twristiaeth. Wrth gwrs, mae yna nifer o feysydd lle mae gan aelod-wladwriaethau'r Undeb Ewropeaidd yr hawl I amrywio treth ar werth. Mae twristiaeth yn un o'r rheini. Felly, pam ddim defnyddio'r arf hwnnw?

Os edrychwn ni ar draws Ewrop, rydym yn gweld mai dim ond pedair aelod-wladwriaeth sydd ddim yn defnyddio'r hawl hwn o dan ddeddf Ewropeaidd, a bod Prydain yn un o'r rheini. Mae hynny'n tanlinellu, rwy'n meddwl, yr anfantais ddiangen sy'n wynebu ein diwydiant twristiaeth. Y canlyniad yw y gallai teuluoedd sy'n dewis gwyliau yng Nghymru fod yn talu bron i dair gwaith yn fwy o dreth ar werth o'i gymharu â gwyliau yn Ffrainc neu'r Almaen, a dwywaith cymaint â'r Eidal neu Sbaen.

Rydym yn gwybod bod hyn yn gallu gweithio yn ymarferol. Mae gen i ddwy enghraifft i chi o'r ynysoedd yma. Mae grŵp McKeever Hotels wedi bod yn rhedeg gwestai yng Ngogledd Iwerddon ers tro. Fe wnaethon nhw brynu gwesty yn y weriniaeth y llynedd a synnu o weld y gwahaniaeth yr oedd 11 y cant yn llai o dreth ar werth yn ei gael ar eu gallu nhw, yn eu gwesty yn y weriniaeth, i fuddsoddi mwy mewn staff ac i fuddsoddi mewn adnoddau.

Enghraifft arall ichi: yn ystod haf 2013, mi wnaeth gwesty'r Cavendish yn Llundain newid eu prisiau i gyfateb i ostyngiad mewn treth ar werth, o 20 y cant i 5 y cant. Mi welon nhw eu hincwm yn cynyddu. Wrth gwrs, nid oedd y gwesty ar eu hennill achos eu bod nhw'n dal yn gorfod talu'r dreth ar werth yn llawn i'r Trysorlys. Ond beth sy'n allweddol, wrth gwrs, yw bod astudiaethau yn awgrymu yn glir iawn y byddai yna gynnydd, nid gostyngiad, yn yr arian sy'n cael ei dalu i'r Trysorlys, a hynny oherwydd cynnydd mewn gweithgarwch economaidd. Yn ôl un darn o ymchwil annibynnol gan ymgynghorydd i'r Trysorlys, gan ddefnyddio model y Trysorlys ei hun, mi fyddai gostwng y gyfradd I 5 y cant—rwy'n dyfynnu:

'one of the most efficient, if not the most efficient, means of generating GDP gains at low cost to the exchequer'.

Tourism is worth nearly £7 billion to the Welsh economy. It supports around 200,000 jobs. It is one of our biggest export sectors. So, tourism is a strength for us in Wales, and I am a strong believer in building, or trying to build, on our strengths. I have been convinced for a while that VAT can be used as a tool to boost the tourism industry. Of course, there are a number of areas where EU member states have the right to vary VAT. Tourism is one of those. So, why not use that tool?

If we look across Europe, we see that only four member states do not use this right under European law, and Britain is one of those. That underlines, I think, the unnecessary disadvantage that faces our tourism industry. The result is that families who choose to take a holiday in Wales could pay nearly three times as much in VAT, compared with holidays in France or Germany, and twice as much as Italy or Spain.

We do know that this can work on a practical level. I have two examples for you, from these islands. The McKeever Hotels group has been running hotels in Northern Ireland for a while. They bought a hotel in the republic last year and were surprised to see the difference that 11 per cent less of VAT had on their ability, with their hotel in the republic, to invest further in staff and to invest in resources.

Another example is that, during the summer of 2013, the Cavendish hotel in London changed their prices to correspond to a reduction in VAT, from 20 per cent to 5 per cent. They saw their income increase. Of course, the hotel didn't benefit because they still had to pay the full VAT rates to the Treasury. What is key, of course, is that studies suggest clearly that there would be an increase, not a reduction, in the money that is paid to the Treasury, because of an increase in economic activity. According to one piece of independent research by an adviser to the Treasury, using the Treasury's model itself, reducing the rate to 5 per cent would be

'one of the most efficient, if not the most efficient, means of generating GDP gains at low cost to the exchequer'.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Mi oedd ymchwil gan Deloitte a Tourism Respect yn awgrymu y byddai gostyngiad yn cyfrannu, o bosibl, £2.6 biliwn i'r Trysorlys yn ychwanegol dros gyfnod o 10 mlynedd, gan greu efallai 80,000 o swyddi. Mae yna amcangyfrif y gallai tua 6,000 o'r rheini fod yng Nghymru, efo £160 miliwn o hwb economaidd i'n sector twristiaeth. I etholaeth sydd mor ddibynnol ag Ynys Môn ar y sector yma, mae'n hawdd gweld cymaint o fudd fyddai'n dod allan o hynny.

Nid yw'r cynnig yma gan y Democratiaid Rhyddfrydol yn gyflawn. Mae'n sôn am dorri treth ar werth ar dwristiaeth. Wrth gwrs, nid oes treth ar werth ar dwristiaeth. Mae yna dreth ar werth ar sectorau y mae twristiaeth yn manteisio arnynt, ond yn sicr mi wnawn ni gefnogi'r cynnig yma o ran yr egwyddor bwysig sydd ynddo. Mi gefnogwn ni welliant 1 y Ceidwadwyr. Wrth gwrs, mae gan y sector preifat ran bwysig iawn i'w chwarae o ran ffyniant economaidd mewn sawl rhan o Gymru.

O ran gwelliant 4, mi gefnogaf, wrth gwrs, unrhyw gamau sy'n ein galluogi ni i werthuso effeithlonrwydd y camau y mae'r Llywodraeth yn eu cymryd mewn perthynas â'r diwydiant twristiaeth. Nid wyf yn anghytuno, chwaith, efo'r 'sentiment' yn y ddau welliant arall. Mae'n bosibl eu bod braidd yn anecdotaidd, ond yn sicr ni fyddwn yn pleidleisio yn eu herbyn.

Beth sy'n bwysig, rwy'n meddwl, yn y cynnig hwn heddiw—ac rwy'n croesawu'r ffaith bod y Democratiaid Rhyddfrydol wedi dod â hwn o'n blaenau ni—yw ein bod ni fel Cynulliad yn cael cyfle l ddatgan cefnogaeth i'r egwyddor o ddefnyddio, fel yr wyf yn dweud, treth ar werth fel arf i'r helpu'r diwydiant twristiaeth. Yn digwydd bod, rwyf wedi bod yn gefnogwr cyhoeddus i'r ymgyrch hon, fel nifer eraill o Aelodau'r Cynulliad yma, ers tro. Heddiw, mi allwn ni l gyd, fel Cynulliad, roi ein cefnogaeth hefyd.

Research by Deloitte and Tourism Respect suggested that a reduction would contribute possibly an additional £2.6 billion to the Treasury over a period of 10 years, creating perhaps 80,000 jobs. It is estimated that around 6,000 of those could be in Wales, with a £160 million economic boost to our tourism sector. For a constituency that is as reliant as Ynys Môn on this sector, it's easy to see how much benefit would be derived from that.

I do not think that this motion by the Liberal Democrats is complete. It discusses reducing VAT on tourism. Of course, there is no VAT on tourism. There is VAT on sectors that tourism takes advantage of, but we will certainly support this motion in terms of the important principle that is contained in it. We will support amendment 1, tabled by the Conservatives. Of course, the private sector has a very important part to play in economic growth in many parts of Wales.

In terms of amendment 4, I would support any steps that will enable us to evaluate the effectiveness of the steps that the Government are taking in relation to the tourism industry. I don't disagree either with the sentiment in the other two amendments. Possibly they are a little anecdotal, but certainly we won't be voting against them.

What's important, I think, in this motion today—and I do welcome the fact that the Liberal Democrats have brought this before us—is that we as an Assembly have an opportunity to state our support for the principle of using, as I've said, VAT as a tool to help the tourism industry. As it happens, I've been a public supporter of this campaign, as have a number of other Assembly Members, for a while. Today, we can all, as an Assembly, give our support to it.

17:35

## **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call on the Deputy Minister to speak on behalf of the Government, Ken Skates.

Galwaf ar y Dirprwy Weinidog i siarad ar ran y Llywodraeth, Ken Skates.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

17:35

## **Kenneth Skates** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth / The Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism*

Thank you, Presiding Officer. I welcome this debate today, and the opportunity for me to respond to a number of valuable contributions. I'd like to update Members, as well, on the success of the Welsh Government's tourism strategy. Last year was a record-breaking year for tourism in Wales, with domestic-staying visitors to Wales peaking at over 10 million trips, with spend up 9 per cent over the last two years. Trips from international visitors have increased by 9 per cent since 2012, and spend is up by 6 per cent. Just over two years into our tourism strategy we are ahead of progress to grow tourism earnings in real terms by 10 per cent or more by 2020.

Diolch i chi, Lywydd. Croesawaf y ddadl hon heddiw, a'r cyfle i mi ymateb i nifer o gyfraniadau gwerthfawr. Hoffwn roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau hefyd am lwyddiant strategaeth twristiaeth Llywodraeth Cymru. Roedd y llynedd yn flwyddyn well nag erioed i dwristiaeth yng Nghymru, gyda nifer yr ymwelwyr domestig a oedd yn aros dros nos yn cyrraedd uchafbwynt o dros 10 miliwn o deithiau, gyda gwariant 9 y cant yn uwch dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae teithiau gan ymwelwyr rhyngwladol wedi codi 9 y cant er 2012, a'r gwariant wedi cynyddu 6 y cant. Ychydig dros ddwy flynedd ers lansio ein strategaeth dwristiaeth rydym yn gwneud cynnydd gwell na'r disgwyl tuag at sicrhau twf o 10 y cant neu fwy mewn enillion twristiaeth mewn termau real erbyn 2020.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

On point 1 of the motion, the Welsh Government supports the significant level of employment in the tourism industry. A Deloitte Oxford Economics report in 2013 indicated that tourism's overall contribution to the Welsh economy was around £8.7 billion, and supported almost a quarter of a million jobs. Among the Welsh Government priority sectors, tourism, in terms of direct employment, is the second largest employer behind energy and environment. In many parts of Wales, it is the No. 1 employer. There has been a growth rate for employment in tourism of 20.6 per cent since 2005, which is the second highest rate of growth of all our sectors.

On point 2, again, we would support the importance of tourism in terms of employment opportunities for young people. Tourism is by far the largest sector for employment and creation of jobs for young people in Wales. In 2014, there were 42,000 jobs for 16 to 24-year-olds, which is equivalent to half of employment for this age group in the priority sectors, and one in every four jobs for this age group right across Wales. Tourism also provides the highest proportion of employment opportunities for women in our priority sectors. 52 per cent of all those employed in tourism were female in 2014, compared to 32 per cent in the sectors as a whole.

In terms of skills, our tourism strategy includes three strategic priorities for skills and training: firstly, training people, so that they can thrive in the tourism sector; secondly, applying those skills to improve customer satisfaction and overall experiences; and thirdly, changing perceptions of tourism as a career choice. My tourism team is working with the Department for Education and Skills to identify skills and training that meet the current and future needs of the tourism and hospitality sector. We're also signposting businesses and individuals in the sector to that information. Furthermore, we are also taking forward initiatives relating to the improvement of perceptions of the career opportunities that exist within the tourism and hospitality sector, supporting the delivery of appropriate customer service training within the industry, and also supporting the development of a new apprenticeship in outdoor programmes.

In order to improve perceptions of careers in the sector, this year, we had a stand at Skills Cymru for the second year in a row, in both Llandudno and in Cardiff. This gave us the opportunity to showcase the wide variety of career opportunities to a total of almost 10,000 visitors made up of students, teachers, careers advisers and also parents. We are also working with Careers Wales on their new school and business programme, aiming to encourage tourism and hospitality businesses to host visits from local school students, or give inspirational talks to schools about career opportunities. We firmly believe that the best advocates for careers in the tourism sector are those who provide the jobs in that sector. We are also developing resources that we will use with Careers Wales to provide information to young people on careers in the sector. We are also looking to raise the profile and the status of the sector in terms of careers and prospects. We are helping to improve this in a range of ways, including the creation of more centres of excellence for entry learning and skills development through to management and specialist-level skills.

Ar bwynt 1 y cynnig, mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r lefel sylweddol o gyflogaeth yn y diwydiant twristiaeth. Roedd adroddiad Deloitte Oxford Economics yn 2013 yn dangos mai £8.7 biliwn oedd cyfanswm cyfraniad twristiaeth i economi Cymru, a'i bod yn cynnal bron i chwarter miliwn o swyddi. Ymhlith sectorau â blaenoriaeth Llywodraeth Cymru, twristiaeth, o ran cyflogaeth uniongyrchol, yw'r cyflogwr mwyaf ond un ar ôl ynni a'r amgylchedd. Mewn sawl rhan o Gymru, dyma'r cyflogwr mwyaf. Mae cyfradd twf swyddi twristiaeth er 2005 yn 20.6 y cant, sef y gyfradd twf uchaf ond un o'n holl sectorau.

O ran pwynt 2, unwaith eto, byddem yn cefnogi pwysigrwydd twristiaeth o ran cyfleoedd gwaith i bobl ifanc. Twristiaeth yw'r sector mwyaf o ran gwaith a chreu swyddi i bobl ifanc yng Nghymru o bell ffordd. Yn 2014, roedd 42,000 o swyddi i rai rhwng 16 a 24 oed, sy'n cyfateb i hanner y swyddi yn y grŵp oedran hwn yn y sectorau â blaenoriaeth, ac un o bob pedair swydd yn y grŵp oedran hwn ledled Cymru. Twristiaeth hefyd sy'n darparu'r gyfran uchaf o gyfleoedd cyflogaeth i fenywod yn ein sectorau â blaenoriaeth. Roedd 52 y cant o'r holl rai a gyflogid mewn twristiaeth yn ferched yn 2014, o'i gymharu â 32 y cant yn y sectorau yn gyffredinol.

O ran sgiliau, mae ein strategaeth twristiaeth yn cynnwys tair blaenoriaeth strategol ar gyfer sgiliau a hyfforddiant: yn gyntaf, hyfforddi pobl, fel eu bod yn gallu ffynnu yn y sector twristiaeth; yn ail, cymhwyso'r sgiliau hynny i wella boddhad a phrofiadau cyffredinol cwsmeriaid; ac yn drydydd, newid canfyddiadau ynghylch twristiaeth fel dewis gyrfa. Mae fy nhim twristiaeth yn gweithio gyda'r Adran Addysg a Sgiliau ar nodi sgiliau a hyfforddiant sy'n diwallu anghenion y sector twristiaeth a lletygarwch yn gyfredol ac yn y dyfodol. Rydym hefyd yn cyfeirio busnesau ac unigolion yn y sector at y wybodaeth honno. Ar ben hynny, rydym hefyd yn datblygu mentrau sy'n ymwneud â gwella canfyddiadau o'r cyfleoedd gyrfa sy'n bodoli yn y sector twristiaeth a lletygarwch, i gefnogi'r broses o gyflwyno hyfforddiant ar wasanaeth priodol i gwsmeriaid yn y diwydiant, a hefyd i gefnogi'r gwaith o ddatblygu prentisiaeth newydd mewn rhaglenni awyr agored.

Er mwyn gwella canfyddiadau o'r gyrfaoedd yn y sector, eleni roedd gennym stondin yn Sgiliau Cymru am yr ail flwyddyn yn olynol, yn Llandudno ac yng Nghaerdydd. Rhoddodd hyn gyfle i ni arddangos yr amrywiaeth eang o gyfleoedd gyrfaol i gyfanswm o bron 10,000 o ymwelwyr, yn cynnwys myfyrwyr, athrawon, cynghorwyr gyrfaoedd a rhieni hefyd. Rydym hefyd yn gweithio gyda Gyrfa Cymru ar eu rhaglen ysgolion a busnes newydd, gyda'r nod o annog busnesau twristiaeth a lletygarwch i gynnal ymweliadau gan fyfyrwyr ysgol lleol, neu i roi sgysiau ysbrydoledig i ysgolion ynglŷn â chyfleoedd gyrfa. Credwn yn gryf mai'r bobl orau i hyrwyddo gyrfaoedd yn y sector twristiaeth yw'r rhai sy'n darparu swyddi yn y sector. Rydym hefyd yn datblygu adnoddau y byddwn yn eu defnyddio gyda Gyrfa Cymru i ddarparu gwybodaeth i bobl ifanc am yrfaedd yn y sector. Rydym hefyd yn bwriadu codi proffil a statws y sector o ran gyrfaoedd a rhagolygon. Rydym yn helpu i wella hyn mewn amrywiaeth o ffyrdd, gan gynnwys creu mwy o ganolfannau rhagoriaeth ar gyfer datblygu dysgu a sgiliau ar lefel mynediad i reoli a sgiliau ar lefel arbenigol.

On points 3 and 4, relating to VAT, I've been clear in supporting a reduction in VAT for tourism businesses so that we can compete with other European countries that have significantly lower levels of VAT. I must give credit to the Welsh Liberal Democrats, who have also been consistent, even when their party was in Government at Westminster. A reduction could directly boost many small businesses. Wales's tourism industry is largely made up of micro and small-sized businesses. So, that would undoubtedly assist the wider economy, and it's something the Welsh Government fully supports. Indeed, the First Minister made it clear in Plenary in June, when answering an Assembly question from Simon Thomas, that a reduction in tourism VAT would be a great boon to tourism, not just in Wales, but across the UK, and that is something that we would support. I've also raised this matter with the Secretary of State for the Department for Culture, Media and Sport, and most recently with his Minister for Sport, Tourism and Heritage, Tracey Crouch, whom I met in Cardiff last week to discuss a range of matters, including a possible reduction in VAT on tourism. It does sadden me that it appears unlikely that the UK Government will reconsider its position on VAT.

On point 5, as I said, we fully support a reduction in tourism VAT. The tourism industry in Wales has consistently called for the rate of VAT to be reduced, in line with other European countries, as the UK industry is at a clear competitive disadvantage. Welsh Government has made it clear that it supports a reduction in VAT for tourism businesses, so that we can compete with other European countries that have significantly lower levels of VAT on tourism and also enjoy the current rates of currency exchange. The UK Government is resistant to a reduction in VAT, but at the very least we would like the Treasury to share all data on this matter, so we can have an open and clearly evidenced analysis and discussion of whether a reduction in VAT is an effective way to support and drive the tourism industry forward.

Turning to the amendments, we support amendment 1, as we fully recognise the role and contribution of the private sector in helping to regenerate local areas, and tourism's significant contribution to the wider economy of Wales. We will be opposing amendment 2, as we've put in place new structures for engaging with the industry through a new regional engagement team in four regional tourism fora, with equal membership between both the private sector and local authorities. The ministerial tourism advisory board has regional representation to ensure there is a clear line of information and feedback from regions into the board, and vice versa.

*Daeth y Dirprwy Lywydd i'r Gadair.*

Ar bwynt 3 a 4, yn ymwneud â TAW, rwyf wedi dangos cefnogaeth glir i ostwng TAW ar gyfer busnesau twristiaeth er mwyn i ni allu cystadlu â gwledydd Ewropeaidd eraill sydd â lefelau TAW gryn dipyn yn is. Rhaid i mi roi clod i Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru, sydd hefyd wedi bod yn gyson, hyd yn oed pan oedd eu plaid yn y Llywodraeth yn San Steffan. Gallai gostyngiad roi hwb uniongyrchol i lawer o fusnesau bach. Mae diwydiant twristiaeth Cymru yn cynnwys microfusnesau a busnesau bach eu maint yn bennaf. Felly, byddai hynny, heb amheuaeth, yn cynorthwyo'r economi ehangach ac mae'n rhywbeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei gefnogi'n llwyr. Yn wir, dywedodd y Prif Weinidog yn glir yn y Cyfarfod Llawn ym mis Mehefin, wrth ateb cwestiwn Cynulliad gan Simon Thomas, y byddai gostwng TAW i dwristiaeth yn hwb mawr i dwristiaeth, nid yn unig yng Nghymru, ond ledled y DU, ac mae hynny'n rhywbeth y byddem yn ei gefnogi. Rwyf wedi crybwyll y mater hefyd wrth Ysgrifennydd Gwladol yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, ac yn fwyaf diweddar, wrth ei Weinidog dros Chwaraeon, Twristiaeth a Threftadaeth, Tracey Crouch, y bûm yn ei chyfarfod yng Nghaerdydd yr wythnos diwethaf i drafod ystod o faterion, gan gynnwys gostyngiad posibl yn y TAW i dwristiaeth. Mae'n fy nigelonni ei bod yn ymddangos yn annhebygol y bydd Llywodraeth y DU yn ailystyried ei safbwynt ar TAW.

Fel y dywedais, ar bwynt 5 rydym yn llwyr gefnogi gostwng y TAW i dwristiaeth. Mae'r diwydiant twristiaeth yng Nghymru wedi galw'n gyson am ostwng y gyfradd TAW, yn unol â gwledydd eraill yn Ewrop, gan fod y diwydiant yn y DU o dan anfantais gystadleuol amlwg. Mae Llywodraeth Cymru wedi dweud yn glir ei bod yn cefnogi gostwng TAW i fusnesau twristiaeth, er mwyn i ni allu cystadlu â gwledydd Ewropeaidd eraill sydd â lefelau TAW gryn dipyn yn is i dwristiaeth a manteisio hefyd ar gyfraddau cyfnewid cyfredol. Mae Llywodraeth y DU yn gwrthwynebu gostyngiad TAW, ond hoffem, fan lleiaf, i'r Trysorlys rannu'r holl ddata ar y mater, fel y gallwn gael dadansoddiad a thrafodaeth agored gyda thystiolaeth glir ynghlŷn ag i ba raddau y mae gostwng TAW yn fodd effeithiol o gefnogi ac ysgogi'r diwydiant twristiaeth.

Gan droi at y gwelliannau, rydym yn cefnogi gwelliant 1, gan ein bod yn llwyr gydnabod rôl a chyfraniad y sector preifat yn helpu i adfywio ardaloedd lleol, a chyfraniad sylweddol twristiaeth i economi ehangach Cymru. Byddwn yn gwrthwynebu gwelliant 2, gan ein bod wedi sefydlu strwythurau newydd i ymgysylltu â'r diwydiant gan ddefnyddio tîm ymgysylltu rhanbarthol newydd mewn pedwar fforwm twristiaeth rhanbarthol, gydag aelodaeth gyfartal rhwng y sector preifat ac awdurdodau lleol. Mae gan y bwrdd cyngori gweinidogol ar dwristiaeth gynrychiolaeth ranbarthol er mwyn sicrhau y ceir llwybr clir o wybodaeth ac adborth o'r rhanbarthau i'r bwrdd, ac fel arall.

*The Deputy Presiding Officer took the Chair.*

## **Kenneth Skates** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We will also oppose amendment 3, as we have not seen any evidence to support this, bar a statistically insignificant survey conducted by the Conservatives during a highly politicised period. In fact, the proof is in delivery. Last year was a record-breaking year for Wales's tourism industry, and figures for Wales continue to grow. There is no doubt we are punching above our weight on the national stage. Likewise, we will oppose amendment 4, as they are not Welsh Government plans. They are owned by a public-private partnership at a local authority level. We provide support and guidance to the plans' development— [Interruption.] Yes, I will take an intervention.

Byddwn hefyd yn gwrthwynebu gwelliant 3, gan nad ydym wedi gweld unrhyw dystiolaeth i gefnogi hyn, ac eithrio arolwg ystadegol diarwyddocâd a gynhaliwyd gan y Ceidwadwyr mewn cyfnod o wleidyddiaeth eithriadol. Yn wir, mae'r prawf i'w weld yn yr hyn a gyflawnwyd. Roedd y llynedd yn flwyddyn well nag erioed i ddiwydiant twristiaeth Cymru, ac mae'r ffigurau ar gyfer Cymru yn parhau i godi. Nid oes amheuaeth ein bod yn cyflawni'n well na'r disgwyl ar y llwyfan cenedlaethol. Yn yr un modd, byddwn yn gwrthwynebu gwelliant 4, gan nad cynlluniau Llywodraeth Cymru ydynt. Maent yn eiddo i bartneriaeth gyhoeddus-preifat ar lefel yr awdurdodau lleol. Rydym yn darparu cefnogaeth ac arweiniad i ddatblygiad y cynlluniau —[Torri ar draws.] Gwnaf, fe gymeraf ymyriad.

## 17:43 **Suzy Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Deputy Minister. Just on this point of a value-for-money assessment: the money is coming from Welsh Government; wouldn't you be interested in discovering whether it's value for money?

Diolch, Ddirprwy Weinidog. Ar y pwynt hwn ynghylch asesiad gwerth am arian: mae'r arian yn dod gan Lywodraeth Cymru; oni fyddai diddordeb gennych mewn darganfod a yw'n sicrhau gwerth am arian?

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

## 17:44 **Kenneth Skates** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I'll move on to that. Tourism destinations across Wales have been successful in delivering strong public-private sector partnerships over the past few years—a key aim being to improve the approach to, and communication of, destination management. To achieve this aim, each destination partnership has developed its own plan that sets out priorities for tourism development within their destinations over the next few years. These are local destination plans developed by relevant local authorities in the area, along with local tourism businesses and stakeholders—an equal split between local authorities and private sector. So, it is for them to ensure that there is value for money delivered by their initiatives.

Dof at hynny. Mae cyrchfannau twristiaeth ledled Cymru wedi llwyddo i ddarparu partneriaethau sector cyhoeddus-preifat cryf dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf—un nod allweddol oedd gwella'r dull o weithredu, a chyfathrebu, y broses o reoli cyrchfannau. I gyrraedd y nod, mae pob partneriaeth cyrchfan wedi datblygu ei chynllun ei hun sy'n nodi blaenoriaethau ar gyfer datblygu twristiaeth yn eu cyrchfannau dros yr ychydig flynyddoedd nesaf. Cynlluniau cyrchfannau lleol yw'r rhain a ddatblygwyd gan yr awdurdodau lleol perthnasol yn yr ardal, ynghyd â busnesau twristiaeth a rhanddeiliaid lleol—rhaniad cyfartal rhwng awdurdodau lleol a'r sector preifat. Mater iddynt hwy yw sicrhau bod eu cynlluniau yn darparu gwerth am arian.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Deputy Presiding Officer, according to the Great Britain survey, there has been a 25 per cent increase in expenditure on visits to Wales in the first six months of this year. Across Great Britain, the comparable figure is 15 per cent. I believe this figure demonstrates that tourism in Wales is a success story to celebrate. But to maintain that, to support higher wages in the sector, to improve skills and to offset currency exchange disadvantages for Wales, and indeed the whole of the UK, and to enable the sector to invest in driving up quality, there is no doubt that a reduction in VAT on tourism is imperative.

Ddirprwy Lywydd, yn ôl arolwg Prydain Fawr, bu cynnydd o 25 y cant yn y gwariant ar ymweliadau â Chymru yn ystod chwe mis cyntaf eleni. Ledled Prydain Fawr, y ffigur cymharol yw 15 y cant. Rwy'n credu bod y ffigur hwn yn dangos mai llwyddiant i'w ddathlu yw twristiaeth yng Nghymru. Ond i gynnal hynny, i gynnal cyflogau uwch yn y sector, gwella sgiliau a gwneud iawn am anfanteision cyfraddau cyfnewid i Gymru, ac yn wir i'r DU yn gyfan, ac i alluogi'r sector i fuddsoddi mewn gwella ansawdd, nid oes amheuaeth fod gostwng TAW i dwristiaeth yn hanfodol.

## 17:45 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call on Aled Roberts to reply to the debate.

Galwaf ar Aled Roberts i ymateb i'r ddadl.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

## 17:45 **Aled Roberts** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Rwy'n croesawu'r gefnogaeth—y gefnogaeth drawsbleidiol, hefyd—i'r cynnig yma heddiw. Rwyf hefyd yn diolch i bawb am eu cyfraniadau.

Thank you, Deputy Presiding Officer. I welcome the support—the cross-party support, too—for the motion today. I also thank everyone for their contributions.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)



Nid yn unig mae cefnogaeth yn y Siambr yma, ond mae cefnogaeth eang, wrth gwrs, yn y sector. Mae Cymdeithas Lletygarwch Prydain, er enghraifft, Butlins, Merlin, a llawer o gwmnïau eraill, yn cefnogi hyn. A hefyd yn San Steffan mae gwleidyddion o bob lliw wedi llofnodi 'early day motion' i'w gefnogi, er bod Llywodraeth Prydain ar hyn o bryd yn gwrthwynebu unrhyw ostyngiad. Y flwyddyn ddiwethaf, bu i'r Pwyllgor Materion Cymreig annog Llywodraeth y Deyrnas Unedig i adolygu ei pholisi gyda'r nod o ostwng cyfradd gyfredol o 20 y cant. Wythnos diwethaf, mi oedd y Pwyllgor Materion Gogledd Iwerddon wedi penderfynu cynnal archwiliad i mewn i'r problemau y maen nhw'n eu hwynebu, o achos bod y gyfradd yn llawer iawn is, wrth gwrs, yng Ngweriniaeth Iwerddon.

Felly, mae yna fomentwm cynyddol, a bydd cefnogaeth y Siambr yma heddiw yn ychwanegu at y pwysau hynny o ran Llywodraeth Prydain. Tro ar ôl tro, mae profiad y gwledydd sydd wedi cymryd y cam arbennig hwn wedi profi ei fod o'n effeithiol. Mi oedd Rhun ap Iorwerth yn dweud bod 25 o wledydd yn yr Undeb Ewropeaidd wedi mabwysiadu'r polisi erbyn hyn. Nid ydyn nhw wedi camu yn ôl, a hefyd, fel y dywedodd Eluned Parrott, rwy'n meddwl ei bod hi'n bwysig ein bod yn nodi, pan oedd y troica, hyd yn oed, yn rhoi pwysau ar Lywodraeth Groeg i hybu'r ffordd yr oedden nhw'n casglu trethi, maen nhw hefyd wedi dweud bod yna angen iddyn nhw ddiogelu'r gyfradd is o dreth ar werth ar gyfer y diwydiant twristiaeth.

Mi oedd Rhun yn cyfeirio at astudiaeth achos efo Mclvor Hotels, a hefyd y Cavendish yn Llundain. Mae yna hefyd astudiaeth arbennig iawn sydd wedi cael ei wneud ar bolisi Ffrainc, lle gostyngwyd treth ar werth i 5.5 y cant ar brydau bwyd yn y sector twristiaeth yn 2009. Yn ôl y contract a gytnwyd rhwng Llywodraeth Ffrainc, y diwydiant a'r undebau, mi oedden nhw'n gweld mai blaenoriaeth uchaf o ran y toriad oedd gwella cyflogau ac amodau gwaith y bobl a oedd yn gweithio yn y sector, gydag ail flaenoriaeth o gynyddu buddsoddiad yn y sector. Dim ond trydedd flaenoriaeth oedd gostwng prisiau yn y sector. Mae adroddiad gan Seneddwr Houel yn Ffrainc y llynedd yn dangos bod y polisi yma wedi bod yn eithaf llwyddiannus, gan ddangos bod 40 y cant o'r gostyngiad mewn treth ar werth wedi cael ei basio trwodd i gydnabyddiaeth uwch i'r staff yn y sector, 20 y cant wedi cael ei wario ar wella buddsoddiad yn y sector, a dim ond 23 y cant yn cael ei ddefnyddio i ostwng prisiau. Yn Ffrainc, mae nifer o swyddi wedi cael eu creu ers i'r polisi yma gael ei basio—rhyw 28,000 erbyn hyn—ac maen nhw, yn yr adroddiad, yn dweud bod yna tua 15,000 o fusnesau sydd wedi cael eu diogelu. Felly, mae hyn yn bolisi sydd wedi cael ei brofi i weithio.

Mi oedd Eluned, wrth gwrs, yn dweud am ba fath o gynnydd y buasem ni'n gweld yma yng Nghymru, a dweud bod yna bosibiliadau i ni greu tua 80,000 o swyddi dros dair blynedd ar draws Prydain, gyda 6,000 o'r rheini yng Nghymru. Mi oedd hi hefyd yn cyfeirio at y pethau positif sydd wedi digwydd yng Ngweriniaeth Iwerddon ar ôl iddynt ostwng y gyfradd llog.

Not only is there support in this Chamber, but there is broad support, of course, within the sector. The British Hospitality Association, for example, Butlins, Merlin, and a number of other companies, support this. And also in Westminster politicians of all political hues have signed an early day motion to support this, although the UK Government currently oppose any reduction. Last year, the Welsh Affairs Committee encouraged the UK Government to review their policy with the aim of reducing the current rate of VAT from 20 per cent. Last week, the Northern Ireland Affairs Committee decided to conduct an inquiry into the problems that they face, because the rate is so much lower, of course, in the Republic of Ireland.

Therefore, there is an increasing momentum, and the support of the Chamber today will add to that in terms of putting pressure on the UK Government. Time and time again, the experiences of those countries that have taken this particular step have proved that it is effective. Rhun ap Iorwerth stated that 25 of the EU member states have adopted this policy. They haven't gone backwards, and also, as Eluned Parrott said, I think it is important that we note that, when the troika, even, was putting pressure on the Greek Government to change the way that they gathered taxes, they also said that they needed to secure a lower rate of VAT for the tourism industry.

Rhun referred to a particular case study with Mclvor Hotels, and also the Cavendish in London. There is also a particular study that has been carried out on the policy in France, where VAT was reduced to 5.5 per cent on meals in the tourism sector in 2009. According to the contract agreed between the French Government, the industry and the unions, they saw that the highest priority in terms of that cut was to improve the salaries and working conditions of those working in the sector, with a second priority of increasing investment in the sector. Reducing prices in the sector was only a third priority. A report by Senator Houel in France last year demonstrated that these policies have been quite successful, showing that 40 per cent of the reduction in VAT has been carried through into greater remuneration for the staff in the sector, 20 per cent has been spent on increased investment in the sector, and only 23 per cent has been used to reduce prices. In France, many jobs have been created since this policy was introduced—some 28,000 now—and they, in that report, state that some 15,000 businesses have been safeguarded. So, this is a policy that has been proven to work.

Eluned, of course, outlined what kind of progress we would expect to see in Wales, and said that there were possibilities for us to create some 80,000 jobs over three years across the UK, with 6,000 of those in Wales. She also referred to the positives that have occurred in the Republic of Ireland after they reduced the level of VAT.

Suzy, rwy'n meddwl bod pawb yn cytuno efo llawer iawn o'r hyn a ddywedaso, ac mi fyddwn ni yn cefnogi gwelliannau 1, 2 a 4. Er fy mod yn derbyn llawer iawn o'r hyn sydd wedi cael ei ddweud ynglŷn â Visit Wales, rwy'n meddwl bod angen i ni wybod yn union pa wellhad y buasech yn ei weld trwy roi hwn yn nwylo corff annibynnol yn hytrach na'r Llywodraeth, achos rwy'n meddwl, ar hyn o bryd, mae yna arwyddion bod rhai o'r polisiau yn creu cynnydd yn y sector. Roedd Bill yn sôn am effaith y polisi ar ardaloedd gwledig ac ardaloedd glan y môr, ac yn gweld mai potensial y polisi ydy gofyn i fusnesau bach i gynyddu ac i dyfu.

Roedd Sandy Mewies yn amlwg yn cwestiynu ar ba sail roedd y Torïaid yn awgrymu bod Visit Wales yn cael ei allanoli, i ryw raddau, ac mi oedd hi hefyd yn dangos bod yna ardaloedd, megis sir y Fflint, sydd hwyrach ddim yn cael eu hystyried fel ardal dwristiaidd naturiol, ond mae ganddyn nhw rhai gemau. Rwy'n siŵr, wrth glywed bod Sandy wedi bod efo Ken Skates i gastell y Fflint, ei bod hi yn cyfrannu at ddyblu ffigurau ymwelwyr Fflint ar hyn o bryd, achos roedd Mark Isherwood a minnau yna gyda Sandy Mewies rhai wythnosau yn ôl. Felly, rwy'n siŵr bod yna gynnydd sylweddol wedi bod yn y nifer o bobl sy'n ymweld â chastell y Fflint.

Roedd Peter hefyd, yn ei gyfraniad, yn sôn am effaith economaidd y polisi, ac yn dweud bod yna ymchwil yn dweud bod yna ryw gynnydd o £4 biliwn i economi Prydain, a hefyd yn dweud, fel y mae nifer wedi'i ddweud, mai prif fyrdwn y polisi ydy gwella amodau gwaith yn y diwydiant a hefyd mynd ar ôl a mynd i'r afael â diweithdra ymysg ein pobl ifanc ni.

Rwyf wedi cyfeirio at beth ddywedodd Rhun, ac rwy'n croesawu'r ffaith eu bod nhw hefyd—er rwy'n derbyn hwyrach bod yna ddiffyg geirio bach—yn barod i gefnogi'r cynnig yma y prynhawn yma.

Mi wnaeth y Gweinidog, wrth gwrs, ein hatgoffa ni o lwyddiant y sector dwristiaeth yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae'r cynnydd yn gryfach yma nag yn rhannau eraill o Brydain, ac roedd o hefyd yn ein hatgoffa ni pa mor bwysig yw'r sector i'n pobl ifanc ni yma yng Nghymru. Rwy'n falch iawn o glywed am y gwaith sydd ar waith efo Gyrfa Cymru i wella hynny hyd yn oed, i godi ymwybyddiaeth o'r sector ymysg ein pobl ifanc ni a, mwy na hynny, codi statws y sector. Felly, rwy'n croesawu'r gefnogaeth sydd wedi cael ei roi gan bob plaid yma'r prynhawn yma.

Suzy, I think that everyone would agree with much of what you said, and we will support amendments 1, 2 and 4. Although I accept much of what has been said about Visit Wales, I think we need to know exactly what improvement you would like to see by putting this in the hands of an independent body instead of the Government, because I think, at present, there are signs that some of the policies are bearing fruit within the sector. Bill mentioned the impact of the policy on rural areas and seaside communities, and saw that the potential of the policy was in asking small businesses to develop and grow.

Sandy Mewies clearly questioned on what basis the Tories were suggesting that Visit Wales should be brought outwith Government, to some extent, and she also demonstrated that there are areas, such as Flintshire, that perhaps aren't viewed as natural areas for tourism, but they do have some gems. I'm sure, from hearing that Sandy had visited Flint castle along with Ken Skates, that she is contributing to the doubling of visitor numbers in Flint at present, because Mark Isherwood and I were there with Sandy Mewies just a few weeks ago. So, I'm sure that there's been a significant increase in the visitor numbers at Flint castle.

Peter, also, in his contribution mentioned the economic impact of the policy, stating that there is research that demonstrates that there was an increase of some £4 billion in the UK economy, and also stated, as a number of others have also done, that the main purpose of the policy is to improve terms and conditions within the industry and also to tackle unemployment among our young people.

I've already referred to Rhun's comments, and I welcome the fact that they, too—although I do accept, of course, that perhaps there may be some slight problems in terms of wording—are willing to support this afternoon's motion.

The Minister, of course, reminded us of the success of the tourism sector over the past few years. The progress is certainly stronger here than in other parts of the UK, and he also reminded us how important the sector is for our young people here in Wales. I'm particularly pleased to hear of the work that is in the pipeline with Careers Wales in order to make even further improvements, to raise awareness of the sector among our young people and also to raise the status of the sector. Therefore, I welcome the support that's been expressed by all parties here this afternoon.

17:52

## **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The proposal is to agree the motion without amendment. Does any Member object? The motion without amendment is therefore agreed in accordance with Standing Order 12.36.

*Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36*

Y cynnig yw derbyn y cynnig heb ei ddiwygio. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Felly, derbyniwyd y cynnig heb ei ddiwygio yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

*Motion agreed in accordance with Standing Order 12.36*

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

17:52

## 7. Cyfnod Pleidleisio

## 7. Voting Time

Y Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

### Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad Biography](#)

Voting time now follows. Before I conduct the first vote, are there three Members who wish for the bell to be rung? There are not. So, we will vote first on the Plaid Cymru debate on Trident renewal. I call for a vote on the motion, tabled in the name of Elin Jones. If the proposal is not agreed, we will vote on the amendments tabled to the motion. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 14, voted against 35. Therefore the motion without amendment is not agreed.

Mae'r cyfnod pleidleisio yn dilyn yn awr. Cyn i mi gynnal y bleidlais gyntaf, a oes tri Aelod sy'n dymuno i'r gloch gael ei chanu? Nac oes. Felly, pleidleisiwn yn gyntaf ar ddatl Plaid Cymru ar adnewyddu Trident. Galwaf am bleidlais ar y cynnig, a gyflwynwyd yn enw Elin Jones. Os na dderbynnir y cynnig, byddwn yn pleidleisio ar y gwelliannau a gyflwynwyd i'r cynnig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 14 o blaid, pleidleisiodd 35 yn erbyn. Felly, gwrthodwyd y cynnig heb ei ddiwygio.

*Gwrthodwyd y cynnig: O blaid 14, Yn erbyn 35, Ymatal 0.*

*Motion not agreed: For 14, Against 35, Abstain 0.*

[Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5877](#)

[Result of the vote on motion NDM5877](#)

17:53

### Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

We will now vote on the amendments. If amendment 1 is agreed, amendments 2 and 3 will be deselected. I call for a vote on amendment 1, tabled in the name of Jane Hutt. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 25, voted against 24. Therefore, amendment 1 is agreed and amendments 2 and 3 are deselected.

Pleidleisiwn yn awr ar y gwelliannau. Os derbynnir gwelliant 1, bydd gwelliannau 2 a 3 yn cael eu dad-ddethol. Galwaf am bleidlais ar welliant 1, a gyflwynwyd yn enw Jane Hutt. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 25 o blaid, pleidleisiodd 24 yn erbyn. Felly, derbyniwyd gwelliant 1 a bydd gwelliannau 2 a 3 yn cael eu dad-ddethol.

*Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 25, Yn erbyn 24, Ymatal 0.*

*Amendment agreed: For 25, Against 24, Abstain 0.*

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 1 i gynnig NDM5877](#)

[Result of the vote on amendment 1 to motion NDM5877](#)

*Cafodd gwelliannau 2 a 3 eu dad-ddethol.*

*Amendments 2 and 3 deselected.*

17:54

### Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

I now call for a vote on the motion as amended.

Galwaf yn awr am bleidlais ar y cynnig fel y'i diwygiwyd.

Cynnig NDM5877 fel y'i diwygiwyd:

Motion NDM5877 as amended:

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

Yn cefnogi ymdrechion rhyngwladol i ymgymryd â diarfogi niwclear ledled y byd, ond yn cydnabod mai mater i Lywodraeth y DU yw hwn.

Supports international efforts for world-wide nuclear disarmament, but recognises that this is a matter for the UK Government.

17:54

### Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Open the vote. Close the vote. There voted in favour 38, voted against 1, there were 10 abstentions. Therefore, the motion as amended is agreed.

Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 38 o blaid, pleidleisiodd 1 yn erbyn, ac roedd 10 yn ymatal. Felly, derbyniwyd y cynnig fel y'i diwygiwyd.

*Derbyniwyd y cynnig fel y'i diwygiwyd: O blaid 38, Yn erbyn 1, Ymatal 10.*

*Motion as amended agreed: For 38, Against 1, Abstain 10.*

[Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5877 fel y'i diwygiwyd](#)

[Result of the vote on motion NDM5877 as amended](#)

17:54	<p><b>Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>We now vote on the Welsh Conservatives debate on delayed transfers of care. I call for a vote on the motion tabled in the name of Paul Davies. If the proposal is not agreed, we will vote on the amendments tabled to the motion. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 10, voted against 39. Therefore, the motion without amendment is not agreed and we will now vote on the amendments.</p> <p><i>Gwrthodwyd y cynnig: O blaid 10, Yn erbyn 39, Ymatal 0.</i></p> <p><a href="#">Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5875</a></p>	<p>Pleidleisiwn yn awr ar ddadl y Ceidwadwyr Cymreig ar oedi wrth drosglwyddo gofal. Galwaf am bleidlais ar y cynnig a gyflwynwyd yn enw Paul Davies. Os gwrthodir y cynnig, byddwn yn pleidleisio ar y gwelliannau a gyflwynwyd i'r cynnig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 10 o blaid, pleidleisiodd 39 yn erbyn. Felly, gwrthodwyd y cynnig heb ei ddiwygio, a phleidleisiwn yn awr ar y gwelliannau.</p> <p><i>Motion not agreed: For 10, Against 39, Abstain 0.</i></p> <p><a href="#">Result of the vote on motion NDM5875</a></p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
17:55	<p><b>Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>I call for a vote on amendment 1, tabled in the name of Elin Jones. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 39, voted against 10. Therefore, amendment 1 is agreed.</p> <p><i>Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 39, Yn erbyn 10, Ymatal 0.</i></p> <p><a href="#">Canlyniad y bleidlais ar gynnig welliant 1 i gynnig NDM5875</a></p>	<p>Galwaf am bleidlais ar welliant 1, a gyflwynwyd yn enw Elin Jones. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 39 o blaid, pleidleisiodd 10 yn erbyn. Felly, derbyniwyd gwelliant 1.</p> <p><i>Amendment agreed: For 39, Against 10, Abstain 0.</i></p> <p><a href="#">Result of the vote on amendment 1 to motion NDM5875</a></p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
17:55	<p><b>Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>I call for a vote on amendment 2, tabled in the name of Aled Roberts. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 24, voted against 25. Therefore, amendment 2 is not agreed.</p> <p><i>Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 24, Yn erbyn 25, Ymatal 0.</i></p> <p><a href="#">Canlyniad y bleidlais ar gynnig welliant 2 i gynnig NDM5875</a></p>	<p>Galwaf am bleidlais ar welliant 2, a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 24 o blaid, pleidleisiodd 25 yn erbyn. Felly, gwrthodwyd gwelliant 2.</p> <p><i>Amendment not agreed: For 24, Against 25, Abstain 0.</i></p> <p><a href="#">Result of the vote on amendment 2 to motion NDM5875</a></p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
17:55	<p><b>Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>I now call for a vote on the motion as amended.</p> <p>Cynnig NDM5875 fel y'i diwygiwyd:</p> <p>Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:</p> <p>1. Yn nodi'r effaith negyddol y gall oedi wrth drosglwyddo gofal ei chael ar y GIG yng Nghymru ac ansawdd bywyd yri unigolyn;</p> <p>2. Yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau bod pobl yng Nghymru yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt i'w galluogi i aros yn eu cartref eu hunain cyhyd â phosibl.</p>	<p>Galwaf yn awr am bleidlais ar y cynnig fel y'i diwygiwyd.</p> <p>Motion NDM5875 as amended:</p> <p>To propose that the National Assembly for Wales:</p> <p>1. Notes the negative impact that delayed transfers of care can have on the Welsh NHS and an individual's quality of life;</p> <p>2. Recognises the importance of ensuring that people in Wales have the necessary support to enable them to remain in their own home for as long as possible.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
17:55	<p><b>Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Open the vote. Close the vote. There voted in favour 49, no votes against. Therefore, the motion, as amended, is agreed.</p>	<p>Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 49 o blaid, ni phleidleisiodd neb yn erbyn. Felly, derbyniwyd y cynnig, fel y'i diwygiwyd.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>

[Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5875 fel y'i diwygiwyd](#)

[Result of the vote on motion NDM5875 as amended](#)

17:56

**Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Will those Members who are leaving the Chamber please do so quickly and quietly?

A wnaiff yr Aelodau sy'n gadael y Siambr wneud hynny'n gyflym ac yn dawel?

17:56

**8. Dadl Fer: Y Frwydr yn Erbyn Gwastraff Bwyd: Rhoi'r Gorau i Wastraffu Bwyd Da yng Nghymru**

**8. Short Debate: War on Food Waste: End the Waste of Good Food in Wales**

Y Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

**Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Item 8 is the short debate and I call Julie Morgan to speak on the topic she has chosen.

Eitem 8 yw'r ddadl fer a galwaf Julie Morgan i siarad ar y pwnc y mae wedi ei ddevis.

17:56

**Julie Morgan** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Thank you very much, Deputy Presiding Officer. My short debate is entitled 'War on Food Waste: End the Waste of Good Food in Wales'. I have agreed for William Powell to have a minute after I've spoken.

Diolch yn fawr iawn, Ddirprwy Lywydd. Teitl fy nadl fer yw 'Y frwydr yn erbyn gwastraff bwyd: rhoi'r gorau i wastraffu bwyd da yng Nghymru'. Rwyf wedi cytuno i William Powell gael munud ar ôl i mi siarad.

When we think about food waste, most of us probably think about the messy contents of our food recycling bin and you certainly wouldn't eat that. But what if, when we talk about food waste, we were talking about bread baked that very morning, or bananas that may be slightly brown, wonky vegetables that are completely fresh, even tins that are slightly dented, or labels that may be wrongly labelled? In the UK, we waste astonishing amounts of food every day, which adds up to colossal waste each year.

Pan fyddwn yn meddwl am wastraff bwyd, mae'r rhan fwyaf ohonom yn ôl pob tebyg yn meddwl am gynnwys anniben ein bin ailgylchu bwyd ac yn sicr, ni fydddech yn bwyta hwnnw. Ond pan fyddwn yn sôn am wastraff bwyd, beth pe baem yn sôn am fara wedi'i bobi y bore hwnnw, neu fananas a allai fod yn ychydig yn frown, llysiau di-siâp sy'n gwbl ffres, hyd yn oed tuniau wedi'u tolcio braidd, neu labeli a allai fod wedi'u labelu'n anghywir? Yn y DU, rydym yn gwastraffu llwyth rhyfeddol o fwyd bob dydd, sydd, gyda'i gilydd, yn creu gwastraff anferthol bob blwyddyn.

According to the website Love Food Hate Waste, we thrown away 7 million tonnes of food and drink from our homes each year in the UK, and there is 15 million tonnes of food waste in total. In Wales, that amounts to 350,000 tonnes of food waste a year. But it's not just consumers throwing away unused food from our fridges that is contributing to this massive food waste problem. Food waste is everywhere in the food chain. With the supermarkets Asda, Tesco, Sainsbury's, Morrisons, Co-op, M&S and Waitrose accounting for 87 per cent of the UK grocery market, waste by supermarkets dwarfs anything we might throw away as individuals.

Yn ôl y wefan Hoffi Bwyd, Casáu Gwastraff, rydym yn taflu 7 miliwn tunnell o fwyd a diod o'n cartrefi bob blwyddyn yn y DU, a cheir cyfanswm o 15 miliwn o dunelli o wastraff bwyd i gyd. Yng Nghymru, mae hynny'n gyfystyr â 350,000 tunnell o wastraff bwyd bob blwyddyn. Ond nid defnyddwyr sy'n taflu bwyd heb ei ddefnyddio o'n hoergelloedd yn unig sy'n cyfrannu at y broblem gwastraff bwyd enfawr hon. Mae gwastraff bwyd ym mhob man yn y gadwyn fwyd. Gydag 87 y cant o farchnad fwydydd y DU yn dod o archfarchnadoedd Asda, Tesco, Sainsbury's, Morrisons, y Co-op, M & S a Waitrose, mae gwastraff gan archfarchnadoedd yn llawer iawn mwy nag unrhyw beth y gallem fod yn ei daflu fel unigolion.

Supermarkets appear to be over-ordering food and are over-picky about so-called wonky fruit and vegetables. They fear that we, the consumers, will not buy misshapen carrots or curvy cucumbers. So, the food is wasted in one way or another: either redistributed before it even reaches the supermarket shelves, or, if left unsold, it's sent to be turned into animal feed after being incinerated in anaerobic digestion plants.

Ymddengys bod archfarchnadoedd yn gorarchebu bwyd ac yn orofalus ynghylch yr hyn a elwir yn ffrwythau a llysiau di-siâp. Maent yn ofni na fyddwn ni, y defnyddwyr, yn prynu moron afluniaidd neu giwcymbrau crwm. Felly, caiff y bwyd ei wastraffu mewn rhyw ffordd neu'i gilydd: naill ai ei ailddosbarthu cyn iddo gyrraedd silffoedd yr archfarchnad hyd yn oed, neu, os caiff ei adael heb ei werthu, caiff ei gludo i'w droi'n borthiant anifeiliaid ar ôl cael ei losgi ar safle treulio anaerobig.

In 2014, the House of Lords conducted an inquiry looking at the cost of food waste in the EU and it reported that 89 million tonnes of food waste was thrown away in the EU every year. That amount will rise to 126 million tonnes by 2020 if we don't tackle this food waste culture. A 2013 report by the Institution of Mechanical Engineers claimed that around 2 billion tonnes of food produced in the world each year goes to waste. It also highlighted strictly unnecessary sell-by dates, promotional offers such as buy one, get one free—although, there have been some efforts by the supermarkets to tackle that now—consumer demand for cosmetically perfect food, and poor storage, as key contributors to the waste.

But, when we're looking at this issue, we must bear in mind that food waste can be defined in many different ways. That's one of the reasons why some supermarkets claim on their websites that they have zero food waste. If food is going into an anaerobic digestion plant, it's not landfill waste, and if it's turned into animal feed, it's not even waste at all by some people's reasoning. But, if that food is still fit for human consumption, I think it is truly a waste of good food and, of course, of the energy and labour that went into producing it.

The UK's Waste and Resources Action Programme, WRAP, is a not-for-profit company, partly funded by DEFRA and the devolved bodies, including the Welsh Government, and the EU. It works across the UK to help businesses, local communities, authorities and individuals to recycle more and waste less. WRAP categorises food waste into three types: there's avoidable: food and drink that was edible at some point prior to disposal; then there's possibly avoidable: food and drink some people eat, but not others, or that can be eaten when food is prepared one way but not another, e.g. bread crusts, potato skins; or, unavoidable: waste arising from food preparation that is not edible under normal circumstances, for example egg shells or teabags. There is huge waste of all these three categories.

Many of the supermarkets work with an organisation called FareShare. This is a UK-wide organisation with a Wales arm called FareShare Cymru. It takes the food that supermarkets don't want before it hits our shelves and redistributes it to partners who pay an annual fee of around £600 to be in this scheme, in exchange for cheap but still useable food. Many of these partners are charities and organisations that feed homeless people. I know that, in my constituency, an organisation called Vision 21, which offers training for people with learning disabilities, is a member of the FareShare Cymru scheme, and it uses the reduced-price food to feed its trainees in the canteen. The food is also used for young people learning catering skills. The in-house restaurant serves around 40 meals a day, using food that has been rejected by the supermarkets and redistributed in this way.

Yn 2014, cynhaliodd Tŷ'r Arglwyddi ymchwiliad a edrychai ar gost gwastraff bwyd yn yr UE a nododd fod 89 miliwn o dunelli o wastraff bwyd yn cael ei daflu yn yr UE bob blwyddyn. Bydd y ffigur hwnnw'n codi i 126 miliwn o dunelli erbyn 2020 os nad awn i'r afael â'r diwylliant gwastraff bwyd. Mae adroddiad yn 2013 gan Sefydliad y Peirianwyr Mecanyddol yn honni bod oddeutu 2 biliwn o dunelli o fwyd a gynhyrchir yn y byd bob blwyddyn yn cael ei wastraffu. Tynnodd sylw hefyd at ddyddiadau 'gwerthu erbyn' cwbl ddiangen, cynigion hyrwyddo megis dau am bris un—er y bu rhai ymdrechion gan yr archfarchnadoedd i fynd i'r afael â hynny bellach—galw defnyddwyr am fwydydd sy'n edrych yn berffaith, a storio gwael, fel ffactorau allweddol sy'n cyfrannu at y gwastraff.

Ond pan edrychwn ar hyn, rhaid i ni gofio y gellir diffinio gwastraff bwyd mewn sawl ffordd wahanol. Dyna un o'r rhesymau pam y mae rhai archfarchnadoedd yn honni ar eu gwefannau nad oes ganddynt unrhyw wastraff bwyd. Os yw bwyd yn mynd i safle treulio anaerobig, nid yw'n wastraff tirlenwi, ac os caiff ei droi'n borthiant anifeiliaid, nid yw'n wastraff o gwbl hyd yn oed yn ôl rhesymeg rhai pobl. Ond os yw'r bwyd yn dal i fod yn addas i'w fwyta gan bobl, rwy'n credu mewn gwirionedd ei fod yn wastraff bwyd da ac wrth gwrs, yn wastraff ar yr egni a'r llafur i'w gynhyrchu.

Cwmni di-elw yw Rhaglen Gweithredu Cynllun Gwastraff ac Adnoddau y DU, WRAP, a ariennir yn rhannol gan Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig a'r cyrff datganoledig, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, a'r Undeb Ewropeaidd. Mae'n gweithio ar draws y DU i helpu busnesau, cymunedau lleol, awdurdodau ac unigolion i ailgylchu mwy a gwastraffu llai. Mae WRAP yn dosbarthu gwastraff bwyd yn dri chategori: gwastraff y gellid ei osgoi—bwyd a diod a oedd yn fwytdwy ar ryw adeg cyn eu taflu; yna, gwastraff y gellid, o bosibl, ei osgoi—bwyd a diod y bydd rhai pobl yn ei fwyta, ond nid pobl eraill, neu fwyd y gellid ei fwyta pan fydd bwyd yn cael ei baratoi mewn un ffordd, ond nid mewn ffordd arall, ee crystiau bara, crwyn tatws; neu wastraff na ellir ei osgoi—gwastraff yn deillio o baratoi bwyd nad yw'n fwytdwy dan amgylchiadau arferol, er enghraifft plisgyn wy neu fagiau te. Mae yna wastraff enfawr o bob un o'r tri chategori.

Mae nifer o'r archfarchnadoedd yn gweithio gyda sefydliad o'r enw FareShare. Sefydliad ledled y DU yw hwn sydd â changen Gymreig o'r enw FareShare Cymru. Mae'n cymryd y bwyd nad yw archfarchnadoedd ei eisiau cyn iddo ddod ar ein sillfoedd ac yn ei ailddosbarthu i bartneriaid sy'n talu ffi flynyddol o tua £600 i fod yn rhan o'r cynllun, yn gyfnwid am fwyd sy'n rhad ond yn dal i fod yn addas i'w ddefnyddio. Mae llawer o'r partneriaid hyn yn elusennau a mudiadau sy'n bwydo pobl ddigartref. Yn fy etholaeth i, gwn fod sefydliad o'r enw Vision 21, sy'n cynnig hyfforddiant i bobl ag anableddau dysgu, yn aelod o gynllun FareShare Cymru, ac mae'n defnyddio bwyd y mae ei bris wedi'i ostwng i fwydo ei hyfforddeion yn y ffetur. Defnyddir y bwyd hefyd ar gyfer pobl ifanc sy'n dysgu sgiliau arlwydo. Mae'r bwyty mewnol yn gweini tua 40 o brydau'r dydd, gan ddefnyddio bwyd a wrthodwyd gan yr archfarchnadoedd a'i ailddosbarthu yn y ffordd hon.

FareShare Cymru works with 45 different organisations across Wales and distributes 540 tonnes of food a year, enough for 1.2 million meals. This food waste includes fresh fruit and vegetables, meat, cheese, fish, milk and cereals, as well as drinks. Some supermarkets work with so-called backdoor food redistribution, rather than send food to landfill or anaerobic digesters. For example, the branch of Sainsbury's in Cardiff's Queen Street has a great scheme that offers surplus food that would otherwise be wasted to Cardiff Women's Aid, which collects food twice a week from the store.

In my constituency, when I was doing the research for this debate, several supermarkets said that they were looking for partners to work with, to give food away to those who need it. But, we did actually speak to one supermarket that said all the unsold surplus food was put in bins at the back and taken away to landfill. So, we were actually told that that is happening.

But Sainsbury's in Thornhill in my constituency in Cardiff North has a food bank in the store, which customers can donate items to. It also sells food near its sell-by date at reduced prices and is looking for a charity or voluntary organisation to partner with to take an estimated four to five sacks of bread, cakes, fruit and vegetables every day, which is able to be used by a charity or a voluntary organisation.

Morrisons tells me it is introducing a scheme across the UK on February 1 next year—they actually put this in the press today—whereby each store's community champion will be tasked with finding a partner organisation that can take away food past its best-before date that is still fit for human consumption. Sainsbury's has introduced a company to broker such arrangements, starting with 60 supermarkets across the UK initially, and the Co-op has started working with FareShare too. Ten weeks ago, it started to trial at one depot, and by September it had distributed 32 tonnes of food from one depot, contributing towards 76,192 meals.

I think that shows us the staggering amount of food that would have, until very recently, been wasted. I'm sure this, along with food waste from other supermarkets, is just the tip of the iceberg. I know that Welsh Government is working closely with WRAP Cymru to help food waste reduction in Wales, and I hope the Minister will be able to tell us in his reply of any further ways we can try to stop the tide of food waste.

Part of WRAP Cymru's work is to educate and encourage us as consumers to avoid buying too much food, because it is our responsibility as well. It also runs cookery courses to give people ideas about how to use up older food and provides information about how we can store food to make it last longer. To me, it is outrageous that so much food actually goes to waste, and food waste, whatever the reasons for it, is absolutely morally wrong when poor families and people are struggling to make ends meet and are fuelling the demand for food from food banks.

Mae FareShare Cymru yn gweithio gyda 45 o sefydliadau gwahanol ar draws Cymru ac yn dosbarthu 540 tunnell o fwyd bob blwyddyn, digon ar gyfer 1.2 miliwn o brydau bwyd. Mae'r gwastraff bwyd yn cynnwys ffrwythau a llysiau ffres, cig, caws, pysgod, llaeth a grawnfwydydd, yn ogystal â diodydd. Mae rhai archfarchnadoedd yn gwneud yr hyn sy'n cael ei alw'n ailddosbarthu bwyd drwy'r drws cefn, yn hytrach na chludo bwyd i safleoedd tirlenwi neu dreulio anaerobig. Er enghraifft, mae gan gangen Sainsbury's yn Heol y Frenhines, Caerdydd gynllun gwych sy'n cynnig bwyd dros ben a fyddai fel arall yn cael ei wastraffu i gangen Cymorth i Fenywod Caerdydd, sy'n casglu bwyd ddwywaith yr wythnos o'r storfa.

Yn fy etholaeth i, pan oeddwn yn gwneud yr ymchwiliad ar gyfer y ddadl hon, dywedodd nifer o archfarchnadoedd eu bod yn chwilio am bartneriaid i weithio gyda hwy, er mwyn rhoi bwyd i'r rhai sydd ei angen. Ond fe siaradom ag un archfarchnad mewn gwirionedd a ddywedodd fod yr holl fwyd dros ben heb ei werthu yn cael ei roi mewn biniau yn y cefn a'i gludo i safle tirlenwi. Felly, cawsom wybod, mewn gwirionedd, fod hynny'n digwydd.

Ond mae gan Sainsbury's yn Thornhill yn fy etholaeth yng Ngogledd Caerdydd fanc bwyd yn y siop, y gall cwsmeriaid gyfrannu eitemau iddo. Mae hefyd yn gwerthu bwyd sy'n agos at ei ddyddiad 'gwerthu erbyn' am brisiau gostyngol ac mae'n chwilio am elusen neu sefydliad gwirfoddol i fod yn bartner ar gyfer cymryd tua 4-5 sach o fara, cacennau, ffrwythau a llysiau bob dydd, bwyd y gallai elusen neu sefydliad gwirfoddol ei ddefnyddio.

Mae Morrisons yn dweud wrthyf eu bod yn cyflwyno cynllun ar draws y DU ar Chwefror 1 y flwyddyn nesaf—fe gyhoeddwyd hyn ganddynt yn y wasg heddiw—i gael hyrwyddwr cymunedol ym mhob siop ar gyfer dod o hyd i sefydliad partner a allai gymryd bwyd sydd wedi pasio'i 'ddyddiad ar ei orau cyn' sy'n dal i fod yn addas i'w fwyta gan bobl. Mae Sainsbury's wedi cyflwyno cwmni i gyflawni trefniadau o'r fath, gan ddechrau gyda 60 o archfarchnadoedd ar draws y DU i ddechrau, ac mae'r Co-op wedi dechrau gweithio gyda FareShare hefyd. Ddeng wythnos yn ôl, dechreuodd dreialu mewn un depo, ac erbyn mis Medi roedd wedi dosbarthu 32 tunnell o fwyd o un depo, gan gyfrannu tuag at 76,192 o brydau bwyd.

Credaf fod hyn yn dangos y llwyth syfrdanol o fwyd a fyddai, hyd yn ddiweddar iawn, wedi'i wastraffu. Rwy'n siŵr nad yw hyn, ynghyd â gwastraff bwyd o archfarchnadoedd eraill, yn fawr mwy na chrafu'r wyneb. Gwn fod Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gyda WRAP Cymru er mwyn helpu i leihau gwastraff bwyd yng Nghymru, ac rwy'n gobeithio y bydd y Gweinidog yn gallu sôn wrthym yn ei ymateb am unrhyw ffyrdd eraill y gallwn geisio atal y llanw o wastraff bwyd.

Rhan o waith WRAP Cymru yw ein haddysgu a'n hannog ni fel defnyddwyr i osgoi prynu gormod o fwyd, gan ei fod yn gyfrifoldeb i ninnau hefyd. Mae hefyd yn cynnal cyrsiau coginio i roi syniadau i bobl sut i ddefnyddio bwydydd hŷn ac yn rhoi gwybodaeth ynglŷn â sut y gallwn storio bwyd i wneud iddo bara'n hirach. I mi, mae'n warthus fod cymaint o fwyd yn cael ei wastraffu, ac mae gwastraff bwyd, beth bynnag y bo'r rhesymau drosto, yn gwbl anfoesol pan fo teuluoedd a phobl dlawd yn cael trafferth i gael dau ben llinyn ynghyd ac yn cynnal y galw am fwyd o fanciau bwyd.

I never supported food banks when they first started because I thought it was a way of propping up the system in a way that was bound to lead to a system like in the United States where it's part of the welfare system, but I now try to support the food banks because I can't see an end in sight in the poverty that people are experiencing. In Cardiff, the demand for items at Cardiff food bank is growing and a new distribution centre is planned in my constituency in Cardiff North because the need is there in Llandaff north.

Recently, I went to schools in my constituency, Hawthorn Primary School and Whitchurch Primary School, which were both filling supermarket trolleys with donations from the children's parents to go to the food banks. So, I wondered if there was any legislation that we could use to help prevent the waste of food here in Wales. I don't know whether we have any devolved powers to do that. Perhaps the Minister can indicate that in his reply. I know the shadow food Minister in Westminster has suggested a food waste Bill, but I don't know whether the powers lie there rather than here.

In France earlier this year, MPs united to pass legislation banning food outlets from deliberately spoiling waste food so that it could not be foraged or reused. It also compels larger French supermarkets to put in place, by July 2016, contracts with charities and community organisations to redistribute food. Some of our supermarkets are already doing this, but would it be possible to pass a law compelling them to make those sorts of arrangements so that the food does not go to waste?

If you look to the generation who lived through the world wars, they would have said 'waste not, want not', and I think we should follow their example. I don't think we can just blame the supermarkets. I think it depends on us as consumers to change our way of operating. I think it's very important that we do unite in the campaigns that are now taking place to try to draw attention to this horrendous waste of food, which I really see as a moral issue. I thought it was very interesting—I was looking at the words of a world war two poster, which says:

'Food...buy it with thought...cook it with care... use less wheat and meat...serve just enough... use what is left.'

And:

'join the League of National Safety'

it says at the bottom. But I just thought that was a message to us as consumers. But I do think this is a very serious issue. I think there is a lot we can do. There's a lot we can do in a voluntary way, but I also wonder if the Minister, in his response, can say if there's anything we in the Government, in the Welsh Government, can do in terms of legislation.

Nid oeddwn yn cefnogi banciau bwyd pan ddechreuodd y rhai cyntaf ymddangos oherwydd fy mod yn meddwl ei bod yn ffordd o gynnal y system mewn modd a oedd yn sicr o arwain at system debyg i'r un yn yr Unol Daleithiau lle y mae'n rhan o'r system les, ond rwy'n ceisio cefnogi'r banciau bwyd bellach am na allaf weld diwedd i'r tlodi y mae pobl yn ei brofi. Yng Nghaerdydd, mae'r galw am eitemau banc bwyd yn tyfu ac mae cynlluniau ar y gweill i sefydlu canolfan ddsbarthu newydd yn fy etholaeth yng Ngogledd Caerdydd am fod yr angen yno yng ngogledd Llandaf.

Yn ddiweddar, euthum i ysgolion yn fy etholaeth, Ysgol Gynradd y Ddraenen Wen ac Ysgol Gynradd yr Eglwys Newydd, a oedd yn llenwi troliâu archfarchnadoedd gyda rhoddion gan rieni'r plant i fynd i'r banciau bwyd. Felly, meddylais tybed a oedd unrhyw ddeddfwriaeth y gallem ei defnyddio i helpu i atal gwastraff bwyd yma yng Nghymru. Nid wyf yn gwybod a oes gennym unrhyw bwerau datganoledig i wneud hynny. Efallai y gall y Gweinidog ddweud hynny yn ei ateb. Rwy'n gwybod bod Gweinidog bwyd yr wrthblaid yn San Steffan wedi awgrymu Bil gwastraff bwyd, ond nid wyf yn gwybod ai yno y mae'r pwerau ynteu yma.

Yn Ffrainc yn gynharach eleni, unodd ASau i basio deddfwriaeth sy'n gwahardd siopau bwyd rhag difetha bwyd gwastraff yn fwriadol fel na ellid ei gasglu na'i aildefnyddio. Mae hefyd yn gorfodi archfarchnadoedd Ffrengig mwy o faint i lunio contractau gydag elusennau a sefydliadau cymunedol, erbyn Gorffennaf 2016, i ailddosbarthu bwyd. Mae rhai o'n harchfarchnadoedd eisoes yn gwneud hyn, ond a fyddai modd pasio deddf yn eu cymhell i wneud y mathau hynny o drefniadau fel nad yw'r bwyd yn cael ei wastraffu?

Os edrychwch ar y genhedlaeth a oedd yn byw adeg y rhyfeloedd byd, byddent wedi dweud 'afraid pob afrad', ac rwy'n meddwl y dylem ddilyn eu hesiampl. Nid wyf yn meddwl y gallwn roi'r bai i gyd ar yr archfarchnadoedd. Rwy'n credu mai mater i ni fel defnyddwyr yw newid ein ffordd o weithredu. Rwy'n credu ei bod yn bwysig iawn i ni uno yn yr ymgyrchoedd sydd bellach ar y gweill i geisio tynnu sylw at y gwastraff bwyd erchyll sy'n digwydd, ac rwy'n ei ystyried yn fater moesol. Diddorol iawn oedd gweld—roeddwn yn edrych ar eiriau ar boster o adeg yr ail ryfel byd, sy'n dweud:

'Food...buy it with thought...cook it with care... use less wheat and meat...serve just enough... use what is left.'

Ac ar y gwaelod, mae'n dweud:

'join the League of National Safety'

Ond roeddwn yn meddwl bod honno'n neges i ni fel defnyddwyr. Ond rwy'n meddwl bod hwn yn fater difrifol iawn. Rwy'n credu bod llawer y gallwn ei wneud. Mae yna lawer y gallwn ei wneud mewn ffordd wirfoddol, ond tybed hefyd a all y Gweinidog ddweud, yn ei ymateb, a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud fel Llywodraeth, yn Llywodraeth Cymru, o ran deddfwriaeth.



18:08

**William Powell** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

I'm very grateful indeed to Julie Morgan for bringing forward this important debate. I too was struck by the vote in the French Assemblée Nationale earlier in the year, which brought forward powers, as Julie Morgan has outlined, to compel supermarkets to act on food waste. I think I've raised this previously with the Deputy Minister and, today, in his response, I would very much appreciate it if the Minister for Natural Resources could give his latest thinking as to the appropriate mix between the misshapen carrot and the French stick in this regard, because I think there needs to be a balance between encouraging behavioural change on a positive note but also having that level of legislation that can actually bring about greater change in the longer term and also emphasise the importance of valuing food in the way that that special artefact that Julie Morgan just brought forward reminded us of, reminding us of the 'dig for victory' generation. We may, before too long, need once again to reflect on the value and importance of food production in this country. Diolch yn fawr.

Rwy'n ddiolchgar iawn yn wir i Julie Morgan am gyflwyno'r ddadl bwysig hon. Cefais innau fy nharo hefyd gan y bleidlais yn yr Assemblée Nationale yn Ffrainc yn gynharach yn y flwyddyn, a gyflwynodd bwerau, fel y soniodd Julie Morgan, i orfodi archfarchnadoedd i weithredu ar wastraff bwyd. Rwy'n credu fy mod wedi crybwyll hyn wrth y Dirprwy Weinidog o'r blaen a heddiw, yn ei ymateb, byddwn yn gwerthfawrogi'n fawr iawn pe gallai'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol amlinellu ei syniadau diweddaraf o ran y cymysgedd priodol rhwng y moron afluniaiidd a'r ffon Ffrengig yn y cyswllt hwn, gan fy mod yn credu bod angen sicrhau cydbwysedd rhwng annog newid ymddygiad ar nodyn cadarnhaol, a chael y lefel honno o ddeddfwriaeth hefyd a allai sicrhau mwy o newid yn y tymor hwy a chadarnhau pwysigrwydd gwerthfawrogi bwyd yn y ffordd y mae'r arteffact arbennig a ddangosodd Julie Morgan i ni yn ei ddweud, gan ein hatgoffa o genhedlaeth 'Dig for Victory'. Cyn bo hir, efallai y bydd angen i ni fyfyrto unwaith eto ar werth a phwysigrwydd cynhyrchu bwyd yn y wlad hon. Diolch yn fawr.

18:10

**Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

I call on the Minister for Natural Resources to reply—Carl Sargeant.

Galwaf ar y Gweinidog Cyfoeth Naturiol i ateb—Carl Sargeant.

18:10

**Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

*Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol / The Minister for Natural Resources*

Thank you, Deputy Presiding Officer, and I thank Julie Morgan for bringing this very important issue to the floor of this Senedd.

Diolch i chi, Ddirprwy Lywydd, a diolch i Julie Morgan am gyflwyno'r mater pwysig hwn ar lawr y Senedd hon.

I welcome the short debate on food waste in Wales. I welcome the spotlight on this important issue by Hugh Fearnley-Whittingstall in his television series 'War on Waste'. I think, actually, that's brought it to the forefront of people's minds in terms of the actual quantum of waste that is in the system.

Rwy'n croesawu'r ddadl fer ar wastraff bwyd yng Nghymru. Rwy'n croesawu'r sylw a roddwyd i'r mater pwysig gan Hugh Fearnley-Whittingstall yn ei gyfres deledu 'War on Waste'. Rwy'n credu, mewn gwirionedd, fod hynny wedi dod â chwantwm gwirioneddol y gwastraff sydd yna yn y system i flaen meddyliau pobl.

Reducing the amount of good food we throw away can make a real difference to Welsh families, businesses and communities, and can help deliver the goals set out in the Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015, which this Assembly supported. And we are fortunate in Wales to have two excellent organisations co-ordinating action to minimise the waste of food in Wales. I have agreed core funding support for both of them until 31 March 2018. Firstly, we have FareShare Cymru, which Julie Morgan alluded to, which, in the last year alone has redistributed surplus food from retailers and the hospitality sector to provide over 1.8 million meals to vulnerable people. This was through supplying 35 charities and community organisations with the surplus food. Secondly, we have WRAP Cymru working with manufacturers, retailers, householders and the third sector to reduce food waste. Through its Love Food Hate Waste campaign, WRAP Cymru has trained over 3,400 people, like Sharon Gronland from First Choice Housing, who ran her own Love Food Hate Waste sessions at tenant council meetings throughout Wales for staff as well as tenants and their support workers. Between 2007 and 2012, preventable household food waste in Wales reduced by around 55,000 tonnes.

I also know that the issues that Julie raised during her contribution were wide-ranging about the fact that food waste can have many impacts in our communities. But, one of the positive actions that we have taken is working with one young family who didn't have the skills to understand the potential of the food that they were buying, and most of their week's funding was spent on ready meals from the supermarket. Actually, spending a little time with this person about how to cook food and how to use food and store better has enabled her to take her family on holiday for the first time in eight years, so there are huge benefits not only in regards to the issue around food and food nutrition, but also the social aspects of managing the household too.

WRAP is also tackling grocery supply chain waste through a voluntary agreement called the Courtauld agreement. This groundbreaking agreement is now in its third phase. In the first two phases, UK signatories cut food and packaging waste by 2.9 million tonnes. They expect to reduce this further by around 1.1 million tonnes in phase 3. I think that this is a great commitment, but we can do an awful lot better.

WRAP Cymru has also been working to make it easier to redistribute surplus food. For example, as Julie mentioned, some of the supermarkets, such as Sainsbury's, are working to ensure that unsold food from its Cardiff Queen Street store goes to BAWSO and Cardiff Women's Aid. WRAP Cymru has also addressed hospitality and food service waste through a voluntary agreement, with 142 Welsh SMEs being involved in and receiving support. Waste prevention support is also available via the Resource Efficient Wales service, which I know Bill Powell is very interested in, delivered by WRAP Cymru in partnership with the Carbon Trust.

Gall lleihau faint o fwyd da rydym yn ei daflu wneud gwahaniaeth gwirioneddol i deuluoedd, busnesau a chymunedau Cymru, a gall helpu i gyflawni'r nodau a amlinellir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, a gefnogodd y Cynulliad hwn. Ac rydym yn ffodus yng Nghymru fod gennym ddau sefydliad rhagorol yn cydlynw'r gwaith o leihau gwastraff bwyd yng Nghymru. Rwyf wedi cytuno i ryddhau cymorth ariannol craidd i'r ddau tan 31 Mawrth 2018. Yn gyntaf, mae gennym FareShare Cymru, y cyfeiriodd Julie Morgan ato, sydd, yn y flwyddyn ddiwethaf yn unig wedi ailddosbarthu bwyd dros ben gan fanwerthwyr a'r sector lletygarwch i ddarparu dros 1.8 miliwn o brydau bwyd i bobl sy'n agored i niwed. Gwnaed hyn drwy gyflenwi bwyd dros ben i 35 o elusennau a sefydliadau cymunedol. Yn ail, mae gennym WRAP Cymru yn gweithio gyda gweithgynhyrchwyr, manwerthwyr, perchnogion tai a'r trydydd sector i leihau gwastraff bwyd. Drwy ei ymgyrch Hoffi Bwyd Casáu Gwastraff, mae WRAP Cymru wedi hyfforddi dros 3,400 o bobl, fel Sharon Gronland o'r Gymdeithas Tai Dewis Cyntaf, a gynhaliodd ei sesiynau Hoffi Bwyd Casáu Gwastraff ei hun yng nghyfarfodydd cynghorau tenantiaid ledled Cymru ar gyfer staff yn ogystal â thenantiaid a'u gweithwyr cymorth. Rhwng 2007 a 2012, cafwyd oddeutu 55,000 tunnell yn llai o wastraff bwyd cartref y gellir ei osgoi yng Nghymru.

Rwyf hefyd yn gwybod bod y materion a grybwyllodd Julie yn ei chyfraniad yn amrywio'n eang o ran effeithiau niferus gwastraff bwyd yn ein cymunedau. Ond un o'r camau gweithredu cadarnhaol rydym wedi'u cymryd yw gweithio gydag un teulu ifanc nad oedd ganddynt y sgiliau i ddeall potensial y bwyd a bryntent, a châr'r rhan fwyaf o'u harian wythnosol ei wario ar brydau parod o'r archfarchnad. A dweud y gwir, roedd treulio ychydig o amser gyda'r person dan sylw i ddysgu sut i goginio bwyd a sut i ddefnyddio a storio bwyd yn well yn ei galluogi i fynd â'i theulu ar wyliau am y tro cyntaf mewn wyth mlynedd, felly mae manteision enfawr, nid yn unig mewn perthynas â bwyd a maeth bwyd, ond o ran agweddau cymdeithasol rheoli'r cartref hefyd.

Mae WRAP hefyd yn mynd i'r afael â gwastraff y gadwyn gyflenwi bwyd drwy gytundeb gwirfoddol o'r enw cytundeb Courtauld. Mae trydydd cam y cytundeb arloesol hwn bellach ar y gweill. Yn y ddau gam cyntaf, llwyddodd y rhai a'i llofnododd yn y DU i dorri 2.9 miliwn o dunnelli oddi ar gyfanswm y gwastraff bwyd a deunydd pacio. Maent yn disgwyl torri oddeutu 1.1 miliwn tunnell arall oddi ar y cyfanswm yng ngham 3. Rwy'n credu ei fod yn ymrwymiad mawr, ond gallwn wneud yn well o lawer.

Mae WRAP Cymru wedi bod yn gweithio hefyd i'w gwneud yn haws ailddosbarthu bwyd dros ben. Er enghraifft, fel y crybwyllodd Julie, mae rhai o'r archfarchnadoedd, megis Sainsbury's, yn gweithio i sicrhau bod bwyd heb ei werthu yn ei siop yn Heol y Frenhines Caerdydd yn mynd i BAWSO a Cymorth i Fenywod Caerdydd. Mae WRAP Cymru wedi mynd i'r afael â gwastraff bwyd o wasanaethau lletygarwch ac arlwyio drwy gytundeb gwirfoddol, gyda 142 busnesau bach a chanolig yng Nghymru yn rhan o'r cynllun ac yn cael cefnogaeth. Mae cymorth i atal gwastraff ar gael hefyd drwy'r gwasanaeth Cymru Effeithlon, y gwn fod gan Bill Powell ddiddordeb mawr ynddo, ac a gyflwynir gan WRAP Cymru mewn partneriaeth â'r Ymddiriedolaeth Garbon.

There is no doubt, though, that there is still more work to be done. WRAP Cymru will deliver the Wales food waste prevention programme to reduce food waste throughout the retail and hospitality supply chains and build on the Love Food Hate Waste excellent work. It will also establish Wales as the UK's food redistribution lead. Today, I am pleased to announce the Wales food redistribution summit, hosted by WRAP Cymru and FareShare Cymru. Food waste is everybody's responsibility. That's why I am supporting WRAP's new Courtauld 2025 initiative and calling on Welsh businesses to work with WRAP Cymru to reduce their food waste and save money.

Julie is right, it's not just about supermarkets. All of us here can make a difference, not just as legislators but as shoppers. I think restaurant-goers and cooks can all start by joining the 'Love Food Hate Waste' cascade training event. I'll be arranging one of those shortly in Cardiff bay, and I know Julie might involve her constituents to try to reassure them on how we can tackle these issues.

In terms of legislation, what I will do, following on from this short debate, is ask my team about the legislative competence around—not so much the control of supermarkets, but the control of the waste element, which I do think we have some competency over. I will look at that carefully and, perhaps, I will write to the Member when we have some more detail about that. But I'll also put a copy of that in the library so Members can access that as we move forward.

I am very grateful for the contribution. It is a very important issue that we should and must address collectively, and I think we are going some way in Wales to help around this issue, but we can do much more. Thank you, Deputy Presiding Officer.

Nid oes amheuaeth, fodd bynnag, fod mwy o waith i'w wneud. Bydd WRAP Cymru yn darparu rhaglen atal gwastraff bwyd Cymru i leihau gwastraff bwyd drwy gadwyni cyflenwi manwerthu a lletygarwch ac yn adeiladu ar waith ardderchog Hoffi Bwyd Casáu Gwastraff. Bydd hefyd yn sefydlu Cymru fel arweinydd y DU ar ailddosbarthu bwyd. Heddiw, rwy'n falch o gyhoeddi uwchgynhadledd ailddosbarthu bwyd Cymru, a gynhelir gan WRAP Cymru a FareShare Cymru. Mae gwastraff bwyd yn gyfrifoldeb i bawb. Dyna pam rwy'n cefnogi menter Courtauld 2025 newydd WRAP ac yn galw ar fusnesau Cymru i weithio gyda WRAP Cymru i leihau eu gwastraff bwyd ac arbed arian.

Mae Julie yn iawn, ac nid ynglŷn ag archfarchnadoedd yn unig. Mae pob un ohonom yma yn gallu gwneud gwahaniaeth, nid yn unig fel deddfwyr ond fel siopwyr. Rwy'n meddwl y gall pobl sy'n mynd i fwytaï a phobl sy'n coginio ddechrau drwy ymuno â digwyddiad hyfforddiant rhaeadru 'Hoffi Bwyd Casáu Gwastraff'. Byddaf yn trefnu un o'r rhain cyn bo hir ym mae Caerdydd, ac rwy'n gwybod y gallai Julie gynnwys ei hetholwyr er mwyn ceisio tawelu eu meddyliau ynglŷn â sut y gallwn fynd i'r afael â'r materion hyn.

O ran deddfwriaeth, yr hyn a wnaaf, yn dilyn y ddadl fer hon, yw gofyn i fy nhîm ynghylch cymhwysedd deddfwriaethol mewn perthynas â hynny—nid yn gymaint ar gyfer rheoli archfarchnadoedd, ond er mwyn sicrhau rheolaeth ar yr elfen wastraff, y credaf fod gennym rywfaent o gymhwysedd drosto. Byddaf yn edrych ar hynny'n ofalus ac efallai y gallwn ysgrifennu at yr Aelod pan fydd gennym ychydig mwy o fanylion ynglŷn â hynny. Ond byddaf hefyd yn rhoi copi yn y llyfrgell er mwyn i'r Aelodau ei weld wrth i ni symud ymlaen.

Rwy'n ddiolchgar iawn am y cyfraniad. Mae'n fater pwysig iawn y dylem fynd i'r afael ag ef ar y cyd, ac rwy'n meddwl ein bod yn gwneud cryn dipyn yng Nghymru i helpu ar y mater hwn, ond gallwn wneud llawer mwy. Diolch, Ddirprwy Lywydd.

18:16

## **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you very much, Minister. That brings today's proceedings to a close.

*Daeth y cyfarfod i ben am 18:16.*

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Diolch yn fawr iawn, Weinidog. Dyna ddiwedd ein trafodion am heddiw.

*The meeting ended at 18:16.*